

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

15/10/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Unity Mine](#)
[Urgent Question: Unity Mine](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor](#)
[Motion to Elect a Member to a Committee](#)

[Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of the Control of Horses \(Wales\) Bill](#)

[Datganiad: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol](#)
[Statement: Achievement of the Programme for Government Commitment to Fund and Facilitate the Employment of 500 Community Support Officers](#)

[Datganiad: Bysiau Arriva Cymru](#)
[Statement: Arriva Buses Wales](#)

[Dadl ar Adroddiad Blynnyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: 'Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru—Adolygiad Cymru 2012-13'](#)

[Debate on the Equality and Human Rights Annual Report: 'Working together to strengthen equality and human rights in Wales—Wales Review 2012-13'](#)

[Dadl ar Adroddiad Blynnyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13](#)
[Debate on the Older People's Commissioner for Wales' Annual Report 2012-13](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Trefn, trefn.

Order, order.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Addysg Alwedigaethol

13:30 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella addysg alwedigaethol? OAQ(4)1264(FM)

Questions to the First Minister

Vocational Education

1. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's plans to improve vocational education? OAQ(4)1264(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are building on existing strengths to improve vocational education by creating additional apprenticeship places, refining the vocational qualifications offer with more employer involvement, and ensuring that vocational qualifications have clarity of purpose.

Rydym yn adeiladu ar gryfderau presennol i wella addysg alwedigaethol trwy greu lleoedd ychwanegol ar gyfer prentisiaeth, gan fireinio'r cynnig o gymwysterau galwedigaethol gan gynnwys mwy ar gyflogwyr, a sicrhau bod diben cymwysterau galwedigaethol yn eglur.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- All of us in the Chamber see the enormous benefits that are offered by vocational education. However, I am sure that you share my concern at a recent Estyn report into courses in construction, planning and the built environment, which has raised concerns that they fail to take into account local labour market information, and also fail to be matched to local employment needs. The report also highlights that standards in this field are only average, compared with other learning areas. Do you agree that this simply is not good enough, and what will your Welsh Government do to try to resolve these problems?
- Mae pob un ohonom yn y Siambr yn gweld y manteision enfawr a gynigir gan addysg alwedigaethol. Fodd bynnag, rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder ynglŷn ag adroddiad diweddar Estyn ar gyrsiau ym meysydd adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, sydd wedi codi pryderon eu bod yn methu â chymryd gwybodaeth am y farchnad lafur leol i ystyriaeth, a hefyd yn methu â chael eu cyfateb i anghenion cyflogaeth yn lleol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi mai dim ond gweddol yw safonau yn y maes hwn, o'i gymharu â meysydd dysgu eraill. A ydych chi'n cytuno nad yw hyn yn ddigon da, a beth fydd eich Llywodraeth Cymru yn ei wneud i geisio datrys y problemau hyn?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- There is always room for improvement, of course, but I do believe that we provide our learners with an excellent variety and depth of education. It is important, of course—and, in fairness, I believe that further education colleges do this—to understand the needs of the local labour market. Indeed, many, if not all, FE colleges in Wales have done just that, when they look to provide their courses.
- Mae lle i wella bob amser, wrth gwrs, ond rwy'n credu ein bod yn darparu amrywiaeth a dyfnder addysg ardderchog i'n dysgwyr. Mae'n bwysig, wrth gwrs—ac, a bod yn deg, credaf fod colegau addysg bellach yn gwneud hyn—deall anghenion y farchnad lafur leol. Yn wir, mae llawer, os nad pob un o'r colegau AB yng Nghymru wedi gwneud yn union hynny, pan fyddant yn mynd ati i ddarparu eu cyrsiau.
- 13:31 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, you will be aware that the Cory Band has recognised the importance of music in vocational education, by setting up a brass band academy and an outreach programme for young people, with the support of the Arts Council of Wales. Will you be following this up by writing to the Cory Band, to congratulate it on winning the national championships at the Albert Hall this year, adding to its title of world champions?
- Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Band Cory wedi cydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth mewn addysg alwedigaethol, trwy sefydlu academi band pres a rhaglen allgymorth ar gyfer pobl ifanc, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. A fyddwch chi'n dilyn hyn trwy ysgrifennu at Fand Cory, i'w llongyfarch ar ennill y bencampwriaeth genedlaethol yn Neuadd Albert eleni, gan ychwanegu at ei deitl pencampwyr y byd?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I join with the Member in congratulating the Cory Band on its success. I will write to the band, following its success in winning the national championships of Great Britain. It builds, of course, on previous achievements, in winning the British, European, and, indeed, world championships, reinforcing its status as one of our premier brass bands. The fact that it is looking to invest in the youth of the future is marvellous in terms of ensuring, through the academy, that it will get the throughput of young people that it needs in the future, to ensure that the band continues to flourish.
- Ymunaf â'r Aelod i longyfarch Band Cory ar ei lwyddiant. Byddaf yn ysgrifennu at y band, yn dilyn ei lwyddiant yn ennill pencampwriaethau cenedlaethol Prydain Fawr. Mae'n adeiladu, wrth gwrs, ar lwyddiannau blaenorol, wrth ennill pencampwriaethau Prydain, Ewrop, ac yn wir, y byd, gan atgyfnerthu ei statws fel un o'n bandiau pres mwyaf blaenllaw. Mae'r ffaith ei fod yn awyddus i fuddsoddi ym mhobl ifanc y dyfodol yn wych o ran sicrhau, trwy gyfrwng yr academi, y bydd yn cael y llif o bobl ifanc y bydd ei angen arno yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y band yn parhau i ffynnu.
- 13:32 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn dilyn cwestiwn Nick Ramsay, mae Coleg Llandrillo Menai yn hyfforddi tua 30 o brentisiaid peirianyddol bob blwyddyn, gyda golwg ar ddatblygiad Wylfa B, os daw hwnnw i fodolaeth. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, bydd y galw am weithwyr yn Wylfa B yn filoedd—yn 2,000, a mwy na hynny—mewn dwy don, yn ôl pob golwg. Sut mae Llywodraeth Cymru, a'r colegau, yn mynd i adnabod yr holl sgiliau y bydd eu hangen, a pharatoi ar eu cyfer, i osgoi gorfod dod â'r sgiliau hynny i mewn i'r gogledd?
- Following on from Nick Ramsay's question, Coleg Llandrillo Menai trains about 30 engineering apprentices every year, with an eye on the Wylfa B development, if that becomes a reality. However, it seems that Wylfa B will need thousands of workers—2,000 or more—in two tranches. How will the Welsh Government and the colleges identify all the skills that will be required and do the preparatory work for those skills, so as to avoid having to bring those skills in to north Wales?

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hwnnw'n gwestiwn teg. Roedd Coleg Menai yn ystyried hyn tua pedair blynedd yn ôl. Y lle cyntaf yr ymwelais i ag ef fel Prif Weinidog—yn ôl yn 2009—oedd Coleg Menai, ac roedd y coleg yn ystyried bryd hynny pa sgiliau oedd eu hangen er mwyn sicrhau bod y sgiliau ar gael i bobl weithio yn Wylfa B. Mae'n wir dweud y bydd rhai sgiliau a fydd yn gorfod dod mewn, o ran rhai pobl, ond yr hyn rydym eisiau ei sicrhau—a'r hyn mae'r coleg eisiau ei sicrhau—yw bod cyfle teg gan bobl leol i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt, ac wrth gwrs i sicrhau eu bod yn cael cyflogaeth dros dro, yn ogystal â chyflogaeth barhaol yn y dyfodol.

That is a fair question. Coleg Menai was giving this consideration some four years ago. The first place that I visited as First Minister—back in 2009—was Coleg Menai, and the college was giving consideration back then to the skills required to ensure that people had the skills to work in Wylfa B. It is true to say that some skills will have to be brought in, in terms of some people, but what we want to ensure—and what the college wants to ensure—is that local people have a fair go at acquiring the skills that they need and that they are able to get temporary and permanent employment in the future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

Equality Impact Assessments

13:34

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i bennu polisi'r llywodraeth? OAQ(4)1268(FM)

2. Will the First Minister outline how the Welsh Government uses Equality Impact Assessments to determine government policy? OAQ(4)1268(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are committed to ensuring that we tackle the inequality facing those protected groups under the Equality Act 2010. Equality impact assessments provide an important mechanism for us to do that. It is something, of course, that we employ, particularly with regard to the budget, and the assessment was published on 8 October.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a wynebier gan y grwpiau hynny a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cynnig dull pwysig i ni wneud hynny. Mae'n rhywbeth, wrth gwrs, yr ydym ni'n ei ddefnyddio, yn enwedig o ran y gyllideb, a chyhoeddwyd yr asesiad ar 8 Hydref.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, First Minister. I am proud that this Government takes equality impact assessments seriously. As I think has been shown in the budget that was announced by your Minister for Finance last week, that budget could have some wide-ranging impacts for some local authority services. How will you make sure that local authorities also use equality impact assessments correctly, to make sure that their residents are not further hampered by any cuts to services that they may feel they have to make?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Rwy'n falch bod y Llywodraeth hon yn cymryd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o ddifrif. Fel rwy'n credu y dangoswyd yn y gyllideb a gyhoeddwyd gan eich Gweinidog Cyllid yr wythnos diwethaf, gallai'r gyllideb honno gael rhai effeithiau pellgyrhaeddol ar gyfer rhai gwasanaethau awdurdodau lleol. Sut y gwnewch chi sicrhau bod awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn gywir, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw eu trigolion yn cael eu hamharu ymhellach gan unrhyw doriadau i wasanaethau y maen nhw'n teimlo y mae'n rhaid iddynt eu gwneud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There is no doubt that the settlement is a challenging one for local authorities. That much is true and we have never said anything different. However, under our Wales-specific equality duties, local authorities do have a duty to carry out equality impact assessments of their decisions. Those decisions have to be robust, otherwise they are challengeable. So, they have to demonstrate that the criteria they use are robust as far as the assessments are concerned. It is vital, of course, that, when making financial decisions, local authorities do ensure that disabled people have equal access to services and opportunities.

Nid oes unrhyw amheuaeth bod y setliad yn un anodd i awdurdodau lleol. Mae cymaint â hynny'n wir ac nid ydym erioed wedi dweud unrhyw beth gwahanol. Fodd bynnag, dan ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o effaith eu penderfyniadau ar gydraddoldeb. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau hynny fod yn gadarn, neu gellir eu herio fel arall. Felly, mae'n rhaid iddynt ddangos bod y meini prawf y maen nhw'n eu defnyddio yn gadarn cyn belled ag y mae'r asesiadau yn y cwestiwn. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, wrth wneud penderfyniadau ariannol, bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gan bobl anabl fynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:35 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the equality impact assessment in the 2014-15 draft budget states that local authorities have a statutory duty to protect children and vulnerable adults, to provide education and to promote the social, economic and environmental wellbeing of the community. Yet, it also concludes that it is not possible for the Welsh Government to identify the equality impact of cuts to this area. Despite this, cuts were made of £96 million. With such a large cut and the conclusion that the equality impact of this cannot be identified, how has the Welsh Government ensured that the cut will not act to the detriment of the promotion of equality in our communities?

Brif Weinidog, mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyllideb ddrafft 2014-15 yn datgan ei bod yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, i ddarparu addysg ac i hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned. Eto i gyd, mae hefyd yn dod i'r casgliad nad yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru nodi effaith toriadau yn y maes hwn ar gydraddoldeb. Er gwaethaf hyn, gwnaed toriadau o £96 miliwn. Gyda thoriad mor fawr a'r casgliad na ellir nodi effaith hyn ar gydraddoldeb, sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau na fydd y toriad yn effeithio'n andwyol ar hybu cydraddoldeb yn ein cymunedau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

By the requirement, of course, that local authorities have to carry through equality impact assessments. Her party wants to cut more from local authorities, so the foundation upon which she rests her question is a very shaky one indeed. If anything, her party would want to complain that we have not taken enough off local authorities, given the fact that it wanted to cut local authority spending by 12.5%. What we have done is to protect vulnerable people and to require equality impact assessments to take place, whereas the party opposite would do nothing but destroy services available to vulnerable people.

Trwy'r gofyniad, wrth gwrs, bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae ei phlaid hi eisiau torri mwy ar awdurdodau lleol, felly mae'r sail y mae hi'n gofyn ei chwestiwn arni yn un sigledig iawn. Os rhywbeth, byddai ei phlaid hi eisiau cwyno nad ydym wedi cymryd digon oddi ar awdurdodau lleol, o ystyried y ffaith ei bod eisiau torri gwariant awdurdodau lleol o 12.5%. Yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yw amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a'i gwneud yn ofynnol i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gael eu cynnal, tra byddai'r blaid gyferbyn yn gwneud dim byd ond dinistrio gwasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n agored i niwed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:37 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I should say 'Shwmae', Brif Weinidog. In February this year, you told Cymdeithas yr Iaith Gymraeg that you would assess the impact on the Welsh language of all spending across all departments, but the draft budget says that that assessment is yet to be done. Would you consider asking the Welsh Language Commissioner to assist with that assessment, so that it is ready before the vote on the final budget this year, as well as being completed promptly ahead of future budgets?

Dylwn ddweud 'Shwmae', Brif Weinidog. Ym mis Chwefror eleni, dywedasoich wrth Gymdeithas yr Iaith y byddech yn asesu effaith yr holl wariant ar draws pob adran ar yr iaith Gymraeg, ond mae'r gyllideb ddrafft yn dweud nad yw'r asesiad hwnnw wedi ei gynnal eto. A fyddech chi'n ystyried gofyn i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg gynorthwyo gyda'r asesiad hwnnw, fel ei fod yn barod cyn y bleidlais ar y gyllideb derfynol eleni, yn ogystal â chael ei gwblhau'n brydlon cyn cyllidebau yn y dyfodol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

All these things are assessed, of course. We must remember that spending on the Welsh language is a discrete item; it is not all the spending on the language. We have to remember that education takes up a substantial amount of spending when it comes to promoting the language as well, and there are other areas beyond that. From my point of view, we need to ensure that we get the right outcomes, and I believe that the funding that we have made available, particularly to the mentrau iaith, will enable us to do that. Further information will be provided to the Assembly regarding 'Y Gynhadledd Fawr' and more between now and the Christmas recess.

Mae'r holl bethau hyn yn cael eu hasesu, wrth gwrs. Mae'n rhaid i ni gofio bod gwariant ar yr iaith Gymraeg yn eitem ar wahân; nid dyma'r holl wariant ar yr iaith. Mae'n rhaid i ni gofio bod swm sylweddol yn cael ei wario ar addysg o ran hyrwyddo'r iaith hefyd, a cheir meysydd eraill y tu hwnt i hynny. Yn fy marn i, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau cywir, ac rwy'n credu y bydd y cyllid yr ydym ni wedi ei roi ar gael, yn enwedig i'r mentrau iaith, yn ein galluogi i wneud hynny. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu i'r Cynulliad am 'Y Gynhadledd Fawr' a phethau eraill rhwng nawr a thoriad y Nadolig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf yn awr ar arweinwyr y pleidiau i holi'r Prif Weinidog. Yn gyntaf, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

I now call on the party leaders to question the First Minister. First, I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Deputy Presiding Officer. Last week, Capital Economics brought forward a report that said that the Welsh economy will struggle to achieve strong growth for the rest of the decade. Whenever the economy is mentioned, First Minister, you recite a well-rehearsed line: either you blame Westminster or you talk about Jobs Growth Wales, the economic growth fund or the JEREMIE fund. However, First Minister, the one fundamental question that you and your Ministers have always failed to answer is: why is the Welsh economy constantly propping up any economic league table you care to mention?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Capital Economics adroddiad a oedd yn dweud y bydd economi Cymru yn ei chael hi'n anodd cyflawni twf cryf am weddill y degawd. Pryd bynnag y mae'r economi'n cael ei grybwyll, Brif Weinidog, rydych chi'n adrodd llinell sydd wedi ei hymarfer yn dda: rydych chi naill ai'n rhoi'r bai ar San Steffan neu rydych chi'n siarad am Dwf Swyddi Cymru, y gronfa twf economaidd neu gronfa JEREMIE. Fodd bynnag, Brif Weinidog, yr un cwestiwn sylfaenol nad ydych chi na'ch Gweinidogion erioed wedi gallu ei ateb yw: pam mae economi Cymru yn gyson ar waelod unrhyw dabl cynghrair economaidd yr hoffech chi ei grybwyll?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It does not.

Nid yw hynny'n wir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It does, First Minister. You are constantly aware of this—all the league tables point to the economic inactivity in Wales and the sluggishness of the Welsh economy. It is a fact that you stated last month that the UK economic policy was discredited and that there had been three years of nothing. Yet, that fails to take into account that the International Monetary Fund recently upgraded the growth forecast to 1.4%, making the UK economy the fastest-growing economy in Europe; 1.4 million new private sector jobs were created in the UK as a whole, of which in excess of 60,000 were created here in Wales; and the deficit has been cut by a third. Yet, time and again, when we look at the economic activity here in Wales, we are regrettably the poorest part of the United Kingdom. After 14 years of Labour in Government, why do you not have the solutions to actually change that difficult proposition?

Ydy, Brif Weinidog. Rydych chi'n gyson ymwybodol o hyn—mae'r holl dablau cynghrair yn nodi'r anweithgarwch economaidd yng Nghymru a syrthni economi Cymru. Mae'n ffaith eich bod wedi dweud fis diwethaf fod polisi economaidd y DU wedi ei bardduo ac y bu tair blynedd o ddim byd. Ac eto, mae hynny'n methu â chymryd i ystyriaeth y ffaith fod y Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi uwchraddio'r rhagolwg twf i 1.4% yn ddiweddar, sy'n golygu mai economi'r DU yw'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop; crëwyd 1.4 miliwn o swyddi newydd yn y sector preifat yn y DU gyfan, a chrëwyd 60,000 o'r rheini yma yng Nghymru; ac mae'r diffyg wedi cael ei dorri o draean. Ac eto, dro ar ôl tro, pan fyddwn yn edrych ar y gweithgarwch economaidd yma yng Nghymru, ni yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig yn anffodus. Ar ôl 14 mlynedd o Lywodraeth Lafur, pam nad yw'r atebion gennych chi i newid y sefyllfa anodd honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I listened carefully to the leader of the Welsh Conservatives; I will accord him that respect, even if the rest of this party does not, as we know his conference. Let me give him some figures. Unemployment has come down close to the UK average. Let me tell him, for example, that exports have risen in the last quarter. Let me tell him that, when it comes to foreign direct investment, we have outpaced the rest of the UK. It is simply not right to say that Wales is the poorest part of the UK by any stretch of the imagination. Look at the north-east of England; look at the north-west of England; look at the west midlands; look at London, where unemployment is higher than in Wales. That is the reality of the situation.

Yes, we have well-rehearsed lines; that is because we are doing things. More than 6,800 young people are now in employment because of Jobs Growth Wales. The equivalent scheme that his party set up in England was a disaster. We have the Wales economic growth fund. We have job announcements being made on a regular basis. I have to say to him: his words would carry more weight if he was to break his silence with regard to the Silk commission part 1. We need stamp duty, we need borrowing powers in order to finance the M4, we need to ensure that we have the right tax base for Wales—will he join me now in calling on the UK Government to respond positively to Silk part 1 without further delay?

Gwrandewais yn ofalus ar arweinydd Ceidwadwyr Cymru; rwyf yn fodlon rhoi'r parch hwnnw iddo, er nad yw gweddill ei blaid yn gwneud hynny, fel y gwyddom o'i gynhadledd. Gadewch i mi roi rhai ffigurau iddo. Mae diweithdra wedi gostwng i fod yn agos at gyfartaledd y DU. Gadewch i mi ddweud wrtho, er enghraifft, fod allforion wedi codi yn y chwarter diwethaf. Gadewch i mi ddweud wrtho, wrth ystyried buddsoddiad uniongyrchol o dramor, ein bod yn gwneud yn well na gweddill y DU. Mae'n gwbl anghywir i ddweud mai Cymru yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig, a hynny o bell ffordd. Edrychwch ar ogledd-ddwyrain Lloegr; edrychwch ar ogledd-orllewin Lloegr; edrychwch ar orllewin canolbarth Lloegr; edrychwch ar Lundain, lle mae diweithdra'n uwch nag yng Nghymru. Dyna wirionedd y sefyllfa.

Oes, mae gennym linellau sydd wedi eu hymarfer yn dda; mae hynny oherwydd ein bod yn gwneud pethau. Mae mwy na 6,800 o bobl ifanc mewn swyddi erbyn hyn oherwydd Twf Swyddi Cymru. Roedd y cynllun cyfatebol a sefydlwyd gan ei blaid ef yn Lloegr yn drychinebus. Mae gennym gronfa twf economaidd Cymru. Mae gennym swyddi'n cael eu cyhoeddi yn rheolaidd. Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho: byddai mwy o sylwedd i'w eiriau pe byddai'n barod i ddweud rhywbeth am ran 1 comisiwn Silk. Mae angen y dreth stamp arnom, mae angen pwerau benthyg arnom er mwyn ariannu'r M4, mae angen i ni sicrhau bod y sylfaen dreth gywir gennym ar gyfer Cymru—a wnaiff ef ymuno â mi yn awr i alw ar Lywodraeth y DU i ymateb yn gadarnhaol i ran 1 Silk heb fwy o oedi?

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As usual, the First Minister is not answering the question put to him. He is quite right to say that they have been doing things. What they have been doing is talking up the double-dip and triple-dip recession that they have been prophesising. The Minister for Economy, Science and Transport was saying in January of this year that we were going into a triple-dip recession; the Minister for Finance was saying that we would be back into recession; dear old Joyce Watson, the Member for Mid and West Wales, was saying that Britain is slipping back into a triple-dip recession; and the great Mike Hedges has been talking about the serious threat of Britain going into double-dip recession. [Interruption.] Is it not the case, First Minister, that what you and your colleagues have done is constantly talk the economy down? You might look like Derek Brockaway but your forecasts are not half as accurate. When are you going to get a grip and turn the Welsh economy around?

Fel arfer, nid yw'r Prif Weinidog yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddo. Mae'n hollol iawn i ddweud eu bod wedi bod yn gwneud pethau. Yr hyn maen nhw wedi bod yn ei wneud yw tynnu sylw at y dirwasgiad dwbl a thriphlyg maen nhw wedi bod yn eu darogan. Roedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dweud ym mis Ionawr eleni ein bod yn mynd i mewn i ddirwasgiad triphlyg; roedd y Gweinidog Cyllid yn dweud y byddem yn dychwelyd i ddirwasgiad; roedd yr annwyl Joyce Watson, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yn dweud bod Prydain yn llithro yn ôl i mewn i ddirwasgiad triphlyg; ac mae'r ardderchog Mike Hedges wedi bod yn siarad am y bygythiad difrifol i Brydain fynd i ddirwasgiad dwbl. [Torri ar draws.] Onid yw'n wir, Brif Weinidog, mai'r hyn yr ydych chi a'ch cydweithwyr wedi ei wneud yn gyson yw cynnig y safbwynt gwaethaf posibl o'r economi? Efallai eich bod yn edrych fel Derek Brockaway ond nid yw eich rhagolygon hanner mor gywir. Pryd ydych chi'n mynd i afael ynddi a gweddnewid economi Cymru?

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Could I just assist the leader of the opposition by telling him that the gentleman's name is Derek Brockway, not Brockaway; he may not watch tv, who knows? He seems to come here without any sense of irony. He accuses me of talking down the UK economy when he spends the best part of 10 minutes talking down the Welsh economy, without realising the weakness of his own position.

He was invited to reiterate his position with regard to the Silk commission—he took a principled position on it when he came before the Assembly—but he has failed miserably to do so. The Silk commission is crucial to the Welsh economy. Without the M4 relief road, that economy will be damaged in south Wales. That relief road cannot be built, cannot be considered, without borrowing powers—it will not happen. When will he come down on the side of business? The CBI, the RICS, the FSB—all these organisations are calling for a response to the Silk commission. It is about time he showed some leadership and stopped being so wet.

A gaf fi gynorthwyo arweinydd yr wrthblaid trwy ddweud wrtho mai Derek Brockway yw enw'r gŵr bonheddig, nid Brockaway; efallai nad yw'n gwyllo'r teledu, pwy a wŷyr? Mae'n ymddangos ei fod yn dod yma heb unrhyw synnwyr o eironi. Mae'n fy nghyhuddo i o gynnyg y safbwynt gwaethaf posibl o economi'r DU pan ei fod ef ei hun yn treulio bron i 10 munud yn cynnig y safbwynt gwaethaf posibl o economi Cymru, heb sylweddoli gwenddi ei sefyllfa ei hun.

Gwahoddwyd ef i ailadrodd ei safbwynt o ran comisiwn Silk—cymerodd safbwynt egwyddorol ar ei gyfer pan ddaeth gerbron y Cynulliad—ond mae wedi methu'n druenus â gwneud hynny. Mae comisiwn Silk yn hanfodol i economi Cymru. Heb ffordd liniaru'r M4, bydd yr economi honno'n cael ei niweidio yn ne Cymru. Ni ellir adeiladu, ni ellir ystyried, y ffordd liniaru honno heb bwerau benthyg—ni fydd yn digwydd. Pryd y gwnaiff ef ddechrau cefnogi busnesau? Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, yr RICS, y Ffederasiwn Busnesau Bach—mae'r holl sefydliadau hyn yn galw am ymateb i gomisiwn Silk. Mae'n hen bryd iddo ddangos rhywfaint o arweinyddiaeth a rhoi'r gorau i fod mor wan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Brif Weinidog, shwmae? A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru reoli'r system gyfiawnder yn lle Llywodraeth Prydain?

'Shwmae', First Minister? Do you agree that the Welsh Government, rather than the UK Government, should control the justice system?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

'Shwmae' yw cwestiwn y dydd, rwy'n credu. Nod ein tystiolaeth i gomisiwn Silk oedd sicrhau bod y comisiwn yn gwybod ein bod yn gweld y gallai'r system gyfiawnder gael ei datganoli yn y dyfodol. Ond, wrth gwrs, mae sawl peth mae'n rhaid inni eu hystyried—er enghraifft, cost datganoli'r system gyfiawnder honno. Mewn egwyddor, mae'n bosibl, wrth gwrs, ond mae'n rhaid inni ystyried beth yw'r materion ymarferol.

It appears that 'Shwmae' is the question of the day. The aim of our evidence to the Silk commission was to ensure that the commission knew that we thought that the justice system could be devolved in the future. However, a number of things have to be considered, of course—for example, the cost of devolving that justice system. In principle, it is possible, of course, but we have to consider the practical implications.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am eich ateb.

The UK Government has amended the Anti-Social Behaviour (Crime and Policing) Bill to take powers back from this Assembly. Will this have a significant impact, as you have said in your written statement, or is this just part of the ebb and flow of devolution that your colleague, the shadow Secretary of State for Wales, supports?

Thank you for your reply.

Mae Llywodraeth y DU wedi diwygio'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Trosedd a Phlisma) i gymryd pwerau yn ôl oddi wrth y Cynulliad hwn. A fydd hyn yn cael effaith sylweddol, fel yr ydych chi wedi ei ddweud yn eich datganiad ysgrifenedig, neu ai dim ond rhan o drai a llanw datganoli, fel y mae eich cydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid, yn ei gefnogi yw hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think that you will find that Labour MPs have been absolutely solid in their support for the Welsh Government in this regard. It is unacceptable that powers should be—and I do not use the phrase ‘taken back’—stolen back, because to my mind these powers exist with the Welsh people. It is not right that these powers should be removed from the people of Wales without any consultation whatsoever. The practical effect is that it will make it more difficult for us to deal with anti-social behaviour, particularly in the NHS and in other areas. We have made that position absolutely clear to the UK Government.

Rwy'n meddwl y byddwch yn canfod bod ASau Llafur wedi bod yn gwbl gadarn yn eu cefnogaeth i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth. Mae'n annerbyniol i bwerau gael—ac nid wyf yn defnyddio'r ymadrodd 'cymryd yn ôl'—eu dwyn yn ôl, oherwydd yn fy marn i, mae'r pwerau hyn yn bodoli gyda phobl Cymru. Nid yw'n iawn y dylai'r pwerau hyn gael eu tynnu'n ôl oddi wrth bobl Cymru heb unrhyw ymgynghori o gwbl. Yr effaith ymarferol yw y bydd yn ei gwneud yn anos i ni ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig yn y GIG ac mewn meysydd eraill. Rydym ni wedi gwneud y safbwynt hwnnw'n gwbl eglur i Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept the point that you make, First Minister, but the UK Government listens more to the Scottish Government than it does to the Welsh Government. Why is it that the UK Government is ignoring your comments on this? Why is it that it has not yet responded to the first part of the Silk commission report? First Minister, if this is an example of standing up for Wales, you are clearly failing. What exactly are you going to do to defend devolution?

Rwy'n derbyn y pwynt yr ydych chi'n ei wneud, Brif Weinidog, ond mae Llywodraeth y DU yn gwrando mwy ar Lywodraeth yr Alban nag y mae ar Lywodraeth Cymru. Pam mae Llywodraeth y DU yn anwybyddu eich sylwadau ar hyn? Pam nad yw wedi ymateb i ran gyntaf adroddiad comisiwn Silk eto? Brif Weinidog, os yw hon yn enghraifft o sefyll dros Gymru, rydych chi'n amlwg yn methu. Beth yn union ydych chi'n mynd i'w wneud i amddiffyn datganoli?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can only refer her to what some of her own party members have said to me in weeks gone by: they are happy that we are taking the lead on the constitution. I have made my position very clear. I cannot answer the question as to why there has been no response to Silk part 1, but it is certainly a question that I will be asking tomorrow when it comes to the joint ministerial committee.

Ni allaf ond ei chyfeirio at yr hyn y mae rhai o aelodau ei phlaid ei hun wedi ei ddweud wrthyf yn ystod yr wythnosau diwethaf: maen nhw'n hapus ein bod yn arwain ar y cyfansoddiad. Rwyf i wedi gwneud fy safbwynt yn eglur iawn. Ni allaf ateb y cwestiwn ynglŷn â pham na fu unrhyw ymateb i ran 1 Silk, ond mae'n sicr yn gwestiwn y byddaf yn ei ofyn yfory yn y cydbwyllgor gweinidogion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to ensure that Wales has an ambitious and vibrant future, but I also think that it is important to remember when we put forward policies as parties for Wales that they are practical. I did listen to her conference speech and I have to say that I was surprised to hear that she wanted to impose a levy on sugared drinks in order to pay for 1,000 doctors. Ignoring the fact that we do not have the power to do such a thing, or the fact that the 1,000 doctors do not exist in reality, as any conversation with a medic will tell you, what sense is there—I put this as a point to her—in linking the employment of doctors to the increased consumption of sugary drinks? That makes no sense to me. It is a bit like saying that we are going to pay for extra doctors by increasing tobacco duties. In that case, if people smoke less, then, of course, we will have less money to pay for those doctors. It makes very little sense to my mind. Hypothecating a tax to do that surely puts you in a position where you either (a) want to encourage people to drink more sugary drinks or (b) you accept that they will drink less and you can employ fewer doctors. It makes no sense to me.

Rwyf eisiau sicrhau bod gan Gymru ddyfodol uchelgeisiol a bywiog, ond rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig cofio pan fyddwn yn cyflwyno polisiau fel pleidiau dros Gymru, eu bod yn ymarferol. Fe wnes i wrando ar ei haraith yn y gynhadledd ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi synnu clywed ei bod am osod ardoll ar ddiodydd llawn siwgr er mwyn talu am 1,000 o feddygon. Gan anwybyddu'r ffaith nad yw'r grym gennym i wneud y fath beth, neu'r ffaith nad yw'r 1,000 o feddygon yn bodoli mewn gwirionedd, fel y bydd unrhyw sgwrs gyda meddyg yn eich hysbysu, pa reswm sydd mewn—rwy'n cynnig hyn fel pwynt iddi—cysylltu cyflogi meddygon â'r ffaith bod mwy o ddiodydd llawn siwgr yn cael eu hyfed? Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr i mi. Mae braidd fel dweud ein bod yn mynd i dalu am feddygon ychwanegol trwy gynyddu trethi tybaco. Yn yr achos hwnnw, os bydd pobl yn ysmegu llai, yna, wrth gwrs, byd gennym lai o arian i dalu am y meddygon hynny. Ychydig iawn o synnwyr mae'n ei wneud yn fy marn i. Does bosib bod pridiannu treth i wneud hynny yn eich rhoi mewn sefyllfa lle yr ydych naill ai (a) eisiau annog pobl i yfed mwy o ddiodydd llawn siwgr neu (b) rydych chi'n derbyn y byddant yn yfed llai ac y gallwch gyflogi llai o feddygon. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i mi.

13:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:46 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
First Minister, the chief executive of NHS Wales has confirmed that, last year, due to increased winter pressures, 2,600 operations were cancelled. How many operations do you expect to be cancelled this winter?
Brif Weinidog, mae prif weithredwr GIG Cymru wedi cadarnhau, o ganlyniad i fwy o bwysau yn ystod y gaeaf, y cafodd 2,600 o lawdriniaethau eu canslo y llynedd. Sawl llawdriniaeth ydych chi'n disgwyl iddynt gael eu canslo y gaeaf hwn?
- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
She is incorrect to say that operations were cancelled: operations were, in fact, postponed. They were carried out at a later date. I can say that planning for winter pressures is well in hand and the Minister for health has been clear in terms of what is planned for NHS Wales over the course of this winter.
Mae hi'n anghywir i ddweud bod llawdriniaethau wedi cael eu canslo: cafodd llawdriniaethau eu gohirio, mewn gwirionedd. Fe'u cynhaliwyd yn ddiweddarach. Gallaf ddweud bod cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r Gweinidog iechyd wedi bod yn eglur o ran yr hyn sydd wedi ei gynllunio ar gyfer GIG Cymru yn ystod y gaeaf hwn.
- 13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am sure that the semantics of words will be lost on those individuals who were anticipating being treated by a certain date and were subsequently told that, as a result of a lack of capacity, they could not be treated on that date. First Minister, you said that plans were afoot to limit cancelled or postponed operations, but there are already worrying signs that the NHS is not ready for the forthcoming winter. Figures show that, in August this year, the number people waiting longer in hospital than was medically necessary was up on the number of people waiting in hospital in August of last year. What analysis have you carried out to see how many lost bed days there will be this winter in the Welsh NHS because of an increase in delayed transfers of care?
Rwy'n siŵr y bydd semanteg geiriau yn cael ei golli ar yr unigolion hynny a oedd yn rhagweld cael triniaeth erbyn dyddiad penodol ac a hysbyswyd wedyn, o ganlyniad i ddiffyg gallu, na allent gael triniaeth ar y dyddiad hwnnw. Brif Weinidog, dywedasoch fod cynlluniau ar y gweill i gyfyngu ar yr achosion o ganslo neu ohirio llawdriniaethau, ond ceir arwyddion pryderus eisoes nad yw'r GIG yn barod ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae'r ffigurau yn dangos, ym mis Awst eleni, bod nifer y bobl a oedd yn aros yn hwy yn yr ysbyty nag oedd yn angenrheidiol yn feddygol yn uwch na nifer y bobl a oedd yn aros yn yr ysbyty ym mis Awst y llynedd. Pa ddadansoddiad ydych chi wedi ei gynnal i weld faint o ddiwrnodau gwely fydd yn cael eu colli y gaeaf hwn yn y GIG yng Nghymru oherwydd cynnydd yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
These are analyses that have been carried out by the Minister for health and by the local health boards. Planning for winter pressures is well advanced. We cannot know, of course, what the weather will be like, but we have to plan for what we believe may well be a cold winter. I do not accept that NHS Wales is lagging behind in terms of preparing for winter pressures. It is not semantics to say that operations are cancelled rather than postponed. If you tell people that operations are cancelled, people think those operations never took place in the first place. There is an important difference between a postponement and a cancellation. But, in terms of the detail, I can say that the seasonal planning group has been planning for the winter since its first meeting in March. Indeed, the planning that was begun at that meeting is well in hand.
Mae'r rhain yn ddadansoddiadau sydd wedi cael eu cynnal gan y Gweinidog iechyd a chan y byrddau iechyd lleol. Mae llawer o gynllunio wedi'i wneud ar gyfer pwysau'r gaeaf. Nid oes modd i ni wybod, wrth gwrs, sut dywydd gawn ni, ond mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer yr hyn yr ydym ni'n credu y gallai fod yn aeaf oer. Nid wyf yn derbyn bod GIG Cymru ar ei hôl hi o ran paratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf. Nid semanteg yw dweud bod llawdriniaethau'n cael eu canslo yn hytrach na'u gohirio. Os byddwch chi'n dweud wrth bobl bod llawdriniaethau yn cael eu canslo, bydd pobl yn meddwl na chynhaliwyd y llawdriniaethau hynny yn y lle cyntaf. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng gohirio a chanslo. Ond, o ran y manylion, gallaf ddweud bod y grŵp cynllunio tymhorol wedi bod yn gynllunio ar gyfer y gaeaf ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth. Yn wir, mae'r cynllunio a ddechreuwyd yn y cyfarfod hwnnw yn mynd rhagddo'n dda.

13:48

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They were not my words. They were the words of the person who runs the NHS in Wales. I am grateful that the analysis is being carried out. Perhaps if it is already on the Minister for health's desk, waiting, you will be able to publish it before the afternoon is out, noting how many lost bed days you anticipate to suffer this winter as a result of winter pressures.

Perhaps the most worrying figure of all is that, in the five months to August, we saw the number of people waiting more than 36 weeks for treatment double. That was in the spring and summer months. Your own target says that nobody should wait that long, yet 13,000 people are waiting that long. If the NHS cannot meet its targets for treatment during the spring and summer months, how do you expect the NHS in Wales to deliver those targets during the winter months?

Nid fy ngeiriau i oedd y rhain. Geiriau'r unigolyn sy'n rhedeg y GIG yng Nghymru oedden nhw. Rwy'n ddiolchgar bod y dadansoddiad yn cael ei gynnal. Efallai os yw eisoes ar ddesg y Gweinidog iechyd, yn aros, y gallwch ei gyhoeddi cyn diwedd y prynhawn, gan nodi faint o ddiwrnodau gwely yr ydych chi'n disgwyl iddynt gael eu colli y gaeaf hwn o ganlyniad i bwysau'r gaeaf.

Efallai mai'r ffigur sy'n peri'r pryder mwyaf un yw, yn y pum mis hyd at fis Awst, ein bod wedi gweld y nifer o bobl a fu'n aros dros 36 wythnos am driniaeth yn dyblu. Roedd hynny yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf. Mae eich targed eich hun yn dweud na ddylai unrhyw un aros mor hir â hynny, ac eto mae 13,000 o bobl yn aros mor hir â hynny. Os na all y GIG gyrraedd ei dargedau ar gyfer triniaeth yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf, sut ydych chi'n disgwyl i'r GIG yng Nghymru gyrraedd y targedau hynny yn ystod misoedd y gaeaf?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As the leader of the Liberal Democrats will know, we have been open about the challenges that the NHS faces in Wales. Nevertheless, we believe that the trends are now moving in the right direction; it is the opposite in England, where things are getting worse. We see the situation that exists there, where the English NHS is in crisis. She asked the question—well, she didn't ask it, but this is what she meant to ask: can Members and members of the public have confidence in the plans that have been put in place for the winter? I can say that following the winter planning forum, formal winter plans have been received as part of our early winter planning assurance process. They are being examined at the moment by officials, and the Minister will be examining those plans closely to satisfy himself that we are prepared for the winter that is to come.

Felly bydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod, rydym ni wedi bod yn agored i'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu yng Nghymru. Serch hynny, rydym yn credu bod y tueddiadau yn symud i'r cyfeiriad cywir bellach; mae'r gwrthwyneb yn wir yn Lloegr, lle mae pethau'n gwaethygu. Rydym yn gweld y sefyllfa sy'n bodoli yno, lle mae'r GIG yn Lloegr mewn argyfwng. Gofynnodd y cwestiwn—wel, ni wnaeth hi ei ofyn, ond dyma oedd hi'n bwriadu ei ofyn: a all Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd fod â hyder yn y cynlluniau sydd wedi eu rhoi ar waith ar gyfer y gaeaf? Gallaf ddweud, yn dilyn y fforwm cynllunio ar gyfer y gaeaf, bod cynlluniau ffurfiol y gaeaf wedi dod i law yn rhan o'n proses sicrwydd cynllunio cynnar ar gyfer y gaeaf. Maen nhw'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd gan swyddogion, a bydd y Gweinidog yn archwilio'r cynlluniau hynny'n ofalus i fodloni ei hun ein bod yn barod ar gyfer y gaeaf sydd i ddod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They are not publicly available.

Nid ydynt ar gael i'r cyhoedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cwestiwn 3 gan Paul Davies sydd nesaf.

Question 3 from Paul Davies is next.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Darpariaeth Addysg

Education Provision

13:50

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi darpariaeth addysg yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1262(FM)

3. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support education provision in west Wales? OAQ(4)1262(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rydym wedi rhoi gwahanol fesurau ar waith i gefnogi dysgwyr ym mhob cyfnod addysg yng ngorllewin Cymru a thwy Gymru yn gyfan gwbl.

We have put in place a range of measures to support learners at all stages of education in west Wales and throughout the whole of Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:50 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ymateb hwnnw. Mae pryderon ymhlith fy etholwyr yn ardal Tŷ Ddewi oherwydd mae'r awdurdod lleol yn adolygu darpariaeth addysg yn yr ardal. Rwy'n derbyn nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ar hyn eto, felly, mae'n gwbl hanfodol fod ymgynghoriad ystyrlon yn digwydd fel rhan o'r broses. A ydych chi'n cytuno bod rhaid ystyried barn y gymuned gyfan cyn bod unrhyw benderfyniad cadarn yn cael ei wneud, ac y dylai'r broses ymgynghori fod yn agored a thryloyw?
- I am grateful to the First Minister for that response. There are concerns among my constituents in the St David's area because the local authority is reviewing the provision of education in that area. I accept that the local authority is yet to come to a decision on this, so it is crucially important that real consultation takes place as part of the process. Would you agree that the views of the whole community must be taken into account before any firm decision is taken and that the consultation process should be open and transparent?
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yn naturiol, rwy'n cefnogi'r hyn a gafodd ei ddweud gennyh. Mae'n bwysig dros ben, lle mae newidiadau i unrhyw system addysg mewn unrhyw sir yng Nghymru, fod ymgynghori eang a dwfn er mwyn sicrhau bod unrhyw awdurdod lleol yn deall beth yw barn pobl leol.
- Naturally, I would support what you have said. It is very important, where there are changes to any education system in any county in Wales, that there is wide and thorough consultation to ensure that any local authority understands the views of the local people.
- 13:51 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Byddaf yn dod at y cwestiwn hwn o gyfeiriad ychydig yn wahanol i'r hyn a gymerodd Paul Davies. Mae'n rhaid edrych ar y ddarpariaeth addysg yng nghyd-destun y ddarpariaeth drwy'r sir i gyd, ac mae problemau yn codi os edrychwch ar enghreifftiau unigol heb edrych ar y ddarpariaeth drwy'r sir. Mae problemau'n codi weithiau gyda chludiant i ysgolion, ac edrychir ar y cludiant hwnnw yng nghyd-destun yr ysgol unigol yn unig, ac nid oes darpariaeth ehangach yn cael ei chynnig.
- If I will approach this question from a different direction to that taken by Paul Davies. Of course, we must look at education provision in the context of county-wide provision and problems arise if you look at individual examples without looking at the county-wide provision. Problems can arise sometimes with transport to school and that transport is looked at in the context of the individual school only, and wider provision is not offered.
- 13:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Byddwch yn gyflym, os gwelwch yn dda.
- Be quick, please.
- 13:52 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Fe ddywedaf wrthyhych am senario lle mae gen i etholwraig sydd ag MS, mae ei gŵr yn gweithio gyda'r lluoedd arfog—mae ef bant—ac mae hi'n cael trafferth i sicrhau bod ei phlentyn yn mynychu'r ysgol. Oni ddylai'r awdurdod lleol, yn y sefyllfa honno, edrych ar sefyllfa unigol y plentyn hwnnw, a bod yn hyblyg ynglŷn â darpariaeth addysg?
- Let me propose a scenario to you where I have a constituent with multiple sclerosis, her husband works for the armed forces and is away, and she has difficulty in ensuring that her child can get to school. Should the local authority in that situation not look at the individual circumstances of that child and be flexible in terms of the provision of education?
- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n anodd mynegi barn am unrhyw unigolyn heb wybod y ffeithiau yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylai pob awdurdod lleol ystyried yn fanwl y ffordd y mae'n sicrhau bod addysg ar gael yn ei ardal ac ystyried sefyllfa rhai unigolion a safbwynt y boblogaeth yn gyffredinol.
- It is very difficult to express a view on one individual without knowing the whole facts. However, generally, every local authority should consider, in detail, how it ensures that education is available in its area and consider the situation of some individuals and the viewpoint of the population as a whole.
- Adolygiad ar Ddarpariaeth Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** **South Wales Fire and Rescue Service's Fire Cover Review**
- 13:53 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr Adolygiad ar Ddarpariaeth Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru? OAQ(4)1274(FM)*
- 4. Will the First Minister make a statement on the South Wales Fire and Rescue Service's Fire Cover Review? OAQ(4)1274(FM)*

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Fire and rescue authorities are autonomous, independent bodies and they have to determine the provision of services in their area. However, I can say that the Minister for Local Government and Government Business has committed to an oral statement to Plenary regarding the fire and rescue services in Wales next week, on 22 October.

Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrrff ymreolaethol, annibynnol ac mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu ar y ddarpariaeth o wasanaethau yn eu hardal. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi ymrwymo i roi datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yr wythnos nesaf, ar 22 Hydref.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You may be aware that the fire service is currently consulting on proposals to remove the second appliance at Cwmbrân station, which is a proposal that would see 17 retained firefighters lose their jobs, and there are serious concerns about the ability of the local fire service to cope in the event of a major incident, with what is a 50% reduction in fire cover for Cwmbrân. I know that proposals in Blaina are causing considerable concern as well. While I appreciate that you are not able to intervene directly in this matter—and I appreciate that we have the statement—will you use your influence on Government business to ensure that we have a full debate on this matter, rather than simply having a statement, next week?

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y gwasanaeth tân yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion i gael gwared ar yr ail beiriant yng ngorsaf Cwmbrân, sydd yn gynnig a fyddai'n gweld 17 o ddiffoddwyr tân rhan-amser yn colli eu swyddi, a cheir pryderon difrifol am allu'r gwasanaeth tân lleol i ymdopi pe byddai digwyddiad o bwys, yn sgil yr hyn sy'n ostyngiad o 50% i'r amddiffyniad tân ar gyfer Cwmbrân. Gwn fod y cynigion yn y Blaenau yn achosi cryn bryder hefyd. Er fy mod yn sylweddoli nad ydych yn gallu ymyrryd yn uniongyrchol yn y mater hwn—ac rwy'n gwerthfawrogi bod y datganiad gennym—a wnewch chi ddefnyddio eich dylanwad ar fusnes y Llywodraeth i sicrhau ein bod yn cael dadl lawn ar y mater hwn, yn hytrach na dim ond cael datganiad, yr wythnos nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I cannot promise a full debate, but I can promise a statement. I hope that Members will have the opportunity to ask questions as fully as they need to on behalf of their constituents. I can say, however, that it is important that any fire authority satisfies itself that it can provide services safely and quickly to the local population that it serves. As part of any changes in service, I would expect those factors to be paramount.

Ni allaf addo dadl lawn, ond gallaf addo datganiad. Rwy'n gobeithio y caiff yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau mor llawn ag y maen nhw ei angen ar ran eu hetholwyr. Gallaf ddweud, fodd bynnag, ei bod yn bwysig bod unrhyw awdurdod tân yn bodloni ei hun ei fod yn gallu darparu gwasanaethau yn ddiogel ac yn gyflym i'r boblogaeth leol y mae'n ei gwasanaethu. Yn rhan o unrhyw newidiadau i wasanaeth, byddwn yn disgwyl i'r ffactorau hynny fod yn hollbwysig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

All Members will welcome the continued decline in the number of emergency call-outs to tackle fires, but I wonder, First Minister, why the fire cover review appears not to take into account the extended role to encompass rescue services. The First Minister will be aware that potential road improvements in south-east Wales and the increase, hopefully, in provision will make these more and more likely. What talks has your administration had with those fire services on a regional basis to indicate the potential demand?

Bydd pob Aelod yn croesawu'r gostyngiad parhaus i nifer y galwadau brys i fynd i'r afael â thanau, ond tybed, Brif Weinidog, pam ei bod yn ymddangos nad yw'r adolygiad o amddiffyniad tân yn cymryd y swyddogaeth estynedig i ystyriaeth, i gynnwys gwasanaethau achub. Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod gwelliannau posibl i ffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru a'r cynnydd, gobeithio, i'r ddarpariaeth yn gwneud y rhain yn fwyfwy tebygol. Pa drafodaethau mae eich gweinyddiaeth wedi eu cael gyda'r gwasanaethau tân hynny ar sail ranbarthol i nodi'r galw posibl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is for the fire services themselves to go through this determination and to ensure that they take into account those factors that are relevant, particularly of course the safety and speed of fire services and how quickly they can reach an incident. As part of the process, I would expect any fire authority in Wales to follow those principles and be able to demonstrate to the public that any service changes would lead to improvements in order to make sure that people do not feel that they may be put at risk as a result of service changes. It is important, of course, that service changes are explained, both in terms of what they mean and in terms of what they might mean for improvement.

Cyfrifoldeb y gwasanaethau tân eu hunain yw gwneud y penderfyniad hwn a sicrhau eu bod yn cymryd y ffactorau hynny sy'n berthnasol i ystyriaeth, yn enwedig, wrth gwrs, diogelwch a chyflymder gwasanaethau tân a pha mor gyflym y gallant gyrraedd digwyddiad. Yn rhan o'r broses, byddwn yn disgwyl i unrhyw awdurdod tân yng Nghymru ddilyn yr egwyddorion hynny a gallu dangos i'r cyhoedd y byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn arwain at welliannau er mwyn gwneud yn siŵr nad yw pobl yn teimlo y gallant gael eu rhoi mewn perygl o ganlyniad i newidiadau i'r gwasanaeth. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod newidiadau i'r gwasanaeth yn cael eu hesbonio, o ran yr hyn y maent yn ei olygu ac o ran yr hyn y gallent ei olygu ar gyfer gwella.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the most successful public awareness campaigns in modern times has been the reduction in house fires and deaths due to those fires. There are 50% fewer calls and the number of fires has gone down by 70% in the last decade. So, the firefighters' efforts with regard to prevention are to be applauded. I know that this review is, perhaps, required, but will you ensure that it considers the national perspective of emergency and rescue services as a whole? Surely, it is now time for fire and rescue and ambulance services to be considered as one, rather than for this to be done in isolation.

Brif Weinidog, un o'r ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus mwyaf llwyddiannus yn y cyfnod modern fu'r gostyngiad i nifer y tanau mewn cartrefi a marwolaethau o ganlyniad i'r tanau hynny. Ceir 50% yn llai o alwadau ac mae nifer y tanau wedi gostwng 70% yn ystod y degawd diwethaf. Felly, mae ymdrechion y diffoddwyr tân o ran atal i'w cymeradwyo. Rwy'n gwybod bod yr adolygiad hwn, efallai, yn ofynnol, ond a wnewch chi sicrhau ei fod yn ystyried safbwynt cenedlaethol gwasanaethau brys ac achub yn eu cyfanrwydd? Does bosib ei bod yn amser bellach i wasanaethau tân ac achub ac ambiwlans gael eu hystyried fel un, yn hytrach na gwneud hynny ar wahân.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In terms of ambulance services and fire and rescue services being part of the same organisation, that is a different question. In terms of whether they should co-operate, the answer clearly has to be 'yes'. I would expect there to be co-operation between the emergency services in order to provide the fullest cover possible.

O ran bod gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau tân ac achub yn rhan o'r un sefydliad, mae hwnnw'n gwestiwn gwahanol. O ran a ddylent gydweithredu, mae'n amlwg mai 'dylent' yw'r ateb i hynny. Byddwn yn disgwyl bod cydweithredu rhwng y gwasanaethau brys er mwyn cynnig y diogelwch gorau posibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member is right to point out that the number of fires has reduced; unfortunately, it is still the case that between one fifth and one third of calls in different parts of Wales are false alarms. There is still some work to do, of course, in making sure that those who ring for a fire engine under false pretences are dealt with as quickly and effectively as possible.

Mae'r Aelod yn iawn i nodi bod nifer y tanau wedi gostwng; yn anffodus, mae'n dal yn wir mai camrybuddion yw rhwng un o bob pump a thraean o alwadau mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae peth gwaith i'w wneud o hyd, wrth gwrs, i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n ffonio am injan dân am resymau di-sail yn cael eu cosbi mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Amseroedd Aros am Driniaeth y GIG

Waiting Times for NHS Treatment

13:57

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros am driniaeth y GIG?
OAQ(4)1261(FM)

5. What action is the Welsh Government taking to improve waiting times for NHS treatment?
OAQ(4)1261(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have received plans from all health boards, which show how performance will improve over the remaining months of the year. The Minister for health and his officials are closely monitoring progress.

Rydym wedi derbyn cynlluniau gan yr holl fyrdau iechyd, sy'n dangos sut y bydd perfformiad yn gwella yn ystod y misoedd sy'n weddill o'r flwyddyn. Mae'r Gweinidog iechyd a'i swyddogion yn monitro cynnydd yn agos.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:57 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. Waiting times for NHS treatment could be improved by tackling the problem of cancelled hospital operations. Cancellations due to bed shortages have risen by 72% since 2010-11, wasting millions of pounds and causing considerable distress to vulnerable patients. What action is the Welsh Government taking to reduce the number of cancelled operations in Wales?
- Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Gellid gwella amseroedd aros am driniaeth gan y GIG trwy fynd i'r afael â'r broblem o ganslo llawdriniaethau yn yr ysbty. Mae achosion o ganslo oherwydd prinder gwelyau wedi cynyddu 72% ers 2010-11, gan wastraffu miliynau o bunnoedd ac achosi gofid sylweddol i gleifion sy'n agored i niwed. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yng Nghymru?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The majority of operations are postponed for clinical reasons or, indeed, where patients themselves have requested such postponements. There are occasions, of course, when postponements take place because the medical staff are not available at that time, but, of course, the boards have put forward proposals for a reconfiguration of health services across Wales. It is important that we understand that, in order to have a safe and sustainable health service in the future, there need to be changes. The extent of those changes, particularly in some parts of Wales, is yet to be decided.
- Mae'r rhan fwyaf o lawdriniaethau yn cael eu gohirio am resymau clinigol neu, yn wir, pan fo'r cleifion eu hunain wedi gofyn am ohiriadau o'r fath. Ceir achlysuron, wrth gwrs, pan fo gohiriadau yn digwydd oherwydd nad yw'r staff meddygol ar gael ar y pryd, ond, wrth gwrs, mae'r byrddau wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau iechyd ledled Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn deall bod angen newidiadau er mwyn cael gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy yn y dyfodol. Nid yw graddau'r newidiadau hynny, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru, wedi'u penderfynu hyd yma.
- 13:59 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Brif Weinidog, nid yw'n aeaf eto, ond, er hyn, mae fy etholwyr wedi cael gwybod yr wythnos hon y bydd eu triniaethau ym Mronglais yn mynd i gael eu gohirio gan fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cau gwelyau ym Mronglais oherwydd trafferthion staffio. Mae llawfeddygon ar gael ym Mronglais a bydd rhai o'r rhain nawr heb waith i'w gyflawni a heb gleifion i'w trin oherwydd y newyddion hyn. Pam, yn eich barn chi, mae bwrdd iechyd fel Hywel Dda mor aneffeithiol yn cynllunio'i weithlu, hyd yn oed pan nad oes pwysau'r gaeaf ar y gwasanaeth?
- First Minister, winter is not yet upon us, but my constituents have been told this week that their treatments in Bronglais are to be deferred because Hywel Dda Local Health Board is to close beds at Bronglais because of staffing difficulties. There are surgeons available in Bronglais, and some of those will not have work to do or patients to treat because of this news. Why, in your opinion, is a health board such as Hywel Dda so ineffective in planning its workforce, even when there are not winter pressures on that service?
- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Nid yw'n dderbyniol i'r bwrdd wneud datganiad fel hwn yn y ffordd y mae wedi gwneud hynny heddiw. Mae'r Gweinidog iechyd yn mynd i gysylltu â'r bwrdd er mwyn cael esboniad o sut y mae hwn wedi digwydd a pham y mae'r datganiad wedi cael ei wneud heb unrhyw arwydd i neb, o'r hyn y gallwn ei weld. Os gallaf ddweud hyn ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fydd yn ysgrifennu i'r Aelod unwaith bydd ganddo esboniad o'r bwrdd iechyd.
- It is not acceptable for the board to have made a statement like this in the way that it has done so today. The Minister for health will contact the board in order to have an explanation of how this has come about and why this statement has been made without any indication to anybody, from what we can see. If I can say this on behalf of the Minister for Health and Social Services, he will write to the Member once he has an explanation from the health board.
- 14:00 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- First Minister, there are, indeed, many challenges to waiting times in England and Wales, but could you give us an assurance that you will not be following the English Tory example of privatisation of NHS services, which has so far led to a five-year high in waiting times in England, at least 12 hospitals so far at risk of going bust, and the loss of some 5,000 nurses?
- Brif Weinidog, mae yna, yn wir, lawer o heriau o ran amseroedd aros yng Nghymru a Lloegr, ond a allech chi roi sicrwydd i ni na fyddwch yn dilyn esiampl Toriaid Lloegr o breifateiddio gwasanaethau'r GIG, sydd wedi arwain hyd yn hyn at yr amseroedd aros hiraf ers pum mlynedd yn Lloegr, o leiaf 12 o ysbtyai hyd yn hyn mewn perygl o fynd i'r wal, a cholli tua 5,000 o nyrsys?

14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can assure the Member that one thing that we will not be doing is, for example, suddenly deciding to remove funding for rarer treatments, as was done this morning by the UK Government, surreptitiously and without any warning. We will not be reducing the number of nurses in Wales by thousands; we will not see our health providers go bankrupt; we will not be privatising the health service in any way, and we will not be making cuts of £20 billion in the health service, as has happened in England. What I can say is that, unlike in England, the NHS in Wales is not in crisis; it is in England.</p>	<p>Gallaf sicrhau'r Aelod mai un peth na fyddwn byth yn ei wneud yw, er enghraifft, penderfynu'n sydyn i beidio â chyllido triniaethau mwy anarferol, fel y gwnaed y bore yma gan Lywodraeth y DU, yn llechwraidd a heb unrhyw rybudd. Ni fyddwn yn lleihau miloedd yn nifer y nyrsys yng Nghymru; ni fyddwn yn gweld ein darparwyr iechyd yn mynd yn fethdalwyr; ni fyddwn yn preifateiddio'r gwasanaeth iechyd mewn unrhyw ffordd, ac ni fyddwn yn gwneud toriadau o £20 biliwn yn y gwasanaeth iechyd, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr. Yr hyn y gallaf ei ddweud, yn wahanol i Loegr, yw nad yw'r GIG yng Nghymru mewn argyfwng; mae mewn argyfwng yn Lloegr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, gwnaeth swyddogion Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr dderbyn y llynedd eu bod wedi dileu triniaethau er mwyn cyrraedd y nod o ran eu cyllideb. A oeddech chi'n ymwybodol o hynny, ac a fyddwch chi'n barod i dderbyn y fath sefyllfa eleni?</p>	<p>First Minister, officials at Betsi Cadwaladr University Local Health Board accepted last year that they had cancelled treatments in order to reach their budget targets. Were you aware of that, and would you be willing to accept such a situation arising again this year?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Ni chlywais dim o'r cwestiwn; roedd lot o siarad i'm chwith. Trueni nad yw arweinydd yr wrthblaid yn siarad yr un mor uchel â David Cameron.</p>	<p>I did not hear the question, as there was a lot of talking to my left. It is a shame that the leader of the opposition does not speak as loudly to David Cameron.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae swyddogion bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi cytuno o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eu bod wedi dileu triniaethau y llynedd er mwyn cyrraedd y nod o ran eu cyllideb. A oedd eich Llywodraeth chi'n ymwybodol o hynny, ac a fyddwch chi'n barod i dderbyn y fath sefyllfa eleni?</p>	<p>The officials of Betsi Cadwaladr health board have admitted before the Public Accounts Committee that they cancelled treatments last year in order to reach their budget targets. Was your Government aware of that, and would you be willing to accept such a position again this year?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Ni fyddwn yn erfyn ar unrhyw awdurdod i ddileu unrhyw lawdriniaeth. Fodd bynnag, un o'r problemau sydd ganddynt yw'r ffaith eu bod yn rhaid dod i mewn â chyllideb gytbwys o fewn un flwyddyn ariannol. Mae hynny'n mynd i newid, rydym yn gobeithio, gyda'r Bil newydd, sy'n mynd i'w helpu achos eu bod yn mynd i allu cynllunio yn awr am gyfnod o dair blynedd. Ni fyddwn yn erfyn gweld unrhyw sefyllfa o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.</p>	<p>We would not expect any authority to delay any operations. However, one of the problems that they have is the fact that they have to bring in a balanced budget within one financial year. That is going to change, we hope, with the new Bill, which is going to help them because they will be able to plan now for a period of three years. I would not expect to see any such situation happening in the future.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Twristiaeth		Tourism	
14:02	<p>Rebecca Evans Bywgraffiad Biography</p> <p>6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1275(FM)</p>	<p>6. What is the Welsh Government doing to support tourism in Wales? OAQ(4)1275(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
In June we launched our new tourism strategy to help drive forward sustainable growth in tourism and ensure that we deliver jobs and wealth for the Welsh economy.
Ym mis Mehefin, lanswyd ein strategaeth dwristiaeth newydd i helpu i sbarduno twf cynaliadwy mewn twristiaeth a sicrhau ein bod yn creu swyddi a chyfoeth i economi Cymru.
- 14:02 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Across the UK, music tourism is proving to be big business, generating £2.2 billion last year and creating 24,000 jobs through festivals, concerts and so on. With Wales famously being the land of song, how are you ensuring that Wales is best placed to cash in on this?
Ledled y DU, mae twristiaeth cerddoriaeth yn profi i fod yn fusnes mawr, gan gynhyrchu £2.2 biliwn y llynedd a chreu 24,000 o swyddi trwy wyliau, cyngherddau ac yn y blaen. Gan fod Cymru'n enwog fel gwlad y gân, sut ydych chi'n sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i fanteisio ar hyn yn ariannol?
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are investing in a range of live music events and festivals through our major events strategy. They include, for example, Classic FM Live, Festival Number 6, the Green Man Festival, the Choral Festival North Wales, Wakestock and of course, next week, WOMEX 2013—a massive event for Wales. It will have an economic impact of some £3 million and we have delegates coming from over 80 countries. So, we know the importance of music to tourism in Wales and we look forward to continuing to support events such as WOMEX next week, which will mean so much, both economically and culturally, for Wales.
Rydym yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a gwyliau cerddoriaeth byw drwy ein strategaeth digwyddiadau mawr. Maen nhw'n cynnwys, er enghraifft, Classic FM Live, Gŵyl Rhif 6, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru, Wakestock ac wrth gwrs, yr wythnos nesaf, WOMEX 2013—digwyddiad enfawr i Gymru. Bydd yn cael effaith economaidd o tua £3 miliwn ac mae gennym gynadledwyr yn dod o fwy na 80 o wledydd. Felly, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cerddoriaeth i dwristiaeth yng Nghymru, ac edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi digwyddiadau fel WOMEX yr wythnos nesaf, a fydd yn golygu cymaint, yn economaidd ac yn ddiwylliannol, i Gymru.
- 14:03 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, in the Welsh Government strategy for tourism 2013 to 2020, language skills to meet the demands of international markets are right up there as a key focus, but how do you square that ambition with the dismal performance in languages that we have at primary and secondary schools throughout Wales?
Brif Weinidog, yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth rhwng 2013 a 2020, mae sgiliau iaith ar gyfer bodloni gofynion marchnadoedd rhyngwladol yn brif bwyslais allweddol, ond sut ydych chi'n cysoni'r uchelgais hwnnw gyda'r perfformiad sobr o wael mewn ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru?
- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are always looking to encourage the use of what would be either second or third languages. It is important that we are also innovative. We know that, for the tourism market, one of the languages that will need to be developed in the future will probably be Mandarin, given the fact that Chinese tourists will be coming to Wales—we believe and we hope—in greater numbers. So, we will be working with the tourist industry to make sure that we are able to provide the right level of support to it, particularly with regard to the need to provide services in languages that previously were not seen as important, although they are now.
Rydym bob amser yn ceisio annog y defnydd o'r hyn a fyddai'n ail neu'n drydedd iaith. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn arloesol. Rydym yn gwybod, ar gyfer y farchnad dwristiaeth, ei bod yn debygol mai un o'r ieithoedd y bydd angen ei datblygu yn y dyfodol fydd Mandarin, o ystyried y ffaith y bydd—rydym yn credu ac yn gobeithio—niferoedd uwch o dwristiaid o Tsieina yn dod i Gymru. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth i wneud yn siŵr ein bod yn gallu darparu'r lefel gywir o gefnogaeth iddo, yn enwedig o ran yr angen i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd nad oeddent yn cael eu hystyried mor bwysig o'r blaen, er eu bod bellach.
- 14:04 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae edrych ar bob posibilrwydd o ran datblygu twristiaeth yn fy etholaeth yn bwysig oherwydd pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol. A allai'r Prif Weinidog ddweud wrthyf beth yw canlyniadau'r astudiaethau diweddaraf gan y Llywodraeth a'i swyddogion ar y posibilrwydd o ail-agor y rheilffordd o'r Gaerwen i Amlwch, a hynny er lles twristiaeth ar yr ynys ac er y budd cymunedol?
Looking at all possibilities in terms of developing tourism in my constituency is important because of the importance of tourism to the local economy. Can the First Minister tell me what the results of the latest studies by the Government and its officials are on the possibility of re-opening the line between Gaerwen and Amlwch for the benefit of tourism on the island and for community benefits?

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Ynglŷn â'r rheilffordd rhwng Gaerwen ac Amlwch, cafodd astudiaeth ei wneud gan y Dirprwy Brif Weinidog yn y Llywodraeth ddiwethaf, ond, ar y pryd, nid oedd y rheilffordd honno yn flaenoriaeth mewn perthynas â rhai o'r cynlluniau eraill dros Gymru'n gyfan gwbl. Mae'n bwysig dros ben, yn gyntaf, fod y rheilffordd ei hun yn cael ei chadw a nad yw'r traciau yn cael eu symud neu eu tynnu bant. Byddai hynny yn ei wneud lot yn galetach i ddod i'r rheilffordd yn ôl, ond rydym yn ddigon parod i ystyried unrhyw achos busnes sydd yn gallu cael ei wneud dros reilffordd yn dod i lawr o ogledd Ynys Môn. Ar hyn o bryd, nid yw'n flaenoriaeth, ond, yn y dyfodol, wrth gwrs, gallai hynny newid.

Concerning the line between Gaerwen and Amlwch, a study was done by the Deputy First Minister in the last Government, but, at the time, it was not a priority in relation to some of the other plans across Wales. It is very important that, first, the railway itself is kept, and the tracks are not moved or taken away. That would make it much more difficult to reinstate the railway, but we are more than willing to consider any business case that can be made for a railway coming down from the north of Anglesey. At the moment, it is not a priority, but, in the future, of course, that could change.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:05

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, we received a letter yesterday from the Minister for the economy stating that the Severn tunnel would be closed on 26 and 27 October, hitting one of the major events that you mentioned, WOMEX, and another on that weekend. What mechanism does the major events team have in place to make sure that major infrastructure operators such as Network Rail and the Highways Agency and, of course, transport operators, are informed of major events so that this kind of situation can be avoided?

Brif Weinidog, derbyniwyd llythyr gennym ddoe gan Weinidog yr economi yn datgan y byddai twnnel Hafren ar gau ar 26 a 27 Hydref, sydd yn ystod un o'r prif ddigwyddiadau a grybwyllwyd gennych, WOMEX, ac un arall ar y penwythnos hwnnw. Pa ddulliau sydd gan y tîm digwyddiadau mawr ar waith i wneud yn siŵr bod gweithredwyr seilwaith mawr fel Network Rail a'r Asiantaeth Priffyrdd ac, wrth gwrs, gweithredwyr cludiant, yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau mawr fel y gellir osgoi sefyllfa o'r fath?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They know our views; they keep on doing it anyway. They have form for it. They did it in 1999, for example, when Wales played England at Wembley; I remember quite a long diversionary route being taken by the train on that occasion. We have, of course, not just WOMEX but the Rugby League World Cup opening ceremony on Saturday and, again, the tunnel has been closed. In a more rational world, 20 years ago, when the new Severn bridge was opened, a rail deck would have been put underneath it so that the Severn tunnel could have been closed permanently and its operating costs dispensed with, but it is not in the nature of the UK—it certainly was not then—to be that farsighted, unfortunately, compared with some other countries in the world. We have to live with what we have at the moment, but we have certainly made our views very clear to Network Rail that, closing the Severn tunnel on a Saturday, when there are so many events taking place in Cardiff, particularly, is something that we deplore.

Maen nhw'n gwybod ein barn ni am hyn; maen nhw'n parhau i'w wneud beth bynnag. Maen nhw wedi ei wneud o'r blaen. Fe wnaethpwyd hynny ganddynt ym 1999, er enghraifft, pan oedd Cymru'n chwarae yn erbyn Lloegr yn Wembley; rwy'n cofio'r trêrn yn dilyn llwybr dargyfeirio hirfaith ar yr achlysur hwnnw. Mae gennym, wrth gwrs, nid dim ond WOMEX ond seremoni agoriadol Cwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair ddydd Sadwrn ac, unwaith eto, mae'r twnnel wedi ei gau. Mewn byd mwy rhesymol, 20 mlynedd yn ôl, pan agorwyd y bont Hafren newydd, byddai dec rheilffordd wedi cael ei roi oddi tani er mwyn gallu cau twnnel Hafren yn barhaol a chael gwared ar gostau ei weithredu, ond nid yw yn y natur y DU—yn sicr nid oedd yr adeg honno—i fod mor graff â hynny, yn anffodus, o'i chymharu â rhai gwledydd eraill yn y byd. Mae'n rhaid i ni fyw â'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd, ond rydym yn sicr wedi gwneud ein barn yn eglur iawn i Network Rail, bod cau twnnel Hafren ar ddydd Sadwrn, pan fo cymaint o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd, yn enwedig, yn rhywbeth yr ydym yn ei wfftio.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Recriwtio Staff Meddygol yn GIG Cymru

Medical Recruitment in the Welsh NHS

14:07

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio staff meddygol yn GIG Cymru? OAQ(4)1276(FM)

7. What steps has the First Minister taken to address medical recruitment issues in the Welsh NHS? OAQ(4)1276(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ninety-seven per cent of medical and dental posts are currently filled. That reflects the effective work carried out locally by NHS organisations, supported by our national Work for Wales campaign.
Mae naw deg saith y cant o swyddi meddygol a deintyddol wedi eu llenwi ar hyn o bryd. Mae hynny'n adlewyrchu'r gwaith effeithiol a wneir yn lleol gan sefydliadau GIG, a gefnogir gan ein hymgyrch Gweithio dros Gymru genedlaethol.
- 14:07 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, First Minister. Today, I have unearthed some figures that highlight that, in my health board area, Cardiff and Vale, for example, there has been a 23% increase in the use of locum and temporary staff. Also in the news, in mid Wales, in Aberystwyth, for example, procedures are being cancelled because of a lack of staff. You launched a recruitment drive 12 months last February that was going to solve some of the vacancies that we had within the Welsh NHS. What progress has been made with that campaign and, in particular, are you getting to grips with the local health boards in their use of locum staff, where they are unnecessarily used?
Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Heddiw, rwyf wedi dod o hyd i rai ffigurau sy'n amlygu, yn fy ardal bwrdd iechyd i, Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, y bu cynnydd o 23% yn y defnydd o staff locwm a dros dro. Hefyd yn y newyddion, yn y Canolbarth, yn Aberystwyth, er enghraifft, mae llawdriniaethau yn cael eu canslo oherwydd prinder staff. Lanswyd ymgyrch recriwtio gennych flwyddyn yn ôl i fis Chwefror diwethaf, a oedd yn mynd i ddatrys rhai o'r swyddi gwag a oedd gennym yn y GIG yng Nghymru. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud gyda'r ymgyrch honno ac, yn arbennig, a ydych chi'n mynd i'r afael â'r byrddau iechyd lleol o ran eu defnydd o staff locwm, lle maent yn cael eu defnyddio'n ddiangen?
- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
As I said, the vacancy rate now is only 3%. It is right to say that there is a reliance on locums, although spending on locums has decreased by 18% in the last year. The reality is that there will always be a reliance on locums. It is the case that there are many specialists who want to work part time and who do not wish to have full-time positions, and it has been the case for many years in the NHS that their services have been welcome. It is the case that they have the skills that are needed in the posts that they fill on a temporary basis. Nevertheless, as I mentioned, the cost of employing locums has gone down substantially over the course of the past year.
Fel y dywedais, dim ond 3% yw'r gyfradd swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae'n iawn dweud bod dibyniaeth ar staff locwm, er bod gwariant arnynt wedi gostwng 18% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y gwirionedd yw y bydd dibyniaeth ar staff locwm bob amser. Mae'n wir bod llawer o arbenigwyr sydd eisiau gweithio'n rhan-amser ac nad ydynt yn dymuno cael swyddi llawn amser, ac mae wedi bod yn wir ers nifer o flynyddoedd yn y GIG fod eu gwasanaethau wedi eu croesawu. Mae'n wir eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen yn y swyddi maen nhw'n eu gwneud dros dro. Er hynny, fel y dywedais, mae'r gost o gyflogi staff locwm wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 14:08 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Shwmae—dylwn i ddweud hynny hefyd, rwy'n credu. Ddoe, cwrddais â chadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a gwnaethom drafod broblemau recriwtio, yn enwedig yn dilyn adroddiad y panel craffu ar Ysbyty'r Tywysog Philip. Rwy'n derbyn bod problemau recriwtio ledled y Deyrnas Unedig. Pa gamau pellach bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i gefnogi'r bwrdd iechyd lleol wrth recriwtio clinigwyr i gefnogi'r gwasanaeth yn Llanelli a gorllewin Cymru? Sut gallem ni wneud y gorau o hyfforddiant i sicrhau bod clinigwyr yn ymarfer i'r safonau gorau?
I should also say 'shwmae'. Yesterday, I met the chair of the Hywel Dda Local Health Board and we discussed recruitment problems, particularly following the result of the scrutiny panel on Prince Philip Hospital. I accept that there are problems throughout the UK. What further steps will the Welsh Government consider to support the local health board in recruiting clinicians to support the service in Llanelli and west Wales? How can we make the most of training to ensure that clinicians practise to the highest possible standards?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni ystyried nad arian yw'r broblem yn y fan hon. Rydym yn gwybod bod prinder o arbenigwyr mewn rhai meysydd—niwroleg, er enghraifft, a damweiniau ac argyfwng. Rydym yn deall hynny. Nid arian yw'r broblem; nid oes modd recriwtio 1,000 o ddoctoriaid nad ydynt ar gael. Nid arian yw'r fater. Maen nhw'n mo'yn dod i leoedd lle maen nhw'n gweld digon o achosion ac yn cael cyfle i hyfforddi hefyd. Mae hynny wedi tueddu golygu dros y blynyddoedd fod doctoriaid eisiau hyfforddi mewn canolfannau mwy a mwy. Ni fydd arian newid hynny ac ni fydd mwy o ddoctoriaid newid hynny. Ni wna ifflyn o wahaniaeth. Yr hyn maen nhw'n mo'yn gweld yw canolfannau lle maen nhw'n gallu cael yr hyfforddiant sydd ei eisiau arnynt a lle maen nhw'n cael 'throughput' o achosion. Os nad ydynt yn cael hynny, nid ydynt yn gallu gweithio'n iawn. Dyna beth yw'r her. Dyna pam yr ydym yn gorfod mynd drwy'r system o ailsefydlu'r gwasanaeth iechyd. Nid yw'n boblogaidd, ac rydym yn deall hynny. Fodd bynnag, dyna'r unig ffordd o sicrhau bod gennym arbenigwyr sy'n mynd i ddod i Gymru, aros yng Nghymru, a chael eu hyfforddiant yng Nghymru.

First of all, we have to consider that money is not the problem here. We know that there is a scarcity of specialists in some places—neurology, for example, and accident and emergency. We understand that. Money is not the problem; we cannot recruit 1,000 doctors that are not available. Money is not the issue. They want to come to places where they see plenty of cases and have an opportunity to train as well. That has tended to mean over the years that doctors want to train in larger and larger centres. Money will not change that and more doctors will not change that. It will not make any difference at all. What they want to see are centres where they can have the training they need and where they can have a throughput of cases. If they do not have that, they cannot work properly. That is the challenge. That is why we have to go through a system of re-establishing the health service. It is not popular, and we understand that. However, that is the only way to ensure that we have specialists who are going to come to Wales, stay in Wales, and be trained in Wales.

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid oes amheuaeth bod ffactorau cyllidol yn gyrru llawer o'r newidiadau sy'n digwydd yn nifer o ardaloedd Cymru. Yn sicr, rydym yn gweld yng ngogledd Cymru fod diffyg recriwtio yn arwain at wasanaethau'n cael eu symud dros y ffin, er enghraifft. Yn sicr, mae hwnnw'n ateb sydd wedi cael ei roi gan y bwrdd iechyd.

There is no doubt that budgetary factors drive many of the changes that are happening in many areas of Wales. Certainly, we are seeing in north Wales that recruitment problems are leading to services being moved across the border, for example. Certainly, that is a solution that has been proposed by the health board.

Clywsom yr ateb a roddwyd gennych yn gynharach i un awgrym gan Plaid Cymru ynglŷn ag un modd o fynd ati i greu ffynhonnell incwm ychwanegol. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y byddai'n bosibl edrych ar greu ffynonellau incwm penodol ar gyfer cryfhau darpariaeth yn y gwasanaeth iechyd hwn, sy'n gwegian?

We heard the response that you gave earlier to one suggestion from Plaid Cymru as to one means of going about creating an additional source of income. Do you have any suggestions as to how we could look at creating specific sources of income to strengthen provision in the health service, which is creaking?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid arian yw'r broblem. Y broblem gyda doctoriaid yw sicrhau bod ganddynt lefydd i hyfforddi. Mae'n rhaid imi ofyn i Aelodau Plaid Cymru: a ydych yn siarad â doctoriaid? Rydym yn siarad â nhw ar yr ochr hon. Pan welais y datganiad a wnaed dros y penwythnos, siaradais â sawl doctor. Gwnaethant ddweud na fyddai hynny'n gweithio. Nid oes 1,000 o ddoctoriaid ar gael i ddod i mewn i Gymru. Pa fath o ddoctoriaid a ydych yn eu mo'yn? A ydych yn mo'yn pobl sy'n gweithio ym maes niwroleg neu bobl sy'n gweithio yn y gymuned? Nid ydych wedi meddwl amdano; dyna'r broblem. Y ffordd o sicrhau bod doctoriaid yn mo'yn ddod i Gymru yw sicrhau bod ganddynt lefydd i hyfforddi. Os nad oes gennym y llefydd hynny i hyfforddi, ni fydd ots faint o arian sydd ar gael, ni fyddant yn dod. Siaradwch â doctoriaid; maen nhw'n dweud yr un peth. Mae'n rhaid iddynt gael cyfle i hyfforddi. Mae'n rhaid iddynt gael achosion drwy'r adran hefyd. Os nad ydynt yn cael yr achosion, nid ydynt yn ymarfer ac nid ydynt yn gallu aros yn yr adran; mae'r 'deanery' yn dweud, 'Nid ydych yn gwneud digon o achosion i fod yn saff'. Nid yw hynny'n unrhyw beth i ymwneud ag arian. Mae'n ymwneud â sicrhau bod yna ddigon o bobl yn dod drwy unrhyw adran. Fel arall, yr hyn yr ydych yn ei ddweud yw eich bod yn mo'yn cael 1,000 o ddoctoriaid nad ydynt yn cael eu hyfforddi, nad ydynt yn gweld yr achosion y maen nhw eisiau eu gweld, ac nid oes ots a ydynt yn saff ai peidio. Nid yw hwn yn gwestiwn o arian, ond cwestiwn, fel y dywedais, o sicrhau bod doctoriaid yn meddwl fod ganddynt rywle i weithio lle y gallant weld y bobl y maen nhw'n angen eu gweld er mwyn bod yn achrededig, a hefyd, eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael eu hyfforddi yn y canolfannau hynny. Ni fydd arian yn gwneud ifflyn o wahaniaeth.

Mynyddoedd Cambria**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Shwmae, Brif Weinidog?*

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd Mynyddoedd Cambria i Gymru? OAQ(4)1266(FM)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It has just stuck me that I used a particularly eastern Carmarthenshire word in my Welsh: 'ifflyn'. For the translators, that means 'not a difference' or 'no difference at all'. In terms of the question that the Member raised, I can say that that the sustainable management of the Cambrian mountains and their natural resources is critical to the future success of their local communities and our entire economy.

Money is not the problem. The problem with doctors is to ensure that they have places to train. I have to ask Plaid Cymru Members: do you talk to doctors? We do on this side of the Chamber. When I saw the statement that was made on the weekend, I spoke to many doctors. They said that this would not work. There are not 1,000 doctors to come into Wales. What sort of doctors do you want? Do you want people who work in neurology or people who work in the community? You have not thought about it; that is the problem. The way to ensure that doctors want to come to Wales is to ensure that they have centres to train. If those places for training are not available, it does not matter how much money you make available, they will not come. Speak to the doctors; they all say the same thing. They have to have the opportunity for training. They have to have sufficient cases through their departments as well. If they do not have the cases, they do not practise and they cannot stay in the department; the deanery says, 'You are not seeing enough cases to be safe'. That is not to do with money. That is to do with ensuring that there are enough people coming through any department. Or, what you are saying is that you want 1,000 doctors who are not being trained, who are not seeing the cases that they want to see, and that it does not matter if they are safe or not. This is not a question of money; it is a question of ensuring, as I said, that doctors feel that they have somewhere to work where they can see the people that they need to see in order to be accredited, and also, that they feel that they can be trained in those centres. Money will not make any difference at all.

Cambrian Mountains*Shwmae, First Minister?*

8. Will the First Minister make a statement on the importance of the Cambrian Mountains to Wales? OAQ(4)1266(FM)

Rwyf newydd sylweddoli fy mod wedi defnyddio gair Sir Gaerfyrddin penodol yn fy Nghymraeg: 'ifflyn'. I'r cyfieithwyr, mae hynny'n golygu 'dim gwahaniaeth' neu 'ddim gwahaniaeth o gwbl'. O ran y cwestiwn a godwyd gan yr Aelod, gallaf ddweud bod rheolaeth gynaliadwy o fynyddoedd Cambria a'u cyfoeth naturiol yn hanfodol i lwyddiant eu cymunedau lleol a'n heconomi gyfan yn y dyfodol.

- 14:13 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr. First Minister, I am sure that you are aware of the work of the Cambrian mountains initiative over recent years in improving sustainability and environmental standards in the heartland of Wales. This is delivered through a partnership, as you know, that engages key public sector, private sector and third sector partners. In this context, what consideration has the Welsh Government given to affording special status to the landscape of the Cambrian mountains, which was a cause long promoted by a former Member for Mid and West Wales, Lord Bourne of Aberystwyth?
- Diolch yn fawr. Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o waith menter mynyddoedd Cambria yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran gwella safonau cynaliadwyedd ac amgylcheddol ym mherfeddwlad Cymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy bartneriaeth, fel y gwyddoch, sy'n ymgysylltu â phartneriaid sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector allweddol. Yn y cyd-destun hwn, pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i roi statws arbennig i dirlun mynyddoedd Cambria, a oedd yn achos a hyrwyddwyd am amser maith gan y cyn-Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I think that the reference that the Member is making is to whether the Cambrian mountains should be a national park. That is an interesting idea but, as he will know, it is not an idea that is without controversy in terms of the people who live there. Of course, protections are already in place within the Cambrian mountains. However, at this moment in time, we are not, as a Government, looking either to extend the existing national parks or create new ones. I believe that what has been done in the Cambrian mountains, particularly through the Cambrian mountains initiative, for example, and the protections that are already in place, will be enough to preserve the landscape, which is what we all want to see.
- Rwy'n meddwl mai'r cyfeiriad y mae'r Aelod yn ei wneud yw pa un a ddylai mynyddoedd Cambria fod yn barc cenedlaethol ai peidio. Mae hwnnw'n syniad diddorol, ond, fel y bydd yn gwybod, nid yw'n syniad heb ei ddadleuon o ran y bobl sy'n byw yno. Wrth gwrs, mae mesurau gwarchod ar waith eisoes ym mynyddoedd Cambria. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym ni, fel Llywodraeth, yn bwriadu ymestyn y parciau cenedlaethol presennol na chreu rhai newydd. Rwy'n credu y bydd yr hyn sydd wedi ei wneud ym mynyddoedd Cambria, yn enwedig trwy fenter mynyddoedd Cambria, er enghraifft, a'r mesurau gwarchod sydd eisoes ar waith, yn ddigon i ddiogelu'r dirwedd, sef yr hyn y mae pob un ohonom ni eisiau ei weld.
- 14:14 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Does the First Minister agree that the value that the Cambrian mountains brings to the mid-Wales economy is mainly due to the wild, remote and unspoiled nature of its landscape? If he does agree, should it not be kept that way?
- A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y gwerth y mae mynyddoedd Cambria yn ei ychwanegu at economi canolbarth Cymru yn bennaf oherwydd natur wyllt, anghysbell a heb ei difetha ei thirwedd? Os yw'n cytuno, oni ddylai gael ei chadw felly?
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Technically, it is not untouched landscape; it is farmed. That means, of course, that there will be parts of the Cambrian mountains that will have been grassed. So, it is not hugely untouched as a wilderness. Nevertheless, it is important that we preserve the traditions of the countryside that exist in the Cambrian mountains. When it comes to sustainability, we must also look at economic sustainability. There is no point in having any part of Wales that looks nice but affords no living for the people who live there. That is why sustainable and sensible development is something that all communities have to examine.
- Yn dechnegol, nid yw'n dirwedd heb ei chyffwrdd; mae'n cael ei ffermio. Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, y bydd glaswellt wedi ei dyfu ar rannau o fynyddoedd Cambria. Felly, nid yw heb ei gyffwrdd yn gyfan gwbl fel diffeithwch. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r traddodiadau cefn gwlad sy'n bodoli ym mynyddoedd Cambria. Wrth ystyried cynaliadwyedd, mae'n rhaid i ni edrych hefyd ar gynaliadwyedd economaidd. Nid oes unrhyw bwynt mewn cael unrhyw ran o Gymru sy'n edrych yn hyfryd ond nad yw'n cynnig unrhyw fywoliaeth i'r bobl sy'n byw yno. Dyna pam mae datblygu cynaliadwy a chall yn rhywbeth y mae'n rhaid i bob cymuned ei ystyried.
- 14:15 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Ni fydd y Prif Weinidog yn synnu nad wyf yn dweud 'shwmae' wrtho, nac yn synnu ychwaith fy mod i yn galw mynyddoedd y Cambria wrth yr hen enw, sef yr Elenydd. A fyddai'n Prif Weinidog yn cytuno mai'r hyn sy'n bwysig am yr Elenydd yw ansawdd yr orgors fawr yno, megis mewn rhannau eraill o Gymru? A fyddai'n cymeradwyo'n fawr y gwaith a wneir gan ymddiriedolaethau byd natur i adfer y gorgorsydd hyn, fel y gwelsom fel pwyllgor y dydd o'r blaen ger Efyrrwy ar y Berwyn?
- The First Minister will not be surprised that I am not going to say 'shwmae', and that I also call the Cambrian mountains by their old name, the Elenydd. Would the First Minister agree with me that what is important about the Elenydd is the quality of the marshland there, as is the case in other parts of Wales? Would he warmly welcome the work that is being done by the nature trusts to restore this landscape, as we saw as a committee just the other day near Efyrrwy on the Berwyn?

14:15	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	Hoffwn ymuno â'r Aelod i ganmol y gwaith sy'n cael ei wneud gan bob corff yn y mynyddoedd—yn yr Elenydd, fel y soniodd ef. Ni ddywedodd 'shwmae', wrth gwrs—mae'n weddol anffurfiol ac yn rhywbeth sydd yn hollol o'r de.	May I also join the Member to commend the work that is being done by each body in the mountains—the Elenydd, as he mentioned? He did not say 'shwmae', of course—that is something that is quite informal and is completely from the south.	Senedd.tv Fideo Video
Cau Canolfannau Ymholiadau				
14:16	Julie Morgan Bywgraffiad Biography <i>9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i gynlluniau arfaethedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau canolfannau ymholiadau yng Nghymru? OAQ(4)1271(FM)</i>		<i>9. What action has the Welsh Government taken in response to HMRC's proposed closure of enquiry centres in Wales? OAQ(4)1271(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	This is not a devolved matter, but I have written previously to the Secretary of State for Wales on the issue of the closure of Her Majesty's Revenue and Customs enquiry offices.	Nid yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ond rwyf wedi ysgrifennu o'r blaen at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y mater o gau swyddfeydd ymholiadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	Thank you, First Minister, for that response. All face-to-face enquiry offices in Wales are likely to close by February 2014, including the Llanishen enquiry office in my constituency of Cardiff North. Does the First Minister agree with the Low Incomes Tax Reform Group, which has expressed concern at the impact that this decision could have on vulnerable people and which is calling for more time for the evaluation of the pilot projects that have taken place?	Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r holl swyddfeydd ymholiadau wyneb yn wyneb yng Nghymru yn debygol o gau erbyn mis Chwefror 2014, gan gynnwys swyddfa ymholiadau Llanisien yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno gyda'r Grŵp Diwygio Treth Incymau Isef, sydd wedi mynegi pryder ynghylch yr effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar bobl sy'n agored i niwed ac sydd yn galw am fwy o amser i werthuso'r prosiectau arbrofol a gynhaliwyd?	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	Yes, I sympathise with that view. I think that these changes are being rushed. I do not think that they will be of benefit in terms of the service that people want to receive, and I have made the views of the Welsh Government known to the Secretary of State.	Ydw, rwy'n cydymdeimlo â'r farn honno. Rwy'n meddwl bod y newidiadau hyn yn cael eu rhuthro. Nid wyf yn credu y byddant o fudd o ran y gwasanaeth y mae pobl yn dymuno ei dderbyn, ac rwyf wedi hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am farn Llywodraeth Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Diolch yn fawr, Brif Weinidog.		Thank you, First Minister.	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Cwestiwn Brys: Unity Mine Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Byron Davies to ask the urgent question.	Urgent Question: Unity Mine	Y Senedd.tv Fideo Video
		Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Byron Davies i ofyn y cwestiwn brys.	<i>Further to initial discussions with its owners, will the Minister provide an update on the future viability of Unity Mine, following confirmation that it has filed for administration? EAQ(4)0314(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Byron Davies Bywgraffiad Biography <i>Ymhellach i drafodaethau cychwynnol â'i berchnogion, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hyfywedd Unity Mine yn y dyfodol, yn dilyn cadarnhad ei fod wedi gwneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr? EAQ(4)0314(EST)</i>			Senedd.tv Fideo Video

- 14:17 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport
 I refer Members to my written statement of 11 October 2013. The mine's management board has filed for administration, but it is important to note that the mine has not yet entered into administration and that discussions are ongoing. Cyfeiriad yr Aelodau at fy natganiad ysgrifenedig ar 11 Hydref, 2013. Mae bwrdd rheoli'r pwll wedi gwneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ond mae'n bwysig nodi nad yw'r pwll wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr eto a bod trafodaethau yn parhau.
- 14:17 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that response, Minister. There have been significant warning signs that the Unity mine was in danger of filing for administration for some months. When did you know that the Unity mine was filing, and what action did you take to try to prevent that, if any? Specifically, can you outline what action you have taken over the past six months to support Unity mine, and what direct action are you taking to support the workers and their families at this difficult time? Diolch i chi am yr ymateb yna, Weinidog. Cafwyd arwyddion rhybudd sylweddol bod pwll Unity mewn perygl o wneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ers rhai misoedd. Pryd oeddech chi'n gwybod bod pwll Unity yn gwneud y cais, a pha gamau wnaethoch chi eu cymryd i geisio atal hynny, os o gwbl? Yn benodol, a allwch chi amlinellu pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd dros y chwe mis diwethaf i gefnogi pwll Unity, a pha gamau uniongyrchol ydych chi'n eu cymryd i gefnogi'r gweithwyr a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn?
- 14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I am obviously delighted to see that the Welsh Conservatives now take an interest in mines and mining communities in Wales when we consider what happened to mining, with the mines going in 1985 following the miners' strike and what happened after that. We have been in considerable discussions on this issue, as my colleague Gwenda Thomas, the Labour Member for the Neath constituency, knows, because she has been raising this issue with me on a regular basis, and my officials have been working with the mine on a regular basis. Rwy'n amlwg wrth fy modd gweld bod Ceidwadwyr Cymru yn cymryd diddordeb mewn pyllau glo a chymunedau glofaol yng Nghymru erbyn hyn, pan fyddwn yn ystyried yr hyn a ddigwyddodd i fwyngloddio, ar ôl cau'r pyllau ym 1985 yn dilyn streic y glowyr a'r hyn a ddigwyddodd ar ôl hynny. Rydym ni wedi bod mewn trafodaethau sylweddol ar y mater hwn, fel y mae fy nghyd-Aelod Gwenda Thomas, yr Aelod Llafur dros etholaeth Castell-nedd yn gwybod, oherwydd ei bod wedi bod yn codi'r mater hwn gyda mi yn rheolaidd, ac mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r pwll yn rheolaidd.
- 14:18 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 A good, old communist answer. Ateb hen gomiwnydd da.
- 14:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Minister, the owners have claimed that it is their outstanding planning applications that have prevented the company from expanding or pushing ahead. I would just like to understand what those problems were, because, as you will know, your colleagues are in the council and run the council of Neath Port Talbot. I would like to understand, if there are any planning difficulties, how they can be addressed and what measures you will take, because, of course, as has been said and noted with interest by the Conservatives, these issues are very pertinent to our local area and they are something that we should all be interested in. Weinidog, mae'r perchnogion wedi honni mai'r diffyg penderfyniad ynglŷn â'u ceisiadau cynllunio sydd wedi atal y cwmni rhag ehangu neu fwrw ymlaen. Hoffwn ddeall beth oedd y problemau hynny, oherwydd, fel y gwyddoch, mae eich cydweithwyr yn y cyngor ac yn rhedeg cyngor Castell-nedd Port Talbot. Hoffwn ddeall, os oes unrhyw anawsterau cynllunio, sut y gellir mynd i'r afael a nhw a pha fesurau y byddwch yn eu cymryd, oherwydd, wrth gwrs, fel y dywedwyd ac a nodwyd gyda diddordeb gan y Ceidwadwyr, mae'r materion hyn yn berthnasol iawn i'n hardal leol ac maen nhw'n rhywbeth y dylem ni i gyd fod â diddordeb ynddynt.
- 14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 It would be inappropriate for me to comment further on any matters to do with planning at this time, because they are subject to the planning process with the local authority. Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau pellach ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â chynllunio ar hyn o bryd, gan eu bod yn destun y broses gynllunio gyda'r awdurdod lleol.

- 14:19 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I understand, Minister, that both Peter Hain and Gwenda Thomas have been working to remove those sorts of obstacles. As I understand it, one of the problems is whether the company can be recapitalised to stay open. What support is the Government able to give to the company in pursuit of that recapitalisation project?
- Rwy'n deall, Weinidog, bod Peter Hain a Gwenda Thomas wedi bod yn gweithio i gael gwared ar y mathau hynny o rwystrau. O'r hyn rwy'n ei ddeall, un o'r problemau yw pa un a ellir ail-gyfalafu'r cwmni i'w gadw ar agor. Pa gefnogaeth all y Llywodraeth ei rhoi i'r cwmni wrth fynd ar drywydd y prosiect ail-gyfalafu hwnnw?
- 14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are working with the company to offer assistance, including training aid to the company, in compliance with state aid rules. I very much welcome the directors' intention to protect the current workforce during this difficult period. We will continue to work with the company with any appointed administrators. However, of course, public grant aid for coal production is not permissible under state aid regulations as it is a restricted sector, but we will continue. When I am able to do so, I will provide a further update to Members.
- Rydym yn gweithio gyda'r cwmni i gynnig cymorth, gan gynnwys cymorth hyfforddiant i'r cwmni, yn unol â rheolau cymorth gwladwriaethol. Rwy'n croesawu'n fawr bwriad y cyfarwyddwyr i ddiogelu'r gweithlu presennol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cwmni gydag unrhyw weinyddwyr a benodir. Fodd bynnag, wrth gwrs, ni chaniateir cymorth grant cyhoeddus ar gyfer cynhyrchu glo dan y rheoliadau cymorth gwladol gan ei fod yn sector cyfyngedig, ond byddwn yn parhau. Pan fyddaf yn gallu, byddaf yn darparu diweddariad pellach i'r Aelodau.
- 14:20 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Business Statement and Announcement** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business
- I have three changes to report to this week's business. First, the Business Committee has agreed to schedule a motion to elect a member to a committee immediately after the business statement. Secondly, the time allocated to the Counsel General's questions tomorrow has been reduced in accordance with the number of questions tabled. Finally, the Presiding Officer will propose that two motions relating to appointments to the Wales Audit Office and the remuneration of its members should be grouped for debate tomorrow but with separate votes. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.
- Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos yma. Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol aelod i bwyllgor yn syth ar ôl y datganiad busnes. Yn ail, mae'r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau'r Cwnsler Cyffredinol yfory wedi cael ei leihau yn unol â nifer y cwestiynau a gyflwynwyd. Yn olaf, bydd y Llywydd yn cynnig y dylid grwpio dau gynnig yn ymwneud â phenodiadau i Swyddfa Archwilio Cymru a chydabyddiaeth ei haelodau ar gyfer dadl yfory ond gyda phleidleisiau ar wahân. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 14:21 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for Local Government and Government Business for her statement today. Bearing in mind that tomorrow is World Food Day, will you consider a statement on a cross-portfolio basis in terms of understanding what food means for people around the world, the differences in what we grow and eat and the cultural significance of food, with particular emphasis on Wales—there are so many wonderful examples of stuff that we produce—not only on what we grow, but also on what we use and waste? There is an increasing global impact from the rising cost of food and fuel, but we need a greater understanding of our own food security, bearing in mind that, worldwide, there are up to 1 billion who are at risk of hunger because of food shortages.
- Diolchaf i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth am ei datganiad heddiw. O gofio mai yfory yw Diwrnod Bwyd y Byd, a wnewch chi ystyried datganiad ar sail traws-bortffolio o ran deall yr hyn y mae bwyd yn ei olygu i bobl ledled y byd, y gwahaniaethau yn yr hyn yr ydym yn ei dyfu a'i fwyta ac arwyddocâd diwylliannol bwyd, gyda phwyslais arbennig ar Gymru—ceir cymaint o enghreifftiau gwych o bethau yr ydym ni'n eu cynhyrchu—nid yn unig o ran yr hyn yr ydym ni'n ei dyfu, ond hefyd ar yr hyn yr ydym ni'n ei ddefnyddio a'i wastraffu? Ceir effaith fyd-eang gynyddol o gost gynyddol bwyd a thanwydd, ond mae angen gwell dealltwriaeth arnom o'n diogelwch bwyd ein hunain, gan gofio bod hyd at 1 biliwn ledled y byd sydd mewn perygl o newyn oherwydd prinder bwyd.
- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. I know that the Minister for Natural Resources and Food gave a statement a few weeks ago, but I am sure that we all share the sentiment that you bring forward about the international day tomorrow.
- Diolch yn fawr. Gwn fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi cyflwyno datganiad ychydig wythnosau'n ôl, ond rwy'n siŵr ein bod i gyd yn rhannu'r safbwyntiau yr ydych chi'n eu cyflwyno am y diwrnod rhyngwladol yfory.

- 14:22 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the Minister for business join me in congratulating the British Council for the Takeover Cardiff event, which was launched on Saturday in the Senedd and was hosted by the Deputy Presiding Officer? It saw young people taking over major cultural venues in Cardiff, such as the Wales Millennium Centre, the library, Chapter arts centre and the national museum in order to show the artistic talents of young people. Would it be possible to have a debate about giving young people even greater opportunities in the arts and encouraging this sort of event?
- A wnaiff y Gweinidog busnes ymuno â mi i longyfarch y British Council ar y digwyddiad Takeover Cardiff, a lanswyd ddydd Sadwrn yn y Senedd gyda'r Dirprwy Lywydd yn estyn croeso? Gwelais bobl ifanc yn cymryd drosodd lleoliadau diwylliannol mawr yng Nghaerdydd, fel Canolfan Mileniwm Cymru, y llyfrgell, canolfan gelfyddydau Chapter a'r amgueddfa genedlaethol er mwyn dangos talentau artistig pobl ifanc. A fyddai'n bosibl cael dadl ynghylch rhoi hyd yn oed mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ym myd y celfyddydau ac annog y math hwn o ddiwyddiad?
- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I will certainly join you in congratulating the event. I know that it was a very successful event, hosted by the Deputy Presiding Officer here last Saturday. It is really important that young people know that their voices are heard and that they are able to be listened to. You will be aware of a great deal of work that is being undertaken by the Welsh Government at the moment across all portfolios in relation to young people.
- Gwnaf, rwyf yn sicr yn ymuno â chi i longyfarch y digwyddiad. Rwy'n gwybod ei fod yn ddiwyddiad llwyddiannus iawn, a gyda'r Dirprwy Lywydd yn estyn croeso yma ddydd Sadwrn diwethaf. Mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn gwybod bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt. Byddwch yn ymwybodol o lawer iawn o waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar draws pob portffolio ynglŷn â phobl ifanc.
- 14:23 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, roeddwn yn gwrandao ar ateb y Prif Weinidog i gwestiwn Leanne Wood ar y Bil sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd a phlisma. Roedd ef yn glir iawn y byddai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei dderbyn fel y mae wedi'i eirio, yn tynnu pwerau oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn ei meddiant, yn enwedig ym myd addysg ac iechyd. A gredwch y dylem gael trafodaeth lawn yn y Cynulliad ynglŷn â pha mor bell yr ydym am fynd ar y mater hwn? A oes consensws yn y man hwn bod angen datganoli'r holl system gyfiawnder troseddol? A oes rhai sy'n credu y gallem fynd cam tuag at hynny drwy ddatganoli cyfrifoldeb dros blisma yng Nghymru? A yw'r materion hyn, ym marn Llywodraeth Cymru, yn bethau y dylem ei drafod yn y man hwn er mwyn sicrhau beth yn union yw barn Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
- Minister, I listened to the First Minister's response to Leanne Wood's question on the Bill currently going through Parliament in Westminster on anti-social behaviour, crime and policing. He was very clear that this Bill, if it were to be passed as currently drafted, would take powers away from the Welsh Government that it currently has, particularly in the areas of education and health. Do you believe that we should have a full debate in the Assembly on how far we want to go on this particular issue? Is there consensus here that we need to devolve the whole criminal justice system? Are there some who believe that we could take a step towards that by devolving responsibility for policing to Wales? Are these issues, in the view of the Welsh Government, things that we should discuss in this place to establish exactly what the view of the National Assembly for Wales is?
- 14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the question and you are right, we did hear the First Minister making his position very clear. He said that he will raise the issue again tomorrow with the Prime Minister when he attends the meeting of the joint ministerial council. The First Minister produced a written statement last week and I have written to Damian Green, the relevant Minister. You talked about the issues around devolution and we will have many debates about the process in the Chamber as we go forward.
- Diolch am y cwestiwn ac rydych chi'n iawn, fe glywsom y Prif Weinidog yn gwneud ei safbwynt yn eglur iawn. Dywedodd y bydd yn codi'r mater eto yfory gyda Phrif Weinidog y DU pan fydd yn mynd i gyfarfod y cydgyngor gweinidogion. Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, ac rwyf wedi ysgrifennu at Damian Green, y Gweinidog perthnasol. Soniasoch am y materion yn ymwneud â datganoli a byddwn yn cael llawer o ddadleuon ynglŷn â'r broses yn y Siambr wrth i ni symud ymlaen.

14:24

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, concerns have been raised over the issue of the bedroom tax on a number of occasions in the Chamber. In the UK Parliament last week the shadow Secretary of State for Wales, Owen Smith, asked the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, Stephen Crabb, to confirm for the record whether or not Wales is hit harder than any other part of the UK. In his reply he said that Wales is not harder hit than other parts of the UK. However, the Government's own statistics show that 46% of households in social housing in Wales have been hit compared with 31% in the UK. This has also been confirmed by the chair of the Welsh Affairs Committee, David T.C. Davies, who said that the bedroom tax is not working. Does the Minister share my concerns about the apparent lack of factual knowledge of the Wales Office Ministers of the true situation in Wales? Will she be writing to the Wales Office to ask it to ensure that they understand precisely what is happening in Wales when they answer these questions?

Weinidog, mae pryderon wedi eu codi am fater y dreth ystafell wely ar sawl achlysur yn y Siambr. Yn Senedd y DU yr wythnos diwethaf, gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru, Owen Smith, i Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb, gadarnhau ar gyfer y cofnod a yw Cymru'n cael ei heffeithio mwy nag unrhyw ran arall o'r DU ai peidio. Yn ei ateb, dywedodd nad yw Cymru yn cael ei heffeithio mwy na rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae ystadegau'r Llywodraeth ei hun yn dangos bod 46% o aelwydydd mewn tai cymdeithasol yng Nghymru wedi eu heffeithio o'i gymharu â 31% yn y DU. Cadarnhawyd hyn hefyd gan gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, David T.C. Davies, a ddywedodd nad yw'r dreth ystafell wely yn gweithio. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryderon ynghylch y diffyg amlwg o ran gwybodaeth ffeithiol Gweinidogion Swyddfa Cymru am y sefyllfa wirioneddol yng Nghymru? A fydd hi'n ysgrifennu at Swyddfa Cymru i ofyn iddi sicrhau eu bod yn deall yn union beth sy'n digwydd yng Nghymru pan fyddant yn ateb y cwestiynau hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague Jeff Cuthbert, the Minister for Communities and Tackling Poverty, within whose portfolio this falls, raised this at the last joint ministerial committee. The Minister has also written to the UK Government raising these concerns with the appropriate Ministers. I think that we are all concerned about the lack of up-to-date information being received by the Department for Work and Pensions. For instance, its last impact assessment on the bedroom tax was 15 months ago, on 28 June 2012. Certainly, the research that I have seen recently from the University of York has said that the savings intended were £480 million, but that it is more likely to be £190 million. So, as you say, it is certainly not working.

Cododd fy nghydwethiwr Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y mae hyn yn rhan o'i bortffolio, y mater hwn yn y cydbwyllgor gweinidogion diwethaf. Mae'r Gweinidog hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn codi'r pryderon hyn gyda'r Gweinidogion priodol. Credaf ein bod i gyd yn pryderu am y diffyg gwybodaeth gyfredol sy'n cael ei derbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er enghraifft, cynhaliwyd ei asesiad effaith olaf ar y dreth ystafell wely 15 mis yn ôl, ar 28 Mehefin 2012. Yn sicr, mae'r gwaith ymchwil yr wyf wedi ei weld yn ddiweddar gan Brifysgol Caerefrog wedi dweud mai £480 miliwn oedd yr arbedion a fwriadwyd, ond eu bod yn fwy tebygol o fod yn £190 miliwn. Felly, fel y dywedwch, mae'n bendant nad yw'n gweithio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would be grateful if you could please ask the Minister for Health and Social Services to bring forward a statement on the delivery of orthodontic services as soon as possible. I received a letter from the chief executive of the Hywel Dda Local Health Board confirming that the current waiting time for primary care orthodontic assessment is three years. I am sure that the Minister for Government business will agree that this is an appalling situation, and that action needs to be taken. In the circumstances, therefore, I would be grateful if she could ask the Minister for Health and Social Services to bring forward a statement as soon as possible to tell us what the Welsh Government is doing to tackle this unacceptable situation.

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau orthodontig cyn gynted â phosibl. Derbyniais lythyr gan brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cadarnhau mai tair blynedd yw'r amser aros presennol ar gyfer asesiad orthodontig gofal sylfaenol. Rwy'n siŵr y bydd Gweinidog busnes y Llywodraeth yn cytuno bod hon yn sefyllfa warthus, a bod angen gweithredu. Dan yr amgylchiadau, felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl i ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r sefyllfa annerbyniol hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware that orthodontic services have been a cause of concern in Hywel Dda, but you are quite right—three years is a very long time for somebody to wait for orthodontic services. I am sure that the Minister has heard you and perhaps will write to you in due course when he has taken the issue up further.

Rwy'n ymwybodol bod gwasanaethau orthodontig wedi bod yn achos o bryder yn Hywel Dda, ond rydych chi yn llygad eich lle—mae tair blynedd yn amser hir iawn i rywun aros am wasanaethau orthodontig. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi eich clywed chi ac efallai y bydd yn ysgrifennu atoch maes o law pan fydd wedi ymchwilio i'r mater ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Today the National Osteoporosis Society has launched a new campaign called Stop at One to raise awareness of the link between fractures and bone fragility, following the news that a fifth of women have three or more fractures before they receive a diagnosis of osteoporosis. I would welcome a statement providing an update on the diagnosis of the condition and its long-term management, access to fracture liaison services and efforts to help people prevent osteoporosis in the first place.

Heddiw, mae'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol wedi lansio ymgyrch newydd o'r enw Stop at One i godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng torri esgyrn a breuder esgyrn, yn dilyn y newyddion bod un o bob pump o fenywod yn dioddef tri neu fwy o achosion o dorri esgyrn cyn cael diagnosis o osteoporosis. Byddwn yn croesawu datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiagnosis y cyflwr a'r modd y'i rheolir yn y tymor hir, mynediad at wasanaethau cyswllt ar ôl torri esgyrn a'r ymdrechion i helpu pobl atal osteoporosis yn y lle cyntaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Health and Social Services obviously expects local health boards to deliver services for osteoporosis sufferers, in line with service standards set out by the National Institute for Health and Care Excellence, and also in the national service framework for older people, which the Minister and the Deputy Minister launched back in July of this year. The framework is currently out to public consultation and that ends on 31 October, so the end of this month. Perhaps that would be an appropriate time to bring forward further information.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlwg yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o osteoporosis, yn unol â'r safonau gwasanaeth a nodir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Gofal, a hefyd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn, a lanswyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn ôl ym mis Gorffennaf eleni. Mae'r fframwaith yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, ac mae hwnnw'n dod i ben ar 31 Hydref, felly diwedd y mis hwn. Efallai y byddai hwnnw'n amser priodol i gyflwyno mwy o wybodaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements: first, a statement on the work that the Welsh Government is doing with third sector providers supporting people with addictions. This follows the welcome news that Livingroom in Cardiff, the major community-based recovery centre for Cardiff and south Wales, is merging with north Wales-based CAIS, the drug and alcohol rehabilitation charity for north Wales and Powys, to create one of Wales's largest addiction therapy providers.

Galwaf am ddau ddatganiad: yn gyntaf, datganiad am y gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda darparwyr trydydd sector sy'n cefnogi pobl sy'n gaeth i sylweddau. Mae hyn yn dilyn y newyddion da bod y 'Stafell Fyw yng Nghaerdydd, y brif ganolfan gwella yn y gymuned ar gyfer Caerdydd a de Cymru, yn uno gyda CAIS, sydd wedi'i leoli yng ngogledd Cymru, sef yr elusen aisefydlu, yn dilyn bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol, ar gyfer gogledd Cymru a Phowys, i greu un o ddarparwyr therapi dibyniaeth mwyaf Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

My second and final request is for a statement on cross-border health services. As you will be aware, north-east Wales has a long history of being part of a health delivery region with north-west England, exemplified by the Countess of Chester Hospital built 30 years ago to provide services in Flintshire as well as north-west England. We need to know how the Welsh Government proposes to deal with concerns that, for example, providers in the north-west are seeing referrals for elective treatment from north Wales reduced or cancelled, and are concerned that the health board is pulling back activity without capacity, emphasising that they can collaborate—their delivery is based on collaboration—and, putting the patient first, they want to contribute to a model that provides quicker, better and more effective care, on a genuine cross-border partnership.

Mae fy ail gais, a'r olaf, am ddatganiad ar wasanaethau iechyd trawsffiniol. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae gan ogledd-ddwyrain Cymru hanes maith o fod yn rhan o ranbarth darparu iechyd gyda gogledd-orllewin Lloegr, ac mae Ysbyty Iarlles Caer, a adeiladwyd 30 mlynedd yn ôl i ddarparu gwasanaethau yn Sir y Fflint yn ogystal â gogledd-orllewin Lloegr, yn enghraifft o hyn. Mae angen i ni wybod sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymdrin â phryderon, er enghraifft, bod darparwyr yng ngogledd-orllewin Lloegr yn gweld atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth ddewisol o ogledd Cymru yn cael eu lleihau neu eu canslo, a'u bod yn pryderu bod y bwrdd iechyd yn lleihau gweithgarwch pan nad yw'r gallu ganddynt eu hunain, gan bwysleisio eu bod yn gallu cydweithredu—mae eu darpariaeth yn seiliedig ar gydweithredu—a, drwy roi'r claf yn gyntaf, maen nhw eisiau cyfrannu at fodel sy'n darparu gofal cyflymach, gwell a mwy effeithiol, mewn partneriaeth traws-ffiniol wirioneddol.

- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In relation to your first question, regarding the work undertaken by the third sector, there is a great deal of work being undertaken in relation to substance misuse, and I am sure that you welcome the collaboration to which you referred. Betsi Cadwaladr University Local Health Board is responsible for ensuring that all patients in its area are treated in the most appropriate manner. As far as I am aware, there are no differences to cross-border treatment—no changes have been brought forward at all.
- O ran eich cwestiwn cyntaf, ynghylch y gwaith a wnaed gan y trydydd sector, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau, ac rwy'n siŵr eich bod yn croesawu'r cydweithrediad y cyfeiriasoch ato. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl gleifion yn ei ardal yn cael eu trin yn y ffordd fwyaf priodol. Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes unrhyw wahaniaethau i driniaeth traws-ffiniol—ni wnaed unrhyw newidiadau o gwbl.
- 14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Shwmae, Ddirprwy Lywydd?
- I wish to ask the Minister for a statement on the governance of sporting clubs, so that those of us who are supporters of Cardiff City Football Club can express our support for the genuine work that is going on behind the scenes to introduce proper processes of corporate governance in that club. As a founder member of the Cardiff City Supporters' Trust, may I also echo the words of the supporters' trust today, that Malky Mackay is one of the best managers that our club has ever had, and I was delighted to be able to welcome him and the players to the Senedd in May?
- Shwmae, Deputy Presiding Officer?
- Hoffwn ofyn i'r Gweinidog am ddatganiad ar lywodraethu clybiau chwaraeon, fel y gall y rhai hynny ohonom sy'n cefnogi Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd roi ein cefnogaeth i'r gwaith diamheuol sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni i gyflwyno prosesau llywodraethu corfforaethol priodol yn y clwb hwnnw. Fel un o sylfaenywyr Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd, a gaf fi hefyd ailadrodd geiriau ymddiriedolaeth y cefnogwyr heddiw, mai Malky Mackay yw un o'r rheolwyr gorau a fu yn ein clwb erioed, ac roeddwn wrth fy modd i allu ei groesawu ef a'r chwaraewyr i'r Senedd yn mis Mai?
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Leighton Andrews for that question, and I know that that was a very heartfelt plea, which we have all heard. I know that the Minister for Culture and Sport is doing a great deal of work with supporters directly, and with co-operatives. As someone who is a member of Wrexham Supporters' Trust, I know of the importance of that. However, I think that we have all heard your comments today, and I am sure that the Minister will respond as appropriate.
- Diolchaf i Leighton Andrews am y cwestiwn yna, ac rwy'n gwybod bod hwnna'n gri o'r galon, yr ydym ni i gyd wedi ei chlywed. Gwn fod y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn gwneud llawer iawn o waith gyda chefnogwyr yn uniongyrchol, a chyda mentrau cydweithredol. Fel rhywun sy'n aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam, rwy'n ymwybodol o bwysigrwydd hynny. Fodd bynnag, rwy'n credu ein bod i gyd wedi clywed eich sylwadau heddiw, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymateb yn y modd priodol.
- 14:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I say that it ill behoves the Conservative group to shout from a seated position, when other Members are seeking to put points to the Minister for business? I have six of you down to be called on this business statement, and I really do not think that you ought to undermine other Members who want matters of public concern to be addressed by the Minister for business, on behalf of the Government, just as you are now making your points, six times. I call on Russell George.
- A gaf fi ddweud nad yw'n dderbyniol i'r grŵp Ceidwadol weiddi o'u heistedd, pan fydd Aelodau eraill yn ceisio gwneud pwyntiau i'r Gweinidog busnes? Mae gen i chwech ohonoch chi i'w galw ar y datganiad busnes hwn, ac nid wyf wir yn meddwl y dylech danseilio Aelodau eraill a hoffai i'r Gweinidog busnes fynd i'r afael â materion sydd o bwys i'r cyhoedd, ar ran y Llywodraeth, yn union fel yr ydych chi'n gwneud eich pwyntiau, chwe gwaith, nawr. Galwaf ar Russell George.

14:32

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Will the Minister please consider bringing forward a statement on how the Welsh Government is progressing with its implementation of its human transplantation legislation? Several constituents have contacted me over the summer months, deeply concerned about how this new law will be implemented and how they will be affected. One said, 'It's an invasion and violation of the privacy of my body'. Another said that it was tantamount to organ theft. In all of these cases, what they want to know is what the earliest possible opportunity to opt out of this process will be, and how they can go about doing that. I am quite sure that my constituents will not be alone in wanting to know this information, and the Welsh public has a right to be kept informed of its progress. Therefore, I hope that the Minister, and her colleague the Minister for Health and Social Services, will look favourably on this request.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno datganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn dod yn ei blaen â gweithrediad ei deddfwriaeth trawsblannu dynol? Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi dros fisoedd yr haf, yn poeni'n fawr am sut y bydd y gyfraith newydd yn cael ei gweithredu a sut y byddant yn cael eu heffeithio. Dywedodd un, 'Mae'n ymosodiad ac yn amharu ar breifatrwydd fy nghorff'. Dywedodd un arall ei bod yn gyfystyr â dwyn organau. Ym mhob un o'r achosion hyn, yr hyn y maen nhw eisiau ei wybod yw pryd fydd y cyfle cyntaf posibl i optio allan o'r broses hon, a sut y gallan nhw fynd ati i wneud hynny. Rwy'n eithaf siŵr nad dim ond fy etholwyr i fydd eisiau cael y wybodaeth hon, ac mae gan y cyhoedd yng Nghymru hawl i gael ei hysbysu am y cynnydd. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, a'i chydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn edrych yn ffafriol ar y cais hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will be aware that the Human Transplantation (Wales) Bill completed its stages in this place in July, and that it became law on 10 September, when the First Minister applied the Welsh seal. You will also be aware that the Minister for Health and Social Services, on taking that piece of legislation through, committed to a two-year media campaign, to ensure that everyone who lives in Wales understands the Bill. Therefore, we expect the new system for consent to be introduced on 1 December 2015. That will be the time when people who choose to opt out can do so.

Byddwch yn ymwybodol bod Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) wedi cwblhau ei gamau yn y lle hwn ym mis Gorffennaf, ac y daeth yn gyfraith ar 10 Medi, pan roddodd y Prif Weinidog y sêl Gymreig. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth gyflwyno'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth, wedi ymrwymo i ymgyrch ddwy flynedd yn y cyfryngau, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n byw yng Nghymru yn deall y Bil. Felly, rydym ni'n disgwyl i'r system ganiatâd newydd gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015. Dyna'r adeg pan fydd pobl sy'n dewis optio allan yn gallu gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y Llywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 14:33.

The Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 14:33.

14:34

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is not very often that I say that I agree with Leighton Andrews, but I am pleased to say that I do agree with Leighton Andrews's previous intervention.

Is it possible to have two statements from the Minister for Health and Social Services? The first statement that I ask for is in respect of the implementation of the Mental Health (Wales) Measure 2010 that was passed by the third Assembly, and its implementation by the health boards, and in particular around the issue of governance and the director-level responsibility. It was firmly given in the third Assembly that the vice-chairs of the health boards would clearly be responsible for the mental health Measure in the health boards. However, I would be most grateful now—some three years on from the adoption of that Measure—to know how it has been implemented, and, in particular, how the health boards, at executive level, are implementing the improvements that we all want to see from that Measure.

Nid yn aml iawn yr wyf yn dweud fy mod yn cytuno â Leighton Andrews, ond rwy'n falch o ddweud fy mod yn cytuno ag ymyriad blaenorol Leighton Andrews.

A yw'n bosibl cael dau ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? Mae'r datganiad cyntaf rwy'n gofyn amdano yn ymwneud â gweithredu Bil Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a basiwyd gan y trydydd Cynulliad, a'i weithrediad gan y byrddau iechyd, ac yn enwedig y mater o lywodraethu a chyfrifoldeb ar lefel cyfarwyddwr. Nodwyd yn gadarn yn y trydydd Cynulliad y byddai is-gadeiryddion y byrddau iechyd yn amlwg yn gyfrifol am y Mesur iechyd meddwl yn y byrddau iechyd. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar iawn nawr—tua tair blynedd ar ôl mabwysiadu'r Mesur hwnnw—o gael gwybod sut y'i rhoddwyd ar waith, ac, yn enwedig, sut y mae'r byrddau iechyd, ar lefel weithredol, yn cyflawni'r gwelliannau yr ydym ni i gyd yn dymuno eu gweld yn sgil y Mesur hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I wish to call for a second statement from the Minister for health in regard to exceptions. Very often, where people are denied access to medication, and, in particular, new technology drugs—if I can call them that—that have not been approved by NICE are referred to the exceptions process. This is very varied around the health boards; it is greatly improved from what it was five or six years ago, but there is still considerable discrepancy in the level of uptake via the exceptions, and in particular, the information that is provided to patients when they are referred into that process. I would be grateful for an overview from the Minister as to how he sees that process being engaged with, and if there is need for improvement.

Hoffwn alw am ail ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ynglŷn ag eithriadau. Yn aml iawn, pan wrthodir mynediad at feddyginiaeth i bobl, ac, yn arbennig, cyffuriau technoleg newydd—os caf eu galw'n hynny—nad ydynt wedi eu cymeradwyo gan NICE, fe'u cyfeirir at y broses eithriadau. Mae hyn yn amrywio'n helaeth ymysg y byrddau iechyd; mae'n llawer gwell nag yr oedd bump neu chwe blynedd yn ôl, ond mae anghysondeb sylweddol o hyd o ran y nifer sy'n derbyn drwy'r eithriadau, ac yn enwedig, y wybodaeth a ddarperir i gleifion pan gânt eu hatgyfeirio i'r broses honno. Byddwn yn ddiolchgar am drosolwg gan y Gweinidog o ran sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r broses honno, ac a oes angen gwella.

14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you. In relation to the mental health Measure, the vice-chairs are responsible. Certainly, during my time as Minister for Health and Social Services, I attended several events where the vice-chairs were in attendance to discuss those issues. In response to the exceptions, you are obviously talking about individual patient funding requests. Again, I know that workshops were held to ensure that there was consistency from clinicians who were considering these individual patient funding requests to make sure, as I say, that there was consistency coming forward.

Diolch yn fawr. O ran y Mesur iechyd meddwl, yr is-gadeiryddion sy'n gyfrifol. Yn sicr, yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mynychais nifer o ddigwyddiadau lle'r oedd yr is-gadeiryddion yn bresennol i drafod y materion hynny. Gan ymateb i'r eithriadau, rydych chi'n amlwg yn sôn am geisiadau cyllido cleifion unigol. Unwaith eto, rwy'n gwybod y cynhaliwyd gweithdai i sicrhau bod cysondeb gan glinigwyr a oedd yn ystyried y ceisiadau cyllido cleifion unigol i wneud yn siŵr, fel y dywedais, fod cysondeb wrth symud ymlaen.

14:36 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I wonder whether we can have an update on the Government's city region policy. The Minister for Economy, Science and Transport accompanied me—I will rephrase that—came along to the Monmouthshire business awards on Friday and was very impressed by the businesses that were there and that were doing very well. However, there was a concern coming from many of those businesses about how the city region policy ties in with the rural hinterland and how the benefits of the metro can be rolled out into rural areas. I know you that she took that on board.

Tybed a allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisi rhanbarth dinas y Llywodraeth. Daeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyda mi—fe wnaif aralleirio hynna—daeth i wobrau busnes Sir Fynwy ddydd Gwener a gwnaeth y busnesau a oedd yno, ac sy'n gwneud yn dda iawn, gryn argraff arni. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan lawer o'r busnesau hynny ynghylch sut y mae'r polisi rhanbarth dinas yn cyd-fynd â'r gefnwlad wedig a sut y gellir cyflwyno manteision y metro i ardaloedd gwledig. Rwy'n ymwybodol eich bod yn gwybod iddi gymryd sylw o hynny.

Secondly, could we have a debate or a statement from the Minister for Culture and Sport on how we can better protect and promote our sites of historic importance? I was recently at the launch of 'The Lost Lake' by a local Monmouth archaeologist from my constituency, Stephen Clarke, who has discovered the only example of prehistoric boat building anywhere in Europe. Sadly, the site has since been destroyed because Cadw did not recognise its importance quickly enough. I am sure you would agree that that is something that we do not want to happen in future and that we have a lot of very important sites in Wales that could be lost simply because no-one really knows about them quickly enough.

Yn ail, a allem ni gael dadl neu ddatganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar sut y gallwn ddiogelu a hyrwyddo ein safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol yn well? Yn ddiweddar, roeddwn i yn lansiad 'The Lost Lake' gan archeolegydd lleol yn Nhrefynwy yn fy etholaeth i, sef Stephen Clarke, sydd wedi darganfod yr unig enghraifft o adeiladu cychod cynhanesyddol mewn unrhyw le yn Ewrop. Yn anffodus, mae'r safle wedi ei ddinistrio ers hynny gan na chydabuwyd ei bwysigrwydd yn ddigon cyflym gan Cadw. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod hynny'n rhywbeth nad ydym eisiau ei weld yn digwydd yn y dyfodol a bod gennym lawer o safleoedd pwysig iawn yng Nghymru y gellid eu colli dim ond gan nad oes neb wir yn gwybod amdany'n nhw'n ddigon cyflym.

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for that question. The Minister for Economy, Science and Transport will be happy to give an update on city regions after the October recess. In relation to your second question, you raise a very important issue and it is something that the Minister for Culture and Sport is looking to address within the heritage Bill.

Diolch am y cwestiwn yna. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn hapus i roi diweddariad ar ranbarthau dinas ar ôl toriad mis Hydref. O ran eich ail gwestiwn, rydych chi'n codi mater pwysig iawn ac mae'n rhywbeth y mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn y Bil treftadaeth.

Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor

Cynnig NNDM5335 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ann Jones (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn lle Ken Skates (Labour).

Motion to Elect a Member to a Committee

Motion NNDM5335 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Ann Jones (Labour) as a member of the Scrutiny of the First Minister Committee in place of Ken Skates (Labour).

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business
I move the motion.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiad y cynnig.

14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

14:38 **Datganiad: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)**

Statement: Introduction of the Control of Horses (Wales) Bill

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Presiding Officer, yesterday I laid before the National Assembly for Wales, the Control of Horses (Wales) Bill together with an explanatory memorandum. I also issued a written legislative statement. The Bill provides the legislative tool required to give effect to the Welsh Government's vision of a fly-grazing-free Wales.

Llywydd, ddoe gosodais Fil Rheoli Ceffylau (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â memorandwm esboniadol. Cyhoeddais ddatganiad deddfwriaethol ysgrifenedig hefyd. Mae'r Bil yn darparu'r offeryn deddfwriaethol sydd ei angen i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau na cheir dim pori anghyfreithlon yng Nghymru.

'Fly-grazing and abandonment' is the common term given to the practice by irresponsible horse owners of intentionally or negligently permitting their horses to graze on land where they do not have the consent of the owner. We have seen over recent years horses left to graze on public and private land, including school and hospital grounds, leading to horses causing destruction of property, alarm and danger to the public, as well as chaos on the public highway. The actual number of incidents is difficult to quantify, but what is clear is that agencies dealing with the issue are seeing an increase in reported occurrences, especially during the winter months. The number of reported incidents recorded during 2012 rose by more than 200% over the same period in 2011.

'Pori anghyfreithlon a gadael' yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio arfer y rhai anghyfrifol hynny sy'n berchen ar geffylau o ganiatáu, yn fwriadol neu'n esgeulus, i'w ceffylau bori ar dir lle nad oes ganddynt ganiatâd y perchennog. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ceffylau'n cael eu gadael i bori ar dir cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys tir ysgolion ac ysbytai, a'r ceffylau'n dinistrio eiddo, yn peri ofn a pherygl i'r cyhoedd, ac yn achosi anhrefn ar y briffordd gyhoeddus. Mae'n anodd mesur union nifer yr achosion, ond yr hyn sy'n amlwg yw bod asiantaethau sy'n ymdrin â hyn yn gweld cynnydd yn nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Cynyddodd nifer yr achosion a gofnodwyd yn ystod 2012 dros 200% o gymharu â'r un cyfnod yn 2011.

The increase in numbers also raises concerns around public safety, particularly when the already stretched police, fire and rescue services' resources are diverted from their other important duties. Fly-grazing is particularly prevalent in south Wales along the M4 corridor, although there is evidence that the problem is increasing in other local authority areas, with reports being received from Dyfed Powys and Gwent police forces, as well as local authorities covering mid Wales.

Mae'r cynnydd yn y niferoedd hefyd yn codi pryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd, yn enwedig pan fo adnoddau'r heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub, sydd eisoes wedi'u hymestyn, yn cael eu dargyfeirio oddi wrth eu dyletswyddau pwysig eraill. Mae pori anghyfreithlon yn arbennig o gyffredin yn y de ar hyd coridor yr M4, er bod tystiolaeth fod y broblem yn cynyddu yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol eraill; cafodd heddluoedd Dyfed Powys a Gwent adroddiadau am hyn, yn ogystal ag awdurdodau lleol yn y canolbarth.

Local authorities are largely responsible for the enforcement of current legislation, although the police have powers relating to obstruction of the highway and any associated criminal damage. The fly-grazed horses are often difficult to identify in terms of ownership and are placed on land that is then quickly stripped of available grazing. These same horses are often removed as quickly as they appear, leaving landowners or local authorities with significant bills to repair the damage caused. In some cases, the horses are abandoned with no feed and with no water or shelter, simply to fend for themselves or to perish.

There are three local authority Acts that apply to certain local authorities —the Mid Glamorgan Act 1987, the Cardiff City Council Act 1984 and the West Glamorgan Act 1987. Other authorities that do not have the benefit of these Acts have to deal with the problem through the use of other legislation, none of which provides an effective solution, and which only partly address the issue. Consequently, there is no consistent approach across Wales.

Responses we received as a result of the consultation I issued earlier this year from members of the public, local authorities, the police and animal welfare charities have shown that the current legislation is inadequate. There are two major shortcomings. First, the majority of the horses found are unidentified, which makes it very difficult for the local authority to link that horse with its owner and take legal action. Secondly, the powers to seize, impound and dispose of horses in a humane manner are available only to those local authority areas that are covered by the three local Acts I have mentioned.

Presiding Officer, in bringing forward this Bill, I hope Members will share with me my desire to provide local authorities for the first time with the appropriate tools to deal with the issue of fly-grazing and abandonment of horses. In doing so, we will remove much of the costly, resource-intensive and unsustainable economic burden that has fallen on local authorities, the emergency services, animal welfare charities and members of the public.

This Bill aims to assist local authorities in the management of horses by providing for intervention where horses are in public places or on other land without the consent of the occupier of that land and thereby encourage responsible horse ownership. The Bill proposes a national solution to enable local authorities across Wales to deliver a response that is both consistent and robust, and in so doing to remove much of the impact that the nuisance of fly-grazing and the abandonment of horses has on landowners, the agricultural industry and communities across Wales.

Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am orfodi deddfwriaeth gyfredol, er bod gan yr heddlu bwerau sy'n ymwneud â rhwystrau ar briffyrdd ac unrhyw ddfrod troseiddol cysylltiedig. Mae'n aml yn anodd adnabod y ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon o ran perchenogaeth ac maent yn aml yn cael eu rhoi ar dir sy'n cael ei bori i ddim yn gyflym. Yn aml, caiff y ceffylau hyn eu symud yr un mor gyflym ag y maent yn ymddangos, gan adael biliâu sylweddol i dirfeddianwyr neu awdurdodau lleol i atgyweirio'r difrod a achoswyd. Mewn rhai achosion, caiff y ceffylau eu gadael heb ddim bwyd, dŵr na chysgod, a rhaid iddynt ofalu amdanynt eu hunain neu farw.

Mae tair Deddf awdurdod lleol sy'n berthnasol i rai awdurdodau lleol penodol—Deddf Morgannwg Ganol 1987, Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 a Deddf Gorllewin Morgannwg 1987. Rhaid i awdurdodau eraill nad yw'r Deddfau hyn yn berthnasol iddynt ddefnyddio deddfwriaeth arall i ymdrin â'r broblem. Nid yw'r ddeddfwriaeth arall hon yn cynnig ateb effeithiol, a dim ond yn rhannol y mae'n ymdrin â'r mater dan sylw. O ganlyniad, nid oes ymagwedd gyson ledled Cymru.

Mae'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad a gyhoeddais yn gynharach eleni oddi wrth aelodau o'r cyhoedd, awdurdodau lleol, yr heddlu ac elusennau lles anifeiliaid yn dangos bod y ddeddfwriaeth bresennol yn annigonol. Mae dau brif wendid. Yn gyntaf, nid oes modd adnabod y rhan fwyaf o'r ceffylau y ceir hyd iddynt, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i'r awdurdod lleol gysylltu'r ceffyl hwnnw â'i berchennog a chymryd camau cyfreithiol. Yn ail, dim ond yn ardaloedd yr awdurdodau lleol lle mae'r tair Deddf leol yr wyf wedi'u crybwyll mewn grym y mae pwerau ar gael i ymfael mewn ceffylau, eu cadw a'u gwaredu heb greulondeb.

Lywydd, wrth gyflwyno'r Bil hwn, rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n rhannu fy awydd i roi'r offer priodol i awdurdodau lleol am y tro cyntaf i ymdrin â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau. Wrth wneud hynny, byddwn yn cael gwared ar lawer o'r baich economaidd costus, anghynladwy sy'n defnyddio cynifer o adnoddau awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, elusennau lles anifeiliaid ac aelodau'r cyhoedd.

Nod y Bil hwn yw cynorthwyo awdurdodau lleol i reoli ceffylau drwy ddarparu ar gyfer ymyriadau lle mae ceffylau mewn mannau cyhoeddus neu ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir, a thrwy hynny, hyrwyddo perchenogaeth gyfrifol ar geffylau. Mae'r Bil yn cynnig ateb cenedlaethol er mwyn i awdurdodau lleol ledled Cymru allu darparu ymateb cyson a chadarn, a thrwy wneud hynny, gael gwared ar lawer o effaith niwsans pori anghyfreithlon a gadael ceffylau ar dirfeddianwyr, ar y diwydiant amaethyddol ac ar gymunedau ledled Cymru.

The Bill will provide all local authorities with the power to seize, impound, sell and dispose of horses that are in any public place or on any other land in the local authority area without lawful authority. The Bill will impact upon: horse owners or keepers that behave irresponsibly by not acting in compliance with existing law; local authorities, who, for the first time, will have consistent powers to seize, impound and dispose of horses on land without the consent of the occupier; and occupiers of land where horses are on that land or in public places without the occupier's consent, in particular where the ownership of a horse is difficult to establish.

Presiding Officer, the Welsh Government's policy objective is to work towards a fly-grazing-free Wales. Fly-grazing is a practice that creates social, economic and environmental harm and threatens public safety. We believe that this legislation will provide local authorities with the tools to deliver a clear and consistent approach to tackle fly-grazing, delivering the message that it will no longer be tolerated anywhere in Wales.

To coincide with the laying of the Bill, I am today pleased to announce the publication of the Welsh Government's action plan. The fly-grazing and abandonment of horses and ponies action plan has been published in response to a number of suggestions that were made during our consultation on the need for a national solution to the problem. Our action plan sets out how, working with other interested parties, we propose to deal with the related issues. Suggestions include, among other things, improved education and awareness, especially on horse breeding and ownership, and stricter equine identification laws. The action plan will sit alongside the Bill to assist local authorities and other stakeholders and partners through a holistic approach to dealing with the issue of fly-grazing and horse abandonment.

The Bill has been welcomed by local authorities across Wales, as well as animal welfare organisations and horse charities, where resources and space within rescue centres is severely limited, due in no small part to the problem of abandoned horses. Over the last three years, many establishments such as the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, World Horse Welfare and Redwings have seen a sharp increase in horses needing to be rehomed. These organisations see the benefit of a national approach and, for local authorities, it means being able to act faster, to save money and to recoup costs.

Presiding Officer, I commend this Bill to the Assembly.

Bydd y Bil yn rhoi pŵer i bob awdurdod lleol i ymfael mewn ceffylau, eu cadw a'u gwaredu os ydynt mewn man cyhoeddus neu ar unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol heb ganiatâd cyfreithlon. Bydd y Bil yn effeithio ar berchnogion neu geidwaid ceffylau sy'n ymddwyn yn anghyfrifol drwy beidio â chydymffurfio â'r gyfraith bresennol; awdurdodau lleol, a fydd, am y tro cyntaf, yn cael pwerau cyson i ymfael mewn ceffylau, eu cadw a'u gwaredu os ydynt ar dir heb ganiatâd y meddiannydd; a thirfeddianwyr y mae ceffylau ar eu tir neu mewn mannau cyhoeddus heb ganiatâd y meddiannydd, yn enwedig lle mae'n anodd dweud pwy yw perchennog y ceffyl.

Lywydd, amcan polisi Llywodraeth Cymru yw gweithio tuag at greu Cymru heb ddim pori anghyfreithlon. Mae pori anghyfreithlon yn arfer sy'n creu niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac sy'n bygwth diogelwch y cyhoedd. Credwn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r arfau i awdurdodau lleol i ddarparu dull clir a chyson o ymdrin â phori anghyfreithlon, gan anfon neges na chaiff ei oddef mwyach yn unman yng Nghymru.

I gyd-fynd â gosod y Bil, rwyf heddiw'n falch o ddweud y caiff cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi. Mae'r cynllun gweithredu ar bori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod wedi ei gyhoeddi yn sgil nifer o awgrymiadau a wnaed yn ystod ein hymgyngoriad am yr angen i ddod o hyd i ateb cenedlaethol i'r broblem. Mae ein cynllun gweithredu'n nodi sut yr ydym, drwy weithio gyda phartion eraill sydd â diddordeb, yn bwriadu ymdrin â'r materion cysylltiedig. Ymhlith rhai o'r awgrymiadau mae gwell addysg ac ymwybyddiaeth, yn enwedig o ran bridio ceffylau a pherchnogaeth, a deddfau llymach ar gyfer adnabod ceffylau. Bydd y cynllun gweithredu'n mynd ochr yn ochr â'r Bil i gynorthwyo awdurdodau lleol a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill drwy ddull cyfannol o ymdrin â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau.

Mae'r Bil wedi ei groesawu gan awdurdodau lleol ledled Cymru, yn ogystal â sefydliadau lles anifeiliaid ac elusennau ceffylau, lle mae adnoddau a lleoedd mewn canolfannau achub yn gyfyngedig iawn, a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i broblem ceffylau wedi'u gadael. Dros y tair blynedd diwethaf, mae llawer o sefydliadau megis y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, World Horse Welfare a Redwings wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y ceffylau y mae angen eu hailgartrefu. Mae'r sefydliadau hyn yn gweld manteision ymagwedd genedlaethol ac, i awdurdodau lleol, mae'n golygu gallu gweithredu'n gynt, arbed arian ac adennill costau.

Lywydd, cymeradwyaf y Bil hwn i'r Cynulliad.

Minister, I know that you will want to pay tribute to the work of my predecessor Brynle Williams on the cross-party group on the horse, because he raised this issue for a number of years for the Welsh Government, and that work is being carried on by Angela Burns, who is the current chair of the cross-party group on the horse. That group has raised with you, over a number of years, the problems caused by fly-grazing. I agree that it is an important Bill, and it addresses an issue that has serious implications on the agriculture industry, landowners, animal welfare and public safety. However, I am concerned at the process that is being used to bring this Bill forward. It is because of the width and breadth of those impacts that we need to ensure that the Bill is afforded proper time and scrutiny.

You are aware that Stage 1 committee consideration has been excluded by the process by which this Bill is being taken forward. That is the first opportunity to engage stakeholders and to invite representations, and it is the point at which evidence-based reports are produced, and recommendations are laid out, by the committee. It sets the basis on which other amendments, scrutiny and debates are founded. Failure to allow for the Stage 1 proceedings brings forward concerns that it prevents proper engagement with stakeholders. The cross-party group on the horse has done extensive engagement with its stakeholders, but the publicity that bringing this forward as a Bill engenders could bring forward valuable evidence. Stage 1 committee consideration also allows the invitation of expert opinion, and that is a vital part of the legislative process.

I am sad to say that you have form for this, Minister, because you will remember the agricultural wages Bill, which came forward under the emergency Bill procedure, and the problems associated with that. I appreciate that the emergency Bill procedure has not been advised here, but in avoiding Stage 1 committee considerations, we are running the risk of inadequate scrutiny, and it is important that that is said. It is for that reason that I would like you to explain to us why you have delayed to the point that the expedited procedure was required here. It has been nearly a year since you issued a statement outlining your intention to produce your policy on fly-grazing, and six months since the consultation on fly-grazing closed.

In relation to the Bill itself, as I said earlier, I accept that there is a large-scale problem. There are an estimated 7,000 horses fly-grazing in Britain, and 3,000 of those are in Wales. I am concerned about the issues of funding, and perhaps you could indicate whether the £250,000 that has been allocated to this Bill in the draft budget is in this financial year. In other words, will that first tranche come forward as soon as the Bill has been approved? Do you anticipate that that will be before this financial-year end? About £11,000 is estimated for the production of guidance and £450,000 in set-up costs, and £300,000 per annum could be needed to provide secure accommodation for seized horses. It seems that much of this will fall on local authority shoulders, and we are aware of the concerns about budget cuts in that area.

Weinidog, gwn y byddwch am dalu teyrnged i waith fy rhagflaenydd Brynle Williams ar y grŵp trawsbleidiol ar geffylau, oherwydd bu'n codi'r mater hwn am nifer o flynyddoedd â Llywodraeth Cymru, ac mae Angela Burns, cadeirydd presennol y grŵp trawsbleidiol ar geffylau, yn parhau â'r gwaith hwnnw. Mae'r grŵp hwnnw wedi sôn wrthyhch dros nifer o flynyddoedd am y problemau a achosir gan bori anghyfreithlon. Rwyf yn cytuno ei fod yn Fil pwysig, ac mae'n ymdrin â mater sy'n peri goblygiadau difrifol i'r diwydiant amaethyddiaeth, i dirfeddianwyr, i les anifeiliaid ac i ddiogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu am y broses sy'n cael ei defnyddio i gyflwyno'r Bil hwn. Oherwydd hyd a lled yr effeithiau hynny y mae angen inni sicrhau bod y Bil yn cael amser priodol ac yn destun craffu priodol.

Rydych yn ymwybodol bod y broses sy'n cael ei defnyddio i fwrw ymlaen â'r Bil hwn yn golygu na fydd y pwyllgor yn rhoi ystyriaeth Cyfnod 1 iddo. Dyna'r cyfle cyntaf i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i wahodd sylwadau, a dyna pryd y bydd y pwyllgor yn cynhyrchu adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyflwyno argymhellion. Mae'n gosod sail i welliannau, craffu a dadleuon eraill. Mae methu â chaniatáu trafodion Cyfnod 1 yn peri pryder fod hynny'n atal ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid. Mae'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau wedi ymgysylltu'n helaeth â'i rhanddeiliaid, ond gallai'r cyhoeddusrwydd a geir wrth gyflwyno hyn ar ffurf Bil esgor ar dystiolaeth werthfawr. Mae ystyriaeth Cyfnod 1 y pwyllgor hefyd yn gyfle i wahodd barn arbenigol, ac mae hynny'n rhan hanfodol o'r broses ddeddfwriaethol.

Mae'n drist gennyf ddweud bod gennych hanes o wneud hyn, Weinidog, oherwydd byddwch yn cofio'r Bil cyflogau amaethyddol, a gyflwynwyd o dan y weithdrefn frys, a'r problemau a oedd yn gysylltiedig â hynny. Rwyf yn sylweddoli nad yw'r weithdrefn frys wedi ei hawgrymu yma, ond wrth osgoi ystyriaethau Cyfnod 1 y pwyllgor, mae perygl na cheir craffu digonol, ac mae'n bwysig fod rhywun yn dweud hynny. Dyna pam yr hoffwn ichi esbonio wrthym pam eich bod wedi oedi hyd nes bod angen defnyddio'r weithdrefn gyflym hon. Mae bron i flwyddyn ers ichi gyhoeddi datganiad yn amlinellu eich bwriad i gynhyrchu eich polisi ar bori anghyfreithlon, a chwe mis ers diwedd yr ymgynghoriad ar bori anghyfreithlon.

O ran y Bil ei hun, fel y dywedais eisoes, rwyf yn derbyn bod problem fawr. Mae tua 7,000 o geffylau'n pori'n anghyfreithlon ym Mhrydain, ac mae 3,000 o'r rheini yng Nghymru. Rwyf yn pryderu am faterion ariannu, ac efallai y gallech nodi ai yn y flwyddyn ariannol hon y mae'r £250,000 sydd wedi ei ddyrannu i'r Bil hwn yn y gyllideb ddrafft. Mewn geiriau eraill, a fydd y gyfran gyntaf ar gael cyn gynted ag y bydd y Bil wedi'i gymeradwyo? A ydych yn rhagweld y bydd hynny'n digwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon? Amcangyfrifir tuag £11,000 ar gyfer cynhyrchu canllawiau a £450,000 mewn costau sefydlu, a gallai fod angen £300,000 y flwyddyn i ddarparu llety diogel i geffylau yr ymfaelwyd ynddynt. Mae'n ymddangos mai awdurdodau lleol fydd yn ysgwyddo llawer o'r baich hwn, ac rydym yn ymwybodol o'r pryderon am doriadau yn y gyllideb yn y maes hwnnw.

Secondly, I wonder whether you have been looking at the issue of microchipping of horses. There was a problem with the national equine database, which no longer exists. However, there were problems with owners not registering with that database, not having adequate records and incorrect identification of horses. Will you be looking at the mandatory microchipping of horses in this Bill, so that owners can be quickly and easily traced? It is done with cats and dogs.

Finally, there may be issues relating to the Data Protection Act 1998 in relation to local authorities disclosing the identity of the owners to landowners who have suffered damage and harm by fly-grazing. Have you looked at how that could be overcome, so that it is easy for the local councils to act in concert with the occupiers or owners of land who may be affected or, indeed, charities such as the RSPCA, which may incur significant costs in dealing with these horses?

14:50

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to start by echoing the words of the Conservative spokesperson about the legacy of our good friend, Brynle Williams. When we lost Brynle, many of us lost a good friend and colleague, but we were also fearful of losing Brynle's knowledge, expertise, commitment and passion, which he brought to his brief. Therefore, many of us were very pleased to see the work that Angela Burns has been doing on the cross-party group. Angela, not only have you led that group extraordinarily well over the last few years, but you have done something that very few of us thought was possible by following in Brynle's footsteps. Many of us were very pleased to see that, and I certainly endorse those words about our colleague.

In terms of the process that we have been involved with here and the time available for scrutiny, I will make a number of points. First, the Conservative spokesperson should be aware that a request to expedite the process on this legislation was made by the Conservative leader. Perhaps you might take up those matters with him. However, it is clearly something that many Members on the Conservative benches have been calling for, and I am surprised that she does not represent the widespread view of her colleagues on those benches in asking for this legislation to be expedited and to be moved with sufficient speed. That is something that she might wish to reflect upon.

In terms of where we are in this process, this legislation has been born from a process of debate, discussion and conversation with the equine community across Wales. We have been involved in discussions with people who have real expertise in and knowledge of the field and people who deal with this on a day-to-basis, whether local authorities, the police, animal welfare charities or others. Therefore, this legislation has been born from their knowledge and their experience. It is a consequence of having listened to people; perhaps that is something else that the Member might wish to reflect upon.

Yn ail, tybed a ydych wedi bod yn edrych ar osod microsglodion ar geffylau? Roedd problem â'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol, nad yw'n bodoli mwyach. Fodd bynnag, cafwyd problemau lle nad oedd perchnogion yn cofrestru â'r gronfa ddata honno, lle nad oedd ganddynt gofnodion digonol a lle cafodd ceffylau eu hadnabod yn anghywir. A fyddwch yn edrych ar ei gwneud yn orfodol gosod microsglodion ar geffylau yn y Bil hwn, er mwyn gallu olrhain perchnogion yn gyflym ac yn hawdd? Gwneir hyn â chathod a chŵn.

Yn olaf, efallai y bydd materion yn codi o ran Deddf Diogelu Data 1998 os bydd awdurdodau lleol yn datgelu pwy yw'r perchnogion i dirfeddianwyr sydd wedi dioddef difrod a niwed oherwydd pori anghyfreithlon. A ydych wedi edrych ar sut y gellid goresgyn hynny, er mwyn ei gwneud yn hawdd i'r cynghorau lleol weithredu ar y cyd â meddianwyr neu berchnogion tir y gallai hyn effeithio arnynt, neu, yn wir, ag elusennau fel yr RSPCA, a allai wynebu costau sylweddol wrth ymdrin â'r ceffylau hyn?

Hoffwn ddechrau drwy ategu geiriau llfarydd y Ceidwadwyr am etifeddiaeth ein cyfaill da, Brynle Williams. Collodd llawer ohonom gyfaill a chyd-weithiwr da yn Brynle, ond roedd arnom ofn hefyd colli gwybodaeth, arbenigedd, ymroddiad ac angerdd Brynle wrth ei waith. Felly, roedd sawl un ohonom yn falch iawn o weld y gwaith y mae Angela Burns wedi bod yn ei wneud ar y grŵp trawsbleidiol. Angela, rydych nid yn unig wedi arwain y grŵp hwnnw'n arbennig o dda dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydych hefyd wedi gwneud rhywbeth nad oedd llawer ohonom yn meddwl ei fod yn bosibl, sef dilyn yn ôl troed Brynle. Roedd llawer ohonom yn falch iawn o weld hynny, ac rwyf yn sicr yn ategu'r geiriau hynny am ein cyd-weithiwr.

Hoffwn wneud nifer o bwyntiau am y broses yr ydym wedi bod yn ymwneud â hi yma a'r amser sydd ar gael i graffu. Yn gyntaf, dylai llfarydd y Ceidwadwyr fod yn ymwybodol fod arweinydd y Ceidwadwyr wedi gwneud cais i gyflymu proses y ddeddfwriaeth hon. Efallai yr hoffech drafod y materion hynny ag ef. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn rhywbeth y mae llawer o Aelodau ar feinciau'r Ceidwadwyr wedi bod yn galw amdano, ac rwyf yn synnu nad yw hi'n cynrychioli barn eang ei chyd-weithwyr ar y meinciau hynny drwy ofyn am gyflymu'r ddeddfwriaeth hon a'i symud yn ddigon cyflym. Efallai yr hoffai ystyried hynny.

O ran lle yr ydym yn y broses hon, mae'r ddeddfwriaeth hon wedi deillio o broses o ddadlau, trafod a sgwrsio â'r gymuned ceffylau ledled Cymru. Rydym wedi cymryd rhan mewn trafodaethau â phobl ag arbenigedd a gwybodaeth wirioneddol am y maes ac â phobl sy'n ymdrin â hyn o ddydd i ddydd, boed yn awdurdodau lleol, yn heddlu, yn elusennau lles anifeiliaid neu eraill. Felly, mae'r ddeddfwriaeth hon wedi deillio o'u gwybodaeth a'u profiad hwy. Mae wedi deillio o wrando ar bobl; efallai fod hynny'n rhywbeth arall yr hoffai'r Aelod ei ystyried.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of where we are with some of the funding issues, clearly, we do make provision for dealing with these issues, but I say to the Member that this is already costing local authorities a great deal of money and is causing an enormous drain on resources, particularly in some local authorities—the Vale of Glamorgan and Bridgend come immediately to mind. One of the reasons why the local authorities are strongly behind this legislation is because they see it as a means of saving resources in the future. So, we are certainly ensuring that we have the funds available to us today and in the next year in order to ensure that the legislation is rolled out successfully. However, the purpose of this legislation is to simplify current processes, to ensure that we have the opportunity to deal with this issue in a way that reduces the demand on resources that we are currently seeing. Therefore, we know that this is something that is welcomed by all of the police forces and local authorities. The funding issues are very clear and are laid out in the explanatory memorandum.

In terms of horse and equine identification, I was concerned when I heard second hand that the Department for Environment, Food and Rural Affairs was unilaterally abolishing the national equine database. I said at the time to the then Secretary of State that I felt that it was a mistake [Interruption.] Yes I did, and the letters can be placed in the Library and on the public record, if you so wish. Your researchers usually send me freedom of information requests once a month; perhaps they could try that. The letters are available on the public record, if you wish to check. I have constantly said to DEFRA that it was a mistake and that it should never have taken that decision. It was not taken because of difficulties in practical terms; the decision was taken simply to save money, and I regret that. I think that DEFRA now regrets it. Certainly, the conversations that we are having with the current Secretary of State are very different to the conversations that we had with previous Ministers in DEFRA. The current Secretary of State does recognise the need to rationalise and to ensure that we do have a form of equine identification in place that deals with the issues that have arisen, both on this and other matters.

My preference has been for a UK equine database and a UK solution to these matters. If that is not possible, for whatever reason, I am certainly prepared to consider a Wales-only solution. However, my clear preference is for a UK solution. That is a matter that I have spoken with DEFRA Ministers about over the last few months and I will continue to discuss with DEFRA. That concludes that issue.

14:56

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, fel rydych wedi dweud, mae pawb yn croesawu'r Bil a phwrpas y Bil. Rwy'n cytuno o safbwynt lleol bod problemau o ganlyniad i bori anghyfreithlon a gadael ceffylau'n ddiymgeledd. Hynny yw, mae'r ceffylau gadawedig yn ymddangos mewn mannau penodol, weithiau heb i bobl wybod i bwy maent yn perthyn, ac yn symud mor gyflym ag y daethant, gan adael difrod ar dir—themâu a gydnabyddir yn yr ymgynghoriad.

O ran ein sefyllfa o safbwynt rhai o'r materion cyllido, yn amlwg, rydym yn darparu ar gyfer ymdrin â'r materion hyn, ond dywedaf wrth yr Aelod fod hyn eisoes yn costio llawer iawn o arian i awdurdodau lleol ac yn sugno adnoddau, yn arbennig mewn rhai awdurdodau lleol—mae Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn dod i'r meddwl yn syth. Un o'r rhesymau pam mae'r awdurdodau lleol yn gryf o blaid y ddeddfwriaeth hon yw eu bod yn ei gweld fel modd o arbed adnoddau yn y dyfodol. Felly, rydym yn sicr yn sicrhau bod y cyllid ar gael inni heddiw ac yn y flwyddyn nesaf i sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno'n llwyddiannus. Fodd bynnag, diben y ddeddfwriaeth hon yw symleiddio'r prosesau presennol, i sicrhau ein bod yn cael cyfle i ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd sy'n lleihau'r galw am adnoddau yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd. Felly, gwyddom fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei groesawu gan yr holl heddluoedd ac awdurdodau lleol. Mae'r materion ariannu'n glir iawn ac wedi'u hamlinellu yn y memorandwm esboniadol.

O ran adnabod ceffylau, roeddwn yn bryderus pan glywais yn ail law fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn diddymu'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol yn llwyr. Dywedais yr adeg honno wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd fy mod yn teimlo bod hynny'n gamgymeriad [Torri ar draws.] Do, fe wnes, a gellir rhoi'r llythyrau yn y Llyfrgell ac ar gofnod cyhoeddus, os dymunwch. Mae eich ymchwilyr fel arfer yn anfon ceisiadau rhyddid gwybodaeth ataf unwaith y mis; efallai y gallent roi cynnig ar hynny. Mae'r llythyrau ar gael ar gofnod cyhoeddus, os hoffech wirio hynny. Rwyf wedi dweud yn gyson wrth DEFRA fod hyn yn gamgymeriad ac na ddylent fod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw. Ni chafodd ei wneud oherwydd anawsterau ymarferol; arbed arian oedd yr unig reswm dros y penderfyniad, ac rwyf yn gresynu at hynny. Credaf fod DEFRA bellach yn difaru hynny. Yn sicr, mae'r sgysiau yr ydym yn eu cael â'r Ysgrifennydd Gwladol presennol yn wahanol iawn i'r sgysiau a gawsom â Gweinidogion blaenorol yn DEFRA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol presennol yn cydnabod bod angen rhesymoli a sicrhau bod gennym ffordd o adnabod ceffylau sy'n ymdrin â'r materion sydd wedi codi, ar y mater hwn a materion eraill.

Fy newis i fyddai cronfa ddata ceffylau ar lefel y DU ac ateb ar lefel y DU i'r materion hyn. Os nad yw hynny'n bosibl, am ba bynnag reswm, rwyf yn sicr yn fodlon ystyried ateb i Gymru yn unig. Fodd bynnag, fy newis clir yw ateb ar lefel y DU. Mae hwn yn fater yr wyf wedi siarad â Gweinidogion DEFRA amdano dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac y byddaf yn parhau i'w drafod â DEFRA. Dyna ddiwedd y mater hwnnw.

Minister, as you have said, everybody welcomes the Bill and the purpose of the Bill. I agree on a local level that problems have been caused by fly-grazing and leaving horses unattended. That is, these abandoned horses appear in certain areas without anyone knowing who owns them, and they are moved as quickly as they arrived, having damaged the land—themes that are recognised in the consultation.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fel y dywedoch yn gynharach, mae'r ystadegau diweddar—er enghraifft, cynnydd o 200% mewn achosion—yn adlewyrchu maint y broblem. Rwy'n croesawu, Weinidog, eich bod yn cyflwyno system Cymru gyfan, gan roi'r pwerau i awdurdodau lleol ymateb trwy gysondeb.

Mae'r Bil yn cydnabod y problemau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Rwyf wedi bod mewn cyfarfodydd i dderbyn cwynion gan etholwyr yn Llanelli am bori anghyfreithlon oddi wrth berchnogion tir, ffermwyr a phobl sy'n gweld y ceffylau hyn dros y lle. Rwyf hefyd yn bersonol wedi gorfod ffonio'r heddlu i roi gwybod bod y ceffylau o gwmpas ein tŷ ni.

Yn yr achosion hyn, bydd problemau gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ymddangos. Nid oedd yn amlwg i bwy oedd y ceffylau'n perthyn ac nid yw Llanelli yn perthyn i un o'r tri awdurdod a enwir gennych.

Yn eich datganiad blaenorol i'r Cynulliad, dywedoch fod y Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried y gronfa ddata ceffylau cenedlaethol—rhywbeth a waredwyd gan glymblaid San Steffan, fel y dywedoch chi. Rwyf i'n bersonol wedi derbyn cwynion oherwydd y problemau a achoswyd gan nad ydym yn gallu dod o hyd i'r perchnogion. A allech roi diweddariad o'r trafodaethau rydych wedi eu cael ar y testun hwn a diweddariad ar waith y Comisiwn?

Mae'r Bil yn sôn am ganllawiau anstatudol. A fydech yn parhau i'n cadw ni fel Siambr yn ymwybodol o'r broses ac unrhyw benderfyniadau ar y canllawiau ac, yn yr un modd, yn cynnal ymwybyddiaeth o'r broses ymysg awdurdodau lleol o ran eu cyfrifoldebau gyda pherchnogion yn cysylltu â nhw?

Rwy'n croesawu hefyd y bydd cynllun gweithredu yn cyd-redeg â'r Bil hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, yr heddlu ac elusennau lles, ac y byddwch yn rhoi gwybod inni am yr holl bethau a fydd yn digwydd.

As you said earlier, recent statistics—such as an increase of 200% in cases—reflect the scale of the problem. I welcome, Minister, the fact that you are introducing an all-Wales system, giving local authorities powers to respond with consistency.

The Bill recognises the problems in the Dyfed-Powys Police area. I have attended meetings to hear complaints from constituents in Llanelli about fly-grazing, from landowners, farmers and people who see these horses around the place. I have personally had to phone the police to report horses around our house.

In these cases, problems with current legislation become clear. It was not clear who owned the horses, and Llanelli is not located in one of the three authorities that you mentioned.

In your previous statement to the Assembly, you said that the European Commission was considering the national equine database—something that the Westminster coalition got rid of, as you said. I have personally received complaints from people who are very concerned about the fact that we cannot identify the owners. Can you provide an update on the discussions that you have had on this issue and on the work of the Commission?

The Bill mentions non-statutory guidance. Will you continue to keep us as a Chamber up to date with the process and any decisions on that guidance? Likewise, will you maintain awareness levels among local authorities with regard to their responsibility with owners contacting them?

I also welcome the fact that an action plan will run alongside this Bill for the Welsh Government, local authorities, the police and welfare charities, and that you will keep us up to date with all developments.

14:58

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Shwmae, Keith? Diolch am hynny. Un o'r pethau a ddaeth yn glir yn ystod yr ymgynghoriad a'r trafodaethau rydym wedi eu cael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, oedd yr angen i sicrhau bod sefyllfa gyfreithlon gyson ar draws y wlad. Yr hyn nad ydym eisiau ei wneud trwy weithredu'r ddeddfwriaeth bresennol yw symud y broblem o un ardal i rywle arall. Dyna beth sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar. Mae heddluoedd ac awdurdodau lleol wedi bod yn gadarn bod angen inni gael fframwaith strategol, cenedlaethol yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gallu datrys y broblem lle bynnag rydym yn ei gweld yn digwydd.

Rwy'n hapus iawn i ystyried a oes angen canllawiau statudol. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod angen, a dyna lle rydym arni gyda thrafodaethau ag awdurdodau lleol. Pe bai pobl yn meddwl bod angen hynny, yn ystod y broses o graffu ar y Bil hwn, rwy'n hapus iawn i newid fy meddwl, os oes angen. O ran sicrhau bod gennym sefyllfa gyfreithlon gyson ar draws y wlad, rwy'n credu bod cytundeb ar draws y 'board' ar hyn.

Shwmae, Keith? Thank you for that. One of the things that became apparent during the consultation and the discussion that we have had over the last year is the need to ensure that there is a consistent legal position across the country. What we do not want to see by operating the current legislation is moving the problem from one area to another. That is what has been happening recently. Police forces and local authorities have been robust in saying that we need a national statutory framework in Wales to ensure that we can solve the problem wherever it arises.

I am very happy to consider whether statutory guidance is needed. At present, I do not believe that that need exists, and that is where we are on discussions with local authorities. If, during the scrutiny process for this Bill, people thought that that was necessary, I would be happy to change my mind on that, if required. In terms of ensuring that we have a consistent legal position across Wales, I believe that we have agreement across the board on that.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

A gaf i ddechrau drwy gefnogi'r angen i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon a chroesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y pwrpas hwnnw? Fodd bynnag, rwyf eisiau ategu siom yr Aelodau blaenorol fod y Gweinidog wedi gorfod ei wneud yn y modd hwn eto. Nid dyna'r ffordd ddelfrydol yn fy marn i. Mae'n resyn, mewn gwirionedd, gennyf ein bod yn y sefyllfa hon, oherwydd mae cyrff lles anifeiliaid wedi bod yn rhybuddio ers talwm fod problem gynyddol a bod angen mynd i'r afael â hi. Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa lle mae'n rhaid i ni gyfyngu ar y dioddefaint y bydd nifer o'r anifeiliaid hyn yn ei wynebu dros fisoedd y gaeaf. Nid wyf yn hapus gyda'i wneud fel hyn ac nid wyf yn gyfforddus gyda'i wneud fel hyn, ond o dan yr amgylchiadau, rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi chwarae fy rhan i gael y datrysiad gorau posibl i'r sefyllfa fel y mae hi yn yr amser byr sydd gennym i wneud hynny. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog i gydnabod efallai nad dyma'r ffordd orau i fynd ati ar y mater hwn ac i ddangos ei fod yn rhannu consyrn nifer ohonom ein bod yn gorfod defnyddio'r mesurau hyn unwaith eto i gynhyrchu deddfwriaeth yn y Cynulliad.

Un elfen rwy'n teimlo sydd efallai ar goll yn yr hyn sydd wedi cael ei gyflwyno yw digon o gydnabyddiaeth o golled tiffeddianwyr a deiliaid tir. Mae sôn yn eich datganiad, er enghraifft, am y baich sydd ar awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, elusennau lles anifeiliaid, a'r cyhoedd. Wrth gwrs, mae baich ar—fel rydych yn gwybod, rwy'n gwybod—dirfeddianwyr neu berchnogion tir a deiliaid y tir, sydd yn colli tir pori ac yn wynebu difrod, yn aml iawn, i seilwaith y tir. Nid wyf yn teimlo bod y ddeddfwriaeth yn cydnabod yn ddigonol yr angen i sicrhau ffynhonnell i ddigolled i'r grŵp hwnnw. Mae hynny yn rhywbeth yn sicr y byddwn yn licio ei ddatblygu wrth i ni graffu ar y Bil hwn.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi, Weinidog, i roi cadarnhad neu eglurhad i ni os yw'r Bil yn cwmpasu tir comin yn yr hyn mae'n trio ei gyflawni. Pam fod camau i sefydlu proses apelio yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Bil? Dyna'r prif gwestiynau sydd gennyf. Efallai hefyd y byddai'r Gweinidog yn licio rhoi syniad i ni o bryd y mae'n tybio y bydd awdurdodau lleol yn medru dechrau defnyddio'r pwerau newydd hyn, oherwydd y rheswm rydym yn gwneud hyn ar frys yw er mwyn gallu ei weithredu ar lawr gwlad mor gyflym ag sy'n bosibl. Os ydym yn edrych ar gael Cydsyniad Brenhinol yn y flwyddyn newydd, ac os oes angen gweithio ar ddatblygu canllawiau anstatudol a rhyw bethau fel hynny hefyd, mae'n bosibl y bydd y gaeaf wedi pasio cyn ei fod yn cael ei weithredu.

May I start by supporting the need to tackle the issue of fly-grazing and welcome the fact that the Government has introduced legislation to that end? However, I want to endorse the disappointment of previous speakers that the Minister has had to do it in this way once again. That is not the ideal way in my opinion. It is regrettable, in all honesty, that we find ourselves in this situation because animal welfare organisations have been warning for many years that there is an increasing problem that needs to be tackled. However, we are in a situation where we do have to limit as much as possible the suffering that several of these animals will be going through of the winter months. I am not happy or comfortable with doing it in this way, but given the circumstances, I feel that I have to play my part in finding the best possible resolution to the situation as it currently exists in the brief window of opportunity available to achieve that. I would ask the Minister just to acknowledge that this is not the best approach to deal with this issue, and to demonstrate that he does share the concern of many of us that we have to use these emergency measures once again to produce legislation in the Assembly.

One element that I feel is missing from what is being presented is an adequate recognition of the loss to landowners and tenants. There is mention in your statement, for example, of the burden on local authorities, emergency services, animal welfare charities and the public. Of course, there is also a burden—as I know that you know—on landowners and tenants who lose grazing lands and often face damage to land infrastructure. I do not think that the legislation sufficiently recognises the need to ensure compensation for that group. That is certainly something that I would like to develop as we go through the scrutiny process of this Bill.

I would also ask you, Minister, to give confirmation or an explanation as to whether the Bill encompasses common land in its objectives. Why are steps to establish an appeals process included in subordinate legislation rather than on the face of the Bill? Those are the main questions that I have. Perhaps the Minister would also like to give us an idea of when he believes that local authorities will be in a position to start to make use of these new powers, because the reason that we are doing this as a matter of urgency is to implement it on the ground as quickly as possible. If we are looking at Royal Assent in the new year, and if we need to work on developing non-statutory guidance too, then the winter may have passed us by before it is implemented.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth gwrs, mae awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r ddeddfwriaeth unwaith mae'n ddeddf gwlad. Rwy'n edrych ymlaen at Gydsyniad Brenhinol yn fuan iawn yn y flwyddyn newydd, fel y gallwn ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon yn fuan iawn. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys pob math o dir o gwmpas Cymru ac felly bydd yn cynnwys tir comin. Ynglŷn â'r broses apêl, ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y broses sydd wedi ei disgrifio yn y Bil drafft hwn. Rwy'n hapus iawn i drafod hynny fel rhan o'r broses graffu a thrafod y Bil hwn fel rydym yn symud ymlaen dros y ddeufis nesaf. Rwy'n gyfforddus iawn gyda hynny fel ag y mae. Y cyngor cyfreithiol rwyf wedi ei gael yw bod hynny yn ddigonol ar gyfer sicrhau bod proses apêl, ac rwy'n credu y dylai fodoli, ond oherwydd natur y ddeddfwriaeth hon, nid ydym yn disgwyl y bydd angen defnyddio'r broses apêl yn aml iawn, oherwydd mae'r ffordd byddwn yn gweithredu'r ddeddfwriaeth yn eithaf clir a syml.

Pan mae'n dod at ddefnyddio prosesau a'r ffordd mae'r Bil hwn wedi cael ei gyflwyno, rwy'n credu y bydd pobl Cymru yn disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol allu ymateb yn ddigon clou i'r problemau a'r materion maen nhw'n eu gweld yn bwysig. Gallem ddweud y bydd pob un Bil yn mynd yn yr un ffordd drwy'r broses, sy'n gallu bod yn ddigon hir, ond rwyf yn meddwl, ambell waith, bod pobl Cymru yn disgwyl i'r Cynulliad ymateb yn gynt na hynny. Pan rwy'n gweld bod problem, petawn i'n dweud fan hyn ei fod yn mynd i gymryd 18 mis i'r Bil gyrraedd y llyfr statud, byddai pobl Cymru yn gofyn, 'Wel, beth ydych chi'n gwneud lawr yn y fan yna yn y bae?' Ambell waith, dylai'r Cynulliad weithredu yn y ffordd hon er mwyn sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth ar y llyfr statud sy'n gallu ymateb i'r her yr ydym yn ei hwynebu mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae hynny'n meddwl bod gennym deufis, neu dri mis ers i ni gael y sgwrs hon, o drafod y Bil hwn. Fel yr ydych yn gwybod, rwy'n ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfwriaethol, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Cyllid, felly rwy'n credu bod cyfle gennym i gael y drafodaeth hon, ond rwyf hefyd yn meddwl, ambell waith, bod rhaid i ni, fel Cynulliad Cenedlaethol, gael yr hyblygrwydd i allu ymateb i'r her sy'n cael ei hwynebu gan gymunedau ar draws y wlad.

Of course, local authorities can use the legislation once it is law. I look forward to receiving Royal Assent quite soon in the new year so that we can use this legislation soon. This legislation will include every sort of land across Wales and therefore it will include common land. With regard to the appeals process, at the moment, we are considering the process that has been described in this draft Bill. I am very happy to discuss that as part of the scrutiny process and the discussions on this Bill as we move forward over the next two months. I am very comfortable with that as it stands. The legal advice that I have had is that that is adequate for ensuring that there is an appeals process, and I think that there should be; however, because of the nature of this legislation, we do not expect that there will be a need to use an appeals procedure regularly because the way in which we will implement the legislation is quite clear and simple.

When it comes to using processes and the way in which this Bill has been introduced, I think that the people of Wales will expect the National Assembly to be able to respond quickly enough to problems and issues that they feel are important. We could say that every Bill had to go the same way through the process, which can be quite a lengthy process, but I do think that, sometimes, the people of Wales expect the Assembly to respond at a quicker pace than that. When I see that there is a problem, if I were to say here that it was going to take 18 months for the Bill to reach the statute books, the people of Wales would ask, 'Well, what are you doing down there in the bay?' Sometimes, the Assembly should operate in this way to ensure that we have legislation on the statute book that can respond to the challenges that we face in communities across Wales. That means that we have two months, or three months since we had this discussion, to discuss this Bill. As you know, I am appearing before the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Environment and Sustainability Committee and the Finance Committee, so I think that we have an opportunity to have this discussion, but I also think that, sometimes, as the National Assembly, we must have the flexibility to be able to respond to the challenges facing communities the length and breadth of Wales.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for today's statement.

I also wish to express my thanks to the Minister for the courtesy afforded to party spokespeople and other relevant colleagues in advance of introducing this legislation during the summer recess, and also in appearing before the bodies, as he just outlined. While fly-grazing is not in any way a new issue, it is clear that, just in the last couple of years, it has become an enormous concern, particularly in local authorities straddling the M4 corridor.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y cwртеisi a ddangoswyd i lefarwyr y pleidiau a chyd-weithwyr perthnasol eraill cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn ystod toriad yr haf, a hefyd am ymddangos gerbron y cyrff, fel y mae newydd ei amlinellu. Er nad yw pori anghyfreithlon yn fater newydd, mae'n amlwg ei fod wedi dod yn destun pryder aruthrol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn awdurdodau lleol o boptu coridor yr M4.

Introducing a Bill appears to be the natural way to proceed and to achieve progress in this area, and that also fits with the consensus that has been expressed by animal welfare organisations within the agriculture community and, indeed, by the police. In this context, it seems appropriate for me to also mention—in addition to the mentions that have already been made—the late Brynle Williams in this matter. It also seems appropriate to acknowledge the considerable contribution that has been made by the former chief constable of Gwent Police, Carmel Napier, in advancing some of these matters.

Naturally, I share some of the reservations that have already been expressed by Antoinette Sandbach and Llyr Gruffydd with regard to the mechanism that is being adopted. I think that the pre-eminent concern here has to be around animal welfare. Many of us are still haunted by the images from last winter and the early spring in terms of the sheep welfare crisis in Mid and West Wales and North Wales. We do not want to see that replicated again with regard to horses.

As such, I was particularly pleased to see that some significant changes have been introduced to the Bill that we have seen in comparison with the previously shared draft. Most notably, I am glad that the Government has addressed a couple of loopholes that existed, particularly one that potentially could have required local authorities to care for horses for an almost indefinite period while their identified owner arranged payment. While that change may leave less to comment upon in that regard, I am particularly pleased to see that it has been rectified. Given that, I will focus today on just a couple of initial points that I have taken from the version of the Bill that is before us, and to set out my own stall in terms of how we can enhance and clarify the Bill as we embark on the process to come.

Beginning with section 2 of the Bill, I was hoping that you could expand on your working definition of 'reasonable grounds'. While this implies an obvious set of circumstances for all of us in this Chamber, it is easy to envisage differences of interpretation and practice developing across local authorities in how they are applied. To this end, Minister, do you see any merit in using the Bill to establish a series of minimum standards for reasonable grounds, to ensure an effective and consistent baseline across Wales that will negate the temptation to focus the grazing problem on those authorities that might be perceived to be more lenient, lax or under-resourced?

Turning to two more general points, I think that we can all agree that this legislation must serve as an effective deterrent against actual or potential offenders. As such, does the Minister agree that there will be merit in using this Bill to develop a charging regime under which it will always cost more to recover a horse from a local authority than it would have cost to use reasonable local livery stables or equivalent facilities? Taken as a whole, I would argue that the most basic premise of this Bill must be to ensure that fly-grazing is never seen by offenders as a cheap or easy option. This, I believe, could be achieved if such a charging regime were to be imposed.

Mae'n ymddangos mai cyflwyno Bil yw'r ffordd naturiol o symud ymlaen a sicrhau cynnydd yn y maes hwn, ac mae hynny hefyd yn cyd-fynd â'r consensws sydd wedi ei fynegi gan sefydliadau lles anifeiliaid o fewn y gymuned amaethyddol ac, yn wir, gan yr heddlu. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ymddangos yn briodol imi hefyd sôn—yn ychwanegol at y sôn sydd eisoes wedi bod—am y diweddar Brynle Williams yn y mater hwn. Mae hefyd yn ymddangos yn briodol imi gydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaeth cyn-brif gwnstabl Heddlu Gwent, Carmel Napier, o ran bwrw ymlaen â rhai o'r materion hyn.

Yn naturiol, rwyf yn rhannu rhai o'r amheuan y mae Antoinette Sandbach a Llyr Gruffydd eisoes wedi eu mynegi o ran y dull sy'n cael ei fabwysiadu. Credaf mai lles anifeiliaid sydd bwysicaf yma. Mae llawer ohonom yn dal i gael ein poeni gan luniau'r gaeaf diwethaf a'r gwanwyn cynnar o ran yr argyfwng lles defaid yn y canolbarth a'r gorllewin ac yn y gogledd. Nid ydym am weld hynny'n digwydd eto gyda cheffylau.

Felly, roeddwn yn arbennig o falch o weld bod rhai newidiadau arwyddocaol wedi eu cyflwyno i'r Bil yr ydym wedi'i weld o'i gymharu â'r drafft a rannwyd cyn hyn. Yn fwyaf nodedig, rwyf yn falch fod y Llywodraeth wedi rhoi sylw i un neu ddau o fylchau a oedd yn bodoli, yn enwedig un a allai fod wedi mynnu bod awdurdodau lleol yn gofalu am geffylau am gyfnod amhenodol bron tra bo'u perchennog yn trefnu taliad. Er y gallai'r newid hwnnw adael llai i wneud sylwadau amdano yn hynny o beth, rwyf yn arbennig o falch o weld ei fod wedi cael ei unioni. O ystyried hynny, byddaf yn canolbwyntio heddiw ar ddim ond un neu ddau o bwyntiau cychwynnol yr wyf wedi'u cymryd o'r fersiwn o'r Bil sydd ger ein bron, ac yn amlinellu fy safbwynt i am sut y gallwn wella'r Bil a'i wneud yn eglurach wrth inni ddechrau ar y broses sydd i ddod.

Gan ddechrau ag adran 2 y Bil, roeddwn yn gobeithio y gallech ymhelaethu ar eich diffiniad presennol o 'sail resymol'. Er bod hyn yn awgrymu set amlwg o amgylchiadau i bawb ohonom yn y Siambr hon, mae'n hawdd rhagweld gwahaniaethau'n datblygu o ran dehongliad ac arferion rhwng awdurdodau lleol o ran sut y caiff hyn ei roi ar waith. I'r perwyl hwn, Weinidog, a ydych yn gweld unrhyw rinwedd mewn defnyddio'r Bil i sefydlu cyfres o safonau gofynnol ar gyfer sail resymol, er mwyn sicrhau gwaelodlin effeithiol a chyson ledled Cymru a fydd yn dileu'r demtasiwn i ganolbwyntio'r broblem bori ar yr awdurdodau hynny y gellid ystyried eu bod yn fwy goddefgar, yn ddiotal neu heb ddigon o adnoddau?

I droi at ddau bwynt mwy cyffredinol, rwyf yn meddwl y gallwn i gyd gytuno bod yn rhaid i'r ddeddfwriaeth hon fod yn ffordd effeithiol o atal troseddwy'r gwirioneddol neu droseddwy'r posibl. Felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno y bydd yn werth defnyddio'r Bil hwn i ddatblygu trefn codi tâl lle y bydd bob amser yn costio mwy i adennill ceffyl gan awdurdod lleol nag y byddai wedi'i gostio i ddefnyddio marchdai lleol rhesymol neu gyfleusterau cyfatebol? Ar y cyfan, byddwn yn dadlau mai'r hyn ddylai fod yn sail i'r Bil hwn yn anad dim yw sicrhau na fydd troseddwy'r byth yn ystyried bod pori anghyfreithlon yn opsiwn rhad nac yn opsiwn hawdd. Rwyf yn credu y gellid cyflawni hyn drwy bennu trefn codi tâl o'r fath.

Finally, I wanted to touch on an ethical point. Naturally, destruction is listed as the final option for local authorities when disposing of horses. Given the state of the horse market, and the fact that many of our horse sanctuaries and rescue centres are already oversubscribed, there will be an expectation that, at least in the short to medium term, this Bill will regrettably result in a significant number of horses being killed. I note from the Welsh Government's action plan that it has no desire to establish a new sanctuary or, indeed, a relevant charity. Personally, I would not contest that approach. However, I would be grateful, Minister, if you could outline any additional measures that you are willing to take, separate from the Bill, to bolster existing sanctuaries or rescue centres, not necessarily in financial terms, in an attempt to address this concern and to deal with the increased number of horses entering the system as a result of the legislation.

Yn olaf, roeddwn yn awyddus i godi pwynt moesegol. Yn naturiol, rhestrir difa fel y dewis olaf un i awdurdodau lleol o ran cael gwared ar geffylau. Ac ystyried cyflwr y farchnad ceffylau, a'r ffaith bod llawer o'n gwarchodfeydd ceffylau a'n canolfannau achub eisoes yn orlawn, bydd disgwyl, o leiaf yn y tymor byr i ganolig, y bydd y Bil hwn yn anffodus yn arwain at ladd nifer sylweddol o geffylau. Sylwaf o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru nad oes ganddi ddim awydd i sefydlu lloches newydd nac, yn wir, elusen berthnasol. Ni fyddwn i fy hun yn gwrthwynebu'r ymagwedd honno. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech amlinellu unrhyw fesurau ychwanegol yr ydych yn barod i'w cymryd, ar wahân i'r Bil, i hybu gwarchodfeydd neu ganolfannau achub presennol, nid o reidrwydd yn ariannol, er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r pryder hwn ac er mwyn ymdrin â'r nifer cynyddol o geffylau a ddaw i mewn i'r system yn sgil y ddeddfwriaeth.

15:11 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Liberal Democrat spokesperson for his generally positive and warm words on this legislation, on the way in which this Government has gone about developing the legislation, and on the consultation that has taken place over the last period. I really do not want to speculate on some of the matters that he has raised in his contribution, in terms of some of the potential consequences of legislation of this sort. I do not think that it is helpful for any of us here to speculate on some of those matters. The purpose of this legislation is to empower and enable local authorities to deal with an issue that is a very real problem in communities up and down Wales—we know and recognise this. The Member refers to the quite distressing scenes that we saw, as he said, in the spring of this year. I think that we have seen very distressing scenes on many occasions over some years, in fact. We need to be able to deal with those before we arrive at the point where horses die of starvation and of being uncared for. So, we need to be able to deal with this in a rational way, and the purpose of the legislation is to create a framework in which we can do that.

Ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei eiriau cadarnhaol a gwresog ar y cyfan am y ddeddfwriaeth hon, am y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi mynd ati i ddatblygu'r ddeddfwriaeth, ac am yr ymgynghori sydd wedi digwydd dros y cyfnod diwethaf. Nid wyf yn wir am ddamcaniaethu am rai o'r materion y mae wedi eu codi yn ei gyfraniad, o ran rhai o ganlyniadau posibl y math hwn o ddeddfwriaeth. Nid wyf yn credu ei bod yn ddefnyddiol i neb ohonom yma ddyfalu ar rai o'r materion hynny. Diben y ddeddfwriaeth hon yw grymuso a galluogi awdurdodau lleol i ymdrin â mater sy'n broblem wirioneddol mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru—rydym yn gwybod hynny ac yn cydnabod hynny. Mae'r Aelod yn cyfeirio at y golygfeydd digon echrydus a welsom, fel y dywedodd, yn y gwanwyn eleni. Credaf ein bod wedi gweld golygfeydd echrydus iawn ar sawl achlysur dros rai blynyddoedd, mewn gwirionedd. Mae angen inni allu ymdrin â'r rheini cyn inni gyrraedd pwynt lle mae ceffylau'n marw o newyn ac o ddiffyg gofal. Felly, mae angen inni allu ymdrin â hyn mewn ffordd resymegol, a diben y ddeddfwriaeth yw creu fframwaith lle gallwn wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the definitions of 'reasonable grounds', the purpose of this legislation is to deliver a consistent approach across Wales. At present, we have an approach that is inconsistent across the country, in terms of which powers are available to different local authorities and the opportunity for local authorities to take action in order to deal with the problem. So, the answer to the question is very much that, yes, we want to see a consistent approach. We will work with local authorities in order to create that consistency of approach. The Bill has a number of safeguards. The Member has clearly read the Bill, so he will be aware that it has a number of safeguards built into it that will mean that the probability of problems arising in terms of mistaken identity and ownership should not arise. We are confident that that will not be the case. However, in terms of the development of consistent guidelines operating across the whole of the country, that is something that we very much wish to work towards.

O ran y diffiniadau o 'sail resymol', pwrpas y ddeddfwriaeth hon yw darparu ymagwedd gyson ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae gennym ymagwedd sy'n anghyson ledled y wlad, o ran pa bwerau sydd ar gael i wahanol awdurdodau lleol a'r cyfle i awdurdodau lleol gymryd camau i ymdrin â'r broblem. Felly, yr ateb i'r cwestiwn yn sicr yw ein bod am weld ymagwedd gyson. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn creu'r ymagwedd gyson honno. Mae nifer o fesurau diogelu yn y Bil. Mae'r Aelod yn amlwg wedi darllen y Bil, felly bydd yn gwybod ei fod yn cynnwys nifer o fesurau diogelu a fydd yn golygu na ddylai fod yn debygol y ceir problemau o ran camadnabod a pherchnogaeth. Rydym yn hyderus na fydd hynny'n digwydd. Fodd bynnag, o ran datblygu canllawiau cyson i'w gweithredu ledled y wlad, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i weithio tuag ato.

15:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have now had a speaker from each of the parties, so I ask the remaining speakers to stick to questions, if that is at all possible. I call on Janet Finch-Saunders.

Rydym bellach wedi cael siaradwr o bob un o'r pleidiau, felly gofynnaf i'r siaradwyr sy'n weddill gadw at gwestiynau, os yw hynny'n bosibl. Galwaf ar Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I would like to echo the sentiments regarding my north Wales colleague and friend, the late Brynle Williams, and regarding the current chairman, Angela Burns. Minister, I would like to pay tribute to those representative groups that have come along to give evidence and have provided lots of information that I feel helped you to decide to bring this Bill forward. The merits and difficulties around fly-grazing, and the merits around enforcement, have been mentioned here. However, I have some questions. When you came along to one of our group meetings, I think that I mentioned the fact that, when I wrote to the 22 local authorities, they said that they were struggling now. They said that they were short of resources to deal with any aspect of animal welfare. Also, there was a lack of guidance from the Welsh Government to help them to fulfil their responsibilities. So, I would like to see, when you bring this legislation in, how you will overcome those issues when you are placing more responsibilities on them, which will, hopefully, stop once and for all this dreadful action that is taken, actually, by experts now.

Over the years, because of a lack of action, I think that it is fair to say that the perpetrators have become experts—and this is not a pun—in their own field at dodging any enforcement measures. We know that there are 3,000 horses out there in Wales—very sick and very diseased horses in some cases—and we know of the recent horsemeat scandal.

I echo your sentiments on traceability, and I fully support having a database, because we have one for cows. Look at all the regulation for farmers with cows, sheep and pigs, and here we have horses, whose meat is desired on the continent, and yet we have had the recent horsemeat scandal. So, I think that there are some serious issues. This is so serious an issue that I am amazed that, now that we have extra powers in this institution, you are bypassing Stage 1. In the Bills that I have sat through, Stage 1 was one of the most important stages, because it really does deal with the devil, or otherwise, in the detail of any Bill coming forward. I think that there is a bit of arrogance, actually, in bypassing that stage.

According to the responses received—. We have talked about mandatory microchipping, and I would like to know whether you believe in it or not. Also, how do you feel about collaboration when trading standards officers are now working on, for example, a north Wales regional basis? How do you see all the agencies working together—the police, your Government, local authorities, public bodies and all those rescue centres? This really does not mean collaboration in its truest form, but it stems from the Welsh Government. So, I really would like you to answer the points that I have raised.

Diolch, Lywydd. Hoffwn ategu'r hyn a ddywedwyd am fly-grazing weithiwr a'm cyfaill o'r gogledd, y diweddar Brynle Williams, ac am y cadeirydd presennol, Angela Burns. Weinidog, hoffwn dalu teyrnged i'r grwpiau cynrychioli hynny sydd wedi dod yma i roi tystiolaeth ac sydd wedi darparu llawer o wybodaeth a fu o gymorth, yr wyf yn teimlo, i'ch helpu i benderfynu cyflwyno'r Bil hwn. Mae rhinweddau ac anawsterau pori anghyfreithlon, a rhinweddau gorfodi, wedi eu crybwyll yma. Fodd bynnag, mae gennyf rai cwestiynau. Pan ddaethoch i un o'n cyfarfodydd grŵp, credaf imi grybwyll, pan ysgrifennais at y 22 o awdurdodau lleol, eu bod wedi dweud eu bod yn ei chael yn anodd yn awr. Roeddent yn dweud eu bod yn briodol i ymdrin ag unrhyw agwedd ar les anifeiliaid. Hefyd, roedd diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Felly, hoffwn weld, pan fyddwch yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, sut y byddwch yn goresgyn y materion hynny pan ydych yn rhoi mwy o gyfrifoldebau iddynt, a fydd, gobeithio, yn rhoi diwedd unwaith ac am byth ar y gweithredoedd ofnadwy hyn sy'n cael eu cyflawni, mewn gwirionedd, gan arbenigwyr yn awr.

Dros y blynyddoedd, oherwydd diffyg gweithredu, rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud bod y troseddwyd wedi dod yn arbenigwyr—ac nid geiriau mwys mo'r rhain—yn eu maes eu hunain o ran osgoi unrhyw fesurau gorfodi. Rydym yn gwybod bod 3,000 o'r ceffylau hyn yng Nghymru—ceffylau sâl iawn a chlefydau arnynt mewn rhai achosion—ac rydym yn gwybod am y sgandal cig ceffyl yn ddiweddar.

Ategap eich sylwadau am y gallu i olrhain, ac rwyf yn llwyr gefnogi cael cronfa ddata, oherwydd mae gennym un ar gyfer gwartheg. Edrychwch ar yr holl reoleiddio ar gyfer ffermwyr sydd â gwartheg, defaid a moch, ac yma mae gennym geffylau, y mae eu cig yn cael ei fwyta ar y cyfandir, ac eto rydym wedi cael y sgandal cig ceffyl yn ddiweddar. Felly, credaf fod rhai materion difrifol dan sylw yma. Mae hwn yn fater mor ddifrifol nes fy mod wedi fy synnu, gan fod gennym bwerau ychwanegol yn y sefydliad hwn erbyn hyn, eich bod yn osgoi Cyfnod 1. Yn y Biliau yr wyf wedi ymwneud â hwy, Cyfnod 1 oedd un o'r camau pwysicaf, oherwydd mae'n rhoi sylw gwirioneddol i fanylion da neu ddrwg unrhyw Fil a gyflwynir. Rwyf yn meddwl bod osgoi'r cam hwnnw'n dangos rhywfaint o haerllugrwydd, a dweud y gwir.

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd—. Rydym wedi sôn am osod microsglodion gorfodol, a hoffwn wybod a ydych yn credu yn hynny ai peidio. Hefyd, sut ydych chi'n teimlo am gydweithio pan fo swyddogion safonau masnach yn awr yn gweithio, er enghraifft, yn rhanbarthol yn y gogledd? Sut ydych chi'n gweld yr holl asiantaethau'n cydweithio—yr heddlu, eich Llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a'r holl ganolfannau achub hynny? Nid yw hyn yn golygu cydweithio fel y cyfryw, ond mae'n deillio o Lywodraeth Cymru. Felly, hoffwn yn fawr ichi ateb y pwyntiau yr wyf wedi'u codi.

I echo the sentiments of Antoinette Sandbach and my other colleagues who have spoken today in saying: let us get this right. We know of deaths that have been caused by horses ending up on land. We know about the penalties that were imposed on a local authority as a result of those horses getting out on a busy road—a dual carriageway. Let us get this Bill right. It is not about how many Bills we can pass in the Assembly; it should be the quality of those Bills.

Ategaf sylwadau Antoinette Sandbach a'm cyd-weithwyr eraill sydd wedi siarad heddiw a dweud: gadewch inni wneud hyn yn iawn. Rydym yn gwybod am farwolaethau a achoswyd am fod ceffylau wedi eu gadael ar dir. Rydym yn gwybod am y cosbau a roddwyd i awdurdod lleol oherwydd bod y ceffylau hynny wedi mynd ar ffordd brysur—ffordd ddeuol. Gadewch inni sicrhau bod y Bil hwn yn iawn. Nid faint o Filiau y gallwn eu pasio yn y Cynulliad sy'n bwysig, ond ansawdd y Biliau hynny.

15:17

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is, of course, why we have listened to people in communities across Wales. This Bill is the result of those conversations and the consequence of the consultation. It is the result of a long period of discussion with the equine community in Wales, animal welfare charities, the police, local authorities and others across the country. This is a Bill that they wanted. As you say, this is not something that was included in the programme for government; it is something that communities across Wales have asked for, and we are delivering it.

Let me say this: I understand what the Member has to say about process, but I will refer her to her party leader, who asked specifically for this to happen. If she does have any difficulties with that, I really do say to her that it is perhaps a matter that she should take up with the leader of the opposition, rather than with me.

As for where we are on the database, I did make it clear earlier that, for the past two years, I have been talking to the Conservative Ministers at DEFRA who took the decision to abandon the national equine database. It was a decision that was taken without reference to me or to other Ministers in the United Kingdom. It was a decision that was taken unilaterally and without any consultation at all. I have written repeatedly to DEFRA and said to its officials that I felt that it was a mistake, as I feel that we need a means of ensuring that we have identification of equines in the United Kingdom. I will repeat that I think that that is a UK issue rather than one for Wales. However, if we are unable to reach agreement at a UK level, then I am happy to go ahead here in Wales.

On your first few questions, on local authorities and working alongside them, at the moment, of course, as I am sure you are aware, local authorities are already dealing with this matter and are already expending a great deal of resources on dealing with this problem. The purpose of this legislation, as local authorities will tell you, is to streamline their processes to enable them to deal with this problem while using fewer resources. This is a consequence of conversations with local authorities.

Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym wedi gwranddo ar bobl mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r Bil hwn yn deillio o'r sgyrsiau hynny a'r ymgynghoriad. Mae'n deillio o gyfnod hir o drafod â'r gymuned ceffylau yng Nghymru, elusennau lles anifeiliaid, yr heddlu, awdurdodau lleol ac eraill ledled y wlad. Roedd arnynt hwy eisiau'r Bil hwn. Fel y dywedwch, nid yw hyn yn rhywbeth a oedd wedi'i gynnwys yn y rhaglen lywodraethu; mae'n rhywbeth y mae cymunedau ledled Cymru wedi gofyn amdano, ac rydym yn ei ddarparu.

Gadewch imi ddweud hyn: rwyf yn deall yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud am y broses, ond hoffwn ei chyfeirio at arweinydd ei phlaid, a ofynnodd yn benodol am i hyn ddiwydd. Os oes ganddi unrhyw anawsterau â hynny, rwyf yn dweud wrthi'n wir efallai y dylai siarad ag arweinydd yr wrthblaid am y mater, yn hytrach nag â mi.

Ynglŷn â'n sefyllfa o ran y gronfa ddata, fe'i gwnes yn glir yn gynharach fy mod, am y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi bod yn siarad â'r Gweinidogion Ceidwadol yn DEFRA a wnaeth y penderfyniad i roi'r gorau i'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw heb drafod â mi nac â Gweinidogion eraill yn y Deyrnas Unedig. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unochrog heb ddim ymgynghori o gwbl. Rwyf wedi ysgrifennu dro ar ôl tro at DEFRA ac wedi dweud wrth ei swyddogion fy mod yn teimlo fod hynny'n gamgymeriad, gan fy mod yn teimlo bod arnom angen ffordd o sicrhau ein bod yn gallu adnabod ceffylau yn y Deyrnas Unedig. Dywedaf eto fy mod yn credu mai mater i'r DU yw hynny yn hytrach nag i Gymru. Fodd bynnag, os na allwn gael cytundeb ar lefel y DU, rwyf yn hapus i fwrw ymlaen yma yng Nghymru.

O ran eich cwestiynau cyntaf, am awdurdodau lleol a chydweithio â hwy, ar hyn o bryd, wrth gwrs, fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod, mae awdurdodau lleol eisoes yn ymdrin â'r mater hwn ac eisoes yn rhoi llawer iawn o adnoddau i ymdrin â'r broblem hon. Diben y ddeddfwriaeth hon, fel y bydd awdurdodau lleol yn dweud wrthy, yw symleiddio eu prosesau i'w galluogi i ymdrin â'r broblem hon gan ddefnyddio llai o adnoddau. Mae hyn yn ganlyniad i sgyrsiau ag awdurdodau lleol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement. I am pleased to see that this is moving forward. It is an emotive issue. To be quite brief about it, it is, without doubt, an issue of organised criminality. First of all, how will the Bill deal with the issue of moving the problem on rather than solving it? The Bridgend multi-agency approach has solved the immediate problem and they skilfully dealt with a number of incidents head on. I must praise Superintendent Paul James, especially, for his leadership in this. However, sadly, the problem has moved on to Gower now and culminated recently in an operation. I hope that this adequately addresses my first question, which is: what specifically within the statement and action plan will solve the problem rather than move it around? It is rather like a burglar: when the police appear, they move on to the next patch so as not to be caught. It is a similar sort of thing with these horses. Secondly, there is the obvious question of finance and constrained budgets—investigating, prosecuting and taking care of the horses all costs a significant sum of money, so what support is available across Wales to assist this further multi-agency approach? Finally, I heard your answer to Antoinette Sandbach on the other issues regarding horse identification, but in your statement you say that

‘the majority of the horses found are unidentified, which makes it very difficult for the local authority to link that horse with its owner’.

Surely, then, microchipping is a crucial point that will go to the heart of proving ownership and, importantly, the neglect of horses. We must, in my opinion, ensure that all horses are microchipped and can be traced and monitored easily. Bearing in mind that I have heard what you have said, will you consider the partial acceptance and ensure that all horses are microchipped?

Weinidog, diolch am eich datganiad. Rwyf yn falch o weld bod hyn yn symud yn ei flaen. Mae'n fater emosiydol. Mewn gair, mae'n ddi-os yn fater o drosedd cyfundrefnol. Yn gyntaf oll, sut y bydd y Bil yn ymdrin â mater symud y broblem ymlaen yn hytrach na'i datrys? Mae dull amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi datrys y broblem yn y tymor byr ac wedi ymdrin yn fedrus â nifer o ddigwyddiadau'n uniongyrchol. Rhaid imi ganmol yr Uwch-areolygydd Paul James, yn arbennig, am ei arweiniad yn hyn o beth. Fodd bynnag, yn anffodus, mae'r broblem bellach wedi symud ymlaen i'r Gŵyr ac arweiniodd hynny at ymgyrch yn ddiweddar. Gobeithio y bydd hyn yn cyflwyno fy nghwestiwn cyntaf yn ddigonol, sef: beth yn benodol o fewn y datganiad a'r cynllun gweithredu a fydd yn datrys y broblem yn hytrach na'i symud o gwmpas? Mae'n debyg i raddau i ladron: pan fydd yr heddlu'n ymddangos, maent yn symud ymlaen i'r ardal nesaf, er mwyn osgoi cael eu dal. Mae'r sefyllfa gyda'r ceffylau hyn yn ddigon tebyg. Yn ail, mae mater amlwg chyllid a chyllidebau cyfyngedig—mae ymchwilio, erlyn a gofalu am y ceffylau i gyd yn costio swm sylweddol o arian, felly pa gymorth sydd ar gael ledled Cymru i gynorthwyo'r ymagwedd amlasiantaeth bellach hon? Yn olaf, clywais eich ateb i Antoinette Sandbach am y materion eraill o ran adnabod ceffylau, ond yn eich datganiad dywedwch

‘nid oes modd adnabod y rhan fwyaf o'r ceffylau y ceir hyd iddynt, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i'r awdurdod lleol gysylltu'r ceffyl hwnnw â'i berchennog.’

Onid yw gosod microsglodion, felly, yn bwynt hollbwysig a fydd yn mynd at wraidd profi perchenogaeth ac, yn bwysig, esgeuluso ceffylau. Rhaid inni, yn fy marn i, sicrhau bod pob ceffyl yn cael microsglodion ac y gellir olrhain a monitro'r ceffylau'n hawdd. O gofio fy mod wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, a wnewch ystyried y derbyniad rhannol a sicrhau bod pob ceffyl yn cael microsglodion?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for your general welcome for this legislation and I do not disagree with the points that you have made on microchipping or the points that you made on equine identification. As you have said, they are crucial and central to the ability to manage the equine population effectively and I think that we need to do that. I do think that we need to move on that. It is a matter that we can discuss during the scrutiny of the legislation, but I believe that we do need to find a way across the United Kingdom—all the authorities of the UK administrations—to deal with equine identification in an agreed way. That is a matter that I am actively discussing with other UK Ministers at present. I hope that that goes some way towards reassuring you that you we recognise the importance of the problem that you describe. It is not something that I wish to brush under the carpet, as it were, or from which I wish to walk away. It is something that we are addressing and will continue to address completely.

Diolch am eich croeso cyffredinol i'r ddeddfwriaeth hon, ac nid wyf yn anghytuno â'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud am ddefnyddio microsglodion na'r pwyntiau a wnaethoch am adnabod ceffylau. Fel yr ydych wedi'i ddweud, maent yn hanfodol ac yn ganolog i'r gallu i reoli'r boblogaeth ceffylau'n effeithiol ac rwyf yn meddwl bod angen inni wneud hynny. Rwyf yn meddwl bod angen inni symud ar hynny. Mae'n fater y gallwn ei drafod wrth graffu ar y ddeddfwriaeth, ond rwyf yn credu bod angen inni ddod o hyd i ffordd ledled y Deyrnas Unedig—ymhlith holl awdurdodau gweinyddiaethau'r DU—i gytuno ar ffordd o adnabod ceffylau. Mae hwnnw'n fater yr wyf wrthi'n ei drafod â Gweinidogion eraill yn y DU ar hyn o bryd. Gobeithiaf fod hynny'n mynd rywfaint o'r ffordd tuag at dawelu eich meddwl ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y broblem yr ydych yn ei disgrifio. Nid yw'n rhywbeth yr wyf am ei ysgubo o dan y carped, fel petai, na cherdded i ffordd oddi wrtho. Mae'n rhywbeth yr ydym yn rhoi sylw iddo ac y byddwn yn parhau i roi sylw llawn iddo.

I think that you are very right in your analysis of how we have been dealing with the situation up until now—we have been addressing the issue in some ways, but we have been moving the problem on in other ways. Part of the purpose of the action plan and the legislation, which is born of the action plan, is to ensure that we have a consistent approach across Wales and that we do not move problems from the Gower across the Loughor to Llanelli or wherever. We are seeking to ensure that we have a consistent approach across Wales. We are also in conversation with Ministers in DEFRA to ensure that a similar approach is adopted by the United Kingdom Government for England. Clearly, the approach that it takes on these matters is a matter for it and not for me, but I have spoken to both the under-secretary of state and the secretary of state on these matters in recent months. This matter is the subject of active debate between the different administrations and it is a problem that we recognise.

Finally, in response to those questions, the taskforce approach that we have adopted over the last period has been successful in addressing this problem. Bringing together the different elements of the equine community, law enforcement, animal welfare charities, the Welsh Government and local government, we have been able to bear down on this problem. What we are trying to do now is to give those people the tools to do the job—the tools that they have asked the Assembly to deliver for them. I would be very disappointed if any Member here sought not to provide those people with the tools they need to do the job.

15:25 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How do you respond to the concern expressed to me in a meeting this summer with a constituent and police officers that this should extend not only to land where horses are grazing without the consent of the owner, but also to land where horses are being neglected or even abandoned with the consent of the owner? In this particular case not only were the horses neglected, requiring intervention, but occasionally the horses were getting off the land and causing stress and problems for the neighbourhood.

15:25 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This legislation is designed to address a particular problem, but I do recognise the issue that the Member raises, and it certainly is an important one. What I hope we have is sufficient animal welfare legislation to be able to address some of those matters. If the Member believes that there are gaps within the current statutory provision then I am more than happy to consider how those gaps may be filled.

Credaf eich bod yn llygad eich lle yn eich dadansoddiad o'r ffordd yr ydym wedi bod yn ymdrin â'r sefyllfa hyd yma—rydym wedi bod yn datrys y broblem mewn rhai ffyrdd, ond yn symud y broblem ymlaen mewn ffyrdd eraill. Rhan o ddiben y cynllun gweithredu a'r ddeddfwriaeth, sy'n deillio o'r cynllun gweithredu, yw sicrhau bod gennym ymagwedd gyson ledled Cymru ac nad ydym yn symud problemau o'r Gŵyr ar draws afon Llŵchwr i Lanelli neu ble bynnag. Rydym yn ceisio sicrhau bod gennym ymagwedd gyson ledled Cymru. Rydym hefyd yn sgwrsio â Gweinidogion yn DEFRA i sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mabwysiadu ymagwedd debyg ar gyfer Lloegr. Yn amlwg, mater iddi hi, nid i mi, yw ei hymagwedd at y materion hyn, ond rwyf wedi siarad â'r is-ysgrifennydd gwladol a'r ysgrifennydd gwladol am y materion hyn yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r mater hwn yn destun trafodaeth fywiog rhwng y gwahanol weinyddiaethau ac mae'n broblem yr ydym yn ei chydabod.

Yn olaf, i ateb y cwestiynau hynny, mae'r dull tasglu a fabwysiadwyd gennym yn ystod y cyfnod diwethaf wedi llwyddo i ymdrin â'r broblem hon. Drwy ddwyn ynghyd wahanol elfennau'r gymuned ceffylau, sefydliadau gorfodi'r gyfraith, elusennau lles anifeiliaid, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, rydym wedi gallu rhoi sylw i'r broblem hon. Nawr, rydym yn ceisio rhoi'r arfau i'r bobl hynny i wneud y gwaith—yr arfau y maent wedi gofyn i'r Cynulliad eu darparu ar eu cyfer. Byddwn yn siomedig iawn pe bai unrhyw Aelod yma'n ceisio peidio â rhoi i'r bobl hynny yr arfau sydd eu hangen arnynt i wneud y gwaith.

Sut ydych chi'n ymateb i'r pryder a fynegwyd wrthyf mewn cyfarfod yr haf hwn ag etholwr a heddweision na ddylai hyn fod yn gyfyngedig i dir lle mae ceffylau'n pori heb ganiatâd y perchennog, ond y dylid ei estyn hefyd i dir lle mae ceffylau'n cael eu hesgeuluso neu hyd yn oed eu gadael gyda chaniatâd y perchennog? Yn yr achos penodol hwn, roedd y ceffylau nid yn unig yn cael eu hesgeuluso, ac roedd angen ymyrraeth, ond roedd y ceffylau ar adegau'n crwydro oddi ar y tir ac yn achosi straen a phroblemau i'r gymdogaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i chynllunio i ymdrin â phroblem benodol, ond rwyf yn cydnabod y mater y mae'r Aelod yn ei godi, ac mae'n sicr yn un pwysig. Yr hyn sydd gennym, rwyf yn gobeithio, yw deddfwriaeth lles anifeiliaid sy'n ddigonol i allu ymdrin â rhai o'r materion hynny. Os yw'r Aelod o'r farn bod bylchau yn y ddarpariaeth statudol gyfredol, rwyf yn fwy na bodlon ystyried sut y gellid llenwi'r bylchau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I am delighted to inform Members of the successful implementation of one of our key 'Five for a Fairer Future' commitments made when we launched our programme for government two years ago—namely to recruit an additional 500 community support officers. Over 500 CSOs have now been recruited, with the majority already deployed and the remainder to be deployed before the end of this month. This consists of 468 full-time officers and 47 part-time—or 500 full-time equivalents.

This is an example of multi-agency working at its best. The Welsh Government, working in partnership with the four Welsh police forces and the British Transport Police, has introduced an additional resource that is helping to make a real difference to the lives of the people of Wales. The funding of these additional CSOs represents a substantial investment in community safety at a time of significant pressure on budgets.

The police forces have understood and respected the Welsh Government's desire for CSOs to support, where possible, other Welsh Government priorities, for example in relation to Communities First. Similarly, we recognised the operational independence of the Association of Chief Police Officers Cymru to deploy all the resources at its disposal based on its policing expertise, its deployment of current resources and its knowledge of its force areas. Through true partnership working and continued dialogue, I believe this has been achieved to the satisfaction of all concerned.

As well as making sure Welsh Government priorities are recognised alongside the need for police operational independence, this funding has provided additional front-line resources. However, we have been very clear: this funding must not simply plug any gaps left by reductions in UK Government spending on policing. It is vital that significant investment such as this is evaluated robustly. Members will wish to be aware that, following an open procurement competition, we commissioned the Universities Police Sciences Institute to evaluate the project and this evaluation has begun. The work to date has involved some secondary analysis of the crime survey of England and Wales. Preliminary results suggest the visible presence of CSOs and other police representatives in local neighbourhoods does help to provide reassurance to members of the public. However, much depends on the nature of the locality and how much crime and anti-social behaviour residents experience or believe there to be.

Statement: Achievement of the Programme for Government Commitment to Fund and Facilitate the Employment of 500 Community Support Officers

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i'r Aelodau fod un o ymrwymïadau allweddol 'Pump am Ddyfodol Tecach' a wnaethom wrth lansio ein rhaglen lywodraethu ddwy flynedd yn ôl wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus—sef recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol. Mae dros 500 o swyddogion cymorth cymunedol wedi eu recriwtio; mae'r mwyafrif eisoes wedi dechrau gweithio a bydd y gweddill yn dechrau cyn diwedd y mis hwn. Mae 468 o swyddogion llawn-amser a 47 rhan-amser-neu 500 cyfwerth ag amser llawn.

Dyma enghraifft o waith amlasiantaeth ar ei orau. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â phedwar heddlu Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, wedi cyflwyno adnodd ychwanegol sy'n helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru. Mae'r arian ar gyfer y swyddogion ychwanegol hyn yn fuddsoddiad sylweddol mewn diogelwch yn y gymuned ar adeg pan fo pwysau sylweddol ar gyllidebau.

Mae'r heddluoedd wedi deall ac wedi parchu dymuniad Llywodraeth Cymru i swyddogion cymorth cymunedol gefnogi blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft, o ran Cymunedau yn Gyntaf. Yn yr un modd, rydym wedi cydnabod annibyniaeth weithredol Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddi'n seiliedig ar ei harbenigedd ym maes plismona, y ffordd y mae'n defnyddio ei hadnoddau ar hyn o bryd a'i gwybodaeth am ardaloedd ei lluoedd. Drwy weithio mewn gwir bartneriaeth a thrwy ddeialog barhaus, rwyf yn credu ein bod wedi cyflawni hyn er boddhad pawb dan sylw.

Yn ogystal â sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n cael eu cydnabod ochr yn ochr â'r angen am annibyniaeth weithredol i'r heddlu, mae'r cyllid hwn wedi darparu adnoddau rheng flaen ychwanegol. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir iawn: ni ddylid defnyddio'r arian hwn i lenwi bylchau a adawyd gan ostyngiadau yng ngwariant Llywodraeth y DU ar blismona. Mae'n hanfodol fod buddsoddiad sylweddol fel hwn yn cael ei werthuso'n gadarn. Bydd yr Aelodau am fod yn ymwybodol, ar ôl cystadleuaeth gaffael agored, ein bod wedi comisiynu Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu i werthuso'r prosiect ac mae'r gwerthusiad hwn wedi dechrau. Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys rhywfaint o ddadansoddi eilaidd ar arolwg troseddau Cymru a Lloegr. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod presenoldeb gwladwy swyddogion cymorth cymunedol a chynrychiolwyr eraill yr heddlu mewn cymdogaethau lleol yn helpu i dawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar natur yr ardal ac ar faint o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae preswylwyr yn ei brofi neu'n credu eu bod yn bodoli.

I want to give Members a flavour of the positive impact the implementation of this key commitment is having on the lives of the people of Wales. Before we began to implement this programme, there were almost 700 Home Office-funded PCSOs in Wales. Therefore, numbers have almost doubled thanks to our investment. I have had the pleasure of meeting several CSOs over the last few months. I have walked the beat with them and attended a declaration ceremony where I presented new CSOs with their Welsh Government pin badges. These officers are the realisation of one of our key policies for this Government and it has been a real pleasure to witness it come to fruition. Without exception, the CSOs I have met are passionate about the job they do and totally committed to making a difference in their communities.

I have heard encouraging stories of CSOs and other members of the police family becoming closely involved with their communities, from running anti-bullying campaigns in schools; engaging with local young people to break down barriers between them and the police; attending older persons' groups; becoming involved in supporting victims of crime; and even providing intelligence that leads to the seizure of drugs. They are recognisable faces in their community. I have been told that CSOs are deemed to be more approachable than warranted officers, and that the public feels more comfortable engaging with them.

This evening, in the Senedd, Members will have the opportunity to meet representatives from the Welsh police forces, along with five Welsh-Government-funded CSOs from each force. I urge Members to attend, and to hear first-hand from some of the CSOs about their work. You will also be able to chat informally with other CSOs, and see evidence of their passion and commitment.

I will give some specific examples of the work that CSOs are doing. A CSO from Gwent Police took ownership of the Online Watch Link—OWL—project, working with school children, and helping them to understand community safety issues. She was awarded CSO of the year by Gwent Police for her dedication to the community. In South Wales Police, one of the CSOs enjoys the variety of his role. He is involved in all aspects of community policing. At one end of the spectrum, he deals with parking offences, right through to helping deal with burglary cases and railway deaths at the other. He appreciates that some aspects of the job are more difficult than others, but says that he always has one goal—helping those who need it. A North Wales Police CSO, who is based in Amlwch, is proud of his involvement with Amlwch's community pride project, which has given him a valuable insight into voluntary work, and into how young and elderly people can work alongside each other to improve the intergenerational relationship. A Dyfed-Powys Police officer has encouraged residents in her ward to implement the Home Watch scheme, which has promoted a community spirit, and has prompted neighbours to interact with, and support, each other.

Hoffwn roi blas i'r Aelodau o effaith gadarnhaol gweithredu'r ymrwymiad allweddol hwn ar fywydau pobl Cymru. Cyn inni ddechrau gweithredu'r rhaglen hon, roedd y Swyddfa Gartref yn ariannu bron i 700 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru. Felly, mae'r niferoedd wedi dyblu bron diolch i'n buddsoddiad ni. Rwyf wedi cael y pleser o gwrdd â llawer o swyddogion cymorth cymunedol dros y misoedd diwethaf. Rwyf wedi cerdded y rhawd gyda hwy a bŵm yn bresennol mewn seremoni ddatgan lle y rhoddais eu bathodynau pin Llywodraeth Cymru i swyddogion cymorth cymunedol newydd. Drwy'r swyddogion hyn gwiredir un o bolisiau allweddol y Llywodraeth hon a bu'n bleser gwirioneddol gweld hyn yn dwyn ffrwyth. Yn ddiethriad, mae'r swyddogion cymorth cymunedol yr wyf wedi cwrdd â hwy'n angerddol am y gwaith y maent yn ei wneud ac yn hollol ymroddedig i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

Rwyf wedi clywed straeon calonogol am swyddogion cymorth cymunedol ac aelodau eraill o deulu'r heddlu yn ffurfio perthynas agos â'u cymunedau, o redeg ymgyrchoedd gwrth-fwlio mewn ysgolion; ymgysylltu â phobl ifanc leol i chwalu'r rhwystrau rhyngddynt a'r heddlu; mynychu grwpiau pobl hŷn; helpu i gefnogi dioddefwyr troseddau; a hyd yn oed ddarparu gwybodaeth sy'n arwain at atafaelu cyffuriau. Maent yn wynebau adnabyddus yn eu cymunedau. Rwyf ar ddeall bod pobl yn teimlo'i bod yn haws mynd at swyddogion cymorth cymunedol na swyddogion â gwarant, a bod y cyhoedd yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth ymgysylltu â hwy.

Heno, yn y Senedd, caiff yr Aelodau gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr lluoedd heddlu Cymru, ynghyd â phum swyddog cymorth cymunedol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru o bob heddlu. Anogaf yr Aelodau i fod yn bresennol, ac i glywed o lygad y ffynnon gan rai o'r swyddogion cymorth cymunedol am eu gwaith. Cewch gyfle hefyd i sgwrsio'n anffurfiol â swyddogion cymorth cymunedol eraill, a gweld tystiolaeth o'u brwdfrydedd a'u hymrwymiad.

Rhoddaf rai enghreifftiau penodol o'r gwaith y mae swyddogion cymorth cymunedol yn ei wneud. Cymerodd swyddog cymorth cymunedol o Heddlu Gwent gyfrifoldeb am y prosiect Online Watch Link—OWL—a chydweithio â phlant ysgol, a'u helpu i ddeall materion diogelwch cymunedol. Fe'i dyfarnwyd yn swyddog cymorth cymunedol y flwyddyn gan Heddlu Gwent am ei hymroddiad i'r gymuned. Yn Heddlu De Cymru, mae un o'r swyddogion cymorth cymunedol yn mwynhau amrywiaeth ei waith. Mae'n ymwneud â phob agwedd ar blismona cymunedol. Ar un pen i'r sbectrwm, mae'n ymdrin â throeddau parcio, ac yn ymdrin hefyd ag achosion o fwrgeriaeth a marwolaethau ar y rheilffordd ar y pen arall. Mae'n cydnabod bod rhai agweddau ar y swydd yn fwy anodd nag eraill, ond mae'n dweud mai un nod sydd ganddo bob amser—rhoi cymorth i'r rhai sydd ei angen. Mae un o swyddogion cymorth cymunedol Heddlu Gogledd Cymru, sydd wedi'i leoli yn Amlwch, yn falch o ymwneud â phrosiect balchder cymunedol Amlwch, sydd wedi rhoi cipolwg gwerthfawr iddo ar waith gwirfoddol, ac ar y ffordd y gall pobl ifanc a'r henoed gydwethio i wella'r berthynas rhwng y cenedlaethau. Mae swyddog o Heddlu Dyfed-Powys wedi annog trigolion yn ei ward i roi'r cynllun Gwarchod Cartrefi ar waith, sydd wedi hyrwyddo ysbryd cymunedol, ac wedi annog cymdogion i ryngweithio â'i gilydd a chefnogi ei gilydd.

All 25 of the CSOs who will be attending the event this evening have provided case studies, which are brief insights into their working lives, and into how their role impacts on communities. These have been published on the Welsh Government's website. We also have a roll-call, listing all of the Welsh-Government-funded CSOs as of 30 September this year. 'Making a difference' is a phrase that comes up time and again in the case studies. The CSOs believe that they can, and do, make a real difference, and take pride in this, and I agree with that statement.

Mae pob un o'r 25 o swyddogion cymorth cymunedol a fydd yn bresennol yn y digwyddiad heno wedi darparu astudiaethau achos, sy'n rhoi cipolwg ar eu bywydau gwaith, ac ar y ffordd y mae eu swyddogaeth yn effeithio ar gymunedau. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae gennym hefyd restr o enwau pob un o'r swyddogion cymorth cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru o 30 Medi eleni. Mae 'gwneud gwahaniaeth' yn ymadrodd sy'n codi dro ar ôl tro yn yr astudiaethau achos. Mae'r swyddogion cymorth cymunedol yn credu eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn, a'u bod yn llwyddo i wneud hynny, ac maent yn ymfalchïo yn hynny, ac rwyf yn cytuno â'r datganiad hwnnw.

The recruitment of the additional 500-plus CSOs is an achievement that we as a Welsh Labour Government are proud of. It has been challenging, but all of those involved have shown drive and commitment to work together to achieve the best for the people of Wales. I look forward to seeing as many of you as possible at the event this evening, and I hope that you will join me there to find out first-hand how the funding that has been provided by the Welsh Government has been used and is making a difference.

Mae recriwtio'r 500 a mwy o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yn gamp yr ydym ni yn Llywodraeth Lafur Cymru yn falch ohoni. Mae wedi bod yn her, ond mae pawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith wedi dangos egni ac ymrwymiad i gydweithio i gyflawni'r gorau ar gyfer pobl Cymru. Edrychaf ymlaen at weld cynifer â phosibl ohonoch yn y digwyddiad heno, ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn ymuno â mi yno i gael gwybod o lygad y ffynnon sut y mae'r arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio a sut y mae'n gwneud gwahaniaeth.

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I have a long list of speakers on this item, so I ask you to stick to questions on the Minister's statement, please.

Mae gennyf restr hir o siaradwyr ar yr eitem hon, felly, gofynnaf ichi gadw at gwestiynau am ddatganiad y Gweinidog, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for your statement, Minister. I agree that funding must not simply plug gaps that have been left by reductions in budgets, which were, of course, announced by current and previous UK Governments. I welcome the fact that crime experienced by people has fallen to its lowest level since the Crime Survey for England and Wales began, and that crime in Wales fell 9% last year, but we must not be complacent.

Diolch am eich datganiad, Weinidog. Rwyf yn cytuno bod yn rhaid i arian wneud mwy na llenwi bylchau sydd wedi eu gadael oherwydd lleihau cyllidebau, rhywbeth a gyhoeddwyd, wrth gwrs, gan Lywodraethau presennol a blaenorol y DU. Croesawaf y ffaith fod troseddau yn erbyn pobl wedi gostwng i'w lefel isaf ers dechrau Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, a bod troseddu yng Nghymru wedi gostwng 9% y llynedd, ond rhaid inni beidio â bod yn hunanfodlon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You referred to an evaluation of the investment, and the programme. What will be the timescale of that evaluation? Will you anticipate reporting the outcome of that evaluation back to the Assembly, and, if so, when would you expect to be doing that? I personally know some of the PCSOs who have been recruited, and I endorse your view that they are passionate about the job that they do, and are committed to making a difference in their communities.

Cyfeiriasoch at werthusiad o'r buddsoddiad, ac at y rhaglen. Beth fydd amserlen y gwerthusiad hwnnw? A ydych yn rhagweld y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad am ganlyniad y gwerthusiad hwnnw, ac, os felly, pryd y bydddech yn disgwyl gwneud hynny? Rwyf yn adnabod yn bersonol rai o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sydd wedi eu recriwtio, ac yn ategu eich barn eu bod yn angerddol ynglŷn â'r gwaith y maent yn ei wneud, ac yn ymroddedig i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

I wish to ask three quick questions, and I will then sit down. You will be aware that, when PCSOs were first rolled out, the Police Federation of England and Wales was, putting it politely, sceptical, but it has warmed progressively over that time. In evidence from the federation, and from the Association of Chief Police Officers, to the Assembly's Communities, Equality and Local Government Committee—and to its predecessors—we have heard that the full range of powers, when applied, are most warmly welcomed, and that North Wales Police had taken the lead in Wales in doing that. Therefore, what engagement have you—and your predecessor—had with the forces in Wales, to ensure that the full range of powers that are available to unwarranted PCSOs is applied? You will be aware as a Wrexham Member that some years ago Wrexham took the decision to transfer its funding for local wardens to PCSOs because it could double the number of feet on the ground. Therefore, what discussions, in rolling this out, have you had with local authorities and other partners to ensure that you get maximum bang for your buck?

Finally, alongside PCSOs, as we have heard in evidence to committee from serving senior officers, there is also a role for specials as warranted officers, which is not always easy to manage because it is voluntary and people are not always available for rostering when required, but nonetheless, it is recognised as needed. So, what discussion or engagement have you had regarding the roll-out of specials alongside PCSOs?

Hoffwn ofyn tri chwestiwn cyflym, ac yna eisteddraf. Fel y gwyddoch, pan gyflwynwyd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu am y tro cyntaf, roedd gan Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr, a bod yn gwrtais, amheuan, ond maent wedi cynhesu'n raddol dros y cyfnod hwnnw. Mewn tystiolaeth gan y ffederasiwn, a chan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad—ac i'w ragflaenwyr—clywsom fod croeso twymgalon i'r ystod lawn o bwerau, pan gânt eu defnyddio, a bod Heddlu Gogledd Cymru wedi dangos arweiniad yn hynny o beth yng Nghymru. Felly, sut ydych chi—a'ch rhagflaenydd—wedi ymgysylltu â'r heddluoedd yng Nghymru, er mwyn sicrhau y defnyddir yr ystod lawn o bwerau sydd ar gael i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu heb warant? Fel y gwyddoch, a chithau'n Aelod dros Wrecsam, penderfynodd Wrecsam rai blynyddoedd yn ôl drosglwyddo'i chyllid ar gyfer wardeiniaid lleol i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu gan y gallai hynny ddyblu nifer y traed ar y ddaear. Felly, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael wrth gyflwyno hyn ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau eich bod yn cael y gwerth gorau posibl am eich arian?

Yn olaf, ochr yn ochr â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, fel y clywsom mewn tystiolaeth i'r pwyllgor gan uwch swyddogion sy'n gwasanaethu, mae swyddogaeth hefyd i swyddogion arbennig fel swyddogion â gwarant, nad yw'n swyddogaeth hawdd ei rheoli bob amser gan ei bod yn wirfoddol ac nad oes pobl ar gael bob amser i'w cynnwys ar y rhestr pan fo angen, ond serch hynny, cydnabyddir bod ei hangen. Felly, pa drafodaeth neu ymgysylltiad ydych chi wedi'u cael ynghylch y broses o gyflwyno swyddogion arbennig ochr yn ochr â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu?

15:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Mark Isherwood for those questions and I am very pleased that you agree with me that this funding should not be seen as simply plugging gaps that have been left by the UK Government's cuts to police budgets. The evaluation I referred to has only just started; I certainly will report to Assembly Members, and I would imagine that it would be early in the new year.

I think that you are right that there was certain scepticism about the role of police community support officers, but it is very clear to me, since I took on this portfolio, that that is no longer there. I meet regularly with the four chief constables of Welsh police forces, as did my predecessor, Carl Sargeant, whom I know was very supportive of bringing this achievement forward when he was in charge of this portfolio. I met with them just yesterday and we had a discussion around CSOs. They absolutely accept that these are 500 additional roles. Am I getting my money's worth? I certainly believe I am. They know that they have to prove the additional of the roles to me, to ensure that they get the funding for the extra ones that they have had.

In relation to specials and warranted officers, that is a matter for the police forces, which I have not discussed with them.

Diolch i Mark Isherwood am y cwestiynau hynny ac rwyf yn falch iawn eich bod yn cytuno â mi y dylai'r cyllid hwn wneud mwy na llenwi bylchau a adawyd gan doriadau Llywodraeth y DU i gyllidebau'r heddlu. Megis dechrau y mae'r gwerthusiad y cyfeiriais ato; yn sicr, byddaf yn adrodd i Aelodau'r Cynulliad, a byddwn yn dychmygu y byddai hynny'n gynnar yn y flwyddyn newydd.

Rwyf yn meddwl eich bod yn gywir yr arferai fod gryn amheuaeth ynghylch swyddogaeth swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, ond mae'n amlwg iawn i mi, ers imi gymryd y portffolio hwn, nad yw hynny'n wir mwyach. Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â phedwar prif gwnstabl heddluoedd Cymru, fel yr oedd fy rhagflaenydd, Carl Sargeant, yn ei wneud; gwn ei fod ef yn gefnogol iawn i gyflwyno hyn pan oedd yn gyfrifol am y portffolio hwn. Cefais gyfarfod â hwy ddoe ddiwethaf a chawsom drafodaeth am swyddogion cymorth cymunedol. Maent yn derbyn yn llwyr mai 500 o swyddi ychwanegol yw'r rhain. A wyf yn cael gwerth fy arian? Rwyf yn sicr yn credu fy mod. Maent yn gwybod bod yn rhaid iddynt brofi ychwanegedd y swyddogaethau imi, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyllid ar gyfer y rhai ychwanegol y maent wedi'u cael.

O ran swyddogion arbennig a swyddogion â gwarant, mater i'r heddluoedd yw hynny, ac nid wyf wedi ei drafod â hwy.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have had the opportunity to go out and about on the beat with one of our PCSOs in Brecon and have seen for myself the excellent work that they do and the unique ways in which they engage with our communities. I congratulate the Government for delivering on our manifesto commitment. There is no set selection procedure for PCSOs and the process varies across forces in Wales, so I would be keen to know how the Welsh Government is ensuring that best practice is shared, so that the Welsh Government's funding is used to recruit the very best calibre of candidates to serve as our PCSOs in our communities. Similarly, unlike police constables, there is no set training procedure for PCSOs, so training can vary from one force to the next. I am keen to know how much training does vary in Wales and how the Welsh Government is satisfying itself that the training of PCSOs with Welsh Government funding is of a consistently high standard across Wales.

Weinidog, rwyf wedi cael cyfle i fynd allan ar y rhawd gydag un o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn Aberhonddu ac wedi gweld dros of fy hun y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud a'r ffyrdd unigryw y maent yn ymgysylltu â'n cymunedau. Rwyf yn llongyfarch y Llywodraeth am wireddu ein hymrwymiad yn y maniffesto. Nid oes gweithdrefn ddethol benodol ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ac mae'r broses yn amrywio ar draws heddluoedd yng Nghymru, felly byddai'n dda gennyf gael gwybod sut y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu, fel bod cyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i recriwtio ymgeiswyr o'r safon uchaf i wasanaethu fel swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn ein cymunedau. Yn yr un modd, yn wahanol i gwnstabiaild yr heddlu, nid oes trefn hyfforddiant benodol ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, felly gall hyfforddiant amrywio o un heddlu i'r llall. Rwyf yn awyddus i wybod i ba raddau y mae hyfforddiant yn amrywio yng Nghymru, a sut y mae Llywodraeth Cymru'n ei bodloni ei hun bod yr hyfforddiant i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru o safon gyson uchel ledled Cymru.

PCSOs have a range of basic powers, but beyond that, certain additional powers can be assigned, and the practice again varies from force to force. Unison, which is the union representing most PCSOs, has argued that giving PCSOs different powers in different forces makes no sense when they are all doing the same job and it only serves to confuse the public, so I would welcome your take on that.

Mae gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ystod o bwerau sylfaenol, ond y tu hwnt i hynny, gellir neilltuo pwerau ychwanegol penodol, ac mae'r arfer unwaith eto'n amrywio o heddlu i heddlu. Mae Unsain, sef yr undeb sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, wedi dadlau nad yw'n gwneud dim synnwyr rhoi gwahanol bwerau i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu mewn gwahanol heddluoedd a hwythau i gyd yn gwneud yr un gwaith ac mai'r unig beth y mae'n ei wneud yw drysu'r cyhoedd, felly byddwn yn croesawu eich barn ar hynny.

Finally, I would welcome some comment on the continuous professional development and career progression for PCSOs. In any job, it is good to have a career pathway, but it is quite limited for PCSOs, and there is not much scope for additional responsibilities to be accrued over time. Once they have reached the top of their pay band, there is nowhere else to go. Is this something that you think could be further explored to better reflect the value that we place on PCSOs, and to reflect the esteem in which they are held by the police and by the public?

Yn olaf, byddwn yn croesawu rhyw sylw am ddatblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Mae'n dda cael llwybr gyrfa yn unrhyw swydd, ond mae'n eithaf cyfyngedig i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, ac nid oes llawer o le iddynt gronni cyfrifoldebau ychwanegol dros gyfnod. Unwaith y byddant wedi cyrraedd brig eu band cyflog, nid oes unman arall i fynd. A yw hyn yn rhywbeth yr ydych yn meddwl y gellid ei archwilio ymhellach i roi gwell adlewyrchiad o'r gwerth a roddwn ar swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, ac i adlewyrchu'r parch sydd gan yr heddlu a'r cyhoedd tuag atynt?

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Rebecca Evans, for those questions. I am very pleased that you have been out on the beat with a community support officer. When you go out on the beat with them, it is clear how people react to them—it is different to warranted police officers. You are quite right that they come from very different backgrounds. I said in my statement that I had attended a declaration ceremony in the South Wales Police area. There were 14 of them and what struck me was that it was quite a young group; the previous group I had met up in north Wales was—I will choose my words carefully—of people in their thirties. This was a very young group that had just gone through the training.

Diolch, Rebecca Evans, am y cwestiynau hynny. Rwyf yn falch iawn eich bod wedi bod allan ar y rhawd gyda swyddog cymorth cymunedol. Pan fyddwch yn mynd allan ar y rhawd gyda hwy, mae'n glir sut y mae pobl yn ymateb iddynt—mae'n wahanol i heddwision â gwarant. Rydych yn llygad eich lle eu bod yn dod o gefndiroedd gwahanol iawn. Dywedais yn fy natganiad imi fod yn bresennol mewn seremoni ddatgan yn ardal Heddlu De Cymru. Roedd 14 ohonynt a'r hyn a'm trawodd oedd ei fod yn grŵp eithaf ifanc; roedd y grŵp blaenorol y cyfarfŵm â hwy yn y gogledd—rwyf am ddewis fy ngeiriau'n ofalus—yn bobl yn eu tri degau. Roedd hwn yn grŵp ifanc iawn a oedd newydd gael hyfforddiant.

You referred to the training, and I know that in south Wales they are enrolled on a nine-week study course, they are then tutored on the street for eight weeks before they are finally deployed to go out on their own. You are right, there is a variation across the police forces and that is something on which I am having ongoing discussions to find that best practice, and to find out which is the best model to use.

In relation to CPD, we had a discussion yesterday, when I met with the chief constables about progression—quite often CSOs would like a career in the police force, but they perhaps start as a CSO first. Some do see it as a natural step into the police force. It was interesting to find out that the salary for a new police officer is slightly less than a CSO's salary, so that could have an impact on whether a CSO chooses to go into the police force. Again, that is something that, as we go through the second half of this Assembly—although, obviously, we have already fulfilled our programme for government commitment halfway through it—I want to continue to evaluate and assess their impact and how we can best support them.

Cyfeiriasoch at yr hyfforddiant, a gwn eu bod yn y de yn cofrestru ar gwrs astudio naw wythnos, eu bod wedyn yn cael eu hyfforddi ar y stryd am wyth wythnos cyn iddynt o'r diwedd gael mynd allan ar eu pen eu hunain. Rydych yn gywir—mae amrywiaeth ar draws yr heddluoedd ac mae hwnnw'n faes lle'r wyf yn cael trafodaethau parhaus i ddoe o hyd i'r arfer gorau hwnnw, ac i gael gwybod pa un yw'r model gorau i'w ddefnyddio.

O ran datblygiad proffesiynol parhaus, cawsom drafodaeth ddoe, pan gyfarfûm â'r prif gwnstabiliaid, am ddilyniant—yn aml iawn byddai swyddogion cymorth cymunedol yn dymuno cael gyrfa yn yr heddlu, ond efallai y byddant yn dechrau fel swyddog cymorth cymunedol yn gyntaf. Mae rhai yn ei weld yn gam naturiol tuag at ymuno â'r heddlu. Roedd yn ddiddorol cael gwybod bod cyflog swyddogion heddlu newydd ychydig yn llai na chyflog swyddogion cymorth cymunedol, felly gallai hynny effeithio ar ddewis swyddog cymorth cymunedol i ymuno â'r heddlu. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth, wrth inni fynd drwy ail hanner y Cynulliad hwn—er ein bod, wrth gwrs, eisoes wedi cyflawni ein hymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu hanner ffordd drwyddi—yr hoffwn barhau i'w werthuso, ac asesu eu heffaith a'r ffordd orau inni eu cefnogi.

15:41

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, gofynnais gwestiwn i chi yn gynharach yn eich swydd arall fel Gweinidog busnes ynglŷn â'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma. Rydym fel plaid wedi cefnogi'r syniad o gyflogi'r swyddogion hyn, ond bydd y gost o'u cyflogi y flwyddyn nesaf tua £16 miliwn. Gan fod y swyddogion hyn yn ymwneud â maes sydd heb ei ddatganoli a chan eu bod yn atebol yn rhannol i'r comisiynwyr heddlu newydd—sydd, eto, ddim yn atebol i Lywodraeth Cymru—a ydych chi'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno tystiolaeth newydd i gomisiwn Silk yn gosod y sefyllfa hon gerbron—y ffaith nad yw ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei ddatganoli a bod hynny yn creu problemau mawr o ran cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru?

Mae gennyf dri chwestiwn byr i chi ynglŷn â'r swyddogion hyn. Yn gyntaf, a ydych chi wedi cael cyfle eto i werthuso beth yw effaith y swyddogion hyn o ran lleihau troseddau? Yn ail, maent i fod yn fodd i leihau ofn pobl o drosedd, ond sut yn union y mae mesur hynny? Yn olaf, gan ystyried y ffaith nad ydynt yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru, a ydych yn credu bod modd cyfiawnhau £16 miliwn y flwyddyn yng nghyd-destun gweithgaredd y swyddogion hyn?

Minister, I asked you a question earlier in your other role as Minister business on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill. As a party we support the concept of employing these officers, but the cost of employing them next year will be somewhere in the region of £16 million. Given that these officers work in a non-devolved area and given that they are partially accountable to the new police commissioners—who, again, are not accountable to the Welsh Government—do you believe that there is a need here for the Welsh Government to provide new evidence to the Silk commission setting out this situation—the fact that anti-social behaviour is non-devolved and that that creates major problems in terms of the Welsh Government's responsibilities?

I have three brief questions on these officers. First, have you had an opportunity as yet to evaluate the impact of these officers in terms of crime reduction? Secondly, they are supposed to be a means of allaying people's fear of crime, but how exactly can that be measured? Finally, bearing in mind the fact that they are not directly accountable to the Welsh Government, do you believe that £16 million per annum is justifiable in the context of the activities of these officers?

15:43

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rhodri Glyn Thomas for those questions. In relation to Silk, obviously we have provided evidence to the Silk commission, and we have called for the devolution of executive and legislative responsibility for policing and community safety, because we believe that that would strengthen joint working to reduce crime and offending. It is now for the commission to consider our evidence. I do not think that we intend to submit any further evidence.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am y cwestiynau hynny. O ran Silk, wrth gwrs rydym wedi darparu tystiolaeth i gomisiwn Silk, ac wedi galw am ddatganoli cyfrifoldeb gweithredol a deddfwriaethol am blisma a diogelwch cymunedol, oherwydd credwn y byddai hynny'n cryfhau cydweithio i leihau troseddau a throseddau. Mae bellach yn bryd i'r comisiwn ystyried ein tystiolaeth. Ni chredaf ein bod yn bwriadu cyflwyno dim tystiolaeth bellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Community safety sits within my portfolio, so while I accept that policing is not devolved, I do see the programme for government commitment to provide these 500 additional CSOs as a very important part of my portfolio. I mentioned in my answer to Mark Isherwood that we have commissioned evaluation—I think that it is very important that we have robust evaluation. Certainly, I am hearing anecdotal evidence that the fear of crime disperses when people are seen out on the beat. It is important to see whether that is turned from anecdotal evidence into robust evidence. That is something, as I said, on which I am very happy to report back to the Assembly next year.

I have protected the funding for it up until 2016. I think that it is absolutely right to do so.

Mae diogelwch cymunedol yn rhan o'm portffolio i, felly er fy mod yn derbyn nad yw plismona wedi'i ddatganoli, credaf fod yr ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i ddarparu'r 500 swyddog cymorth cymunedol ychwanegol hyn yn rhan bwysig iawn o'm portffolio. Dywedais yn fy ateb i Mark Isherwood ein bod wedi comisiynu gwerthusiad—credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael gwerthusiad cadarn. Yn sicr, rwyf yn dlywed tystiolaeth anecdotaidd fod ofn troseddu'n lleihau pan gaiff pobl eu gweld allan ar y rhawd. Mae'n bwysig gweld a gaiff y dystiolaeth anecdotaidd honno ei thro'i'n dystiolaeth gadarn. Mae hynny'n rhywbeth, fel y dywedais, yr wyf yn hapus iawn i adrodd yn ôl i'r Cynulliad arno y flwyddyn nesaf.

Rwyf wedi diogelu'r cyllid ar ei gyfer hyd at 2016. Credaf ei bod yn gwbl briodol gwneud hynny.

15:44 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement, Minister. I understand that the chief constable has the authority to delegate these powers down to individual police CSOs. The reason for mentioning it is—I know that some local authorities are using private agencies to enforce dog control orders to address dog-fouling, and orders to address littering. In my local authority, I think it is the case that the private company gets 45 and the local authority gets 30. In my previous life, as a cabinet member for community safety—and I believe the previous Minister was involved—there was a lot of talk and planning, in terms of the fact that the chief constable in north Wales at that time was very proactive in pulling together these powers to be vested within these PCSOs, thereby establishing true collaborative working, and, in resource terms, a win-win situation in more ways than one. Have you given that any thought? Are you continuing that previous work at all? In Conwy, I am dealing with quite a bit of casework at the moment where the private enforcement side of things is causing some concern. A more joined-up approach, of the police and local authorities working together, is a far more sustainable option. I just wanted your views on that.

Diolch am eich datganiad, Weinidog, Deallaf fod gan y prif gwnstabl awdurdod i ddirprwyo'r pwerau hyn i swyddogion cymorth cymunedol unigol. Y rheswm dros grybwyll hynny yw hyn—gwn fod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio asiantaethau preifat i orfodi gorchmynion rheoli cŵn i ymdrin â baw cŵn, a gorchmynion i ymdrin â sbwriel. Yn fy awdurdod lleol i, rwyf yn credu bod y cwmni preifat yn cael 45 a'r awdurdod lleol yn cael 30. Yn fy mywyd blaenorol, fel aelod o'r cabinet ar gyfer diogelwch cymunedol—a chredaf fod y Gweinidog blaenorol yn rhan o hyn hefyd—roedd llawer o siarad a chynllunio, o ran y ffaith bod y prif gwnstabl yn y gogledd ar y pryd yn rhagweithiol iawn wrth dynnu'r pwerau hyn at ei gilydd i'w rhoi i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, a thrwy hynny sefydlu gwir gydweithio, ac, o ran adnoddau, sefyllfa lle'r oedd pawb ar eu hennill mewn mwy nag un ffordd. A ydych wedi ystyried hynny o gwbl? A ydych yn parhau â'r gwaith blaenorol hwnnw o gwbl? Yng Nghonwy, rwyf yn ymdrin â chrym dipyn o waith achos ar hyn o bryd lle mae'r agwedd gorfodi preifat yn achosi peth pryder. Mae dull mwy cydgyssylltiedig, lle mae'r heddlu ac awdurdodau lleol yn cydweithio, yn opsiwn mwy cynaliadwy o lawer. Hoffwn gael eich barn am hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I discussed that with the chief constables yesterday, and I think that it was the north Wales chief constable who referred to the close working that they undertake with local authorities. It is for police forces to have that operational independence and to decide where and how the CSOs are deployed, and, obviously, now, they will be working with the police and crime commissioners as we take those plans forward for subsequent years.

Trafodais hynny â'r prif gwnstabiliaid ddoe, ac rwyf yn meddwl mai prif gwnstabl y gogledd a gyfeiriodd at eu cydweithio agos ag awdurdodau lleol. Mater i'r heddluoedd yw cael yr annibyniaeth weithredol honno a phenderfynu ble a sut y caiff y swyddogion cymorth cymunedol eu defnyddio, ac, yn amlwg, yn awr, byddant yn gweithio gyda'r heddlu a chomisiynwyr troseddu wrth inni fwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny ar gyfer blynyddoedd dilynol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:46 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement and I fully support the initiative to recruit additional PCSOs. I have very close working relationships with the PCSOs in my community, who perform a fantastic and invaluable role in terms of supporting their police officer colleagues and in terms of community liaison, dealing with a number of issues that arise, particularly at the PACT meetings.

Rwyf yn croesawu'r datganiad ac yn llwyr gefnogi'r fenter i recriwtio swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol. Mae gennyf berthynas weithio agos iawn â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn fy nghymuned, sy'n gwneud gwaith gwych ac amhrisiadwy o ran cefnogi eu cydweithwyr sy'n heddweision ac o ran cyswllt cymunedol, gan ymdrin â nifer o faterion sy'n codi, yn enwedig yn y cyfarfodydd PACT.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I have a concern about overreliance on PCSOs. In my community, this has been addressed now, but there was a year in which the PCSOs were left to work on their own, without a warranted officer to back them up. In that situation, they do not have the full powers of a police officer, even with some of the lesser nuisance issues. As a result, they are not able to provide the full policing service that you would expect from the police force. Therefore, I was wondering, as part of your evaluation, whether you will be looking at how PCSOs work with warranted officers, and whether the experience I have had in my community is common and has been repeated elsewhere, or whether it is an exception.

My second question is in relation to the funding. I welcome the fact that you have secured the funding for another two years. Obviously, one would envisage the relationship that PCSOs form with the community lasting longer than two years. Once the evaluation comes back, are you envisaging making this funding a permanent part of your budget to ensure that we can guarantee a medium to long-term support from these extra 500 PCSOs?

Finally, I am aware that different police forces give different powers to PCSOs—they do not all have the same level of responsibility and power—depending on the chief constable and what role they want to engage them in. Will that form part of your study as well? Will you be making recommendations to the chief constables as to how you can get consistency across Wales in terms of the powers and responsibilities that PCSOs have as part of their work?

Rwyf yn pryderu am orddibyniaeth ar swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Yn fy nghymuned i, mae hyn wedi cael sylw erbyn hyn, ond am flwyddyn, cafodd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu eu gadael i weithio ar eu pen eu hunain, heb swyddog â gwarant i'w cefnogi. Yn y sefyllfa honno, nid oes ganddynt bwerau llawn heddwad, hyd yn oed o ran mân faterion yn ymwneud â niwsans. Felly, nid ydynt yn gallu darparu'r gwasanaeth plismona llawn y byddech yn ei ddisgwyl gan yr heddlu. Felly, fel rhan o'ch gwerthusiad, tybed a fyddwch yn edrych ar sut y mae swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cydweithio â swyddogion â gwarant, ac a yw'r profiad yr wyf wedi ei gael yn fy nghymuned i'n gyffredin ac wedi digwydd yn rhywle arall, ynteu a yw'n eithriad?

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â'r cyllid. Croesawaf y ffaith eich bod wedi sicrhau cyllid am ddwy flynedd arall. Wrth gwrs, byddem yn disgwyl i'r berthynas rhwng swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a'r gymuned bara mwy na dwy flynedd. Unwaith y daw'r gwerthusiad yn ôl, a ydych yn rhagweld y daw'r arian hwn yn rhan barhaol o'ch cyllideb i sicrhau y gallwn warantu cymorth yn y tymor canolig i'r tymor hir gan y 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol hyn?

Yn olaf, rwyf yn ymwybodol bod gwahanol heddluoedd yn rhoi gwahanol bwerau i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu—nid ydynt i gyd yn cael yr un lefel o gyfrifoldeb a phŵer—mae'n dibynnu ar y prif gwnstabl ac ym mha swyddogaeth y mae'n penderfynu eu cynnwys. A fydd hynny'n rhan o'ch astudiaeth hefyd? A fyddwch yn gwneud argymhellion i'r prif gwnstablaid ynghylch sut y gallwch gael cysondeb ledled Cymru o ran y pwerau a'r cyfrifoldebau sydd gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu fel rhan o'u gwaith?

15:48

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree that they play a fantastic role in the community. Obviously, our Welsh Government-funded 500 officers work alongside the 700 CSOs that are already out there and the police officers. It is 500 people in jobs, 500 people having opportunities and 500 people out there, playing a part in Welsh public life.

I hear what you are saying about them working on their own or not having the support from police officers. However, in south Wales, I was talking to Peter Vaughan yesterday, and he has lost 500 police officers due to the cuts in police funding from the UK Government. Therefore, we have to remember that the police forces are having significant cuts to their budget and are losing a great number of police officers.

As part of the evaluation, I would want to see how CSOs are working alongside police officers. That would be an important part of the evaluation. In relation to funding security, I welcome your thanks for ensuring that we have that funding up to 2016—and I would not think that it is part of my role to go beyond 2016. For this term of Government, it is important that that funding is there and that those CSOs know that their jobs are secure.

Cytunaf yn llwyr eu bod yn gwneud gwaith gwych yn y gymuned. Yn amlwg, mae'r 500 o swyddogion a ariennir gan Lywodraeth Cymru'n gweithio ochr yn ochr â'r 700 o swyddogion cymorth cymunedol a oedd yno eisoes ac â heddwision. Mae'n 500 o bobl mewn swyddi, 500 o bobl yn cael cyfleoedd a 500 o bobl allan yna, yn chwarae rhan yn mywyd cyhoeddus Cymru.

Clywaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud amdanynt yn gweithio ar eu pen eu hunain neu nad oes cefnogaeth ar gael iddynt gan heddwision. Fodd bynnag, yn y de, roeddwn yn siarad â Peter Vaughan ddoe, ac mae wedi colli 500 o heddwision oherwydd y toriadau yng nghyllid yr heddlu gan Lywodraeth y DU. Felly, rhaid inni gofio bod cyllidebau'r heddluoedd yn cael eu torri'n sylweddol a'u bod yn colli llawer iawn o heddwision.

Yn rhan o'r gwerthusiad, hoffwn weld sut y mae swyddogion cymorth cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â heddwision. Byddai hynny'n rhan bwysig o'r gwerthusiad. O ran sicrwydd cyllid, rwyf yn croesawu eich diolch am sicrhau ein bod yn cael y cyllid hyd at 2016—ac ni chredaf ei bod yn rhan o'm swyddogaeth i fynd y tu hwnt i 2016. Ar gyfer y tymor hwn o Lywodraeth, mae'n bwysig bod y cyllid hwnnw yno a bod y swyddogion cymorth cymunedol hynny'n gwybod bod eu swyddi'n ddiogel.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to consistency between different powers and different forces, I am not sure about making recommendations, but it is certainly something that I would want to have a further discussion with chief constables about, if we have four different systems, for instance, in Wales. I would want to know more about best practice in order to be able to share that.

O ran cysondeb rhwng gwahanol bwerau a gwahanol heddluoedd, nid wyf yn siŵr am wneud argymhellion, ond mae'n sicr yn rhywbeth yr hoffwn ei drafod ymhellach â phrif gwnstablaid, os oes gennym bedair system wahanol, er enghraifft, yng Nghymru. Byddwn yn awyddus i wybod mwy am yr arferion gorau er mwyn gallu rhannu hynny.

15:50 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I welcome the statement. This has been achieved after less than two and a half years of this Assembly. Therefore, congratulations are due for that.

Yn gyntaf, croesawaf y datganiad. Cyflawnwyd hyn ar ôl llai na dwy flynedd a hanner o'r Cynulliad hwn. Felly, mae longyfarchiadau'n ddyledus am hynny.

In my constituency, this is hugely popular. It is one of the most popular policies of the Welsh Labour Government. CSOs are providing additional front-line support; they are visible and are active on the streets of Swansea East. This is incredibly important when the number of police officers is being cut by the Westminster Government. My question is: what discussion has the Minister had with the police and crime commissioners to ensure that CSOs have the maximum impact?

Yn fy etholaeth i, mae hyn yn hynod boblogaidd. Mae'n un o bolisiau mwyaf poblogaidd Llywodraeth Lafur Cymru. Mae swyddogion cymorth cymunedol yn darparu cefnogaeth rheng flaen ychwanegol; maent yn weladwy ac yn weithgar ar strydoedd Dwyrain Abertawe. Mae hyn yn hynod bwysig pan fo'r Llywodraeth yn San Steffan yn torri niferoedd heddweision. Fy nghwestiwn yw: pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r heddlu a chomisïynwyr troseddu i sicrhau bod swyddogion cymorth cymunedol yn cael yr effaith fwyaf bosibl?

Daeth Angela Burns i'r Gadair am 15:50.

Angela Burns took the Chair at 15:50.

15:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meet regularly with the PCCs. I met them last Thursday and, once again, CSOs were on our agenda. They, too, welcome the additionality. They recognise the importance for police forces to demonstrate that additionality to us in order to be able to access our funding for their CSOs.

Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â'r Comisiynwyr. Cefais gyfarfod â hwy ddydd lau diwethaf ac, unwaith eto, roedd swyddogion cymorth cymunedol ar ein hagenda. Maent hwythau'n croesawu'r ychwanegedd. Maent yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i heddluoedd ddangos yr ychwanegedd hwnnw inni er mwyn sicrhau bod ein cyllid ar gael ar gyfer eu swyddogion cymorth cymunedol.

You are absolutely right to say that they are very visible. I went out on the beat with a CSO called Lee in mid Wales, and it was really good to see how people reacted to him. I believe that people treat them very differently to warranted police officers. That is a very important part of their role.

Rydych yn llygad eich lle eu bod yn weladwy iawn. Bùm allan ar y rhawd gyda swyddog cymorth cymunedol o'r enw Lee yn y canolbarth, ac roedd yn braf iawn gweld sut mae pobl yn ymateb iddo. Rwyf yn credu bod pobl yn eu trin yn wahanol iawn i heddweision â gwarant. Mae hynny'n rhan bwysig iawn o'u swyddogaeth.

15:51 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:52 **Datganiad: Bysiau Arriva Cymru**

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Following Arriva Buses Wales's announcement about proposals to cut a number of services in north and west Wales, I convened an officials group to work with the three local authorities and to report back to me with options for maintaining services. Today, I am in a position to be able to give you an update on progress. The group has now reported back to me with its recommendations and has identified a mechanism for securing the provision of the services, the majority of which are currently scheduled to end in December.

Statement: Arriva Buses Wales

Yn dilyn cyhoeddiad Bysiau Arriva Cymru ynghylch cynigion i dorri nifer o wasanaethau yng ngogledd a gorllewin Cymru, galwais grŵp o swyddogion at ei gilydd i weithio gyda'r tri awdurdod lleol ac i adrodd yn ôl i mi gydag opsiynau ar gyfer cynnal gwasanaethau. Heddiw, rwyf mewn sefyllfa i allu rhoi diweddariad ar y cynnydd i chi. Mae'r grŵp bellach wedi adrodd yn ôl i mi gyda'i argymhellion ac mae wedi nodi mecanwaith ar gyfer sicrhau darpariaeth y gwasanaethau, y rhan fwyaf ohonynt wedi eu trefnu i ddod i ben ym mis Rhagfyr, fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To secure these services in the short term, we are discussing with local authorities the awarding of contracts under emergency procedures to local operators while we look at the longer term solutions for a sustainable network of services. Funding for the X94 service between Wrexham and Barmouth, which forms part of the TrawsCymru network, will be provided by top-slicing the regional transport services grant. We are continuing our discussions with the local authorities about the funding mechanisms for the remaining services.

Bus services are essential to improving the quality of people's lives, and our priority in Wales has to be to ensure that we have a transport system that helps to improve the economic competitiveness of Wales, that provides good access to jobs and services, and reduces poverty for the people of Wales. However, we face considerable challenges in achieving this. As I outlined in the debate last week, the majority of bus services are provided commercially by operators in response to their assessment of the need for, and profitability of, those services. Local authorities have powers to subsidise the services that they consider to be socially necessary, using their own budgets as well as the Welsh Government's regional transport services grant funding.

We have allocated £25 million this year to Wales's four regional transport consortia through the regional transport services grant to help boost the number and range of subsidised, socially necessary bus and community transport services. However, our funding and support of bus services and community transport schemes are likely to continue to come under considerable pressure. In addition, there is an enormous challenge in some areas, especially among rural communities, because some services will need to rely on subsidy to run. Given the difficult position that we find ourselves in, in terms of our limited resource and the bus network's need to attract more fare-paying passengers, we need to be more imaginative and look for innovative solutions to our public transport provision in Wales. We also need to look at all the issues around the help and assistance that we give to bus services in Wales and how we can better deliver regional transport.

The regional transport consortia were originally established to develop the regional transport plans, and they have developed a broader role overseeing delivery. When I speak to businesses and local authority leaders across Wales, their message is very clear: the consortia have not been as effective at driving delivery at regional level as we might have hoped. At the same time, the city region model is taking shape, and there is an opportunity for the boards to take a greater role in relation to transport. Recognising this, I have asked my officials to examine the options for how we could improve regional delivery of transport. The important thing is to maintain people's access to key services and facilities as much as we can.

Er mwyn sicrhau'r gwasanaethau hyn yn y tymor byr, rydym yn trafod dyfarnu contractau gydag awdurdodau lleol o dan weithdrefnau brys i weithredwyr lleol tra ein bod yn edrych ar yr atebion tymor hir ar gyfer rhwydwaith cynaliadwy o wasanaethau. Bydd cyllid ar gyfer y gwasanaeth X94 rhwng Wrecsam ac Abermaw, sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith TrawsCymru, yn cael ei ddarparu drwy frigidorri grant gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol. Rydym yn parhau â'n trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol ynghylch y mecanweithiau cyllido ar gyfer y gwasanaethau eraill.

Mae gwasanaethau bysiau yn hanfodol i wella ansawdd bywydau pobl, a sicrhau bod gennym system drafnidiaeth sy'n helpu i wella gallu cystadleuol economaidd Cymru, sy'n darparu mynediad da at swyddi a gwasanaethau, ac sy'n lleihau tlodi ar gyfer pobl Cymru, o reidrydd, yw ein blaenoriaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran cyflawni hyn. Fel yr amlinellais yn y ddadl yr wythnos diwethaf, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yn cael eu darparu'n fasnachol gan weithredwyr mewn ymateb i'w hasesiad o'r angen am, a phroffidioldeb, y gwasanaethau hynny. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i roi cymhorthdal i'r gwasanaethau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol yn gymdeithasol, gan ddefnyddio eu cyllidebau eu hunain yn ogystal ag arian grant gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi dyrannu £25 miliwn eleni i bedwar consortiwm trafndiaeth rhanbarthol Cymru drwy grant gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol i helpu i gynyddu nifer ac ystod y gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol â chymhorthdal, sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Fodd bynnag, mae ein cyllid a'n cefnogaeth i'r gwasanaethau bysiau a chynlluniau cludiant cymunedol yn debygol o barhau i ddod o dan bwysau sylweddol. Yn ogystal, mae her enfawr mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ymysg cymunedau gwledig, gan y bydd angen i rai gwasanaethau ddiybennu ar gymhorthdal i allu rhedeg. O ystyried y sefyllfa anodd yr ydym yn canfod ein hunain ynddi, o ran ein hadnoddau cyfyngedig ac angen y rhwydwaith bysiau i ddenu mwy o deithwyr sy'n talu, mae angen i ni fod yn fwy dychmygus a chwilio am atebion arloesol i'n darpariaeth o gludiant cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen hefyd inni edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r help a'r cymorth yr ydym yn ei roi i wasanaethau bysiau yng Nghymru a sut y gallwn ddarparu cludiant rhanbarthol yn well.

Sefydlwyd y consortia trafndiaeth rhanbarthol yn wreiddiol i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol, ac maent wedi datblygu swyddogaeth ehangach gan oruchwylio cyflenwi. Pan fyddaf yn siarad â busnesau ac arweinyddion awdurdodau lleol ledled Cymru, mae eu neges yn glir iawn: nid yw'r consortia wedi bod mor effeithiol o ran sbarduno cyflenwi ar lefel ranbarthol ag y gallm fod wedi gobeithio. Ar yr un pryd, mae'r model rhanbarth dinas yn cymryd siâp, ac mae cyfle i'r byrddau chwarae mwy o ran ynglŷn â chludiant. Gan gydnabod hyn, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar yr opsiynau ar gyfer sut y gallm wella darpariaeth trafndiaeth ranbarthol. Y peth pwysig yw cynnal mynediad pobl at wasanaethau a chyfleusterau allweddol gymaint ag y gallwn.

Given the difficult financial circumstances in which we find ourselves, we need to ensure that we are looking at all of our funding mechanisms to maximise value for money and secure the best possible outcome for the provision of public transport. A sustainable bus network depends on increasing the number of fare-paying passengers. As a Government, we are committed to enhancing the transport system in Wales, to demonstrate that we are open for business, provide employment opportunities, stimulate the economy and reduce poverty.

O ystyried yr amgylchiadau ariannol anodd yr ydym yn canfod ein hunain ynddynt, mae angen i ni sicrhau ein bod yn edrych ar ein holl fecanweithiau cyllid i sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer darparu cludiant cyhoeddus. Mae rhwydwaith bysiau cynaliadwy yn dibynnu ar gynyddu nifer y teithwyr sy'n talu. Fel Llywodraeth, rydym ni wedi ymrwymo i wella'r system drafnidiaeth yng Nghymru, er mwyn dangos ein bod yn agored i fusnes, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, yn ysgogi'r economi ac yn lleihau tlodi.

15:55 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on Byron Davies.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Byron Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:55 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Minister, I welcome your statement. However, I have some grave concerns that, on the face of it, you are again setting up another review group. The Government seems to be under constant review these days with very little action, if I may say so.

Diolch yn fawr. Weinidog, rwy'n croesawu eich datganiad heddiw. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon dwys eich bod, ar yr wyneb, unwaith eto'n sefydlu grŵp adolygu arall. Mae'r Llywodraeth yn ymddangos i fod o dan adolygiad cyson y dyddiau hyn gydag ychydig iawn o weithredu, os caf ddweud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have a couple of specific questions about the statement. First, where is the running dialogue with the bus industry in Wales and when did you know that Arriva buses was pulling out of routes? Why was this support not being put into place prior to the announcement? It seems that you are only ever reacting and, again, it indicates a complete breakdown in proactive communication between bus operators and the Welsh Government.

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau penodol am y datganiad. Yn gyntaf, ble mae'r deialog parhaus gyda'r diwydiant bysiau yng Nghymru a phryd oeddech chi'n gwybod bod bysiau Arriva yn tynnu'n ôl o lwybrau? Pam nad oedd y gefnogaeth hon yn cael ei rhoi ar waith cyn y cyhoeddiad? Mae'n ymddangos mai dim ond ymateb yr ydych bob amser ac, unwaith eto, mae'n dangos methiant llwyr o ran cyfathrebu rhagweithiol rhwng gweithredwyr bysiau a Llywodraeth Cymru.

Do you not fear that other routes will suffer the same fate if you top-slice the regional transport service grant while bottom-slicing most of the other grants?

Onid ydych chi'n ofni y bydd llwybrau eraill yn dioddef yr un dynged os ydych chi'n brigdorri grant gwasanaethau trafndiaeth rhanbarthol tra eich bod yn gwaelod-dorri'r rhan fwyaf o'r grantiau eraill?

I will accept that you obviously blame the UK Government cuts for service closures, but other parts of the UK have taken measures to mitigate the effect of the grant reduction, such as the better bus areas fund, the clean bus technology fund and the green bus scheme. In fact, the director of the Confederation of Passenger Transport Cymru, John Pockett, argued in June 2013 that there is none of this here, just an across-the-board cut. So, I ask, where are other funding streams and measures to mitigate grant reductions that could have prevented these route closures?

Rwyf yn derbyn eich bod yn amlwg yn rhoi'r bai ar Lywodraeth y DU am gau gwasanaethau, ond mae rhannau eraill o'r DU wedi cymryd camau i liniaru effaith y gostyngiad grant, megis y gronfa ardaloedd bws gwel, y gronfa technoleg bws glân a'r cynllun bws gwyrdd. Yn wir, roedd cyfarwyddwr Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru, John Pockett, yn dadlau ym mis Mehefin 2013 nad oes dim o hyn yma, dim ond toriad cyffredinol. Felly, rwy'n gofyn, lle mae ffrydiau ariannu eraill a mesurau i liniaru gostyngiadau grant a allai fod wedi atal cau'r llwybrau hyn?

Could you tell the Chamber when will this official group have a working solution to secure these routes in the medium to long term? Finally, Minister, when will officials report back on replacing the regional transport consortia? Do you not think that action is required urgently to prevent any further service withdrawal? I think that I can safely predict that this is the beginning, not the end of the problem due to the grant reductions and other pressures on the bus industry. The transport industry needs action now. Our communities will be left stranded if the usual continual review, which this Government seems to phase in and out of, continues.

Allech chi ddweud wrth y Siambwr pryd y bydd gan y grŵp swyddogol hwn ateb ymarferol i sicrhau'r llwybrau hyn yn y tymor canolig i'r tymor hir? Yn olaf, Weinidog, pryd y bydd swyddogion yn adrodd yn ôl ar ddisodli'r consortia trafndiaeth rhanbarthol? Onid ydych chi'n credu bod angen gweithredu ar frys i atal tynnu unrhyw wasanaeth pellach yn ôl? Rwy'n meddwl y gallaf ddarogan yn sicr mai dechrau, nid diwedd y broblem yw hyn oherwydd y gostyngiadau grant a phwysau eraill ar y diwydiant bysiau. Mae'r diwydiant trafndiaeth angen camau gweithredu nawr. Bydd ein cymunedau yn cael eu gadael ar y clwt os bydd yr adolygiad parhaus arferol, y mae'r Llywodraeth hon yn ymddangos i'w gyflwyno a'i ddiddymu, yn parhau.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I make it quite clear that I take this issue very seriously indeed? I have had enormous support from the three local authorities currently involved. They want to look at innovative solutions to some of these issues.

I am quite surprised at your contribution, because I understood that, as a party, you wanted to leave everything to market forces. If we leave everything to market forces within rural areas, there would not be any services. Therefore, we need to know what support and subsidy arrangements we can put in as a Government and whether they are effective. The question that must be asked now is: how do bus operators operate? My officials have regular dialogues with these individuals and we are aware of issues around the services.

The point on which I agree with you in terms of the questions that you have asked is that this is not just going to involve the areas that are affected now. Your leader Andrew R.T. Davies last week in the Chamber raised the whole issue of the Vale of Glamorgan services, as has Jane Hutt. This will affect many rural areas. Therefore, we have to look at a solution that is suitable in terms of rural Wales and maintaining a service.

We have to recognise that there is an issue about the budget. It has to be more effective. I am not setting up endless reviews. What am I supposed to do? Sit in my office and make a decision without consulting the local authorities involved or any individuals, or experts? I do not work like that. I try to do business in a way that takes the majority of people with me. In terms of these issues, I will have the support of the Chamber on the direction of travel.

A gaf i ei gwneud yn gwbl glir fy mod yn ystyried hwn yn fater difrifol iawn? Rwyf wedi cael cefnogaeth aruthrol gan y tri awdurdod lleol sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd. Maent yn awyddus i edrych ar atebion arloesol i rai o'r materion hyn.

Rwy'n synnu braidd at eich cyfraniad, gan fy mod yn deall eich bod, fel plaid, am adael popeth i rymoedd y farchnad. Os byddwn yn gadael popeth i rymoedd y farchnad mewn ardaloedd gwledig, ni fyddai unrhyw wasanaethau. Felly, mae angen inni wybod pa gymorth a threfniadau cymhorthdal y gallwn ei rhoi fel Llywodraeth a pha un a ydynt yn effeithiol. Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn yn awr yw: sut mae gweithredwyr bysiau yn gweithredu? Mae fy swyddogion yn cael deialogau rheolaidd gyda'r unigolion hyn ac rydym yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â gwasanaethau.

Y pwynt yr wyf yn cytuno â chi arno o ran y cwestiynau yr ydych wedi'u gofyn yw nad yw hyn yn unig yn mynd i gynnwys yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn awr. Yr wythnos diwethaf yn y Siambr cododd eich arweinydd Andrew R.T. Davies yr holl fater o wasanaethau ym Mro Morgannwg, fel y mae Jane Hutt wedi'i wneud. Bydd hyn yn effeithio ar lawer o ardaloedd gwledig. Felly, mae'n rhaid i ni edrych ar ateb sy'n addas ar gyfer Cymru wledig ac ar gyfer cynnal gwasanaeth.

Mae'n rhaid i ni gydnabod bod problem ynghylch y gyllideb. Mae'n rhaid iddi fod yn fwy effeithiol. Nid wyf yn sefydlu adolygiadau diddiwedd. Beth ydw i i fod i'w wneud? Eistedd yn fy swyddfa a gwneud penderfyniad heb ymgynghori â'r awdurdodau lleol dan sylw neu unrhyw unigolyn, neu arbenigwyr? Nid wyf yn gweithio felly. Rwy'n ceisio gwneud busnes mewn ffordd sy'n mynd â'r rhan fwyaf o bobl gyda mi. O ran y materion hyn, byddaf yn cael cefnogaeth y Siambr ar gyfeiriad y teithio.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn wahanol i lefarydd y Torïaid, a gaf i ddiolch ichi am eich datganiad, ac am y flaenoriaeth yr ydych chi wedi ei rhoi, gydag awdurdodau lleol, i geisio ffeindio datrysiaid i gollu gwasanaethau bws yn y gorllewin? Mae cyhoeddiad Arriva ddim ond pythefnos yn ôl wedi hala nifer o'm hetholwyr i ac etholwyr Aelodau eraill yn y Siambr hon i mewn i banig ynglŷn â cholli gwasanaeth sydd mor bwysig iddynt. Rwyf wedi clywed gan bobl sydd heb geir ac sydd angen y gwasanaethau bws hyn i gyrraedd eu gwaith, myfyrwyr yn Aberystwyth ac yn Llanbed sy'n ofni colli'r unig wasanaeth rhwng eu prifysgol a'u cartrefi, pobl sy'n defnyddio'r bysus hyn yn rheolaidd i ymweld ag ysbytai Glangwili a Bronglais ac, wrth gwrs, holl ddefnyddwyr cyson eraill y bysus hyn sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu rhedeg gan Arriva.

Y cyntaf o'r cwestiynau sy'n codi o'ch datganiad, Weinidog, yw'r un mae etholwyr yn ei ofyn i mi yn gyson: pa sicrwydd y gallwch ei roi iddynt fel defnyddwyr presennol gwasanaeth Arriva yn y gorllewin y bydd bysus yn rhedeg ar y dydd ar ôl i Arriva dynnu allan ohonynt, ar 22 Rhagfyr? Felly, pa mor ffyddiog ydych chi y byddwch yn gallu rhoi datrysiaid dros dro ar waith gydag awdurdodau lleol bryd hynny?

Unlike the Conservatives' spokesperson, may I thank you for your statement and for the priority that you, along with local authorities, have given to finding a solution to the loss of bus services in west Wales? The Arriva announcement that was made just a fortnight ago has led many of my constituents and those of other Members in this Chamber into a blind panic about the loss of a service that was so crucial to them. I have been contacted by people who do not have cars and therefore need these bus services to get to work, students in Aberystwyth and Lampeter who fear losing the only service that connects their university and homes, people who use these buses regularly to visit Glangwili and Bronglais hospitals, and, of course, all other regular travellers on these bus services currently run by Arriva.

The first question that arises from your statement, Minister, is the one that constituents ask me regularly: what assurance can you give to them as people who currently use these Arriva services in west Wales that there will be buses running on the day after Arriva withdraws from the service on 22 December? So, how confident are you that you will be able to find a temporary solution along with local authorities at that time?

Yn ail, Weinidog, rydych wedi cyfeirio'n benodol yn eich datganiad at wasanaeth X94 sy'n rhan o rwydwaith TrawsCymru ac yn wasanaeth pwysig, wrth gwrs, ond mae'r gwasanaethau rhwng Aberystwyth a Hwlfordd a'r gwasanaethau rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin hefyd yn wasanaethau strategol cenedlaethol ac yn llawer mwy na dim ond gwasanaethau lleol, yn enwedig yn absenoldeb gwasanaeth trên o unrhyw fath yn yr ardal honno. Felly, rwy'n gobeithio eich bod yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethol yn ogystal â lleol y gwasanaethau bysus penodol hynny. Yn dilyn 22 Rhagfyr, pan fydd gwasanaeth presennol Arriva yn diflannu o lawr gwlad, a ydych yn rhagweld y byddwch, yn gyntaf, yn rhoi datrysiad dros dro ar waith er mwyn cwrdd â'r argyfwng presennol cyn gweithio gyda chwmnïau bysus lleol ac awdurdodau lleol i sicrhau datrysiad cynaliadwy, hirdymor ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn?

Secondly, Minister, you made specific reference in your statement to the X94 service, which is part of the TrawsCymru network and is an important service, of course, but services between Aberystwyth and Haverfordwest and between Aberystwyth and Carmarthen are also strategically important national services and are much more than simply local services, particularly in the absence of a train service of any kind in that area. So, I hope that you acknowledge the national importance as well as the local importance of those specific bus services. After 22 December, when the current Arriva service will disappear, do you anticipate that you will, first of all, find a temporary solution in order to deal with the current crisis, before working with local bus companies and local authorities to secure a sustainable, long-term solution for these important services?

16:02

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can well understand the concerns of your constituents about travelling to work, those of students and regarding hospital transport, which is one of the issues that I have been discussing with my colleague the Minister for health, about how services in rural areas need to be more flexible to get people to things like hospital appointments, so that we can fit things in much better. There is considerable work going on in that area in his department, all of which impacts on the issues that you raised. I am relatively confident that we will find a temporary solution in order that your constituents will not be discommoded because of the goodwill of the local authorities and the fact that we will look at awarding contracts using emergency procedures. That work is proceeding well in terms of the discussions that have been undertaken.

Gallaf ddeall pryderon eich etholwyr yn iawn ynglŷn â theithio i'r gwaith, a phryderon myfyrwyr ac ynglŷn â chludiant i'r ysbty, sy'n un o'r materion yr wyf wedi bod yn ei drafod â'm cydweithiwr, y Gweinidog iechyd, am y ffaith fod angen i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig fod yn fwy hyblyg fel bod pobl yn cyrraedd pethau fel apwyntiadau ysbty, fel y gallwn drefnu pethau yn llawer gwell. Mae gwaith sylweddol yn mynd ymlaen yn y maes hwnnw yn ei adran, ac mae hyn i gyd yn effeithio ar y materion a godwyd gennych. Rwy'n gymharol hyderus y byddwn yn dod o hyd i ateb dros dro er mwyn sicrhau na pherir trafferth i'ch etholwyr oherwydd ewyllys da'r awdurdodau lleol a'r ffaith y byddwn yn edrych ar ddyfarnu contractau gan ddefnyddio gweithdrefnau argyfwng. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo yn dda o ran y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I concur absolutely with your point about the national services that are provided, not just TrawsCymru, but some of the other services that are provided. We have to look at these issues once again, because what is happening with some of these services is not panning out well, and I think that we have to be imaginative in our approach. Our problem, of course, is the legislation on the deregulation of bus services, which is the background that all this operates against. I think that it is time for some further decisions on that. Only yesterday, I was talking to Professor Stuart Cole, who is, of course, an expert on bus services and everything to do with transport, and he has agreed to assist by looking at some different mechanisms of dealing with bus services in rural areas, which might be more appropriate.

Cytunaf yn llwyr â'ch pwynt am y gwasanaethau cenedlaethol a ddarperir, nid yn unig TrawsCymru, ond rhai o'r gwasanaethau eraill a ddarperir. Mae'n rhaid i ni edrych ar y materion hyn unwaith eto, oherwydd nid yw'r hyn sy'n digwydd gyda rhai o'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n dda, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn greadigol yn ein dull o weithredu. Ein problem, wrth gwrs, yw'r ddeddfwriaeth ar ddadreoleiddio gwasanaethau bysiau, sef y cefndir y mae hyn i gyd yn gweithredu yn ei erbyn. Rwy'n meddwl ei bod yn bryd i gael rhai penderfyniadau pellach ar hynny. Ddoe ddiwethaf, roeddwn yn siarad â'r Athro Stuart Cole, sydd, wrth gwrs, yn arbenigwr ar wasanaethau bysiau a phopeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, ac mae wedi cytuno i gynorthwyo drwy edrych ar rai gwahanol ddulliau o ymdrin â gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig, a allai fod yn fwy priodol.

16:03

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad heddiw, Weinidog.

Thank you for your statement today, Minister.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am particularly pleased to hear aspects of your announcement today, particularly in terms of the good news about the X94. This has been a matter of great concern to people along the Barmouth to Wrexham route and particularly to my colleague Aled Roberts, who has been proactive on this particular matter. As was discussed in the leader of the opposition's short debate just last Wednesday, it is abundantly clear that the decision in respect of Aberystwyth came as a shock to communities, not just in the town, but across Ceredigion, and has spurred a number of people into action. Within days, there were at least two local petitions that I am aware of, calling for services to be retained and, indeed, expanded, for the reasons that Elin Jones has outlined. One of them, with Ceredigion County Council, has already garnered in excess of 1,000 signatures, which shows just the start of the strength of opinion in that area.

As we are all painfully aware, in areas of deep rurality, such as we find across my region of Mid and West Wales, high fuel prices and long commutes place an enormous reliance on the limited public transport options available. Indeed, as the Minister has outlined, if the market alone were left to decide, we would clearly be in a worse place. As such, given the strain that companies are under, in retrospect perhaps we should have been a little less surprised at the gravity of the announcement that was made.

I would like to seek clarity on a couple of issues around the Ceredigion experience, particularly issues around the shared ownership, which I understand applies to some of the bus stock in that particular case. I wonder, Minister, whether you could give us some clarity as to what the situation is there, and whether there is the potential of a financial clawback or other arrangements that might come into play if the worst were to occur. In addition, I was also pleased to hear your reference to the Vale of Glamorgan. There have been a number of issues there that have been raised with colleagues of mine, and with me, regarding services around Cowbridge, and also the controversial re-routing of the X91 serving Aberthaw. I would appreciate any update that you would have in that respect.

Finally, you will be aware, Minister, that we have had an extensive exchange of correspondence with regard to petitions that have been brought to the Assembly regarding transport links, particularly with respect to west Wales. I would like you to reassure the Assembly—and indeed the petitioners—that their concerns are also to be fed into the wider role of the group that you have set up and the experts who are advising you.

Rwy'n arbennig o falch o glywed agweddau ar eich cyhoeddiad heddiw, yn enwedig o ran y newyddion da am yr X94. Mae hwn wedi bod yn fater o bryder mawr i bobl ar hyd y llwybr o Abermaw i Wrecsam ac yn arbennig i fy nghydweithiwr Aled Roberts, sydd wedi bod yn rhagweithiol ar y mater penodol hwn. Fel y trafodwyd yn nabl fer arweinydd yr wrthblaidd ddydd Mercher diwethaf, mae'n gwbl amlwg bod y penderfyniad ar gyfer Aberystwyth wedi dod fel sioc i gymunedau, nid yn unig yn y dref, ond ar draws Ceredigion, ac mae wedi sbarduno nifer o bobl i weithredu. O fewn dyddiau, roedd o leiaf dwy ddeiseb leol yr wyf yn ymwybodol ohonynt, yn galw am gadw ac, yn wir, ehangu gwasanaethau, am y rhesymau y mae Elin Jones wedi'u hamlinellu. Mae un ohonynt, gyda Chyngor Sir Ceredigion, eisoes wedi denu dros 1,000 o lofnodion, dydd ddim ond yn dechrau dangos y teimladau cryf yn yr ardal honno.

Fel yr ydym i gyd yn boenus o ymwybodol, mewn ardaloedd hynod wledig, fel y rhai a welwn ar draws fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae prisiau tanwydd uchel a theithiau cymudo hir yn gosod dibyniaeth enfawr ar yr opsiynau cludiant cyhoeddus cyfyngedig sydd ar gael. Yn wir, fel y mae'r Gweinidog wedi amlinellu, pe gadewid i'r farchnad yn unig i benderfynu, byddem yn amlwg mewn lle gwaeth. Fel y cyfryw, o ystyried y straen i gwmnïau, wrth edrych yn ôl efallai na ddylem fod wedi cael ein synnu cymaint gan ddirifoldeb y cyhoeddiad a wnaethpwyd.

Hoffwn gael eglurhad ar un neu ddau o faterion yn ymwneud â phrofiad Ceredigion, yn enwedig materion sy'n ymwneud â chyd-berchnogaeth, sydd, yr wyf yn deall yn berthnasol i rywfaint o'r stoc bysiau yn yr achos penodol hwnnw. Tybed, Weindog, a allech chi roi rhywfaint o eglurder i ni ynghylch beth yw'r sefyllfa yno, ac a oes potensial ar gyfer adfachu ariannol neu drefniadau eraill a ellid eu defnyddio os bydd y gwaethaf yn digwydd. Yn ogystal, roeddwn hefyd yn falch o glywed eich cyfeiriad at Fro Morgannwg. Bu nifer o faterion yno a godwyd gyda chydweithwyr i mi, a gyda minnau hefyd, ynglŷn â gwasanaethau yn ardal y Bont-faen, a hefyd ail-gyfeirio dadleuol yr X91 sy'n gwasanaethu Aberddawan. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth ddiweddar a allai fod gennych ynglŷn â hynny.

Yn olaf, byddwch yn ymwybodol, Weindog, ein bod wedi cyfnewid gohebiaeth helaeth o ran deisebau sydd wedi cael eu dwyn i'r Cynulliad ynghylch cysylltiadau trafniadaeth, yn enwedig o ran gorllewin Cymru. Hoffwn i chi roi sicrwydd i'r Cynulliad—ac yn wir i'r deisebwyr—bod eu pryderon hefyd i gael eu bwydo i mewn i swyddogaeth ehangach y grŵp yr ydych wedi'i sefydlu a'r arbenigwyr sy'n eich cynghori.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Chair of the Petitions Committee, I think that you are likely to have a lot of work in respect of petitions around bus services now and into the future, as we look at the stark reality of some of the issues around the delivery of services, particularly within rural Wales. In terms of the Ceredigion experience, I think that there will be many lessons to be learned. I think that we could have indicated very early on about some of these routes: that there was concern that any commercial operator might have wanted to run them. I think that it is fair to say that, perhaps, if they had not done, we might have been in a better position of supporting those routes. So, I think that these are some of the issues that we have to go through.

We are working through some of the financial issues that you alluded to, such as shared ownership and so on, and we will have a clearer picture in the future about how to deal with matters.

The Vale of Glamorgan's problems are now almost as grave in certain areas as they are in west Wales in very rural communities and how they are not able to access services. I am very cognisant of the fact that there have been concerns around that area, and there has obviously been a dialogue with the local authority. However, some authorities are trying to do quite a good job on these issues, because the statutory quality bus partnership schemes, which are there to support better local authority services, are very good. Powys has decided to do one of those on the TrawsCymru route between Newtown and Merthyr, which is to be welcomed. I think that there is a greater understanding in local government now about the issues that they can deal with, because it is important that we continue to support the TrawsCymru T4 service from Newtown to Cardiff as it is essential. It goes through the rural communities in north and east Powys, and also calls in Cardiff, Merthyr Tydfil and Pontypridd, which is also an important aspect. I can assure you that, as Minister, when I have been dealing with you as Chair of the Petitions Committee, I am very keen to see transport matters resolved, whether they are road safety or other issues, if I can, to help all of our constituents across Wales.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, rwy'n meddwl eich bod yn debygol o gael llawer o waith ynglŷn â deisebau yn ymwneud â gwasanaethau bysiau yn awr ac yn y dyfodol, wrth inni edrych ar wirionedd llwm rhai o'r materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. O ran profiad Ceredigion, credaf y bydd llawer o wersi i'w dysgu. Rwy'n meddwl y gallem fod wedi nodi'n gynnar iawn am rai o'r llwybrau hyn: bod pryder y byddai unrhyw weithredwr masnachol yn awyddus i'w cynnal. Credaf ei bod yn deg dweud, efallai, pe na fyddent wedi gwneud hynny, efallai y byddem wedi bod mewn gwell sefyllfa i gefnogi'r llwybrau hynny. Felly, rwy'n credu mai dyma rai o'r materion y mae'n rhaid inni fynd drwydynt.

Rydym yn gweithio drwy rai o'r materion ariannol y cyfeiriasoch atynt, megis cyd-berchnogaeth ac yn y blaen, a bydd gennym ddarlun cliriach yn y dyfodol ynglŷn â sut i ymdrin â materion.

Mae problemau Bro Morgannwg bellach bron mor ddifrifol mewn rhai ardaloedd ag y maent yng ngorllewin Cymru mewn cymunedau gwledig iawn a sut nad yw pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau. Rwy'n ymwbyddol iawn o'r ffaith y bu pryderon ynghylch yr ardal honno, ac mae'n amlwg y bu trafod gyda'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau yn ceisio gwneud gwaith eithaf da ar y materion hyn, gan fod y cynlluniau statudol partneriaeth bysiau o ansawdd, sydd yno i gefnogi gwasanaethau awdurdodau lleol yn well, yn dda iawn. Mae Powys wedi penderfynu gwneud un o'r rheini ar y llwybr TrawsCymru rhwng y Drenewydd a Merthyr, sydd i'w groesawu. Credaf fod mwy o ddealltwriaeth mewn llywodraeth leol bellach am y materion y gallant ymdrin â hwy, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth T4 TrawsCymru o'r Drenewydd i Gaerdydd gan ei fod yn hanfodol. Mae'n mynd drwy'r cymunedau gwledig yng ngogledd a dwyrain Powys, a hefyd yn galw yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful a Phontypridd, sydd hefyd yn agwedd bwysig. Gallaf eich sicrhau, fel y Gweinidog, a minnau wedi bod yn ymwneud â chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, fy mod yn awyddus iawn i weld datrysiad y materion trafndiaeth, pa un a ydynt yn ddiogelwch ar y ffyrdd neu faterion eraill, os gallaf, i helpu pob un o'n hetholwyr ledled Cymru.

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is a great deal of interest in this debate, and a lot of speakers are waiting in the wings; therefore, could we please have questions rather than oration?

Mae llawer iawn o ddiddordeb yn y ddadl hon, ac mae llawer o siaradwyr yn disgwyl eu tro, felly, allwn ni os gwelwch yn dda gael cwestiynau yn hytrach nag araith?

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, am delighted that progress has been made, and I am particularly delighted about your emphasis on the rural services. As you know, for some people in Clwyd South the X94 was the only bus access to the Wrexham Maelor Hospital. It affects school bus routes in Gwynedd and it removes the link from Dolgellau to Wrexham's jobs, shopping and leisure facilities. Is there a way that you can put clauses into contracts where bus operators are operating more profitable urban routes—if I can put it like that—and ensure that, as a result of that franchise, they are required to operate rural routes? Also, will you look at schemes like the Dial-a-Ride schemes, which have proven to be successful elsewhere? I realise that they do not provide the continuity that a scheduled service provides, but it may help break some of that rural isolation that is really key. With the concentration of services, particularly colleges, for example, largely on the coast, it is vital, for people to access their educational services, that they can travel on bus routes, because many of them will not have a driving licence.

Rwyf finnau, hefyd, wrth fy modd bod cynnydd wedi ei wneud, ac rwy'n arbennig o falch am eich pwyslais ar y gwasanaethau gwledig. Fel y gwyddoch, i rai pobl yn Ne Clwyd yr X94 oedd yr unig fynediad bws i Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae'n effeithio ar lwybrau bws ysgol yng Ngwynedd ac mae'n diddymu'r cyswllt o Dolgellau i swyddi, siopau a chyfleusterau hamdden Wrecsam. A oes ffordd i chi allu rhoi cymalau mewn contractau pan fo gweithredwyr bysiau yn gweithredu llwybrau trefol mwy proffidiol—os gallaf ei roi felly—a sicrhau, o ganlyniad i'r fasnachfaint, ei bod yn ofynnol iddynt weithredu llwybrau gwledig? Hefyd, a wnech chi edrych ar gynlluniau fel y cynllun Galw'r Gyrrwr, sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus mewn mannau eraill? Rwy'n sylweddoli nad ydynt yn darparu'r parhad y mae gwasanaeth rheolaidd yn ei ddarparu, ond gall helpu i dorri rhywfaint o'r unigedd gwledig sy'n gwbl allweddol. Gyda'r crynodiad o wasanaethau, yn enwedig colegau, er enghraifft, yn bennaf ar yr arfordir, mae'n hanfodol, er mwyn i bobl gael mynediad at eu gwasanaethau addysgol, eu bod yn gallu teithio ar lwybrau bysiau, oherwydd bydd llawer ohonynt nad oes ganddynt drwydded yrru.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, on your points regarding the health service, through the work of the non-emergency patient transport programme board, we are looking at how the community transport sector, in particular, can play a greater role in the delivery of non-emergency patient transport services. I have allocated officials from my transport department directly into health to look at issues around how we link in all services, and how we can link up health centres and hospitals. That is an ongoing strand of work that I understand is progressing very well.

Yn amlwg, ar eich pwyntiau ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd, trwy waith y bwrded rhaglen cludiant cleifion nad ydynt yn achosion brys, rydym yn edrych ar sut y gall y sector cludiant cymunedol, yn arbennig, chwarae mwy o ran wrth ddarparu gwasanaethau cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys. Rwyf wedi neilltuo swyddogion o fy adran drafnidiaeth yn uniongyrchol i iechyd i edrych ar faterion yn ymwneud â sut yr ydym yn cysylltu'r holl wasanaethau, a sut y gallwn gysylltu canolfannau iechyd ac ysbytai. Mae honno'n elfen barhaus o waith yr wyf yn deall sy'n mynd yn ei flaen yn dda iawn.

I will say a few words on community transport, because I think that it is relevant to this discussion. I have been very committed to community transport because I think that it is key to some of the areas that we are talking about—to protect routes and improve connectivity in remote rural communities and very remote urban communities. So, it is very important that we continue to support the Community Transport Association financially, and we need to look at innovative schemes like Dial-a-Ride. We have other schemes as well that we are helping to support. That is quite important in terms of the points that you made.

Rwyf am ddweud ychydig o eiriau ar gludiant cymunedol, gan fy mod yn credu ei fod yn berthnasol i'r drafodaeth hon. Rwyf wedi bod yn ymroddedig iawn i gludiant cymunedol gan fy mod yn credu ei fod yn allweddol i rai o'r ardaloedd yr ydym yn sôn amdanynt—i ddiogelu llwybrau a gwella cysylltedd mewn cymunedau gwledig anghysbell a chymunedau trefol anghysbell iawn. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i gefnogi'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol yn ariannol, ac mae angen inni edrych ar gynlluniau arloesol fel Galw'r Gyrrwr. Mae gennym gynlluniau eraill hefyd yr ydym yn helpu i'w cefnogi. Mae hynny'n eithaf pwysig o ran y pwyntiau a wnaethoch.

I have also taken a very keen interest in how we look at some of the contract arrangements with some of the larger companies. We need to look very carefully at how we approach our discussions with them in the future, and what we need to look for. There are profitable routes in Wales. I have been trying to obtain, across the piece, a map that shows which routes are profitable and which routes are not profitable, so that I can say to Members, 'Here are the routes.' We have engaged with the bus companies, and you will appreciate that some of the small ones do not have the means to give you a lot of the information—they are very helpful—but the large ones certainly can. So, we are doing further work in that area, which might show us a very interesting pattern that we can work through for the benefit of more isolated communities.

Rwyf hefyd wedi cymryd diddordeb mawr yn y ffordd yr ydym yn edrych ar rai o'r trefniadau contract gyda rhai o'r cwmnïau mwy. Mae angen i ni edrych yn ofalus iawn ar sut yr ydym yn mynd ati o ran ein trafodaethau gyda hwy yn y dyfodol, a'r hyn y mae angen i ni chwilio amdano. Mae llwybrau proffidiol yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn ceisio, ar gyfer pob ardal, cael map sy'n dangos pa lwybrau sy'n broffidiol, a pha lwybrau nad ydynt yn broffidiol, fel y gallaf ddweud wrth yr Aelodau, 'Dyma'r llwybrau.' Rydym wedi ymgysylltu â'r cwmnïau bysiau, a byddwch yn sylweddoli nad oes gan rai o'r rhai bach y modd i roi llawer o wybodaeth i chi—maent yn barod iawn i helpu—ond mi all y rhai mawr yn sicr. Felly, rydym yn gwneud gwaith pellach yn y maes hwnnw, a allai ddangos patrwm diddorol iawn i ni y gallwn weithio drwyddo er budd cymunedau mwy anghysbell.

16:11

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want, first of all, to put on record my thanks to the Minister and the Welsh Government for acting so promptly and for being so effective in their response. At the same time, I want to pay tribute to Ceredigion County Council for holding its joint meeting with the Welsh Government and Gwynedd and Carmarthenshire councils on 4 October. It is vital that we get to an early resolution on this. To that end, I want to thank the Minister for doing just that, regarding the line from Barmouth to Wrexham, in her announcement.

The Minister is right to say that there are many players in this. If there is ever a case for devolution and for people to work together quickly and effectively, this has highlighted that need. This is what devolution was all about. It was there to help us take urgent and prompt action at a local level, and to turn that into a real solution. I am not going to repeat lots of things that have been said here today, but I would like to ask the Minister how long she thinks it might be before that review has been taken. I know that it is a long-term review, and I support that. Those people—and Elin Jones was right to mention them—have no alternative. There is no alternative; there are no rail services along that Ceredigion-Carmarthenshire border.

Rwyf, yn gyntaf oll, am gofnodi fy niolch i'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru am weithredu mor brydlon ac am fod mor effeithiol yn eu hymateb. Ar yr un pryd, rwyf am dalu teyrnged i Gyngor Sir Ceredigion am gynnal eu cyfarfod ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chynghorau Gwynedd a Sir Gaerfyrddin ar 4 Hydref. Mae'n hanfodol ein bod yn dod i benderfyniad yn gynnar ar hyn. I'r perwyl hwnnw, rwyf am ddiolch i'r Gweinidog am wneud hynny, ynghylch y lein o Abermaw i Wrecsam, yn ei chyhoeddiad.

Mae'r Gweinidog yn iawn i ddweud bod llawer o chwaraewyr yn hyn. Os oes byth achos dros ddatganoli ac i bobl weithio gyda'i gilydd yn gyflym ac yn effeithiol, mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen hwnnw. Dyma beth yr oedd datganoli yn ei olygu mewn gwirionedd. Roedd yno i'n helpu i gymryd camau brys a phrydlon ar lefel leol, a throi hynny'n ateb gwirioneddol. Nid wyf yn mynd i ailadrodd llawer o bethau sydd wedi cael eu dweud yma heddiw, ond hoffwn ofyn i'r Gweinidog pa mor hir y mae hi'n credu y gallai fod cyn y cymerir yr adolygiad hwnnw. Rwy'n gwybod ei fod yn adolygiad hir-dymor, ac rwy'n cefnogi hynny. Nid oes gan y bobl hynny—ac roedd Elin Jones yn iawn i sôn amdanynt—ddewis arall. Nid oes dewis arall; nid oes unrhyw wasanaethau rheilffordd ar hyd ffin Ceredigion-Sir Gaerfyrddin.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:13

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have immediate issues that I have to look at, with a loss of services that will stop people from attending university and going to work. As I gave my assurances to Elin, I give the same assurances to you. However, we really need to get on with some of this. We can deal with the immediate problems, but the long-term ones are more complicated. There are going to be some things that we might want to challenge, in terms of how things have always been done and the way that we think that they might be done in the future. It is quite important that we have a very open mind about how we deal with some of these issues. That is why I have been particularly pleased with the local authorities, which have a very open mind about how we can take these matters forward.

Mae gen i faterion uniongyrchol y mae'n rhaid i mi edrych arnynt, gyda cholli gwasanaethau a fydd yn atal pobl rhag mynychu prifysgolion a mynd i'r gwaith. Fel y rhoddais fy sicrwydd i Elin, rwy'n rhoi'r un sicrwydd i chi. Fodd bynnag, mae gwir angen inni fwrw ymlaen gyda rhywfaint o hyn. Gallwn ymdrin â'r problemau uniongyrchol, ond mae'r rhai tymor hir yn fwy cymhleth. Fe fydd rhai pethau y byddwn efallai am eu herio, o ran sut y mae pethau wedi cael eu gwneud bob amser a'r ffordd yr ydym yn meddwl y gellid eu gwneud yn y dyfodol. Mae'n eithaf pwysig bod gennym feddwl agored iawn am sut yr ydym yn ymdrin â rhai o'r materion hyn. Dyna pam yr wyf wedi bod yn arbennig o falch gyda'r awdurdodau lleol, sydd â meddwl agored iawn ynghylch sut y gallwn fwrw ymlaen â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One of the concerns that has arisen with me is something that came out of the short debate last week: nobody seems to ask people in some of these communities what they want. There is an assumption made about services, and about what the needs and requirements of these communities are, in terms of getting people to work, what type of structure they want and what type of hours they want. Are we giving them what they want? If you look at things at a far more localised level, in terms of the discussion on how you commission services, we might get the answers that might benefit communities. This is going to be extremely complicated to undertake. When I was having discussions with experts in this field, they said that we have to push against what people think are the established practices, as they make you think that that is the only thing that you can do, and that that is the only thing that you can do legally as well. Some people say to you, 'Oh, you can't really do that, because it is not appropriate', or, 'The legislation is this'. I think that we have to start backing into that and saying, 'Well, we can do it'.

Un o'r pryderon sydd wedi codi gyda mi yw rhywbeth a ddaeth allan o'r ddaedl fer yr wythnos diwethaf: does neb yn ymddangos i ofyn i bobl mewn rhai o'r cymunedau hyn beth y maen nhw ei eisiau. Mae rhagdybiaeth yn cael ei gwneud am wasanaethau, ac am beth yw anghenion a gofynion y cymunedau hyn, o ran cael pobl i'r gwaith, pa fath o strwythur y maen nhw ei eisiau a pha fath o oriau y maent eu heisiau. A ydym yn rhoi iddynt yr hyn y maent yn dymuno ei gael? Os ydych yn edrych ar bethau ar lefel llawer mwy lleol, o ran y drafodaeth ar sut yr ydych yn comisiynu gwasanaethau, efallai y byddwn yn cael yr atebion a allai fod o fudd i gymunedau. Mae hyn yn mynd i fod yn eithriadol o gymhleth i'w wneud. Pan oeddwn yn cynnal trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes hwn, dywedasant fod yn rhaid inni wthio yn erbyn yr hyn y mae pobl yn ei feddwl yw'r arferion sefydledig, gan eu bod yn gwneud i chi feddwl mai dyna'r unig beth y gallwch ei wneud, ac mai hwnnw yw'r unig beth y gallwch chi ei wneud yn ôl y gyfraith yn ogystal. Mae rhai pobl yn dweud wrthy ch, 'O, ni allwch chi wneud hynny mewn gwirionedd, oherwydd nid yw'n briodol', neu, 'Y ddeddfwriaeth yw hyn'. Credaf fod yn rhaid inni ddechrau gwthio i mewn i hynny a dweud, 'Wel, gallwn ei wneud'.

16:15

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that last answer. You will be aware of a service operated in my constituency by Lloyds Coaches of Machynlleth. I use that company as an example because it already operates a service in the affected areas, and it may well be in a position to fill the void, as other providers may indeed be able to. It is experiencing problems on its existing site, which is hampering business growth. I know that the company has been in contact with you, but may I ask what discussions you and your officials have had with the company, and what potential service provision opportunities are on the table for it and for other providers? Also, what discussions have you had with Lloyds Coaches and Powys County Council to help them to develop their objectives of creating an integrated transport hub in Machynlleth?

Diolch, Weinidog, am eich ateb cynhwysfawr. Byddwch yn ymwybodol o wasanaeth a weithredir yn fy etholaeth gan Lloyds Coaches o Fachynlleth. Rwy'n defnyddio'r cwmni hwnnw fel enghraifft oherwydd ei fod eisoes yn gweithredu gwasanaeth yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt, a gallai fod mewn sefyllfa i lenwi'r bwlch, fel y gall darparwyr eraill yn wir. Mae'n cael problemau ar ei safle presennol, sydd yn llesteirio twf busnes. Gwn fod y cwmni wedi bod mewn cysylltiad â chi, ond a gaf fi ofyn pa drafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gyda'r cwmni, a pha gyfleoedd darpariaeth gwasanaeth posibl sydd ar y bwrdd ar ei gyfer ac ar gyfer darparwyr eraill? Hefyd, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Lloyds Coaches a Chyngor Sir Powys i'w helpu i ddatblygu eu hamcanion o greu canolbwynt trafniadaeth integredig ym Machynlleth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:16

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, I will check with officials about discussions and I would be more than delighted to write to the Member to update him. He makes a valid point; if we are going to deal with some of the smaller companies, we have to ensure that they have the necessary tools within their business capacity to help and assist us, to ensure that there is good transportation for the good people of Wales.

Yn amlwg, byddaf yn holi'r swyddogion ynghylch trafodaethau a byddwn yn fwy na hapus i ysgrifennu at yr Aelod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo. Mae'n gwneud pwynt dilys, os ydym yn mynd i ymwneud â rhai o'r cwmnïau llai, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ganddynt yr offer angenrheidiol o fewn gallu eu busnes i'n helpu a'n cynorthwyo ni, er mwyn sicrhau bod cludiant da ar gael i bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:16

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb cyflym yn y sefyllfa hon, ac am ei dealltwriaeth yn y ffordd y mae hi wedi ymateb i natur y sefyllfa. A fyddai'n cytuno mai'r unig ffordd o gael rhagor o deithwyr sy'n talu ar y system fysus yng Nghymru, yn enwedig yn y canolbarth, yw creu cyfundrefn o drafnidiaeth integredig sy'n cysylltu'r rheilffyrdd rhanbarthol â'r bysus, gan gynnig dewis effeithlon o deithio i deithwyr? A fyddai hefyd yn derbyn—rwyf i'n cytuno beth bynnag—fod dyddiau'r consortia rhanbarthol i drefnu trafnidiaeth wedi dod i ben a bod angen cyfundrefn sy'n llawer mwy atebol, nid i anghenion biwrocratiaeth llywodraeth leol, neu hyd yn oed fiwrocratiaeth Llywodraeth Cymru, ond i anghenion teithwyr? A gaf awgrymu bod llefarydd y Ceidwadwyr yn mynd ar fws yn amlach?

I would like to thank the Minister for her swift response to this situation, and for her understanding in responding to the nature of the situation. Would she agree that the only way of attracting more paying travellers on to the bus system in Wales, especially in mid Wales, is to create an integrated transport system that links regional railways with buses, offering travellers an efficient choice? Would she also accept—I agree anyway—that the era of regional consortia arranging transport has come to an end and that we need a much more accountable system, not to the bureaucratic needs of local government or even the Welsh Government, but to the needs of travellers? May I suggest that the Conservative spokesperson should travel by bus more regularly?

16:17

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I totally concur with you, because, if we are going to have more paying passengers, we need an integrated public transport system that links up rail and the buses, so that people can get on with their daily lives in whichever area of Wales they choose to live in.

Rwy'n cytuno'n llwyr â chi, oherwydd, os ydym ni'n mynd i gael mwy o deithwyr sy'n talu, mae angen system cludiant cyhoeddus integredig arnom sy'n cysylltu rheilffyrdd a bysiau, fel bod pobl yn gallu mynd ymlaen â'u bywydau bob dydd ym mha bynnag ran o Gymru y maent yn dewis byw ynddi

I think that I made my views quite clear on the consortia. There are issues with them, and concerns have been raised. I think that we now need a system in place that actually reflects the needs of the citizens in terms of what we are able to do. With limited budgets, we are going to have to prioritise what we have to do, but at the end of the day, if we have the structure correct, along with the way for going forward in terms of the principles that we want to underpin it, then I think that we will eventually make progress on what I think is a very difficult agenda, but an essential one for the people of Wales.

Rwy'n meddwl fy mod wedi gwneud fy marn yn eithaf clir ar y consortia. Mae problemau gyda nhw, ac mae pryderon wedi cael eu codi. Credaf bellach fod angen inni gael system ar waith sydd wir yn adlewyrchu anghenion y dinasyddion o ran yr hyn y gallwn ei wneud. Gyda chyllidebau cyfyngedig, rydym yn mynd i orfod blaenoriaethu'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud, ond yn y pen draw, os ydym yn cael y strwythur yn iawn, ynghyd â'r ffordd i symud ymlaen o ran yr egwyddorion yr ydym am eu cael yn sail iddo, yna rwy'n meddwl y byddwn yn y pen draw yn gwneud cynnydd ar yr hyn yr wyf yn meddwl sy'n agenda anodd iawn, ond yn un sy'n hanfodol i bobl Cymru.

16:18

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I think that is very easy for people in this Chamber and those outside it to demonise the bus company that made these decisions, but I think that we have to reflect on the fact that these bus companies do actually try to accommodate passengers' needs as much as they possibly can, and they have certainly changed routes and have added additional routes in my constituency that have served my constituents very well.

Weinidog, rwy'n meddwl ei bod yn hawdd iawn i bobl yn y Siambr hon a'r rhai y tu allan iddi i bardduo'r cwmni bysiau a wnaeth y penderfyniadau hyn, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni ystyried y ffaith fod y cwmnïau bysiau mewn gwirionedd yn ceisio darparu ar gyfer anghenion y teithwyr gymaint ag y gallant, ac maent yn sicr wedi newid llwybrau ac wedi ychwanegu llwybrau ychwanegol yn fy etholaeth i sydd wedi gwasanaethu fy etholwyr yn dda iawn.

I was very concerned to hear about the axing of the X94 service, and I am very pleased with your intervention today to see that reinstated, certainly in the short term once December comes, and with interim arrangements to be put in place. There are two questions that I want to put you, Minister. The first is this: what action are you taking as a Welsh Government to identify the scale of the abuse of the concessionary fares scheme? We know, for example, that some bus operators, anecdotal evidence would suggest, ask people to disembark from the buses and then get back on them in order that a separate fare can be taken from them, effectively, and claimed under the concessionary fares scheme. I am very concerned about that, because I think that it would potentially release a lot more money into Government coffers to invest in some of these rural services that we want to retain.

Secondly, you make a reference in your statement to the future of the regional transport consortia. The regional transport consortium for north Wales, of course, Taith, has been very effective, in my opinion, over the past few years. There is always more that can be asked of the transport consortia, but what sort of arrangements are you suggesting should be considered for those, particularly outside of the city regions that you have mentioned? A city region has not been proposed for north Wales, but we are an important part of the country, which I am sure that you would not want to overlook.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Issues relating to concessionary fares are constantly raised. My officials are constantly monitoring this. It is a period when we are looking at concessionary fares again, so I will prepare a note for Assembly Members, looking at the issues. If there are any indications of abuse or anything, can I please have them from Assembly Members? We will need to investigate this; it is very important that public money is used for the purpose for which we have allocated it. Thank you very much for your comments.

Rwy'n bryderus iawn o glywed am ddileu'r gwasanaeth X94, ac rwy'n falch iawn gyda'ch ymyriad heddiw i'w weld yn cael ei adfer, yn sicr yn y tymor byr pan ddaw Rhagfyr, a chyda threfniadau dros dro i gael eu rhoi ar waith. Mae dau gwestiwn yr wyf am ei gofyn i chi, Weinidog. Y cyntaf yw hwn: pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd fel Llywodraeth Cymru i nodi graddfa cam-ddefnyddio'r cynllun tocynnau teithio rhatach? Rydym yn gwybod, er enghraifft, fod rhai cwmnïau bysiau, byddai tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, yn gofyn i bobl ddod oddi ar y bysiau ac yna i fynd yn ôl arnynt fel y gellir cymryd pris tocyn ar wahân oddi wrthynt, i bob pwrpas, a'i hawlio o dan y cynllun tocynnau teithio rhatach. Rwy'n bryderus iawn am hynny, gan fy mod yn credu y byddai'n bosibl rhyddhau llawer mwy o arian i goffrau'r Llywodraeth i fuddsoddi mewn rhai o'r gwasanaethau gwledig hyn yr ydym am eu cadw.

Yn ail, rydych yn gwneud cyfeiriad yn eich datganiad at ddyfodol y consortia trafniadaeth rhanbarthol. Mae'r consortiwm trafniadaeth rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru, Taith, wrth gwrs, wedi bod yn effeithiol iawn, yn fy marn i, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae mwy bob amser y gellir gofyn amdano gan y consortia trafniadaeth, ond pa fath o drefniadau ydych chi'n awgrymu y dylai gael eu hystyried ar gyfer y rheini, yn enwedig y tu allan i'r rhanbarthau dinas yr ydych wedi sôn amdanynt? Nid oes rhanbarth dinas wedi ei gynnig ar gyfer y gogledd, ond rydym yn rhan bwysig o'r wlad, ac rwyf yn siŵr na fydddech yn dymuno ei hanghofio.

Mae materion yn ymwneud â thocynnau rhatach yn cael eu codi yn gyson. Mae fy swyddogion yn monitro hyn yn gyson. Mae'n gyfnod pan ydym yn edrych ar docynnau teithio rhatach eto, felly byddaf yn paratoi nodyn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, gan edrych ar y materion. Os oes unrhyw arwyddion o gam-ddefnydd neu unrhyw beth, a allaf fi os gwelwch yn dda eu cael oddi wrth Aelodau'r Cynulliad? Bydd angen i ni ymchwilio i hyn, mae'n bwysig iawn bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i'r diben yr ydym wedi ei ddyrannu. Diolch yn fawr ichi am eich sylwadau.

16:21

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will keep it concise. You referred to engaging with three local authorities. Your original statement on 2 October referred to a number of affected areas, south and north. Could you confirm how those three are representing other authorities that go beyond their own boundaries? In the north, for example, many people living in Conwy use the x94 bus service, although, technically, it does not travel through the county. There are many others who access it, for instance, to get to hospitals that may not be near their homes.

Rwyf am fod yn gryno. Cyfeiriasoch at ymgysylltu â thri awdurdod lleol. Roedd eich datganiad gwreiddiol ar 2 Hydref yn cyfeirio at nifer o ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, yn y de a'r gogledd. A allwch chi gadarnhau sut y mae'r tri hynny yn cynrychioli awdurdodau eraill sy'n mynd y tu hwnt i'w ffiniau ei hunain? Yn y gogledd, er enghraifft, mae llawer o bobl sy'n byw yng Nghonwy yn defnyddio'r gwasanaeth bws X94, er, yn dechnegol, nid yw'n teithio drwy'r sir. Mae llawer o bobl eraill sy'n ei ddefnyddio, er enghraifft, er mwyn cyrraedd ysbytai nad ydynt yn agos at eu cartrefi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gwynedd, Ceredigion and Carmarthenshire are the ones that are affected quite a lot by local services so we have used them initially to look at issues. However, in light of the short debate that we had last week and the points that you have made, there will be further discussions with others as we develop policy in this agenda. You made a very valid point about delivery in terms of people travelling into hospitals for services. That is work that is ongoing between the Minister for health and I.

Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio gryn dipyn gan wasanaethau lleol, felly rydym wedi eu defnyddio nhw yn gyntaf i edrych ar faterion. Fodd bynnag, yn sgil y ddadl fer a gawsom yr wythnos diwethaf a'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud, bydd trafodaethau pellach gydag eraill wrth i ni ddatblygu polisi yn yr agenda hon. Gwnaethoch bwynt dilys iawn ynghylch cyflawni o safbwynt y bobl sy'n teithio i ysbytai ar gyfer gwasanaethau. Mae hynny'n waith sy'n mynd rhagddo rhwng y Gweinidog iechyd a minnau.

Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: 'Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru—Adolygiad Cymru 2012-13'

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham.

Cynnig NDM5327 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Cydwethio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'.

Debate on the Equality and Human Rights Annual Report: 'Working together to strengthen equality and human rights in Wales—Wales Review 2012-13'

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham.

Motion NDM5327 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly of Wales:

Notes the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 'Working Together to Strengthen Equality and Human Rights in Wales'.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I am very pleased to move the motion tabled in the name of Lesley Griffiths. I am delighted that the National Assembly is holding this debate today, allowing us to recognise the Equality and Human Rights Commission's work in 2012-13. The commission's annual review, entitled 'Working Together to Strengthen Equality and Human Rights in Wales', highlights what we have achieved in moving Wales forward to become a fair and inclusive place to live and work. The commission in Wales has a unique role as a regulator of the public sector equality duty and the Wales-specific equality duties. The specific duties are considerably more far-reaching in Wales than in England. They are an enabling tool for organisations to meet and demonstrate that they are meeting the general equality duty and, as such, are proving to be a valuable driving force of public service improvement.

Rwy'n falch iawn i gynnig y cynnig a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths. Rwyf wrth fy modd fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal y ddadl hon heddiw, gan ein galluogi i gydnabod gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2012-13. Mae adolygiad blynyddol y comisiwn, dan y teitl 'Cydwethio i Gryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru', yn tynnu sylw at yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni wrth symud Cymru ymlaen i ddod yn lle teg a chynhwysol i fyw a gweithio. Mae gan y comisiwn yng Nghymru rôl unigryw fel rheoleiddwr dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Mae'r dyletswyddau penodol yn llawer mwy eang yng Nghymru nag yn Lloegr. Maent yn arf galluogi i sefydliadau gyflawni a dangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol ac, fel y cyfryw, yn profi i fod yn rym gwerthfawr i wella gwasanaethau cyhoeddus.

The Welsh Government is reliant on the commission to regulate the Wales-specific equality duties. The commission's approach to regulation through encouraging, guiding and monitoring the public sector has proved to be effective and successful. The commission has produced Wales-specific guidance on implementing the public sector equality duty. This includes its technical guidance, published in January of this year. The commission's training courses, lectures and many other events are a valuable resource for employers and third sector and public sector organisations alike. The commission's equality exchange network is highly regarded by equality and human rights practitioners from a wide range of public sector organisations, including the Welsh Government. The commission's annual conference attracted 100 delegates and proved to be a hugely successful event. I wholly value the work that the commission has already undertaken in 2012-13 in monitoring the impact of the duties across health, local government and education. The assessments concentrated on monitoring the impact of the duties across four key sectors—local government, health, fire and rescue and universities—and focused on a key aspect of the Wales-specific equality duties for each sector. The outcome of this monitoring work has provided an effective insight as well as an early indication of the progress achieved in promoting inclusion and tackling inequalities in Wales.

Welsh Government engaged the commission to undertake an appreciative inquiry into the way that the Welsh Government has conducted previous equality impact assessments of its budget. The findings of the appreciative inquiry confirm the Welsh Government's commitment to improving the equality assessments of its budget, and confirm that improvement has taken place during recent years. We have found the recommendations of the commission's appreciative inquiry to be both practical and constructive, thus helping to drive future improvements in the EIA process. The commission is also an independent advisory member of our budget advisory group on equality. The budget advisory group for equality has a key role in supporting the continuous improvement of the equality impact assessment undertaken on the Welsh Government's budget by providing the expertise to inform the equality considerations of future spending plans. As a result of evidence in the commission's 'Who Runs Wales?' report, the commission organised an expert group to explore potential actions to achieve better representative public appointments. Consequently, Welsh Government undertook a case study with Sport Wales looking at how changes to the public appointments process affected the final outcome. We have since refreshed our action plan to increase diversity in public appointments.

Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y comisiwn i reoleiddio'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Mae dull y comisiwn o reoleiddio trwy annog, arwain a monitro'r sector cyhoeddus wedi bod yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Mae'r comisiwn wedi paratoi canllawiau sy'n benodol i Gymru ar weithredu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ei ganllawiau technegol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr eleni. Mae cyrsiau hyfforddi a darlithoedd y comisiwn, a llawer o ddogwyddiadau eraill, yn adnodd gwerthfawr i gyflogwyr a'r trydydd sector a sefydliadau yn y sector cyhoeddus fel ei gilydd. Mae rhwydwaith cyfnewid cydraddoldeb y comisiwn yn uchel ei barch gan ymarferwyr cydraddoldeb a hawliau dynol o ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Denodd cynhadledd flynyddol y comisiwn 100 o gynrychiolwyr ac roedd yn ddogwyddiad hynod o lwyddiannus. Rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr y gwaith y mae'r comisiwn eisoes wedi'i wneud yn 2012-13 wrth fonitro effaith y dyletswyddau ym meysydd iechyd, llywodraeth leol ac addysg. Roedd yr asesiadau'n canolbwyntio ar fonitro effaith y dyletswyddau ar draws pedwar sector allweddol—llywodraeth leol, iechyd, tân ac achub a phrifysgolion—ac yn canolbwyntio ar agwedd allweddol ar y dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru ar gyfer pob sector. Mae canlyniad y gwaith monitro hwn wedi rhoi cipolwg effeithiol yn ogystal ag arwydd cynnar o'r hyn a gyflawnwyd o ran hyrwyddo cynhwysiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r comisiwn gynnal ymchwiliad gwerthfawrogol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiadau blaenorol o effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb. Mae canfyddiadau'r ymchwiliad gwerthfawrogol yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'i hasesiadau o effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb, ac yn cadarnhau y gwnaed gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae argymhellion ymchwiliad gwerthfawrogol y comisiwn wedi bod yn ymarferol ac yn adeiladol, gan helpu i ysgogi gwelliannau yn y broses asesu yn y dyfodol. Mae'r comisiwn hefyd yn aelod ymgynghorol annibynnol o grŵp cynghorol y gyllideb ar gydraddoldeb. Mae grŵp cynghorol y gyllideb ar gydraddoldeb yn gwneud gwaith allweddol o ran cefnogi'r broses barhaus o wella'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhelir ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy ddarparu arbenigedd i lywio ystyriaethau cydraddoldeb cynlluniau gwariant yn y dyfodol. O ganlyniad i dystiolaeth yn adroddiad y comisiwn 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?', trefnodd y comisiwn grŵp arbenigol i ystyried camau gweithredu posibl er mwyn sicrhau penodiadau cyhoeddus mwy cynrychiadol. O ganlyniad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru astudiaeth achos gyda Chwaraeon Cymru yn ystyried sut yr oedd newidiadau i'r broses benodi yn effeithio ar y canlyniad terfynol. Ers hynny, rydym wedi adnewyddu ein cynllun gweithredu i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.

These examples are only a small proportion of the work and achievements of the commission. The Welsh Government has a very positive and productive relationship with the commission and I know that this is shared by other parties and many individual AMs. Now, despite the changes made to the commission's powers and duties, and the reduction in funding by the UK Government, I am committed to ensuring that the commission retains a strong and distinct presence in Wales and continues to work closely with the Welsh Government. To this end, discussions are under way with the commission to put in place a concordat between Welsh Government and the commission in Wales. I am pleased that the commission is continuing to deliver a robust work programme in accordance with Wales's unique political, legal and social landscape. The commission's priorities for the coming year include: improving Welsh workplaces and sharing effective practice; exploring the benefits of aligning equality and poverty strategies; and developing and promoting the equality evidence base.

In conclusion, the Wales-specific equality duties have only been in force for a relatively short space of time, and there are many challenges ahead as Wales continues to follow its own distinct equality path. As the commission's report highlights, there is a close interrelationship between poverty and the inequalities faced by people with characteristics protected under the Equality Act 2010. The Welsh Government is leading the way on driving change through tackling inequality and poverty together under the unique communities and tackling poverty portfolio. I am committed to taking action to make our country inclusive, equal and fair. We will achieve this through tackling all forms of hate crime and domestic abuse. We will work across Welsh Government to ensure that key public services take account of the needs of all our citizens, increasing diversity in our public appointments, and working with our public sector bodies to ensure equal pay for equal work. I therefore support amendments 1, 2, 3 and 4. We have made considerable progress in addressing hate crime and domestic violence and ensuring that public sector boards reflect the population of Wales. We continue to drive our actions forward to tackle all forms of inequality in employment.

I strongly believe that the way forward is to emphasise our positive vision of the kind of country that we want Wales to be in the next decade. We can only achieve this by working together in partnership, both within Welsh Government and across the public and third sectors. I would like to thank the Wales Equality and Human Rights Commission and Ann Beynon, the commissioner for Wales, for their unrelenting work to promote, monitor, protect and enforce equality and human rights in Wales.

16:31 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Presiding Officer has selected the four amendments to the motion. I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of William Graham.

Gwelliant 1—William Graham

Nid yw'r enghreifftiau hyn ond yn gyfran fach o waith a llwyddiannau'r comisiwn. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol iawn gyda'r comisiwn a gwn fod pleidiau eraill a llawer o ACau unigol yn rhannu'r farn hon. Yn awr, er gwaethaf y newidiadau a wnaed i bwerau a dyletswyddau'r comisiwn, a'r gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth y DU, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y comisiwn yn cadw presenoldeb cryf ac unigryw yng Nghymru, ac yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. I'r perwyl hwn, mae trafodaethau ar y gweill gyda'r comisiwn i sefydlu concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r comisiwn yng Nghymru. Rwy'n falch bod y comisiwn yn parhau i gyflwyno rhaglen waith gadarn yn unol ag amgylchiadau cyfreithiol, gwleidyddol a chymdeithasol unigryw Cymru. Mae blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys: gwella gweithleoedd Cymru a rhannu arfer effeithiol; archwilio manteision strategaethau cydraddoldeb a thlodi sy'n cyd-fynd â'i gilydd; a datblygu a hyrwyddo'r sylfaen dystiolaeth ym maes cydraddoldeb.

I gloi, mae'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru wedi bod mewn grym am gyfnod cymharol fyr, ac mae llawer o heriau o'n blaenau wrth i Gymru barhau i ddilyn ei llwybr cydraddoldeb unigryw ei hun. Fel y mae adroddiad y comisiwn yn amlygu, ceir cydberthynas agos rhwng tlodi a'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran sbarduno newid trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi gyda'i gilydd o dan y portffolio cymunedau a threchu tlodi unigryw. Rwyf wedi ymrwymo i gymryd camau i wneud ein gwlad yn un gynhwysol, gyfartal a theg. Byddwn yn cyflawni hyn trwy fynd i'r afael â phob math o droseddau casineb a cham-drin domestig. Byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn ystyried anghenion ein holl ddinasyddion, gan gynyddu amrywiaeth yn ein penodiadau cyhoeddus, a gweithio gyda'n cyrff sector cyhoeddus i sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal. Felly, rwy'n cefnogi gwelliannau 1, 2, 3 a 4. Rydym wedi gwneud gwaith sylweddol o ran mynd i'r afael â throseddau casineb a thrais domestig a sicrhau bod byrddau sector cyhoeddus yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Rydym yn parhau i weithredu i fynd i'r afael â phob math o anghydraddoldeb mewn cyflogaeth.

Credaf yn gryf mai'r ffordd ymlaen yw pwysleisio ein gwledigaeth gadarnhaol o'r math o wlad yr ydym am i Gymru fod yn y degawd nesaf. Ni allwn ond cyflawni hyn trwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector. Hoffwn ddiolch i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ac i Ann Beynon, y comisiynydd i Gymru, am eu gwaith dygn i hyrwyddo, monitro, diogelu a gorfodi cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r Llywydd wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mohammad Asghar i gynnis gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Amendment 1—William Graham

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

Gwelliant 2—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.

Gwelliant 3—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau'r sector cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

Gwelliant 4—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

Add as new point at end of the motion:

Calls on the Welsh Government to improve the standard and availability of support services for victims of sexual violence.

Amendment 2—William Graham

Add as new point at end of the motion:

Recognises the need to encourage victims of hate crime and domestic abuse to report such incidents.

Amendment 3—William Graham

Add as new point at end of the motion:

Calls on the Welsh Government to investigate ways to ensure the membership of public sector boards more accurately reflect the communities they serve.

Amendment 4—William Graham

Add as new point at end of the motion:

Calls on the Welsh Government to develop policies to tackle gender stereotyping in all forms of employment opportunities.

16:31

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2, 3 and 4. On behalf of the Welsh Conservatives it is my pleasure to move the amendments tabled in the name of William Graham.

I welcome the report of the Equality and Human Rights Commission, which highlights the progress that has been made in strengthening equality and human rights in Wales. I would like to focus my remarks this afternoon on a number of key areas. The first is violence against women. We all await the Welsh Government's ending violence against women Bill with the hope that it will provide an opportunity to deliver real change in the lives of women in Wales.

Every year in Wales over 50,000 women will experience over 200,000 incidents of domestic abuse. Since nearly two thirds of public sector employees are women the effective implementation of workplace policies to identify and support victims of domestic abuse are vital. I welcome the fact that around 200,000 people working in Welsh public sector services are now covered by a domestic abuse workplace policy.

Cynigaf welliannau 1, 2, 3 a 4. Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Rwy'n croesawu adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n tynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd o ran cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau brynhawn heddiw ar nifer o feysydd allweddol. Y cyntaf yw trais yn erbyn menywod. Rydym i gyd yn aros am Fil Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, yn y gobaith y bydd yn rhoi cyfle i sicrhau newid go iawn ym mywydau menywod yng Nghymru.

Bob blwyddyn yng Nghymru bydd dros 50,000 o fenywod yn profi dros 200,000 o achosion o gam-drin domestig. Gan fod bron i ddwy ran o dair o weithwyr y sector cyhoeddus yn fenywod, mae'n hanfodol i bolisiau'r gweithle i nodi a chefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael eu gweithredu'n effeithiol. Croesawaf y ffaith fod polisi'r gweithle ar gamdriniaeth ddomestig yn berthnasol i oddeutu 200,000 o bobl sy'n gweithio yng ngwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru bellach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We need to do more to tackle the huge inconsistencies in the standard and availability of support services for women who have suffered sexual violence as highlighted by Rape Crisis (England and Wales). There remains reluctance on the part of victims of domestic abuse to report such incidents to the police. That is also true of hate crime.

Mae angen i ni wneud mwy i fynd i'r afael â'r anghysonderau anferth yn y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fenywod sydd wedi dioddef trais rhywiol, ac yn eu hansawdd, fel yr amlygwyd gan Rape Crisis (Cymru a Lloegr). Mae dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn parhau i fod yn amharod i hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau o'r fath. Mae hynny hefyd yn wir am drosedd casineb.

16:33 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A gymerwch chi ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, go on.

Gwnaf, ewch ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:33 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you now regret the UK Government's decision to cut the funding for the independent domestic violence advisors that your party actually promoted?

A ydych yn awr yn gresynu penderfyniad Llywodraeth y DU i dorri'r cyllid ar gyfer y cynghorwyr annibynnol trais domestig yr oedd eich plaid chi'n eu hyrwyddo?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ann, if you read through the document, they have not cut down for the ladies in trouble—

Ann, os darllenwch drwy'r ddogfen, nid ydynt wedi gwneud toriadau ar gyfer y merched sydd mewn trafferth—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:33 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They have—they have cut it by 50%.

Ydynt—maent wedi ei dorri 50%.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is all nonsense. More money is there for them.

Nonsens yw hyn. Mae mwy o arian ar gael ar eu cyfer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There remains reluctance on the part of victims of domestic abuse to report such incidents to the police. That is also true of hate crime. Race Council Cymru found that only one fifth of racist incidents and hate crime are reported to the police.

Mae dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn parhau i fod yn amharod i hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau o'r fath. Mae hynny hefyd yn wir am drosedd casineb. Canfu Race Council Cymru mai dim ond un o bob pum digwyddiad hiliol a throedd casineb sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu.

The horrific murder of Fusilier Lee Rigby in Woolwich shocked and outraged all communities in Great Britain. It led to an increase in attacks on mosques and other Islamic centres for a short period of time. I am concerned by the findings of a recent poll that found that more than a quarter of 18 to 24-year-olds in Britain do not trust Muslims.

Achosodd llofruddiaeth erchyll y Ffiwsilwr Lee Rigby yn Woolwich ddychryn a dicter ym mhob cymuned ym Mhrydain. Arweiniodd at gynnydd mewn ymosodiadau ar foscgiau a chanolfannau Islamaidd eraill am gyfnod byr. Mae canfyddiadau arolwg barn diweddar, a ganfu nad oedd mwy na chwarter o bobl 18 i 24 mlwydd oed ym Mhrydain yn ymddiried mewn Mwslimiaid, yn achos pryder i mi.

In December last year I called on the Welsh Government to make tackling race hate crime a priority in 2013. It is clear we have more work to do to break down the barriers to greater community cohesion in Wales. Awareness of disability hate crime must be increased to ensure that it is recognised and accurately reported. HM Inspectorate of Constabulary, the Crown Prosecution Service and the National Probation Service agree that there is no clear and uncomplicated definition of what makes up disability hate crime. They have asked the Law Commission to consider the matter. It is also encouraging that these agencies are acting to prosecute crimes motivated by hatred of disabled people. Crime motivated by hatred, whether of disability, race, religion or sexual orientation, are all equally unacceptable and should be prosecuted accordingly.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, galwais ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth yn 2013 i fynd i'r afael â throeddau casineb hiliol. Mae'n amlwg bod gennym fwy o waith i'w wneud i chwalu'r rhwystrau at fwy o gydlyniant cymunedol yng Nghymru. Mae'n rhaid cynyddu ymwybyddiaeth o droeddau casineb ar sail anabledd er mwyn sicrhau y cânt eu cydnabod a'u hadrodd yn gywir. Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cytuno nad oes diffiniad clir a syml o droeddau casineb anabledd. Maent wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ystyried y mater. Mae hefyd yn galonogol bod yr asiantaethau hyn yn gweithredu i erlyn troeddau a ysgogir gan gasineb o bobl anabl. Mae troeddau a ysgogir gan gasineb, boed ar sail anabledd, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol, i gyd yn yr un mor annerbyniol a dylid eu herlyn yn unol â hynny.

I would like to say a few words about the public sector equality duty. More work needs to be done to widen participation in decision making to ensure public-sector bodies are more representative of the communities they serve. The Welsh Government's own report on its programme for government highlights this problem. One fifth of the working-age population in Wales, for example, identifies itself as disabled, but less than 5.5% of public sector board members identify themselves as disabled. Research by BBC Wales found that just two top managers at Wales's 22 councils declared themselves as from an ethnic minority. Welsh public bodies should be led by people who represent the diverse communities they serve. Only then can we create a strong and cohesive society.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae angen gwneud mwy o waith i ehangu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod cyrff sector cyhoeddus yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ei hun ar ei rhaglen lywodraethu yn tynnu sylw at y broblem hon. Mae un o bob pump o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru, er enghraifft, yn disgrifio'i hun fel bod yn anabl, ond llai na 5.5% o aelodau byrddau'r sector cyhoeddus sy'n nodi eu bod yn anabl. Canfu ymchwil gan BBC Cymru mai dim ond dau uwch reolwr yn y 22 cyngor yng Nghymru sy'n datgan eu bod o leiafrif ethnig. Dylai cyrff cyhoeddus Cymru gael eu harwain gan bobl sy'n cynrychioli'r cymunedau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu. Dim ond wedyn y gallwn greu cymdeithas gref a chydlynol.

16:37 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I ask you to draw your remarks to a close?

A gaf fi ofyn i chi ddwyn eich sylwadau i ben?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. As I said in last week's debate on vocational education, the limited number of women entering science, engineering and technology exacerbates skills shortages in these sectors of the economy. I welcome this report, Minister—

lawn. Fel y dywedais yn y ddadl yr wythnos diwethaf ar addysg alwedigaethol, mae nifer gyfyngedig y menywod sy'n mynd i faes gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg yn gwaethygu'r prinder sgiliau yn y sectorau hyn o'r economi. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, Weinidog—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call Lindsay Whittle.

Diolch yn fawr. Galwaf ar Lindsay Whittle.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute to this debate today. I will keep my remarks brief, as I did last year. I would also like to place on record my and my party's thanks to the committee and the staff of the commission here in Wales for another year of hard work and dedication and for producing the report.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Cadwaf fy sylwadau'n fyr, fel y gwneuthum y llynedd. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i a'm plaid i bwyllgor a staff y comisiwn yma yng Nghymru am flwyddyn arall o waith caled ac ymroddiad ac am baratoi'r adroddiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We, in the Party of Wales, believe that equality is a barometer of the health and overall wellbeing of a nation. When there is serious inequality, as there is now here in Wales, it is symptomatic of the deep problems we have in our economy and society. However, we know that the issues of inequality are difficult and deep rooted. Some issues of inequality can be tackled by helping to change attitudes, but, as society becomes ever more progressive, which I believe it is, certain issues will become less controversial. However, some inequities are born of actions that can be avoided; they are symptomatic of a failing economic system that does not have fairness and justice at its heart, but selfishness and greed. Some inequities are caused, directly sometimes, by the stroke of Ministers' pens and changes of policy. Therefore, there is only a limited amount that we can do at this time, especially given that the biggest drivers in equality are economic ones, and, in my view, while we remain on this course of austerity that will not seriously change.

Rydym ni, ym Mhlaid Cymru, yn credu bod cydraddoldeb yn faromedr ar gyfer iechyd a lles cyffredinol cenedl. Pan fo anghydraddoldeb difrifol, fel sydd i'w weld yn awr yma yng Nghymru, mae'n arwydd o'r problemau dwfn sydd gennym yn ein heconomi a'n cymdeithas. Fodd bynnag, gwyddom fod materion anghydraddoldeb yn anodd ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Gellir mynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb drwy helpu i newid agweddau, ond, wrth i gymdeithas ddod yn fwyfwy blaengar, fel yr wyf yn credu sy'n digwydd, bydd rhai materion yn dod yn llai dadleuol. Fodd bynnag, mae rhai anghydraddoldebau'n deillio o weithredoedd y gellir eu hosgoi; maent yn arwydd o system economaidd sy'n methu ac sydd â hunanoldeb a thrachwant, yn hytrach na thegwch a chyfiawnder wrth ei gwraidd. Mae rhai anghydraddoldebau'n cael eu hachosi, yn uniongyrchol weithiau, gan ysgrifbinnau Gweinidogion a newidiadau polisi. Felly, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei wneud ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried mai'r ffactorau mwyaf sy'n sbarduno cydraddoldeb yw'r rhai economaidd, ac na fydd hynny'n newid o ddifrif, yn fy marn i, tra ein bod yn parhau ar y llwybr cynilo hwn.

However, there are some points that I specifically want to mention today, and we, too, will be supporting all four amendments tabled by William Graham today. In relation to the public sector equality duty, as a slightly critical friend, there is no mention in the report for the PSED to give equal rights and regard to citizens whose first language is Welsh, and I would have liked to have seen that. I would like to see more details and examples of good and not-so-good practice by public sector organisations in carrying out their responsibilities regarding non-discrimination. The Welsh Government, as has been mentioned by Mohammad Ashgar, with a concordat with the commission Cymru, should be monitoring its own compliance with the PSED, also making sure that its decisions show a clear commitment to equality impact assessment. There needs to be clear guidance laid down as to what sanctions are available to deal with those public sector organisations that need to improve their performance on equality issues.

The Bevan Foundation, in its evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee, pointed out that the response to the PSED was a bit patchy in Wales and that there is sometimes a tick-box approach. We do not need that. Diverse Cymru recommended that, where necessary, enforcement action should be taken. We fully support that. The Welsh Government has made a clear statement that, whatever the United Kingdom Government might want to do to water down some of the commission's duties and budgets, we in Wales will want to ensure that the commission here remains adequately funded and will do a good job for us here in Wales. Whenever we drive across our border, we see a sign that says 'Welcome to Wales/Croeso i Gymru'; for me, that means a welcome to Wales for absolutely everyone.

Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau y mae arnaf eisiau sôn amdanynt yn benodol heddiw, a byddwn ninnau, hefyd, yn cefnogi pob un o'r pedwar gwelliant a gyflwynwyd gan William Graham heddiw. O safbwynt dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, fel cyfaill beirniadol i raddau, nid oes sôn yn yr adroddiad am i'r ddyletswydd roi hawliau cyfartal ac ystyriaeth i ddinasyddion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, a byddwn wedi hoffi gweld hynny. Hoffwn weld mwy o fanylion ac enghreifftiau o arfer da a ddim cystal gan sefydliadau sector cyhoeddus wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o ran peidio â gwahaniaethu. Dylai Llywodraeth Cymru, fel y crybwyllwyd gan Mohammad Ashgar, â choncordat gyda comisiwn Cymru, fod yn monitro i ba raddau y mae hi ei hun yn cydymffurfio â'r ddyletswydd, gan wneud yn siŵr hefyd bod ei phenderfyniadau'n dangos ymrwymiad clir i asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae angen gosod arweiniad clir ynghylch pa sancsiynau sydd ar gael i ddelio â'r sefydliadau hynny yn y sector cyhoeddus y mae angen iddynt wella eu perfformiad ar faterion cydraddoldeb.

Tynnodd Sefydliad Bevan sylw, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, at y ffaith bod yr ymateb i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ychydig yn dameidiog yng Nghymru, ac y dilynir dull ticio blychau weithiau. Nid oes arnom angen hynny. Argymhellodd Diverse Cymru y dylid cymryd camau gorfodi, lle bo angen. Rydym yn cefnogi hynny'n llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad clir y byddwn ni yng Nghymru, beth bynnag y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod am ei wneud i lastwreiddio rhai o ddyletswyddau a chyllidebau'r comisiwn, am sicrhau bod y comisiwn yma yn parhau i gael ei ariannu'n ddigonol ac y bydd yn gwneud gwaith da inni yma yng Nghymru. Pryd bynnag y byddwn yn gyrru ar draws ein ffin, rydym yn gweld arwydd sy'n dweud 'Welcome to Wales/Croeso i Gymru', i mi, mae hynny'n golygu croeso i Gymru i bawb yn ddiamod.

16:41

Julie Morgan [Bywgraffiad Biography](#)

I am very pleased to speak in this very important debate on equality and human rights in Wales today. The Equality and Human Rights Commission is a very well-respected body and has had a huge task since it has brought together all of the different strains of discrimination, bringing together the Disability Rights Commission, the Commission for Racial Equality, the Equal Opportunities Commission, and also embracing sexual orientation and faith and belief. It has done a very good job of bringing all of this together under one body.

I also want to congratulate it on its work, which has continued despite the really big cuts to the organisation that have been mentioned here today. It is continuing to do that work effectively. In particular, I want to mention the loss of the Wales-only helpline, because the helpline is now delivered from outside Wales and there are bound to be some issues that cannot be addressed if they are not addressed in Wales. Therefore, well done to the commission for carrying on in these difficult circumstances.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl bwysig iawn hon ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru heddiw. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gorff uchel iawn ei barch ac mae wedi cael tasg enfawr ers dwyn ynghyd yr holl wahanol fathau o wahaniaethu, gan ddwyn ynghyd y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, a chan gwmpasu hefyd gyfeiriadedd rhywiol a ffydd a chred. Mae wedi gwneud gwaith da iawn o ran dod â hyn i gyd at ei gilydd mewn un corff.

Rwyf hefyd am ei longyfarch ar ei waith, sydd wedi parhau er gwaethaf y toriadau mawr iawn i'r sefydliad sydd wedi cael eu crybwyll yma heddiw. Mae'n parhau i wneud y gwaith yn effeithiol. Yn benodol, rwyf am sôn am goll i'r llinell gymorth ar gyfer Cymru'n unig, gan fod y llinell gymorth yn awr yn cael ei darparu o'r tu allan i Gymru. Mae'n anochel y bydd rhai materion na ellir mynd i'r afael â nhw os nad eir i'r afael â nhw yng Nghymru. Felly, da iawn i'r comisiwn am barhau yn yr amgylchiadau anodd hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I support the recommendation that the Welsh Government should seek primary legislative competence in relation to the public sector equality duty, and this was highlighted in the Welsh Government's submission to the Silk commission. I welcome the concordat that the Minister has confirmed today that he will be making with the commission.

However, the other issue that is throwing a shadow over future work is Theresa May's confirmation that the next Conservative Party manifesto would include a commitment to get rid of the Human Rights Act 1998. I wonder what implications this would have for the work of the commission in Wales, as one of its functions is to encourage compliance with the Human Rights Act. That is something to bear in mind in relation to what might happen after the next election.

The next point that I want to highlight is the link between equality and poverty. With regard to the position of disabled people in Wales—and the report of the Equality and Human Rights Commission highlights this—23% of people in Wales live in poverty, with 46% of disabled people living in poverty. Disabled people have been particularly hard hit by the welfare reforms and particularly hard hit by the now notorious bedroom tax. Shelter makes the case that around two thirds of those affected are disabled. Most disabled people are unable to move house due to the lack of alternative accommodation and therefore have to live on reduced benefits. It is particularly difficult because local authorities appear to be using income from disability-related benefits when assessing discretionary housing payments, and are requiring disabled people to give evidence about the way in which all disability-related expenditure is spent.

This seems particularly unfair and further disadvantages people who are already disproportionately affected by welfare reform, and I am very concerned—as I know we all are in the Chamber—that disabled people are suffering more than the general population. It seems to me to be an outrageous development that disabled people who need support and help are suffering so badly under the welfare reforms. So, I believe that it is very important to look at the socioeconomic duty that has not been implemented by the UK Government and to see whether a way can be found to ensure that disabled people are not some of the poorest in society. Poverty is clearly linked to equality issues, so I hope that there is something that the Government can do and that it can implement the socioeconomic duty in some way, perhaps by combining it with the equality duty, thereby ensuring that we can tackle poverty, which is so clearly linked to equality.

Finally, I would like to make a few points about the development of Gypsy and Traveller issues. I am very pleased that there is a proposal to put a duty on local authorities to provide sites where a need is identified. This will require the development of more sites, and managing the public relations aspect of it is very important. It is vital that efforts are made to reduce the tensions that often arise when proposals are made and it is important that Gypsy/Travellers are part of the consultation and planning process.

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol yng nghydstun dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ac amlygwyd hyn yng nghyflwyniad Llywodraeth Cymru i gomisiwn Silk. Croesawaf y concordat y mae'r Gweinidog wedi'i gadarnhau heddiw y bydd yn ei wneud gyda'r comisiwn.

Fodd bynnag, y mater arall sy'n taflu cysgod dros waith y dyfodol yw cadarnhad Theresa May y byddai manifesto nesaf y Blaid Geidwadol yn cynnwys ymrwymiad i gael gwared ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Tybed beth fyddai goblygiadau hyn i waith y comisiwn yng Nghymru, gan mai un o'i swyddogaethau yw annog cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae hynny'n rhywbeth i'w gadw mewn cof o ran yr hyn a allai ddigwydd ar ôl yr etholiad nesaf.

Y pwynt nesaf yr wyf am dynnu sylw ato yw'r cysylltiad rhwng cydraddoldeb a thlodi. O ran sefyllfa pobl anabl yng Nghymru—ac mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn tynnu sylw at hyn—mae 23% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi, gyda 46% o bobl anabl yn byw mewn tlodi. Mae pobl anabl wedi cael eu taro'n arbennig o galed gan y diwygiadau i'r gyfundrefn les a'u taro'n arbennig o galed gan y dreth ystafell wely, drwg-enwog erbyn hyn. Mae Shelter yn dadlau bod tua dau o bob tri o'r rhai yr effeithir arnynt yn anabl. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl anabl yn gallu symud tŷ oherwydd diffyg llety arall ac felly maent yn gorfod byw ar fudd-daliadau is. Mae'n arbennig o anodd oherwydd ei bod yn ymddangos bod awdurdodau lleol yn defnyddio incwm o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth asesu taliadau tai yn ôl disgrisiwn, ac yn ei gwneud yn ofynnol i bobl anabl roi tystiolaeth am y ffordd y mae holl wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael ei wario.

Mae hyn yn ymddangos yn arbennig o annheg ac yn achosi rhagor o anfanteision i bobl sydd eisoes yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y diwygiadau i'r gyfundrefn les, ac rwy'n bryderus iawn—fel y gwn ein bod i gyd yn y Siambr—bod pobl anabl yn dioddef mwy na'r boblogaeth gyffredinol. Mae'n ymddangos i mi yn ddatblygiad gwarthus bod pobl anabl y mae angen cefnogaeth a chymorth arnynt yn dioddef cymaint o dan y diwygiadau. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn edrych ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol na weithredwyd gan Lywodraeth y DU, a gweld a ellir canfod ffordd o sicrhau nad yw pobl anabl ymlith rhai o'r bobl dlotaf mewn cymdeithas. Mae cysylltiad amlwg rhwng tlodi a materion cydraddoldeb, felly rwy'n gobeithio bod rhywbeth y gall y Llywodraeth ei wneud ac y gall weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn rhyw ffordd, efallai drwy ei chyfuno â'r ddyletswydd cydraddoldeb, a thrwy hynny sicrhau y gallwn fynd i'r afael â thlodi, sydd mor amlwg yn gysylltiedig â chydaddoldeb.

Yn olaf, hoffwn wneud ychydig o bwyntiau am ddatblygu materion sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr. Rwy'n falch iawn bod cynnig i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd lle mae angen yn cael ei nodi. Bydd hyn yn galw am ddatblygu mwy o safleoedd, ac mae rheoli'r agwedd cysylltiadau cyhoeddus yn bwysig iawn. Mae'n hanfodol bod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau tensiynau sy'n aml yn codi pan fydd cynigion yn cael eu gwneud ac mae'n bwysig bod Sipsiwn/Teithwyr yn rhan o'r broses ymgynghori a chynllunio.

I hope that we can reach the stage in Wales where there is no longer any need for illegal sites, where there are adequate stopping places, as well as enough permanent sites, and where every Gypsy child can grow up in security.

Rwy'n gobeithio y gallwn gyrraedd y sefyllfa yng Nghymru lle nad oes angen mwyach am safleoedd anghyfreithlon, lle mae digon o fannau aros, yn ogystal â digon o safleoedd parhaol, a lle y gall pob plentyn sy'n Sipsi dyfu mewn diogelwch.

16:45

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, welcome the Equality and Human Rights Commission's report and thank it for the work that it has done on this? We have long prided ourselves as being strong advocates of equality and human rights. We are delighted to welcome the report and support all four amendments tabled in the name of William Graham.

We also welcome the Equality and Human Rights Commission's submission to the commission on devolution in Wales—the Silk commission—that the Assembly should be given powers to build upon the Equality Act 2010 and the Human Rights Act 1998. It is absolutely right that we should have the power in terms of the public sector equality duty and be able to exercise that accordingly.

I also agree with Julie Morgan about the Human Rights Act 1998. It is absolutely imperative that that Act remains in force. The fact that the Conservatives have indicated that they will repeal it if they win power in their own right after the next general election indicates the influence that the Liberal Democrats have had in Government in maintaining our commitment to that Act and ensuring that it remains in force.

Of course, although the Conservatives might be able to repeal the Act, they will not be able to repeal the treaty of which we remain a part in terms of Europe. Therefore, what they will effectively be doing is forcing people into the European courts, rather than into British courts when seeking redress in terms of human rights.

In relation to amendments 1 and 2 highlighting the need for the Welsh Government to focus on important issues such as support services for victims of sexual violence and encouraging victims to come forward, we are very pleased to support that.

We are also keen to see public sector bodies more closely reflect the communities that they serve, as outlined in amendment 3. We believe that such bodies will be far more responsive and understanding to their communities as a result. The Welsh Liberal Democrats are happy to support amendment 4 in terms of tackling gender stereotyping in all forms of employment opportunities. Male and female applicants from whatever background or ethnicity, sexual orientation, or disability should all be given a fair and equal opportunity to employment.

A allaf fi, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, groesawu adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a diolch iddo am y gwaith y mae wedi'i wneud ar hyn? Rydym wedi ymfalchïo era amser ein bod yn eiriolwyr cryf ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym yn falch iawn o groesawu'r adroddiad ac yn cefnogi pob un o'r pedwar gwelliant a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Rydym hefyd yn croesawu cyflwyniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r comisiwn ar ddatganoli yng Nghymru—comisiwn Silk—y dylid rhoi pwerau i'r Cynulliad adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n hollol iawn y dylai fod gennym y pŵer o ran dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac y dylem allu ymarfer y pŵer hwnnw felly.

Wrth hefyd yn cytuno â Julie Morgan ynglŷn â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n hollol hanfodol bod y Ddeddf honno'n parhau mewn grym. Mae'r ffaith bod y Ceidwadwyr wedi dweud y byddant yn ei diddymu os byddant yn ennill grym yn eu rhinwedd eu hunain ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf yn dangos y dylanwad y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei gael mewn Llywodraeth o ran cynnal ein hymrwymiad i'r Ddeddf honno a sicrhau ei bod yn parhau mewn grym.

Wrth gwrs, er y bydd y Ceidwadwyr o bosibl yn gallu diddymu'r Ddeddf, ni fyddant yn gallu diddymu'r cytundeb yr ydym yn parhau i fod yn rhan ohono o ran Ewrop. Felly, beth fyddant yn ei wneud i bob pwrpas yw gorfodi pobl i droi at lysoedd Ewropeaidd, yn hytrach nag at lysoedd Prydain wrth geisio iawn o ran hawliau dynol.

O safbwynt gwelliannau 1 a 2 yn tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar faterion pwysig megis gwasanaethau cymorth i bobl sydd wedi dioddef trais rhywiol ac annog dioddefwyr i ddod ymlaen, rydym yn falch iawn i gefnogi hynny.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cyrff y sector cyhoeddus yn adlewyrchu'n agosach y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, fel yr amlinellir yng ngwelliant 3. Credwn y bydd cyrff o'r fath yn llawer mwy ymatebol i'w cymunedau ac yn deall yn well o ganlyniad. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hapus i gefnogi gwelliant 4 o ran mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn pob math o gyfleoedd cyflogaeth. Dylai dynion a menywod sy'n ymgeisio, o ba bynnag gefndir neu ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, neu anabledd i gyd gael cyfle teg a chyfartal i gyflogaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Julie Morgan referred to the discretionary housing allowance. It is an issue that I have taken up with the UK Government in terms of the way in which local councils are calculating this particular allowance in relation to those people who have been affected by the reduction in housing benefit subsidies.

It is absolutely wrong that councils are taking into account disability living allowance and child allowance when it comes to calculating the income for people's qualification of that. In fact, local councils have been very sparing in the way in which they have allocated the DHA, because they are possibly afraid that money is running out. However, it is certainly having an adverse impact on disabled people and their ability to claim that allowance to retain the bedrooms to which they are entitled and do not have to pay for.

I welcome the number of court judgments over the last couple of weeks that have indicated that people with disabilities should be able to have bedrooms of their own if their condition requires that. I hope that the UK Government pays some attention to that. It is a major issue with the changes to housing benefit that this matter has not been addressed. Again, I have made representations to UK Government Ministers that as well as exempting disabled children, they should have exempted disabled adults from this change as well. I think that that is absolutely right and the UK Government is wrong to resist making that particular change.

On poverty, I agree with Julie that it is wrong that 46% of disabled people are in poverty, 32% are from black and ethnic minorities communities and that 48% of lone parents live in poverty, of which nine in 10 are women. There is clearly a huge issue there in terms of equality.

I am pleased that the Welsh Government has agreed, as part of the budget settlement, that we are going to be targeting educational resources at disadvantaged families, particularly those children who are entitled to free school meals. I would hope that the Welsh Government could also take up, once we are clear in terms of Barnett consequentials, what is happening in England in terms of free school meals as well. That is an important issue in terms of making sure that every child receives a hot meal at lunchtime, and I think that if we can take up what the UK Government is doing for infant school children, then that would indeed make a big difference for many people in terms of those children.

The report that we have before us raises a number of very important issues that we are continuing to address in the Assembly, and I am pleased that the Government is committed to addressing those. I think that domestic abuse, mental health, the gender pay gap and equality impact assessments are all important issues as part of our agenda and I certainly think that we need to continue raising those as an Assembly.

Cyfeiriodd Julie Morgan at y lwfans tai yn ôl disgrisiwn. Mae'n fater yr wyf wedi'i drafod gyda Llywodraeth y DU o ran y ffordd y mae cynghorau lleol yn cyfrifo'r lwfans penodol hwn ar gyfer y bobl hynny y mae'r gostyngiad mewn cymorthdaliadau budd-dal tai wedi effeithio arnynt.

Mae'n gwbl anghywir bod cynghorau yn ystyried lwfans byw i'r anabl a lwfans plant wrth gyfrifo incwm er mwyn penderfynu pwy sy'n gymwys. Yn wir, mae cynghorau lleol wedi bod yn gynnil iawn yn y modd y maent wedi dyrannu'r lwfans tai yn ôl disgrisiwn, oherwydd eu bod yn ofni efallai bod arian yn dod i ben. Fodd bynnag, mae'n sicr yn cael effaith andwyol ar bobl anabl a'u gallu i hawlio'r lwfans hwnnw i gadw'r ystafelloedd gwely y mae ganddynt hawl iddynt ac nad oes raid iddynt dalu amdanynt.

Croesawaf y nifer o ddyfarniadau llys dros yr ychydig wythnosau diwethaf sydd wedi nodi y dylai pobl ag anableddau allu cael ystafelloedd gwely eu hunain os yw eu cyflwr yn gofyn am hynny. Rwy'n gobeithio bod Llywodraeth y DU yn rhoi rhywfaint o sylw i hynny. Mae'n broblem fawr gyda'r newidiadau i fudd-dal tai nad yw'r mater hwn wedi cael sylw. Unwaith eto, rwyf wedi cyflwyno sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y DU y dylent fod wedi eithrio oedolion anabl o'r newid hwn, yn ogystal â phlant anabl. Rwy'n meddwl bod hynny'n gwbl gywir ac mae Llywodraeth y DU yn anghywir i wrthsefyll gwneud y newid penodol hwnnw.

O ran tlodi, rwy'n cytuno â Julie ei bod yn anghywir bod 46% o bobl anabl yn byw mewn tlodi, bod 32% o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a bod 48% o rieni sengl yn byw mewn tlodi, â naw o bob 10 o'r rhain yn fenywod. Mae yn amlwg fod problem enfawr yma o ran cydraddoldeb.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno, fel rhan o setliad y gyllideb, y byddwn yn targedu adnoddau addysgol at deuluoedd dan anfantais, yn enwedig y plant hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Byddwn yn gobeithio y gallai Llywodraeth Cymru hefyd, pan fydd symiau canlyniadol Barnett yn eglur, fabwysiadu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran prydau ysgol am ddim hefyd. Mae hwnnw'n fater pwysig o ran gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael pryd o fwyd poeth amser cinio, ac rwy'n credu y byddid wir yn gwneud gwahaniaeth mawr i lawer o bobl o ran y plant hynny, os gallwn fabwysiadu'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud ar gyfer plant ysgolion babanod.

Mae'r adroddiad sydd gennym ger ein bron yn codi nifer o faterion pwysig iawn yr ydym yn parhau i fynd i'r afael â nhw yn y Cynulliad, ac rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhain. Rwy'n meddwl bod cam-drin domestig, iechyd meddwl, y bwch cyflog rhwng y rhywiau ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i gyd yn faterion pwysig fel rhan o'n hagenda ac rwy'n sicr yn credu bod angen i ni barhau i godi'r rheini fel Cynulliad.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, would like to thank the Equality and Human Rights Commission in Wales for its Wales review for 2012-13. Its work in striving to advance the agenda of underrepresented groups in Wales is to be congratulated and needs our robust support, but may I say how much I like this report in particular? As an Assembly Member, and as a councillor previously, I get lots of reports. This one is a report that I could actually take home to my elderly father, he would be able to read it, he would be able to understand it and it would have some meaning for him. I think that the EHRC should be congratulated on the production of this particular report, because it is not full of the technical speak that we as politicians can be guilty of using, it is in a good-sized print, and I will be writing to say as much to Kate Bennett and Ann Beynon and their team.

While much work has been done for many years now, by public sector bodies across Wales in terms of their well-documented and strategic approach to public sector equality duties, the implementation of the Equality Act and, as Ann Jones AM quite rightly mentioned before, equality impact assessments, I think that it is fair to say that the fact that we are debating this here today shows that there is still much to be done to embed the spirit of equality across all aspects of public life in Wales.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:52.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Recently, we have taken evidence in the Communities, Equality and Local Government Committee on the disabled facilities grant and we are still witnessing disabled people struggling to get around the complex DFG issues. We find that disabled people struggle to access buildings—new buildings that are being built now as we speak. We know that we have ethnic minority communities and individuals within them feeling disenfranchised from participation in sports and facing actual discrimination. That is to name just two issues, but they are not inconsequential. While the report outlines much of the fantastic work being done by the EHRC to improve the opportunities and outcomes for those groups of people across Wales, I would ask the Minister what action he is now taking, as we have raised these issues about people feeling discriminated against in terms of sport or the ongoing social exclusion of disabled people and those from minority ethnic backgrounds. We look at politically elected memberships and elected representatives across the five layers of government in Wales and we look at public service—

Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru am ei adolygiad ar gyfer Cymru 2012-13. Mae ei waith o ran ymdrechu i hybu agenda grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yng Nghymru i'w longyfarch ac mae angen ein cefnogaeth gadarn, ond a gaf fi ddweud gymaint yr wyf yn hoffi'r adroddiad hwn yn benodol? Fel Aelod o'r Cynulliad, ac fel cynghorydd cyn hynny, rwy'n cael llawer o adroddiadau. Mae hwn yn adroddiad y gallwn mewn gwirionedd fynd ag adref at fy nhad oeddrannus, byddai'n gallu ei ddarllen, byddai'n gallu ei ddeall a byddai ganddo rywfaint o ystyr iddo. Rwy'n meddwl y dylid llongyfarch y comisiwn ar baratoir adroddiad penodol hwn, oherwydd nad yw'n llawn o'r iaith dechnegol y gallwn ni fel gwleidyddion fod yn euog o'i defnyddio. Mae mewn print o faint da, a byddaf yn ysgrifennu i ddweud hynny wrth Kate Bennett ac Ann Beynon a'u tîm.

Mae cyrff sector cyhoeddus ledled Cymru wedi gwneud llawer o waith ers blynyddoedd lawer bellach, o ran eu hymdriniaeth strategol wedi'i chofnodi'n dda o ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, gweithrediad y Ddeddf Cydraddoldeb ac, fel y crybwyllodd Ann Jones AC yn ddigon teg o'r blaen, asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Er hynny, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod y ffaith y trafodir hyn yma heddiw yn dangos bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ymgorffori ysbryd cydraddoldeb ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:52.

Yn ddiweddar, rydym wedi cymryd tystiolaeth yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y grant cyfleusterau i'r anabl ac rydym yn dal i weld pobl anabl yn ei chael hi'n anodd deall materion cymhleth y grant hwnnw. Rydym yn gweld bod pobl anabl yn ei chael yn anodd cael mynediad i adeiladau—adeiladau newydd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu nawr. Gwyddom fod genym gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac unigolion o'u mewn sy'n teimlo na allant gymryd rhan mewn chwaraeon ac sy'n wynebu gwahaniaethu gwirioneddol. A dyna enwi dim ond dau fater, ond nid ydynt yn ddibwys. Er bod yr adroddiad yn amlinellu llawer o'r gwaith gwych y mae'r Comisiwn yn ei wneud i wella'r cyfleoedd a'r canlyniadau ar gyfer y grwpiau hynny o bobl ledled Cymru, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog pa gamau y mae'n eu cymryd yn awr, gan ein bod wedi codi'r materion hyn am bobl yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn o ran chwaraeon neu'r ffaith bod pobl anabl a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu hallgáu'n gymdeithasol. Rydym yn edrych ar aelodaeth etholedig wleidyddol a chynrychiolwyr etholedig ar draws y pum haen o lywodraeth yng Nghymru ac rydym yn edrych ar wasanaeth cyhoeddus—

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking an intervention. Do you accept then that the bedroom tax is, effectively, contributing to the discrimination against disabled people?

Diolch am adael imi ymyrryd. A ydych yn derbyn felly bod y dreth ystafell wely, i bob pwrpas, yn cyfrannu at y gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl?

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not believe that there is such a thing as a bedroom tax; there is a spare room subsidy.

We look at public service appointments and higher management within industry, and it is fair to say that if we were getting it right, they would be more representative of and reflect our community.

The Equality and Human Rights Commission in its evidence to the CELG committee outlined concerns that it is unlikely that measurable progress will be achieved in advancing the Welsh Government's objective of eradicating poverty in Wales unless a joined-up approach is adopted in addressing the inequality associated with socioeconomic background. Given that the Wales review highlights how 27% of young people, 46% of disabled people and 48% of lone parents live in poverty, the Welsh Government and we as Assembly Members clearly have more to do. I urge the Minister to assess the ways in which you can work more closely with the Equality and Human Rights Commission in order to support them, and to develop not a strategy, but a meaningful way forward that actually does alleviate socioeconomic disadvantage for all groups in Wales.

Nid wyf yn credu bod y fath beth â threth ystafell wely; ceir cymhorthdal ystafell sbâr.

Rydym yn edrych ar benodiadau gwasanaeth cyhoeddus ac uwch reolwyr ym myd diwydiant, ac mae'n deg dweud y byddent yn fwy cynrychiadol ac yn adlewyrchu ein cymuned yn well pe byddem yn gwneud pethau'n iawn.

Amlinellwyd pryderon gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ei bod yn annhebygol y cyflawnir camau mesuradwy i hyrwyddo amcan Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi yng Nghymru oni bai dull cydlynol yn cael ei fabwysiadu o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chefnidir economaidd-gymdeithasol. O gofio bod adolygiad Cymru'n tynnu sylw at y ffaith bod 27% o bobl ifanc, 46% o bobl anabl a 48% o rieni sengl yn byw mewn tlodi, mae'n amlwg bod gan Lywodraeth Cymru a ninnau fel Aelodau'r Cynulliad fwy i'w wneud. Rwy'n annog y Gweinidog i asesu'r ffyrdd y gallwch weithio'n agosach gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn ei gefnogi, a datblygu nid strategaeth, ond ffordd ystyrlon ymlaen sydd mewn gwirionedd yn lleddfu anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob grŵp yng Nghymru.

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like many before me, I also want to put on record my thanks to the EHRC for the way in which it has conducted its business over the last 12 months under very difficult circumstances, as has been mentioned. I also wanted to pay tribute to the way in which it has got about Wales and taken information from many areas. It now has a true picture of what is happening, and it no longer just relies—not that it ever did—as some organisations tend to do, on those areas that are easy to access. Therefore, I would like to thank it for doing that, and particularly for coming along to north Wales to visit and to hear people's experiences.

I believe that the ethos of equality has begun to flourish now in Welsh public life. I think that we have to see that as an extremely positive step. Over the past few years public bodies have taken on board their duties. For me, the provision of the Equality Act 2010 was one of the greatest achievements of the last UK Labour Government. That has actually now made sure that local authorities have to look at the impact their choices will have on a whole range of people who are often discriminated against.

Like the commission—and I am sure that it will agree—we are still nowhere near our goal in ensuring that all Welsh people, no matter their gender, sexual orientation, ethnicity or disability are treated equally. So, we still have a long way to go.

Fel llawer un o'm blaen, rwyf innau hefyd am gofnodi fy nioch i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am y ffordd y mae wedi gwneud ei waith yn ystod y 12 mis diwethaf o dan amgylchiadau anodd iawn, fel y soniwyd. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r ffordd y mae wedi mynd o amgylch Cymru a chymryd gwybodaeth o nifer o ardaloedd. Erbyn hyn mae darlun cywir ganddo o'r hyn sy'n digwydd, ac nid yw mwyach yn dibynnu, fel y mae rhai sefydliadau yn tueddu i wneud, ar yr ardaloedd hynny sy'n hawdd eu cyrraedd—nid ei fod erioed wedi gwneud hynny. Felly, hoffwn ddiolch iddo am wneud hynny, ac yn enwedig am ddod draw i ogledd Cymru i ymweld ac i glywed am brofiadau pobl.

Rwy'n credu bod ethos cydraddoldeb wedi dechrau ffynnu nawr ym mywyd cyhoeddus Cymru. Credaf fod yn rhaid inni weld hynny fel cam cadarnhaol iawn. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyrff cyhoeddus wedi ystyried eu dyletswyddau. I mi, darparu Deddf Cydraddoldeb 2010 oedd un o lwyddiannau mwyaf Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU. Mae honno mewn gwirionedd wedi gwneud yn siŵr bod yn rhaid i awdurdodau lleol edrych ar yr effaith y bydd eu dewisiadau yn ei chael ar ystod eang o bobl y gwahaniaethir yn eu herbyn yn aml.

Fel y comisiwn—ac rwy'n siŵr y bydd yn cytuno—rydym ymhell o fod wedi cyrraedd ein nod o ran sicrhau bod holl bobl Cymru, beth bynnag fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd neu anabledd, yn cael eu trin yn gyfartal. Felly, mae gennym ffordd bell i fynd.

I do not think that we have enough women in prominent public positions. The commissions that run Wales expose that year-on-year progress is far too slow. While we quite rightly point to the record of the Assembly, Welsh public life consists of more than just the 60 Assembly Members here, as much as we would like to think that that is a true reflection. It is not. Welsh public life is more than just the 60 of us sitting around the Chamber.

So, it cannot be right that women make up 75% of Welsh teachers, but only 26% are secondary headteachers; nor can it be right that, while women make up the huge proportion of the NHS workforce, there are still many more men in management and executive positions within the NHS. In the field of public appointments I am pleased that the Welsh Government has pledged that at least 40% of all appointments should be women.

We need to challenge the rhetoric around equality, and we need to change that rhetoric into actions. We should do more to advance equality; we can do more to advance equality; and we must do more to advance equality.

Nid wyf yn credu bod gennym ddigon o fenywod mewn swyddi cyhoeddus amlwg. Mae'r comisiynau sy'n rhedeg Cymru yn datgelu bod datblygiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn llawer rhy araf. Er ein bod yn eithaf priodol yn cyfeirio at hanes y Cynulliad, mae bywyd cyhoeddus Cymru yn cynnwys mwy na dim ond y 60 o Aelodau'r Cynulliad, er cymaint yr hoffem feddwl ein bod yn adlewyrchiad cywir. Nid felly. Mae bywyd cyhoeddus Cymru yn fwy na dim ond y 60 ohonom sy'n eistedd o gwmpas y Siambr.

Felly, ni all fod yn iawn mai menywod yw 75% o athrawon Cymru, ond mai dim ond 26% sy'n benaethiaid uwchradd; ac ni all fod yn iawn mai menywod yw cyfran fawr o weithlu'r GIG, ond bod llawer mwy o ddynion mewn swyddi rheoli a gweithredol o fewn y GIG. Ym maes penodiadau cyhoeddus rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi addo y dylai o leiaf 40% o'r holl benodiadau fod yn fenywod.

Mae angen i ni herio'r rhethreg ynghylch cydraddoldeb, ac mae angen inni newid y rhethreg yn weithredoedd. Dylem wneud mwy i hyrwyddo cydraddoldeb; gallwn wneud mwy i hyrwyddo cydraddoldeb; ac mae'n rhaid inni wneud mwy i hyrwyddo cydraddoldeb.

16:58 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the annual report and I congratulate the commission on its work in what is the most difficult period of its history. We are all aware of the severe cuts in its budget, which will have had a massive impact on its capacity to carry out its work, and the economic climate in which it works. The report focuses on the growing level of poverty in Wales, and this is mirrored in the rest of the UK.

Poverty particularly hits the more vulnerable groups in our society, such as the disabled, ethnic minorities, young people and lone parents. I am clear in my mind that we cannot tackle inequality and human rights in our society without tackling the increasing wealth inequality that exists in our society, and the current policies of the coalition Government, which are increasing poverty and leading to greater social inequality.

Rwy'n croesawu'r adroddiad blynyddol ac rwy'n llongyfarch y comisiwn ar ei waith yn y cyfnod mwyaf anodd yn ei hanes. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r toriadau difrifol yn ei gyllideb, a fydd wedi cael effaith enfawr ar ei allu i gyflawni ei waith, a'r hinsawdd economaidd y mae'n gweithio ynddi. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar lefel gynyddol y tlodi yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng gweddill y DU.

Mae tlodi'n taro'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn arbennig, fel pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc ac unig rieni. Rwy'n glir fy meddwl na allwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hawliau dynol yn ein cymdeithas heb fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb cyfoeth cynyddol sy'n bodoli yn ein cymdeithas, a pholisïau presennol Llywodraeth y glymblaid, sy'n cynyddu tlodi ac yn arwain at fwy o anghydraddoldeb cymdeithasol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The wealth gap grew under the Labour UK Government and has shrunk since the coalition Government came to power. Do you accept that?

Tyfodd y bwch cyfoeth o dan Lywodraeth Lafur y DU ac mae wedi crebachu ers i Lywodraeth y glymblaid ddod i rym. A ydych yn derbyn hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I accept is that poverty was decreasing under the Labour Government, and since then, your Government has actually exacerbated it, and continues to do so.

Yr hyn yr wyf yn ei dderbyn yw bod tlodi yn gostwng o dan y Llywodraeth Lafur, a bod eich Llywodraeth, ers hynny, wedi ei waethygu mewn gwirionedd, a'i fod yn parhau i wneud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Why is it important that we deal with the greater social inequality that exists? Apart from our duty to our citizens and to our fellow human beings, it is because the evidence is clear that an unequal society is an unstable society and a divided society. Such a society cannot survive for long. There can be little doubt that many aspects of the coalition Government's austerity programme will lead to increasing inequality and stigmatisation of the poor and the vulnerable. Universal credit will result in the poorest tenth of society losing 5% of their income. The focus on benefit fraud worth an estimated £1.2 billion is disproportionate to the lack of focus on tax avoidance, which is estimated to increase from £25 billion to more than £30 billion in unpaid tax. Income inequality is linked to life expectancy. Those in poorer areas are likely to live for eight years less than those from wealthier areas. Top pay continues to rise at around 10% per annum, compared with a pay freeze for the lowest earners, whose income decreases in real terms year on year. A FTSE 100 chief executive will earn an average of £4.8 million per year—185 times average earnings. Of these, 65% will come from the finance and banking sector. In 1979, the top 1% of earners took home 1.3% of national earnings. This has now risen to 10% of national earnings. It is predicted that the top 1.3% will be taking home 20% over the next decade.

Directors' pay in the UK in the past decade has quadrupled, with no clear link to corporate performance. The national minimum wage in October 2012 increased by 1.8%, while the retail price index increased by 2.9%. The value of the national minimum wage decreases year on year. Poorer people are more dependent on benefits, and the majority of benefit claimants are in work. The £19 billion cuts in the 2012 austerity budget will cut the income of the poorest fifth in society by 12%, but will only cut the income of the richest fifth by 1%. The bedroom tax hits Wales disproportionately, with 46% affected, compared with 31% in the rest of the UK. This impacts, in particular, on 25,000 disabled families in Wales.

Cuts in legal aid effectively disenfranchise and disempower the poorest in society, hitting the disabled, lone mothers, women and, increasingly, young people. The UK Government is now reviewing the future of the Human Rights Act 1998 and the public sector equality duty— [Interruption.]

Pam mae'n bwysig ein bod yn delio â'r anghydraddoldeb cymdeithasol mwy sy'n bodoli? Ar wahân i'n dyletswydd i'n dinasyddion ac i'n cyd-ddyn, oherwydd bod y dystiolaeth yn glir bod cymdeithas anghyfartal yn gymdeithas ansefydlog ac yn gymdeithas ranedig. Ni all cymdeithas o'r fath oroesi am amser hir. Nid oes fawr o amheuaeth y bydd llawer o agweddau ar raglen gynilo Llywodraeth y glymblaid yn arwain at gynyddu anghydraddoldeb a rhoi stigma ar y tlawd a'r agored i niwed. Bydd degfed rhan dlotaf y gymdeithas yn colli 5% o'u hincwm o ganlyniad i'r credyd cyffredinol. Mae'r ffocws ar dwyll budd-daliadau gwerth tua £1.2 biliwn yn anghymesur â diffyg ffocws ar y rhai sy'n osgoi talu treth, a fydd yn cynyddu o £25 biliwn i fwy na £30 biliwn o dreth heb ei thalu yn ôl yr amcangyfrifon. Mae anghydraddoldeb incwm yn gysylltiedig â disgwyliad oes. Mae'r rhai mewn ardaloedd tlotach yn debygol o fyw am wyth mlynedd yn llai na'r rheiny o ardaloedd cyfoethocach. Mae'r cyflogau uchaf yn parhau i gynyddu tua 10% y flwyddyn, tra bo cyflogau'r rhai sy'n ennill isaf yn cael eu rhewi, a'u hincwm yn gostwng mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn. Bydd prif weithredwr FTSE 100 yn ennill £4.8 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd—185 gwaith yr enillion cyfartalog. O'r rhain, bydd 65% yn y sector cyllid a bancio. Ym 1979, roedd yr 1% uchaf o enillwyr yn cael 1.3% o'r enillion cenedlaethol. Mae hyn bellach wedi codi i 10% o'r enillion cenedlaethol. Rhagwelir y bydd yr 1.3% uchaf yn cael 20% dros y degawd nesaf.

Mae tâl Cyfarwyddwyr yn y DU yn y degawd diwethaf wedi cynyddu bedair gwaith, heb unrhyw gyswllt clir â pherfformiad corfforaethol. Cynyddodd yr isafswm cyflog cenedlaethol 1.8% ym mis Hydref 2012, a chynyddodd y mynegai prisiau manwerthu 2.9%. Mae gwerth yr isafswm cyflog cenedlaethol yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Mae pobl dlotach yn fwy dibynnol ar fudd-daliadau, ac mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn gwaith. Bydd y toriadau o £19 biliwn yng nghyllideb cynilo 2012 yn torri 12% oddi ar incwm y pumed rhan dlotaf yn y gymdeithas, ond dim ond 1% oddi ar incwm y pumed rhan gyfoethocaf. Mae'r dreth ystafell wely'n taro Cymru yn anghymesur, gyda 46% wedi'u heffeithio, o'i gymharu â 31% yng ngweddill y DU. Mae hyn yn effeithio, yn arbennig, ar 25,000 o deuluoedd anabl yng Nghymru.

Mae toriadau mewn cymorth cyfreithiol i bob pwrpas yn difreinio a dadrymuso'r tlotaf mewn cymdeithas, gan daro'r anabl, mamau sengl, menywod ac, yn gynyddol, pobl ifanc. Mae Llywodraeth y DU yn awr yn adolygu dyfodol Deddf Hawliau Dynol 1998 a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus—[Torri ar draws.]

- 17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Trefn.
- 17:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Under the equality—[Interruption.] O dan y ddyletswydd—[Torri ar draws.]
- 17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. The Member will stop speaking. I am calling the Assembly to order. There is far too much heckling from a sedentary position. It is most unseemly and it will stop. I call on Mick Antoniw. Trefn. Bydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i siarad. Galwaf y Cynulliad i drefn. Mae llawer gormod o heclo gan bobl ar eu heistedd. Mae'n anweddus iawn a bydd yn dod i ben. Galwaf ar Mick Antoniw.

17:02

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I apologise, Deputy Presiding Officer; their heckling meant that I could not hear your interventions. I can understand that this information is painful to them, because the UK Government is now reviewing, with a view to abolition, the public sector equality duty under the Equality Act 2010. Its intentions are clear. This brings me back to the annual report. While I welcome the work of the commission, it is work being carried out against a backdrop of a coalition Government that is either deliberately or unwittingly increasing inequality and division in our society. It is undeniable that we really are not in it together.

Ymddiheuraf, Ddirprwy Lywydd; roedd eu heclo'n golygu na allwn glywed eich ymyriadau. Gallaf ddeall bod y wybodaeth hon yn boenus iddynt, gan fod Llywodraeth y DU yn awr yn adolygu, gyda golwg ar ddi-ddymu, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ei bwriad yn glir. Daw hyn â mi yn ôl at yr adroddiad blynyddol. Er fy mod yn croesawu gwaith y comisiwn, mae'n waith sy'n cael ei wneud yn erbyn cefndir Llywodraeth glymblaid sydd naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol yn cynyddu anghydraddoldeb ac ymraniad yn ein cymdeithas. Ni ellir gwadu nad ydym mewn gwirionedd yn y sefyllfa gyda'n gilydd.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

17:03

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Diolch, Deputy Presiding Officer. I really appreciate the mainly positive points that have been raised here today. I welcome the cross-party commitment to supporting the work of the Equality and Human Rights Commission in Wales. The point that Janet Finch-Saunders raised about the readability of the report is something that we often overlook, but it is an important point because these important reports need to be read and understood by the population in general.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r pwyntiau cadarnhaol ar y cyfan a godwyd yma heddiw. Croesawaf yr ymrwymiad trawsbleidiol i gefnogi gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae'r pwynt a gododd Janet Finch-Saunders ynglŷn â'r ffaith bod yr adroddiad yn ddarllenadwy yn rhywbeth yr ydym yn aml yn ei anghofio, ond mae'n bwynt pwysig oherwydd bod angen i'r adroddiadau pwysig hyn gael eu darllen a'u deall gan y boblogaeth yn gyffredinol.

The discussion on the amendments highlights the progress that we have made. Our framework on tackling hate crimes and incidents is currently out to consultation. In fact, the consultation ends this Friday. So, I would urge all AMs—and anyone listening to this debate, if they have a point to make on our tackling hate crime framework—that they should make a submission. The point made about disabled people is very powerful. I have met many as a result of being in this post. It is clear that, when they talk to me about the hate crime that they face, it is extremely distressing. They have been affected, particularly, as a result of the strivers-versus-scroungers approach that has come out and been highlighted in the media, particularly as a result of the so-called welfare reforms. Certainly, disability hate crime is a very important part of the 'Tackling Hate Crime and Incidents' framework. It was launched in a school, because we believe that no-one is born with prejudice, and if we can, through teaching in schools, to do our very best to make sure that young people grow up with better attitudes than is currently the case among many adolescents and adults, then I think that we are heading in the right direction. However, as Mick Antoniw said, much of hate crime is down to the state of the economy. We know that it is often economic recession that drives people into the search for scapegoats.

Mae'r drafodaeth ar y gwelliannau yn tynnu sylw at yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni. Mae ein fframwaith ar fynd i'r afael â throeddau a digwyddiadau casineb ar hyn o bryd yn destun ymgynghori. Yn wir, daw'r ymgynghoriad i ben ddydd Gwener. Felly, byddwn yn annog pob Aelod o'r Cynulliad—ac unrhyw un sy'n gwrandao ar y ddatl hon, os oes ganddynt bwynt i'w wneud ynglŷn â'n fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â throeddau casineb—y dylent wneud cyflwyniad. Mae'r pwynt a wnaed am bobl anabl yn bwerus iawn. Rwyf wedi cwrdd â llawer o ganlyniad i fod yn y swydd hon. Mae'n amlwg, pan fyddant yn siarad â mi am yr drosedd casineb y maent yn ei hwynebu, ei bod yn achosi gofid mawr iddynt. Effeithiwyd arnynt, yn enwedig, o ganlyniad i'r agwedd a ddaeth i'r amlwg ac a amlygwyd yn y cyfryngau, yn enwedig yn sgil y diwygiadau lles bondigrybwyll, bod rhai'n ymdrechu ac eraill yn fyw'n fras ar goffrau'r wlad. Yn sicr, mae troeddau casineb anabledd yn rhan bwysig iawn o'r fframwaith 'Mynd i'r afael â Throeddau a Digwyddiadau Casineb'. Fe'i lanswyd mewn ysgol, gan ein bod yn credu nad oes neb yn cael ei eni â rhagfarn, ac os gallwn, drwy addysgu mewn ysgolion, wneud ein gorau glas i sicrhau bod pobl ifanc yn tyfu â gwell agweddau nag sydd gan lawer o bobl ifanc ac oedolion ar hyn o bryd, yna rwy'n meddwl ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, fel y dywedodd Mick Antoniw, mae llawer o'r troeddau casineb yn deillio o gyflwr yr economi. Rydym yn gwybod yn aml mai dirwasgiad economaidd sy'n gyrru pobl i chwilio am fwch dihangol.

On the points raised by Mohammad Asghar, I am happy to say that we are very serious about tackling domestic abuse. The independent review of violence against women, domestic abuse and sexual violence services in Wales is on course to report to us this autumn. Our commitment is further demonstrated by our 1,000 Safer Lives project and 'The Right to be Safe' strategy, which has published its third annual report. The First Minister announced in his legislative statement in July that the ending violence against women and domestic abuse (Wales) Bill will be introduced in June 2014.

Ann Jones rightly raised the issue of women being underrepresented in senior appointments, and diversity in public appointments is now embodied in our programme for government commitment and in our strategic equality plan. Indeed, Ministers agreed at a meeting of Cabinet on 24 September to continue our targeted approach in increasing the number of women and other underrepresented groups in public appointments.

I am firmly committed to gender equality in the workplace—I support the comments of Peter Black—and to enabling women to overcome the many barriers they may face in accessing work, as well as encouraging and supporting them to progress in the workplace. Our strategic equality plan focuses on identifying and addressing the cause of gender pay and employment differences. Equality requires a partnership focus, as emphasised by the title of the commission's annual review, 'Working together to strengthen equality and human rights in Wales', and we, along with the commission and other partners, are working together to deliver it, and will continue to do so.

I welcome the commission's business plan for 2013-14, as it continues to build on the strong and distinct equality agenda that is evolving in Wales. As many Members have mentioned, this is despite the halving of the commission's budget by the UK Government, which means that, in Wales, the staffing complement has been cut by almost half, to 15.

The commission's priority for working with the public sector to achieve positive outcomes is vitally important. The role of the public authorities is essential in leading the way on driving further change and building on the progress made to date. This will also greatly assist with our requirement to publish a Welsh Ministers' report, which will report on progress in implementing the public sector duty by December 2014. The commission's monitoring work will play a key role in its production. A successful Welsh Ministers' report can be achieved only through partnership working. However, as Ann Jones has said, we have a long way to go.

O ran y pwyntiau a godwyd gan Mohammad Asghar, rwy'n falch o ddweud ein bod wir o ddirif ynglŷn â mynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae'r adolygiad annibynnol o wasanaethau trais rhywiol, cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yng Nghymru ar y trywydd iawn i gyflwyno adroddiad inni yr hydref hwn. Dangosir ein hymrwymiad ymhellach gan ein prosiect 1,000 o Fwydau Mwy Diogel a'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', sydd wedi cyhoeddi ei drydydd adroddiad blynyddol. Cyhoeddodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf y bydd y Bil ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (Cymru) yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2014.

Cododd Ann Jones yn briodol y ffaith nad yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn uwch penodiadau, ac mae amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yn awr wedi'i ymgorffori yn ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu ac yn ein cynllun cydraddoldeb strategol. Yn wir, cytunodd y Gweinidogion mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 24 Medi i barhau â'n dull wedi'i dargedu o gynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus.

Rwy'n gwbl ymrwymedig i gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle—rwy'n cefnogi sylwadau Peter Black—ac i alluogi menywod i oresgyn y rhwystrau niferus y gallant eu hwynebu wrth fynd i weithio, yn ogystal â'u hannog a'u cynorthwyo i symud ymlaen yn y gweithle. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn canolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael ag achos y gwahaniaethau mewn cyflogau a chyflogaeth rhwng y rhywiau. Mae angen gweithio mewn partneriaeth er mwyn ymdrin â chydraddoldeb, fel y pwysleiswyd gan deitl adolygiad blynyddol y comisiwn, 'Cydwethio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru', a byddwn ni, ynghyd â'r comisiwn a phartneriaid eraill, yn gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Rwy'n croesawu cynllun busnes y comisiwn ar gyfer 2013-14, gan ei fod yn parhau i adeiladu ar yr agenda gydraddoldeb gref ac unigryw sy'n esblygu yng Nghymru. Fel y mae llawer o Aelodau wedi crybwyll, mae hyn er i Lywodraeth y DU haneru cyllideb y comisiwn, sy'n golygu, yng Nghymru, bod nifer y staff wedi'i gwtogi bron i hanner, i 15.

Mae blaenoriaeth y comisiwn i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn hanfodol bwysig. Mae rôl yr awdurdodau cyhoeddus yn hanfodol mewn arwain y ffordd o ran ysgogi rhagor o newid ac adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Bydd hyn hefyd yn gymorth mawr gyda'n gofyniad i gyhoeddi adroddiad gan Weinidogion Cymru, ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd i weithredu dyletswydd y sector cyhoeddus erbyn mis Rhagfyr 2014. Bydd gwaith monitro'r comisiwn yn chwarae rhan allweddol wrth baratoi'r adroddiad. Ni ellir ond paratoi adroddiad llwyddiannus gan Weinidogion Cymru trwy weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, fel y dywedodd Ann Jones, mae gennym ffordd bell i fynd.

This debate demonstrates how well respected the Equality and Human Rights Commission in Wales is, as well as the critical role it has in ensuring that Wales leads the way in defending and advocating equality and inclusion. Julie Morgan made the important points about the links between inequality and poverty, and I can say that, next month, I will issue a statement on Gypsies and Travellers.

Mae'r ddadl hon yn dangos pa mor uchel ei barch yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, yn ogystal â'r rôl hanfodol sydd ganddo i sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd wrth amddiffyn a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Gwnaeth Julie Morgan bwyntiau pwysig am y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi, a gallaf ddweud y byddaf, y mis nesaf, yn cyhoeddi datganiad ar Sipsiwn a Theithwyr.

I would like to thank everyone at the commission and the Wales committee for their continued hard work and support. Finally, and with great pleasure, I am pleased to inform the Chamber that the commission is hosting a reception after Plenary for Assembly Members to meet the Wales committee. I encourage Assembly Members to take the opportunity to attend.

Hoffwn ddiolch i bawb yn y comisiwn a phwyllgor Cymru am eu gwaith caled a'u cefnogaeth barhaus. Yn olaf, a chyda phleser mawr, rwy'n falch o roi gwybod i'r Siambur bod y comisiwn yn cynnal derbynriad ar ôl y Cyfarfod Llawn i Aelodau'r Cynulliad gwrdd â phwyllgor Cymru. Rwy'n annog Aelodau'r Cynulliad i fanteisio ar y cyfle i fod yn bresennol.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 4 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

1. Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Cydwethio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'.

1. Notes the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 'Working Together to Strengthen Equality and Human Rights in Wales'.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

3. Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau'r sector cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

2. Calls on the Welsh Government to improve the standard and availability of support services for victims of sexual violence.

3. Recognises the need to encourage victims of hate crime and domestic abuse to report such incidents.

4. Calls on the Welsh Government to investigate ways to ensure the membership of public sector boards more accurately reflect the communities they serve.

5. Calls on the Welsh Government to develop policies to tackle gender stereotyping in all forms of employment opportunities.

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the motion as amended is agreed.

Y cynnig yw bod y cynnig fel y'i diwygiwyd yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5327 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion NDM5327 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

Cynnig NDM5326 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

Debate on the Older People's Commissioner for Wales' Annual Report 2012-13

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.

Motion NDM5326 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the annual report of the Commissioner for Older People for 2012/13, a copy of which was laid in Table Office on 4 September 2013.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Social Services to move the motion; Gwenda Thomas.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig; Gwenda Thomas.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:10

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n croesawu adroddiad blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Sefyll dros Hawliau ac Eirioli', sy'n amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd ganddi dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys craffu ar bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar y naill law a gwaith achos unigol ar y llall. Mae hyn yn dangos yr effaith sylweddol y mae'r comisiynydd yn ei chael ar fywydau pobl hŷn bob dydd.

I welcome the annual report of the Commissioner for Older People in Wales, 'Standing Up, Speaking Out', which outlines the work that has been done over the past year to support older people in Wales. This work includes scrutinising policy and legislation produced by the Welsh Government, and providing guidance to local authorities on the one hand and individual casework on the other. This demonstrates the significant impact that the commissioner is having on the lives of older people on a daily basis.

The commissioner's annual report raises some key challenges for us in the Welsh Government. I would like to share with you what we, as a Government, are doing in relation to older people. The Social Services and Well-being (Wales) Bill will deliver the Welsh Government's commitment for social services in Wales to improve the wellbeing of people of all ages who need care and support. That also includes carers who may need support as part of families and communities. The Bill will transform the way in which social services are delivered by promoting people's independence to give them a stronger voice and control. The Bill will also, for the first time, provide for a coherent legal framework for adult protection. It will seek to ensure that there is the same consistent, co-ordinated and robust multi-agency response to adult protection cases, including the abuse of older people.

The responses to the consultation on the Bill demonstrated overwhelming support for powers to ensure that practitioners could access adults suspected of being abused or neglected. I now intend to include a provision that will enable social services to enter a property to speak with someone who they think could be at risk to determine whether a person is making decisions freely.

Leadership is paramount, and the Bill will therefore seek to establish a national independent safeguarding board to advise Ministers on the adequacy and effectiveness of safeguarding arrangements and on action to strengthen policy and improve practice. Safeguarding adults boards would be established with a specific focus on adults at risk to provide for effective collaboration and multi-agency working.

As I announced in my Cabinet written statement on 12 June, I have decided to further extend provision for statutory advocacy further through a Government amendment for Stage 2 scrutiny. Therefore, I accept the amendment suggested by Elin Jones. I have asked the commissioner to set up and chair a task group to provide me with independent advice on the options for the business case for advocacy for older people, a commitment in our White Paper, 'Sustainable Social Services'. The task group is working closely with the expert advisory group on advocacy, which I jointly established with the Minister for Communities and Tackling Poverty. Secondly, based on her report on escalating concerns, I asked the commissioner to establish a task group to provide independent advice on recommendations on additional guidance required for local authorities when care homes close.

Finally, the commissioner has established a task group to provide me with independent advice on the potential benefits of a declaration of the rights of older people in Wales. We might want to reflect on a short debate led by Darren Millar on this. While, in itself, a Welsh declaration of the rights of older people would have no binding legal effect, it would send very clear signals to statutory bodies and service providers, as well as to older people themselves, about our expectations. I have received the task group's recommendations and am currently considering my response—very recently, in the last day or so. I will keep Assembly Members informed of progress.

Mae adroddiad blynyddol y comisiynydd yn codi rhai heriau allweddol i ni yn Llywodraeth Cymru. Hoffwn rannu gyda chi yr hyn yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn ei wneud mewn perthynas â phobl hŷn. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i wella lles pobl o bob oed sydd ag angen gofal a chymorth. Mae hynny hefyd yn cynnwys gofalfwr a all fod ag angen cymorth fel rhan o deuluoedd a chymunedau. Bydd y Bil yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu trwy hyrwyddo annibyniaeth pobl i roi llais cryfach a rheolaeth iddynt. Bydd y Bil hefyd, am y tro cyntaf, yn darparu fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer amddiffyn oedolion. Bydd yn ceisio sicrhau y ceir yr un ymateb amlasiantaeth cyson, cydlynol a chadarn i achosion amddiffyn oedolion, gan gynnwys cam-drin pobl hŷn.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil yn dangos cefnogaeth enfawr i bwerau i sicrhau y gallai ymarferwyr gael mynediad at oedolion yr amheuir eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Rwyf yn awr yn bwriadu cynnwys darpariaeth a fydd yn galluogi gwasanaethau cymdeithasol i fynd i mewn i eiddo er mwyn siarad â rhywun y maent yn credu y gallai fod mewn perygl, er mwyn penderfynu a yw'n rhydd i wneud penderfyniadau.

Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig, a bydd y Bil felly'n ceisio sefydlu bwrdd diogelu cenedlaethol annibynnol i gynghori Gweinidogion ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ac ar gamau i gryfhau polisi a gwella ymarfer. Byddai byrddau diogelu oedolion yn cael eu sefydlu gyda phwyslais penodol ar oedolion sydd mewn perygl, er mwyn darparu ar gyfer cydweithio effeithiol a gwaith aml-asiantaeth.

Fel y cyhoeddais yn fy natganiad Cabinet ysgrifenedig ar 12 Mehefin, rwyf wedi penderfynu ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer eiriolaeth statudol ymhellach drwy welliant y Llywodraeth ar gyfer craffu yn ystod Cyfnod 2. Felly, rwy'n derbyn y gwelliant a awgrymwyd gan Elin Jones. Rwyf wedi gofyn i'r comisiynydd sefydlu a chadeirio tasglu i roi cyngor annibynnol imi ar yr opsiynau o ran yr achos busnes ar gyfer eiriolaeth i bobl hŷn, sy'n ymrwymiad yn ein Papur Gwyn, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'. Mae'r grŵp gorchwyl yn gweithio'n agos gyda'r grŵp cynghori arbenigol ar eiriolaeth, a sefydlais ar y cyd â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Yn ail, yn seiliedig ar ei hadroddiad ar hysbysu am bryderon, gofynnais i'r comisiynydd sefydlu grŵp gorchwyl i roi cyngor annibynnol ar argymhellion ar gyfer canllawiau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer awdurdodau lleol pan fydd cartrefi gofal yn cau.

Yn olaf, mae'r comisiynydd wedi sefydlu grŵp gorchwyl i roi cyngor annibynnol imi ar fanteision posibl datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Efallai y byddwn am ystyried dadl fer dan arweiniad Darren Millar ar hyn. Er na fyddai datganiad Cymru o hawliau pobl hŷn, ynddo'i hun, yn cael unrhyw effaith gyfreithiol rwymol, byddai'n anfon arwyddion clir iawn i gyrff statudol a darparwyr gwasanaeth, yn ogystal ag i bobl hŷn eu hunain, am ein disgwyliadau. Rwyf wedi derbyn argymhellion y grŵp gorchwyl ac rwy'n ystyried fy ymateb—yn ddiweddar iawn, yn y dyddiau diwethaf. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

The commissioner raises some areas of concern in her additional state of the nation report and serious cases briefing, which I received last week. I would like to reassure that National Assembly and the commissioner that the Government is very aware of how important these issues are. I would like to take this opportunity to provide further detail on the robust approach that we are taking to build up individuals and communities' well-being and resilience, to reduce dependence and improve overall health in Wales. We all need resources to bring well-being within our reach, and we must also create conditions in which all older people can flourish. This approach—a desire to improve social, economic and environmental well-being to the benefit of the people and communities of Wales—is at the heart of the Welsh Government strategy for older people. Delivering improvements in older people's well-being can only be achieved by concerted effort and commitment on behalf of the Welsh Government departments and our partners. The evidence from the commissioner's 'Dignified Care: Two Years On' report, published earlier this year, is encouraging, but there is no room for complacency. The report rightly identifies that there is still more work to be done.

I am pleased to see that, since the original report was published in 2011, the focused attention that has been given to this important issue is making a real difference to the people using our health services at the time they are most vulnerable. I congratulate the commissioner on the real impact that she has made since her appointment in 2012. Our ambition when we created the post of commissioner was that older people would have a strong advocate and champion of their rights. This report clearly shows us what the commissioner has done and what she plans to do in the future to ensure that we achieve that vision.

Mae'r comisiynydd yn codi rhai meysydd o bryder yn ei hadroddiad ychwanegol ar gyflwr y genedl a'i briff ar achosion difrifol, a dderbynais yr wythnos diwethaf. Hoffwn sicrhau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r comisiynydd bod y Llywodraeth yn ymwybodol iawn o ba mor bwysig yw'r materion hyn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddarparu rhagor o fanylion ar y dull cadarn yr ydym yn ei fabwysiadu i feithrin lles a gwydnwch unigolion a chymunedau, er mwyn lleihau dibyniaeth a gwella iechyd cyffredinol yng Nghymru. Mae angen adnoddau arnom i gyd i ddod â lles o fewn ein cyrraedd, ac mae'n rhaid i ni hefyd greu amgylchiadau lle y gall ein pobl hŷn i gyd ffynnu. Mae'r dull hwn—awydd i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er budd pobl a chymunedau Cymru—yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl hŷn. Dim ond trwy ymdrech ac ymrwymiad ar y cyd gan adrannau Llywodraeth Cymru a'n partneriaid y gellir gwella lles pobl hŷn. Mae'r dystiolaeth gan y comisiynydd yn yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach', a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn galonogol, ond nid oes lle i fod yn hunanfodlon. Mae'r adroddiad yn llygad ei le wrth nodi bod mwy o waith i'w wneud o hyd.

Rwy'n falch o weld bod y sylw penodol sydd wedi'i roi i'r mater pwysig hwn, ers i'r adroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi yn 2011, yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau iechyd ar yr adeg y maent yn fwyaf agored i niwed. Rwy'n llongyfarch y comisiynydd ar yr effaith wirioneddol y mae wedi'i chael ers ei phenodi yn 2012. Ein huchelgais pan grëwyd swydd y comisiynydd oedd y byddai pobl hŷn yn cael eiriolwr cryf i hyrwyddo eu hawliau. Mae'r adroddiad hwn yn dangos inni yn glir yr hyn y mae'r comisiynydd wedi'i wneud a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth honno.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the amendment to the motion and I call on Lindsay Whittle to move amendment 1 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn a mynd i'r afael â hyn, boed hwnn'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

Calls on the Welsh Government to prevent and deal with the abuse of older people, whether physical, emotional, psychological or financial.

17:17

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 1.

Cynigaf welliant 1.

I thank the Deputy Minister for accepting the amendment, too—that is very positive. A good start.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn y gwelliant, hefyd—mae hynny'n gadarnhaol iawn. Dechrau da.

I welcome the commissioner's report, 'Standing Up, Speaking Out'. It clearly shows us how active she has been with the support of her team in engaging directly with older people in Wales. She is almost fierce in her commitment to ensuring that the voice of older people will be heard, and at the centre of decisions about planning and provision of health and social care services. I am particularly pleased that she has also pointed out the plain fact that older people's expressed needs do not just centre on health and social services; we need to take on board the fact that their priority need, second to that of care, was suitable housing, including the provision of aids and adaptations. I hope that the Welsh Government will take note of the fact that there are certain local authorities—I will not name them—that are not up to scratch in their responses to older people's need for aids and adaptations, which will enable them to live as independently as possible in their own homes. On this point, the commissioner's report recommends that the Health and Social Care Committee takes steps to improve the way that home adaptations are funded and delivered in Wales.

In moving the amendment I know that the commissioner, in writing her report, focused on what she sees as her priorities for action, and while there is a brief reference to protecting older people from harm, there is no mention of the pressing need to prevent and deal with the abuse of older people, often by close relatives. I welcome your statement today, Deputy Minister, about extra powers. A recent report stated that the abuse of older people was all too common, and that it included not just physical abuse, but, in many cases, older people being subjected to psychological abuse, emotional abuse and financial abuse.

Last week I, along with other Members, attended a presentation from Age Cymru on elderly victims of scams. Some of the cases we heard about were absolutely horrendous. There were scores of older people being ripped off for thousands and thousands of pounds—in one case, over £0.25 million, by what I can only describe, and I have to be careful, as unscrupulous and despicable criminals. One of the potential allies that Age Cymru mentioned in combating these scams was the older people's commissioner, and I have no doubt that she would be only too keen to join forces with Age Cymru and, hopefully, with the Welsh Government—I have no doubt there—in helping to provide protection for older people against these fraudsters. There is no place in any civilised society for these people, who, quite frankly, belong in the gutter.

I would like the commissioner, with the assistance of the Welsh Government, to find out and report on the scale and type of abuse of older people in Wales. This information will be extremely important in helping all of us to decide what action needs to be taken to prevent, and stamp out, this type of totally unacceptable behaviour.

Rwy'n croesawu adroddiad y comisiynydd, 'Sefyll dros Hawliau ac Eirioli'. Mae'n dangos yn glir inni pa mor weithgar y mae hi wedi bod gyda chymorth ei thîm o ran ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn yng Nghymru. Mae hi bron yn ffyrnig yn ei hymrwymiad i sicrhau y bydd llais pobl hŷn yn cael ei glywed, ac yn ganolog i benderfyniadau ynglŷn â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n arbennig o falch ei bod hi hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith syml nad yw anghenion penodol pobl hŷn yn canolbwyntio ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn unig; mae angen inni ystyried y ffaith mai eu blaenoriaeth, yn ail i ofal, oedd tai addas, gan gynnwys darparu cymhorthion ac addasiadau. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r ffaith bod rhai awdurdodau lleol—ni wna eu henwi—nad ydynt yn cyrraedd y safon yn eu hymatebion i anghenion pobl hŷn am gymhorthion ac addasiadau, a fydd yn eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Ar y pwynt hwn, mae adroddiad y comisiynydd yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gymryd camau i wella'r ffordd y mae addasiadau i gartrefi yn cael eu hariannu a'u darparu yng Nghymru.

Wrth gynnig y gwelliant gwn fod y comisiynydd, wrth ysgrifennu ei hadroddiad, wedi canolbwyntio ar ei blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, fel y mae hi'n eu gweld, ac er ceir cyfeiriad byr at amddiffyn pobl hŷn rhag niwed, nid oes sôn am yr angen dybryd i atal a delio â chamdriniaeth pobl hŷn, yn aml gan berthnasau agos. Rwy'n croesawu eich datganiad heddiw, Ddirprwy Weinidog, ynglŷn â phwerau ychwanegol. Dywedodd adroddiad diweddar fod cam-drin pobl hŷn yn beth llawer rhy gyffredin, a'i fod yn cynnwys camdriniaeth gorfforol, ond, mewn llawer o achosion, bod pobl hŷn hefyd yn dioddef camdriniaeth seicolegol, camdriniaeth emosiynol a chamdriniaeth ariannol.

Yr wythnos diwethaf, ynghyd ag Aelodau eraill, roeddwn mewn cyflwyniad gan Age Cymru ar bobl oedranus a oedd wedi dioddef sgamiau. Roedd rhai o'r achosion y clywsom amdanynt yn hollol erchyll. Roedd ugeiniau o bobl hŷn yn cael eu twyllo o filoedd ar filoedd o bunnoedd—mewn un achos, dros £0.25 miliwn gan yr hyn na allaf ond eu disgrifio, ac mae'n rhaid i mi fod yn ofalus, fel troseddwr diegwyddor a ffaidd. Un o'r cynghreiriaid posibl a grybwyllwyd gan Age Cymru wrth fynd i'r afael â'r sgamiau hyn oedd y comisiynydd pobl hŷn, ac nid oes gennyf amheuaeth y byddai ond yn rhy awyddus i ymuno ag Age Cymru a, gobeithio, â Llywodraeth Cymru—nid oes gennyf amheuaeth yn hynny o beth—wrth helpu i amddiffyn pobl hŷn yn erbyn y twyllwyr hyn. Nid oes lle mewn unrhyw gymdeithas wâr i'r bobl hyn, sydd, a dweud y gwir, yn perthyn yn y gwter.

Hoffwn i'r comisiynydd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, ganfod pa fath o gamdriniaeth y mae pobl hŷn yng Nghymru yn ei dioddef a beth yw ei graddfa, a chyflwyno adroddiad. Bydd y wybodaeth hon yn bwysig iawn i helpu pob un ohonom i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i atal y math hwn o ymddygiad cwbl annerbyniol, a chael gwared arno.

Another feature of the report that I was hoping to see was a clear indication from the commissioner that adult safeguarding boards should not be merged with children's safeguarding boards. I know that that option is still possibly on the table. The Children's Commissioner for Wales has already opposed any merging of the two boards in his submission relating to the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and we, on this side, at least, will be supporting that position. I shall end there, but I hope that all parties will support this motion, as I am sure they will.

Nodwedd arall o'r adroddiad yr oeddwn yn gobeithio ei gweld oedd arwydd clir gan y comisiynydd na ddylai byrddau diogelu oedolion gael eu cyfuno â byrddau diogelu plant. Rwy'n gwybod bod yr opsiwn hwnnw yn dal i fod ar y bwrdd o bosibl. Mae Comisiynydd Plant Cymru eisoes wedi gwrthwynebu unrhyw gyfuno ar y ddau fwrdd yn ei gyflwyniad yn ymwneud â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a byddwn ni, ar yr ochr hon, o leiaf, yn cefnogi'r safbwynt hwnnw. Byddaf yn gorffen yn y fan honno, ond rwy'n gobeithio y bydd pob plaid yn cefnogi'r cynnig hwn, ac rwy'n siŵr y byddant.

17:21

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Minister, for introducing this debate this afternoon on this important report. I also want to pay tribute on behalf of my party to the work of the older people's commissioner, Sarah Rochira, and her team, which they do very effectively. The title of the report, 'Standing Up Speaking Out', shouts about their work. The fact that it is also being described as an 'impact and reach report', rather than just an annual report, shows the relentless focus that the commissioner and her team have on having some good, positive, outcomes as a result of their work. It is not simply a list of activities, which some other reports that cross Assembly Members' desks can sometimes describe.

Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am gyflwyno'r ddatl hon y prynhawn yma ar yr adroddiad pwysig hwn. Rwyf innau hefyd am dalu teyrnged ar ran fy mhlaid i waith effeithiol iawn y comisiynydd pobl hŷn, Sarah Rochira, a'i tîm. Mae teitl yr adroddiad, 'Sefyll Dros Hawliau ac Eirioli', yn bloeddio am eu gwaith. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei ddisgrifio hefyd fel 'adroddiad effaith a chyrrhaeddiad', yn hytrach na dim ond adroddiad blynyddol, yn dangos ffocws di-ildio'r comisiynydd a'i tîm ar sicrhau canlyniadau da, cadarnhaol i'w gwaith. Nid rhestr o weithgareddau yn unig ydyw, fel y gellid disgrifio rhai adroddiadau eraill sy'n croesi desgiau Aelodau'r Cynulliad weithiau.

I am pleased to say that we will be supporting Plaid Cymru's amendment. Abuse in any way of elderly and vulnerable people is completely unacceptable, and you are quite right, Lindsay, to refer to the cross-party group meeting that was held in the Assembly last week on the Scams and Swindles campaign, which Age Cymru and others have been advocating, and which we all ought to support as Assembly Members. One of the startling facts in the public domain is that it is estimated that there are about 39,000 cases of abuse in Wales on an annual basis, but only about 5,000 of those are reported anywhere and followed up. We have to get smarter and better in identifying abuse where it is taking place and deal appropriately with it. Therefore, we will be supporting your amendment.

Rwy'n falch o ddweud y byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru. Mae'n gwbl annerbyniol cam-drin pobl oedrannus ac agored i niwed mewn unrhyw ffordd, ac rydych yn llygad eich lle, Lindsay, i gyfeirio at y cyfarfod grŵp traws-bleidiol a gynhaliwyd yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf ar yr ymgyrch Sgamiau a Thwyll, y mae Age Cymru ac eraill wedi bod yn ei hyrwyddo, ac y dylem i gyd ei gefnogi fel Aelodau Cynulliad. Un o'r ffeithiau syfrdanol yn y parth cyhoeddus yw yr amcangyfrif bod oddeutu 39,000 o achosion o gamdriniaeth yng Nghymru bob blwyddyn, ond mai dim ond tua 5,000 o'r rheini yr adroddir amdanynt yn unrhyw le ac y gwneir gwaith dilynol arnynt. Mae'n rhaid inni ddod yn fwy doeth ac yn well wrth adnabod camdriniaeth lle y mae'n digwydd ac ymdrin â hynny'n briodol. Felly, byddwn yn cefnogi'r gwelliant.

I was pleased to read in the commissioner's report about the future work programme that she wants to continue to take forward. We have seen lots of focus on dignified care, and quite rightly—unfortunately, the standards of care in some hospitals in Wales has not been up to scratch and has not been good enough. However, it is pleasing to note that the commissioner has identified that improvements have been made in Wales in the past 12 months. It might not be consistent everywhere, but it is making steps in the right direction. I am pleased that the older people's commissioner will be continuing to look at that in coming years, to make sure that the recommendations in the original 'Dignified Care?' report are followed up.

Roeddwn yn falch o ddarllen yn adroddiad y comisiynydd am y rhaglen waith yn y dyfodol y mae hi am barhau i'w datblygu. Rydym wedi gweld llawer o bwyslais ar ofal ag urddas, ac yn gwbl briodol—yn anffodus, nid yw'r safonau gofal mewn rhai ysbytai yng Nghymru wedi bod cystal ag y dylent fod ac nid ydynt wedi bod yn ddigon da. Fodd bynnag, mae'n dda gweld bod y comisiynydd wedi nodi bod gwelliannau wedi cael eu gwneud yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Efallai nad yw'n gyson ym mhob man, ond mae'n mynd i'r cyfeiriad cywir. Rwy'n falch y bydd y comisiynydd pobl hŷn yn parhau i edrych ar hynny yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau y gwneir gwaith dilynol ar yr argymhellion yn yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas?' gwreiddiol.

I was pleased also to recognise this new focus and the review that she has announced on residential care, making sure that the quality of care and quality of life is right for older people who find themselves in a residential care setting. I hope that she will be able to draw on some of the work that the Health and Social Care Committee has done on this subject, particularly in terms of the impact of closures of care homes on older people and the massive burden that that can be, not just to the older people themselves, but to the families in seeking to find alternative accommodation. I am looking forward to working with the commissioner on the residential care review, and I hope to be able to chip in, based on the experiences that I have had in my constituency of care home closures and some of the poor and positive experiences of residential care that my constituents have reported to me.

I was also pleased to note the reference to the fact that there had been a dementia lead appointed by the commissioner in the past 12 months, because we know that there are growing numbers of people who will face life with dementia in the future, and it is important that we embed a culture of understanding, both in the NHS and social care services, about dementia and how we can overcome or ameliorate the impact of that in an individual's life.

The commissioner has, of course, been busy in other ways, too. On NHS reconfiguration, the report talks about her approach to health boards to ensure that they were taking into account the views of older people and specifically seeking them out, because we all know that the impact of health service changes can sometimes be disproportionate on older people, particularly older people in more rural parts of Wales who do not necessarily have access to appropriate transport provision. Therefore, I am pleased once again that the older people's commissioner, in the next 12 months, will be focusing on this element of access to healthcare, which is very important.

Other Members have referred to advocacy, but I want to thank you, Deputy Minister, for the way in which you have taken forward the declaration of the rights of older people issue, and I am very grateful for the update that you have been able to provide to the Assembly today. We have to focus on this issue in the future and publishing a declaration of rights that all Assembly Members can subscribe to, support and advocate for is very important. I look forward to future developments on that and the implementation of it as soon as possible.

Rwy'n falch hefyd o gydnabod y pwyslais newydd hwn a'r adolygiad y mae wedi'i gyhoeddi ar ofal preswyl, gan wneud yn siwr bod ansawdd y gofal ac ansawdd bywyd yn iawn i bobl hŷn sy'n eu cael eu hunain mewn lleoliad gofal preswyl. Rwy'n gobeithio y bydd yn gallu defnyddio rhywfaint o'r gwaith y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei wneud ar y pwnc hwn, yn enwedig o ran effaith cau cartrefi gofal ar bobl hŷn a'r baich enfawr y gall hynny fod, nid yn unig i'r bobl hŷn eu hunain, ond i deuluoedd sy'n ceisio dod o hyd i lety gwahanol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r comisiynydd ar yr adolygiad gofal preswyl, ac rwy'n gobeithio gallu cyfrannu, yn seiliedig ar y profiadau a gefais yn fy etholaeth o gau cartrefi gofal a rhai o'r profiadau gwael a chadarnhaol o ofal preswyl y mae fy etholwyr wedi rhoi gwybod imi amdanynt.

Roeddwn hefyd yn falch o nodi'r cyfeiriad at y ffaith y penodwyd arweinydd dementia gan y comisiynydd yn y 12 mis diwethaf, gan ein bod yn gwybod y bydd niferoedd cynyddol o bobl yn wynebu bywyd â dementia yn y dyfodol, ac mae'n bwysig ein bod yn ymwreiddio diwylliant o ddealltwriaeth, yn y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, ym maes dementia a sut y gallwn oresgyn neu leddfu effaith hynny ym mywyd unigolyn.

Mae'r comisiynydd, wrth gwrs, wedi bod yn brysur mewn ffyrdd eraill hefyd. O ran ad-drefnu'r GIG, mae'r adroddiad yn sôn am ei hymdriniaeth o ffyrddau iechyd i sicrhau eu bod yn ystyried barn pobl hŷn ac yn ceisio eu barn yn benodol, oherwydd ein bod i gyd yn gwybod y gall effaith newidiadau yn y gwasanaeth iechyd weithiau fod yn anghymesur ar bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn mewn rhannau mwy gwledig o Gymru nad oes darpariaeth cludiant priodol ar gael iddynt anghenraid. Felly, rwy'n falch unwaith eto y bydd y comisiynydd pobl hŷn, yn y 12 mis nesaf, yn canolbwyntio ar yr elfen hon o fynediad at ofal iechyd, sy'n bwysig iawn.

Mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at eiriolaeth, ond rwyf am ddiolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am y ffordd yr ydych wedi bwrw ymlaen â'r datganiad o hawliau pobl hŷn, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y wybodaeth ddiweddaraf yr ydych wedi gallu ei darparu i'r Cynulliad heddiw. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar y mater hwn yn y dyfodol, ac mae'n bwysig iawn cyhoeddi datganiad o hawliau y gall pob Aelod Cynulliad ei goleddu, ei ategu a'i gefnogi. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygiadau yn y dyfodol ac at ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

17:26

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this opportunity to contribute today. There is broad agreement that it has been a successful year in terms of profile and awareness raising, further establishing the older person's commissioner as the go-to voice on a whole range of really important issues affecting older people in Wales. However, while that wider scope of activity means that many potential talking points emerge from this report, given the time available, I just want to focus on a few key areas.

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu heddiw. Ceir cytundeb cyffredinol iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus o ran codi proffil ac ymwybyddiaeth, gan sefydlu'r comisiynydd pobl hŷn ymhellach fel y llais i wrando arno ar ystod eang o faterion pwysig iawn sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod cwrmpas ehangach y gweithgarwch yn golygu bod llawer o bwyntiau trafod posibl yn deillio o'r adroddiad hwn, o ystyried yr amser sydd ar gael, rwyf am ganolbwyntio ar ychydig o feysydd allweddol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

With dignity in care rightly at the forefront of the current public debate on the health service, I was particularly reassured by this report's conclusion that the tier 1 status afforded to this agenda across the Welsh NHS is actually delivering real results on the ground. The commissioner clearly understands that crucial lesson from the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust and the Francis inquiry that, above all, what is needed is genuine cultural change and a zero-tolerance approach to poor care across the board.

As the report recognises, for far too long we have lived with the situation where really fantastic care in one setting is juxtaposed with really substandard care in another—a contrast that is sometimes most evident within different wards of the same hospital. While I am pleased that there is recognition that this variability must be addressed, on the other hand, the commissioner is probably also right that the storm of activity in the wake of Mid Staffordshire has led to too many, albeit well-meaning, separate initiatives promoting dignity and good care.

However, it is important, too, that we simply do not lose focus when the dust begins to settle and the media circus moves on. Clearly, the local health boards' annual quality statements have an important role to play in this regard, but the commissioner is right to say that it is now no longer good enough just to look at survey data on NHS satisfaction levels and take them at face value. Indeed, we need to get much better at continually monitoring the true patient experience through listening to and learning from the experiences of older people.

That basic principle of always ensuring that the voice of older people is at the forefront of decision making is something that is equally applicable to the closure of care homes—an area where I have worked closely with the commissioner of late. Indeed, St Dunstan's Care Centre in Griffithstown is closing, with the current operator, HC-One, having announced its intention to withdraw back in July, just two years after it took over the home in the wake of the Southern Cross collapse. I have been really grateful for the commissioner's personal input and involvement in this matter, not just in terms of monitoring the handling of the closure and ensuring that the health board and the local authority carry out their duties under the current care home guidance, but also in providing practical support to a number of my constituents who have contacted her office to express their concerns.

Gydag urddas mewn gofal, yn gwbl briodol, yn flaenllaw yn y ddadl gyhoeddus ar y gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd, cefais fy nghysuro'n arbennig gan gasgliad yr adroddiad hwn bod y statws haen 1 a roddir i'r agenda hon ar draws y GIG yng Nghymru yn cyflawni canlyniadau go iawn ar lawr gwlad. Mae'r comisiynydd yn amlwg yn deall y gwersi hollbwysig gan Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canolbarth Swydd Stafford ac ymchwiliad Francis mai'r hyn sydd ei angen, yn anad dim, yw newid diwylliannol gwirioneddol a pheidio â goddef gofal gwael mewn unrhyw achos.

Fel y mae'r adroddiad yn cydnabod, am lawer gormod o amser rydym wedi byw gyda'r sefyllfa lle mae gofal gwirioneddol wych mewn un lleoliad yn bodoli ochr yn ochr â gofal llawer is na'r safon mewn un arall—cyferbyniad sydd fwyaf amlwg weithiau mewn gwahanol wardiau yn yr un ysbty. Rwy'n falch ein bod yn cydnabod bod yn rhaid mynd i'r afael â'r amrywioldeb hwn. Ar y llaw arall, mae'r comisiynydd yn ôl pob tebyg yn iawn hefyd fod y storm o weithgaredd yn sgil Canolbarth Swydd Stafford, er yn llawn bwriadau da, wedi arwain at ormod o fentrau ar wahân i hyrwyddo urddas a gofal da.

Fodd bynnag, mae'n bwysig, hefyd, nad ydym yn colli ffocws pan fydd y llwch yn dechrau setlo a syrcais y cyfryngau yn symud ymlaen. Yn amlwg, mae gan ddatganiadau ansawdd blynyddol y byrddau iechyd lleol rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, ond mae'r comisiynydd yn iawn i ddweud nad yw bellach yn ddigon da edrych ar ddata arolwg ynglŷn â lefelau bodlonrwydd y GIG a'u derbyn fel ag y maent. Yn wir, mae angen inni wneud yn llawer iawn gwell o ran monitro gwir brofiad y cleifion yn barhaus trwy wrando ar brofiadau pobl hŷn a dysgu oddi wrthynt.

Mae'r egwyddor sylfaenol honno o sicrhau bob amser bod llais y bobl hŷn yn flaenllaw wrth wneud penderfyniadau yn rhywbeth sydd yr un mor berthnasol i gau cartrefi gofal—maes yr wyf wedi gweithio'n agos gyda'r comisiynydd arno'n ddiweddar. Yn wir, mae Canolfan Ofal St Dunstan yn Griffithstown yn cau, wedi i'r gweithredwr presennol, HC-One, gyhoeddi ei fwriad i dynnu'n ôl ym mis Gorffennaf, ddwy flynedd yn unig ar ôl iddo gymryd drosodd y cartref yn sgil methiant Southern Cross. Rwyf wedi bod yn wirioneddol ddiolchgar am fewnbwn a chyfraniad personol y comisiynydd yn y mater hwn, nid yn unig o ran monitro'r ffordd yr ymdriniwyd â'r broses o gau'r ganolfan a sicrhau bod y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y canllawiau presennol ynglŷn â chartrefi gofal, ond hefyd o ran darparu cymorth ymarferol i nifer o'm hetholwyr sydd wedi cysylltu â'i swyddfa i fynegi eu pryderon.

For me, the whole process has served, once again, to underline the really cruel way in which some of the most vulnerable groups in society—in this case, older people with dementia—bear the brunt of hard-headed commercial choices, often taken by businessmen in board rooms who are totally detached from the brutal repercussions of their decision making in places like Torfaen. I very much welcome the fact that the commissioner is embarking on a legal review of residential care. I am pleased, too, that she has recognised the need to strengthen existing guidance on closures and that she is part of a working group looking at the many issues involved, just as I support the Deputy Minister for Social Services' recently announced plans to strengthen safeguards on the financial viability of care home providers. More fundamentally, however, I know that the commissioner agrees with me that we must increase the diversity of care home provision in Wales over the long term. This is an area that we explored in the health committee's inquiry into residential care. While I recognise that there are no easy answers, in my view, we must move on from this over-dependence on private sector care home operators, which are simply able to cut and run from communities the minute that the going gets tough.

Finally, I welcome the commissioner's focus on public transport provision. I am currently dealing with a number of cases where older people have essentially been left marooned in their own communities, unable to access GPs, a pharmacy, or their local library, because bus services are withdrawn, or routes are altered with seemingly little regard for the very people who are most adversely affected.

While we all recognise that economic times are tough, these are precisely the kind of decisions that can leave older people more, rather than less reliant on the state for support. Whether through the network of older people's fora, or some other mechanism, we really need to up our game when it comes to including older people in this vital debate around future local transport provision.

17:31

Aled Roberts [Bywgraffiad Biography](#)

May I also welcome the opportunity to take part in this afternoon's debate? I am also thankful for the annual report. All of us who have spoken, but most importantly perhaps, Lindsay and Darren welcome the opportunity, as opposition spokespeople, to meet regularly with the commissioner and to discuss issues of concern.

I also want to acknowledge, as others have, the positive steps that have been taken since last year's report, particularly with regard to the announcement that the Deputy Minister recently made about advocacy within the Social Services and Well-being (Wales) Bill. The annual report does show that there has been improvement since last year and that there are obviously examples of good practice and I think that we should encourage those examples. Also, there is clear evidence that the wishes and views of older people have been taken into account in actually preparing the report.

I mi, mae'r broses gyfan wedi helpu, unwaith eto, i danlinellu'r ffordd wirioneddol greulon y mae rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas—yn yr achos hwn, pobl hŷn â dementia—yn dioddef yn sgil dewisiadau masnachol ymarferol a gymerir yn aml gan ddynion busnes mewn ystafelloedd bwrdd nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad ag effeithiau creulon eu penderfyniadau mewn lleoedd fel Torfaen. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod y comisiynydd yn dechrau ar adolygiad cyfreithiol o ofal preswyl. Rwy'n falch, hefyd, ei bod wedi cydnabod yr angen i gryfhau'r canllawiau presennol ar gau cartrefi gofal a'i bod yn rhan o weithgor sy'n edrych ar y materion niferus dan sylw, yn union fel yr wyf yn cefnogi cynlluniau'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gryfhau trefniadau diogelu ar hyfywedd ariannol darparwyr cartrefi gofal. Yn fwy sylfaenol, fodd bynnag, rwy'n gwybod bod y comisiynydd yn cytuno â mi bod yn rhaid inni gynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth ym maes cartrefi gofal yng Nghymru yn y tymor hir. Mae hwn yn faes a archwiliwyd gennym yn ymchwiliad y pwyllgor iechyd i ofal preswyl. Er fy mod yn cydnabod nad oes atebion hawdd, yn fy marn i, rhaid inni symud ymlaen o'r or-ddibyniaeth hon ar weithredwyr cartrefi gofal sector preifaf, sy'n gallu ei heglu hi o gymunedau y funud y mae pethau'n mynd yn anodd.

Yn olaf, rwy'n croesawu pwyslais y comisiynydd ar ddarpariaeth trafniadaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd rwy'n delio â nifer o achosion lle mae pobl hŷn yn y bôn wedi cael eu hynysu yn eu cymunedau eu hunain, yn methu â chael at feddygon teulu, fferyllfa, na'u llyfrgell leol, oherwydd bod gwasanaethau bus yn cael eu tynnu'n ôl, neu fod llwybrau'n cael eu newid heb fawr o sylw, yn ôl pob golwg, i'r union bobl sy'n cael eu heffeithio waethaf.

Er ein bod i gyd yn cydnabod bod yr amseroedd economaidd yn anodd, dyma'r union fath o benderfyniadau sy'n gallu gadael pobl hŷn yn fwy, yn hytrach nag yn llai dibynnol ar y wladwriaeth am gymorth. Boed hynny drwy rwydwaith o fforymau pobl hŷn, neu ryw ddull arall, mae angen gwirioneddol i ni gynyddu ein hymdrechion er mwyn cynnwys pobl hŷn yn y ddadl hollbwysig hon ynglŷn â darpariaeth cludiant lleol yn y dyfodol.

A gaf fi hefyd groesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma? Rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr adroddiad blynyddol. Mae pob un ohonom sydd wedi siarad, ond yn bwysicaf oll efallai, Lindsay a Darren, yn croesawu'r cyfle, fel llefarwyr y gwrthbleidiau, i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r comisiynydd ac i drafod materion o bryder.

Rwyf hefyd am gydnabod, fel y gwnaeth eraill, y camau cadarnhaol sydd wedi'u cymryd ers adroddiad y llynedd, yn enwedig o ran y cyhoeddiad a wnaeth y Dirprwy Weinidog yn ddiweddar am eiriolaeth o fewn Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos y bu gwelliant ers y llynedd ac y ceir enghreifftiau o arfer da yn amlwg, ac rwy'n meddwl y dylem annog yr enghreifftiau hynny. Hefyd, gwelir tystiolaeth glir bod dymuniadau a barn pobl hŷn wedi cael eu hystyried wrth fynd ati i baratoir adroddiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I do, however, think that the Deputy Minister is quite right in saying that just because of those positive steps, we should not be complacent. I am sure that the Deputy Minister agrees that, particularly with regard to health and social services, there is more that needs to be done.

I would like to know, given what Lynne Neagle has already said about the attention that has been given to the dignity and care agenda as far as it being a tier 1 priority is concerned, whether the Deputy Minister is satisfied from discussions with the Minister for Health and Social Services that health boards are addressing some of the issues that were outlined in the 'Dignified Care?' report and further reports since then. In 2012, for example, the Royal College of Nursing report detailed the reduction in the CPD hours that were being given to nurses, which meant that a greater percentage of nurses were stating that they were not totally satisfied regarding their ability as far as levels of skills and knowledge were concerned, and also specialist training to deal with dementia patients in particular.

I also accept that the document outlines the need for data to be made available to Government. There is particular mention of ONS data being used for the monitoring of excess winter deaths in Wales. Yet, a consultation from the ONS during the past month has outlined that it will be doing away with three of the health statistics' populations, which would have helped to identify whether there are issues within the older population. Therefore, is the Welsh Government actually making representations to the ONS with regard to the removal of those requirements?

Darren made a good point that we should not necessarily think of older people merely in the context of health and social care. There is a need to look at other areas as well, as some Members have already outlined. I must say that my experience in some of those areas is not particularly positive at the moment. I know that the UK Government, for example, is moving forward with the agenda that has been there for a number of years with regard to the reliance on internet facilities for many of the benefits and many of the pensions. My wife spent an hour last week with an elderly relative—is she 'elderly' at 65? I am an older person as well, because I am 51. They were filling in pensions requirements for the Department for Work and Pensions. That was for a retired teacher. I accept that older people are not IT illiterate, but there are some people who genuinely have difficulties with regard to this movement towards IT dependency.

Credaf, fodd bynnag, fod y Dirprwy Weinidog yn llygad ei lle wrth ddweud na ddylem fod yn hunanfodlon, dim ond o achos y camau cadarnhaol. Rwy'n siŵr bod y Dirprwy Weinidog yn cytuno bod mwy y mae angen ei wneud, yn enwedig o ran gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

O ystyried yr hyn y mae Lynne Neagle eisoes wedi'i ddweud am y sylw a roddwyd i'r agenda gofal ac urddas a'r ffaith ei bod yn flaenoriaeth haen 1, hoffwn wybod a yw'r Dirprwy Weinidog yn fodlon yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod byrddau iechyd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas?' ac adroddiadau eraill ers hynny. Yn 2012, er enghraifft, roedd adroddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys yn manylu ar y gostyngiad yn yr oriau datblygiad proffesiynol parhaus a oedd yn cael eu rhoi i nyrsys, gan olygu bod canran uwch o nyrsys yn datgan nad oeddent yn hollol fodlon ynglŷn â'u lefelau sgiliau a gwybodaeth, a hyfforddiant arbenigol hefyd i ddelio â chleifion â dementia yn benodol.

Rwyf hefyd yn derbyn bod y ddogfen yn amlinellu'r angen i ddata fod ar gael i'r Llywodraeth. Mae sôn penodol am ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fonitro marwolaethau ychwanegol y gaeaf yng Nghymru. Eto i gyd, mae ymgynghoriad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystod y mis diwethaf wedi amlinellu y bydd yn cael gwared ar dair o boblogaethau'r ystadegau iechyd, a fyddai wedi helpu i nodi a oes problemau o fewn y boblogaeth hŷn. Felly, a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud cyflwyniadau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o ran cael gwared ar y gofynion hynny?

Gwnaeth Darren bwynt da na ddylem o reidrydd feddwl am bobl hŷn yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Mae angen edrych ar feysydd eraill yn ogystal, fel y mae rhai Aelodau eisoes wedi amlinellu. Mae'n rhaid imi ddweud nad yw fy mhrofiad mewn rhai o'r meysydd hyn yn arbennig o gadarnhaol ar hyn o bryd. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth y DU, er enghraifft, yn symud ymlaen gyda'r agenda sydd wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd o ran dibynnu ar gyfleusterau rhyngwrdd ar gyfer llawer o'r budd-daliadau a llawer o'r pensiynau. Treuliodd fy ngwraig awr yr wythnos diwethaf gyda pherthynas oedrannus—ydy hi'n oedrannus yn 65 oed? Rwyf i'n hŷn yn ogystal, a minnau'n 51. Roeddent yn llenwi gofynion pensiynau ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd hynny ar gyfer athrawes wedi ymddeol. Rwy'n derbyn nad yw pobl hŷn yn anhyddydd mewn TG, ond mae rhai pobl sydd wirioneddol yn cael anawsterau o ran y symudiad hwn tuag at ddibynnu ar TG.

I can also say that, in my local authority area last week, I came across a situation where the local authority was devising the reconfiguration of services and had given elderly residents, including a 98-year-old, three days' notice of a meeting to change the whole provision of their services. Therefore, I am not satisfied at the moment that some of the good messages coming out of this report, and from the Welsh Government in particular, are being put into practice even by local authorities in Wales. There is more that needs to be done. I welcome the commissioner's focus on care, dignity and advocacy and I welcome and appreciate also the commissioner's understanding of the importance of independence, but, in reality, we will be measured in terms of what the delivery is like on the ground, not necessarily what is contained in annual reports.

Gallaf hefyd ddweud, yn ardal fy awdurdod lleol i yr wythnos diwethaf, dysgais am sefyllfa lle'r oedd yr awdurdod lleol yn penderfynu sut i ad-drefnu gwasanaethau ac wedi rhoi tri diwrnod o rybudd i drigolion oedrannus, gan gynnwys un 98 mlwydd oed, am gyfarfod i newid holl ddarpariaeth eu gwasanaethau. Felly, nid wyf yn fodlon ar hyn o bryd bod rhai o'r negeseuon da sy'n deillio o'r adroddiad hwn, a chan Lywodraeth Cymru yn benodol, yn cael eu rhoi ar waith hyd yn oed gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae mw y mae angen ei wneud. Rwy'n croesawu pwyslais y comisiynydd ar ofal, urddas ac eiriolaeth ac rwyf hefyd yn croesawu ac yn gwerthfawrogi dealltwriaeth y comisiynydd o bwysigrwydd annibyniaeth, ond, mewn gwirionedd, byddwn yn cael ein mesur yn nhermau sut mae'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno ar lawr gwlad, nid o reidrwydd yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn adroddiadau blynyddol.

17:36

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It seems that consensus has broken out in congratulations regarding this report, and I am glad to see it. I think that we are all aware of the work that the older people's commissioner has done not just to identify the usual suspects, but to go around Wales and to find older people, of any age. You are identifying yourself as an older person at the age of 50 of 51, but, for me, you are quite young, and I have to say that I used to work with the mother of the Assembly Member who has just spoken and I recall her talking about him as quite a small, naughty boy. [Laughter.]

Anyway, moving swiftly on, I think that she has worked very hard in identifying new areas of work that, perhaps, have been neglected in the past. I look at the work that she has done with Stonewall, for example, which was very good work indeed. However, at the same time, I think that we have all heard what the Deputy Minister has said, and we are looking at the strategy for older people, which is in its third phase now. There is a lot of agreement now on what should be done for older people.

I make the distinction too that there are older people who are fit, healthy, having enjoyable lives and are outgoing, and there are quite a lot of them about, I think. At the same time, we have to look at the more vulnerable people and realise, of course, that for all of us there may be a time when we move into transition in that way. Transition is quite important here, because we talk about it with younger people quite a lot, and with regard to changing from young adulthood to older adulthood, but we do not look too often at the pathway moving from your 50s to your 60s, to your 70s, to your 80s and, sometimes, if you are very fortunate, to your 90s. As I said, some people are very healthy, but many get additional illnesses and problems, and some of those problems are financial, because you sometimes will talk to an older person who will say quite clearly, 'Do you know what, my pension looked good when I first started taking it, but it's not looking so good now?' Therefore, the financial hardships that they endure on a static income—and it is a static income; that is important—have to be looked at as well.

Mae'n ymddangos bod consensws wedi dod i'r amlwg o ran llongyfarch yr adroddiad hwn, ac rwy'n falch o weld hynny. Credaf ein bod i gyd yn ymwybodol o'r gwaith y mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi'i wneud nid yn unig i siarad â'r bobl arferol, ond i fynd o gwmpas Cymru ac i ddod o hyd i bobl hŷn, o unrhyw oed. Rydych yn eich disgrifio eich hun fel person hŷn yn 50 neu 51 oed, ond, i mi, rydych yn eithaf ifanc, ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn arfer gweithio gyda mam yr Aelod Cynulliad sydd newydd siarad ac rwy'n ei chofio'n siarad amdano yn fachgen bach eithaf drwg. [Chwerthin.]

Beth bynnag, gan symud yn gyflym ymlaen, rwy'n meddwl ei bod wedi gweithio'n galed iawn i nodi meysydd gwaith newydd sydd, efallai, wedi cael eu hesgeuluso yn y gorffennol. Rwy'n edrych ar y gwaith y mae wedi'i wneud gyda Stonewall, er enghraifft, a oedd yn waith da iawn yn wir. Fodd bynnag, ar yr un pryd, rwy'n meddwl ein bod i gyd wedi clywed yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud, ac rydym yn edrych ar y strategaeth ar gyfer pobl hŷn, sydd yn ei thrydydd cam yn awr. Mae llawer o gytundeb erbyn hyn ar yr hyn y dylid ei wneud ar gyfer pobl hŷn.

Rwy'n nodi'r gwahaniaeth hefyd fod yna bobl hŷn sy'n ffit, yn iach, sy'n cael bywydau plerusus ac yn allblyg, ac mae cryn nifer ohonyn nhw, rwy'n meddwl. Ar yr un pryd, rhaid inni edrych ar y bobl fwyaf agored i niwed a sylweddoli, wrth gwrs, y gall fod amser pan fydd pob un ohonom yn pontio yn y ffordd honno. Mae pontio yn eithaf pwysig yma, oherwydd ein bod yn siarad am hynny yn achos pobl iau gryn dipyn, ac o ran newid o fod yn oedolion ifanc i oedolion hŷn, ond nid ydym yn edrych yn rhy aml ar y llwybr wrth symud o'ch 50au i'ch 60au, i'ch 70au, i'ch 80au ac, weithiau, os ydych yn ffodus iawn, i'ch 90au. Fel y dywedais, mae rhai pobl yn iach iawn, ond mae llawer yn cael salwch a phroblemau ychwanegol, ac mae rhai o'r problemau hynny'n ariannol, oherwydd eich bod weithiau yn siarad â pherson hŷn a fydd yn dweud yn eithaf clir, 'Wyddoch chi, roedd fy mhensiwn yn edrych yn dda pan ddechreuais ei gymryd, ond nid yw'n edrych mor dda erbyn hyn?' Felly, mae'n rhaid edrych hefyd ar y caledi ariannol y maent yn ei ddiodeff ar incwm sefydlog—ac mae yn incwm sefydlog; mae hynny'n bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

All the same, I really congratulate the commissioner on the work that she and her staff have done. Things have been said already that I totally agree with. I would just like to concentrate on two particular aspects. The first is dementia. We have to go on looking at continuing care for people with dementia. Again, this is about transition. At some stages, people are quite happy living in their own homes with support, and that can go on until the day that they die. That does not always happen, and I am glad that we are focusing now on continuing care for people with dementia. I think that I have said this before; my own mother spent two long periods with dementia in Wrexham Maelor Hospital—in a locked ward in the end—and I wish that the facilities that are there now, which would have enhanced her life enormously even in that background, had been there then. There is a real recognition now of that sort of need. However, I think that we have to go on with the commissioner raising these issues and then the Welsh Government looking at how they can be responded to—and responding to them very well indeed, as is recognised by the commissioner.

The other aspect that we need to look at—as has already been mentioned—is public transport. Public transport for people of all ages, if they live in rural areas, restricts them in many ways. Again, it is particularly so for older people. Sometimes, people have got to an age when they do not drive any more anyway. They might have had a car 10, five or three years ago, or even six months ago, but they do not have one now, and suddenly find that their options are restricted. We are talking about changes in services, including in health. I have no problem at all with providing better and changed facilities. At the same time, we must enable people to get to them, particularly older people, in a way that is comfortable and easy for them. Yes, I do congratulate the commissioner, and I also congratulate the Welsh Government on many of the things that it has done thus far, but this is an ongoing story. I hope that when the next annual report comes along we will all be saying the same things: that there will still be consensus, that there has been good work done, but that it must continue.

Er hynny, rwyf yn wir yn llongyfarch y comisiynydd ar y gwaith y mae hi a'i staff wedi ei wneud. Mae pethau wedi cael eu dweud yn barod yr wyf yn cytuno'n llwyr â nhw. Hoffwn ganolbwyntio ar ddwy agwedd benodol. Y gyntaf yw dementia. Mae'n rhaid i ni barhau i edrych ar ofal parhaus i bobl â dementia. Unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â phontio. Ar adegau, mae pobl yn byw yn eithaf hapus yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth, a gall fynd ymlaen hyd y dydd y maent yn marw. Nid yw hynny'n digwydd bob amser, ac rwy'n falch ein bod yn canolbwyntio nawr ar ofal parhaus i bobl â dementia. Rwy'n meddwl fy mod wedi dweud hyn o'r blaen; treuliodd fy mam fy hun ddau gyfnod hir gyda dementia yn Ysbyty Maelor Wrecsam—mewn ward dan glo yn y diwedd—ac fe fyddai'n dda gennyf i pe byddai'r cyfleusterau sydd yno nawr, a fyddai wedi gwella ei bywyd yn fawr hyd yn oed yn y sefyllfa honno, wedi bod yno bryd hynny. Mae cydnabyddiaeth wirioneddol yn awr o'r math hwnnw o angen. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni a'r comisiynydd barhau i godi'r materion hyn ac yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir ymateb iddynt—ac ymateb iddynt yn dda iawn yn wir, fel sy'n cael ei gydnabod gan y comisiynydd.

Yr agwedd arall y mae angen inni edrych arni—fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll—yw trafnidiaeth gyhoeddus. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cyfyngu mewn nifer o ffyrdd ar bobl o bob oed, os ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig. Unwaith eto, mae'n arbennig o wir i bobl hŷn. Weithiau, mae pobl wedi cyrraedd oed pan nad ydynt yn gyrru mwyach beth bynnag. Efallai bod car ganddynt 10, pump neu dair blynedd yn ôl, neu hyd yn oed chwe mis yn ôl, ond nid oes ganddynt un yn awr, ac yn sydyn maent yn gweld bod eu dewisiadau yn gyfyngedig. Rydym yn sôn am newidiadau mewn gwasanaethau, gan gynnwys ym maes iechyd. Nid oes gennyf unrhyw broblem o gwbl gyda darparu cyfleusterau gwell a gwahanol. Ar yr un pryd, rhaid inni alluogi pobl, yn enwedig pobl hŷn, i'w cyrraedd mewn ffordd sy'n gyfforddus ac yn hawdd iddynt. Ydw, rwy'n llongyfarch y comisiynydd, ac rwyf hefyd yn llongyfarch Llywodraeth Cymru ar lawer o'r pethau y mae wedi'u gwneud hyd yn hyn, ond mae hon yn stori sy'n parhau. Pan ddaw'r adroddiad blynyddol nesaf, gobeithio y byddwn i gyd yn dweud yr un peth: y bydd consensws yn dal i fodoli, bod gwaith da wedi'i wneud, ond bod yn rhaid iddo barhau.

17:42

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

As the Commissioner for Older People in Wales states, when older people have a strong voice, they have greater choice and control over their lives, and it can ensure that their needs are not ignored when decisions are made, continuing to engage with and shape their communities. My proposed community care Bill had recognised the need to offer carers and service users choice, control and independence, allowing people to choose whether they wanted to be in control and giving them the support to do that. As I said in last week's debate on the general principles of the social services and well-being Bill,

Fel y dywed y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, pan mae gan bobl hŷn lais cryf, mae ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau, a gellir sicrhau nad yw eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Gallant barhau i ymgysylltu a llunio eu cymunedau. Roedd fy Mil gofal cymunedol arfaethedig wedi cydnabod yr angen i gynnig dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth, gan alluogi pobl i ddewis a ydynt am fod â rheolaeth a rhoi'r gefnogaeth iddynt wneud hynny. Fel y dywedais yn y ddaidl yr wythnos diwethaf ar egwyddorion cyffredinol y Bil gwasanaethau cymdeithasol a llesiant,

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'Local authorities are currently required to offer direct payments as one option for social care, but it is limited in its current form as it does not offer the freedom that Personal Budgets and self-directed support could do'.

I also said that,

'there is growing evidence that local authorities wish to explore the use of co-production, social enterprise and pooled budgets for direct payments.'

As the commissioner recognises, participatory budgeting is also a great way for older people to engage with and shape their communities, ensuring that limited funds go where they are most needed. The commissioner stated that the nation report talks about how so-called softer services can be a lifeline for older people and can help them to stay well and in their communities for longer. In the current budgetary climate we must work smarter, developing strategy and delivering services across the sectors, if these vital preventive services are to be protected.

The commissioner has previously highlighted a widespread lack of awareness of dementia, its symptoms, its scale and its impact on families, resulting in fear and stigma. However, unlike in Scotland and England, this has not yet been matched with Government funding to help fast-track dementia-supportive communities. In Wales, the ageing well network has received £50,000 from the Joseph Rowntree Foundation to grow a dementia-supportive community, knowledge-sharing network in Wales, but continued support from Welsh Government will be needed to ensure that the network thrives and that Wales can become a world-class dementia-supportive country.

In terms of the age-friendly community and dementia-supportive community agenda, we only have to look at previous bad design with the Maes in Caernarfon, and now new paving in Pontypridd blamed for a spate of falls after 20 shoppers have been taken to hospital. Making all communities dementia-friendly would be good for all older people. We need to think differently about the design of our built environment if we are to take older people's needs into account and plan effectively for the increased older population. Research has shown that a fear of falling is one of the main barriers to older people spending time outside, and leads to disability and decreased mobility. Making sure that our pavements are safe to walk on and that our roads are clear of ice and rotting leaves is a simple but pivotal challenge in reducing older people's fear of falling. Local authorities need to be given stronger guidance, in conjunction with expert advice, on creating a built environment that reflects the needs of all older people, especially people with dementia. The older people's commissioner established the Ageing Well in Wales programme to lead the way in developing age-friendly and dementia-supportive communities. How, therefore, will Welsh Government Ministers show their continued support?

'mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd gynnig taliadau uniongyrchol fel un opsiwn ar gyfer gofal cymdeithasol, ond mae'n gyfyngedig ar ei ffurf bresennol gan nad yw'n cynnig y rhyddid y gallai Cyllidebau Personol mewn cymorth hunangyfeiriedig ei wneud'.

Dywedais hefyd y,

'ceir tystiolaeth gynyddol bod awdurdodau lleol yn dymuno archwilio'r defnydd o gyd-gynhyrchu, mentrau cymdeithasol a chyllidebau cyfunol ar gyfer taliadau uniongyrchol.'

Fel y mae'r comisiynydd yn cydnabod, mae cyllidebu cyfranogol hefyd yn ffordd wych i bobl hŷn gymryd rhan a llunio'u cymunedau, gan sicrhau bod cyllid cyfyngedig yn mynd lle mae ei angen fwyaf. Dywedodd y comisiynydd fod adroddiad y genedl yn trafod sut y gall gwasanaethau mwy meddal, fel y'u gelwir, fod yn achubiaeth i bobl hŷn ac y gallant eu helpu i aros yn iach ac yn eu cymunedau am fwy o amser. Yn yr hinsawdd gyllidebol bresennol mae'n rhaid inni weithio'n ddoethach, gan ddatblygu strategaeth a darparu gwasanaethau ar draws y sectorau, er mwyn diogelu'r gwasanaethau ataliol hanfodol hyn.

Mae'r comisiynydd wedi tynnu sylw o'r blaen at ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o ddementia, ei symptomau, ei raddfa a'i effaith ar deuluoedd, gan arwain at ofn a stigma. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Alban a Lloegr, nid yw'r Llywodraeth hyd yma wedi rhoi arian i helpu i roi cymunedau cefnogol i ddementia ar lwybr carlam. Yng Nghymru, mae'r rhwydwaith heneiddio'n dda wedi derbyn £50,000 gan Sefydliad Joseph Rowntree i dyfu rhwydwaith o gymunedau cefnogol i ddementia, sy'n rhannu gwybodaeth yng Nghymru, ond bydd angen cymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhwydwaith yn ffynnu ac y gall Cymru ddod yn wlad o'r radd flaenaf o ran bod yn gefnogol i ddementia.

O ran yr agenda i greu cymuned ystyriol o oedran a chefnogol i ddementia, nid oes ond rhaid inni edrych ar ddyluniad gwael blaenorol yn achos y Maes yng Nghaernarfon, ac yn awr y palmentydd newydd ym Mhontypridd sy'n cael eu beio am gyfres o ddamweiniau ar ôl i 20 siopwr orfod mynd i'r ysbyty. Byddai'n dda i bawb hŷn pe gellid gwneud pob cymuned yn ystyriol o ddementia. Mae angen inni feddwl yn wahanol ynglŷn â dyluniad ein hamgylchedd adeiledig er mwyn ystyried anghenion pobl hŷn a chynllunio'n effeithiol ar gyfer y cynnydd yn y boblogaeth hŷn. Mae ymchwil wedi dangos mai ofn cwmpo yw un o'r prif ffactorau sy'n rhwystro pobl hŷn rhag treulio amser y tu allan, ac mae'n arwain at anabledd a'u gwneud yn llai symudol. Her syml ond allweddol er mwyn lleihau ofn pobl hŷn o gwmpo yw gwneud yn siwr bod ein palmentydd yn ddiogel i gerdded arnynt ac nad oes iâ a dail sy'n pydru ar ein ffyrdd. Mae angen i awdurdodau lleol roi arweiniad cryfach, ar y cyd â chynghor arbenigol, ar greu amgylchedd adeiledig sy'n adlewyrchu anghenion yr holl bobl hŷn, yn enwedig pobl â dementia. Sefydlodd y comisiynydd pobl hŷn y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru i arwain y ffordd wrth ddatblygu cymunedau ystyriol o oedran a chefnogol i ddementia. Sut, felly, y bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn dangos eu cefnogaeth barhaus?

The care home review announced by the older people's commissioner is to be welcomed. She rightly states that the quality of life for some is unacceptable, although she also highlights excellent examples of care in both private and public sectors. Social care is now provided mainly by the private sector in Wales. As the chair of Care Forum Wales said last year, radical reform of the planning and delivery of services is long overdue, and we need to create a culture where the independent sector works in true partnership with public sector bodies.

Age Cymru, as we have heard, has also rightly highlighted the commissioner's focus on independent advocacy and on protection from criminal scams. With the Prime Minister issuing a UK challenge on dementia at the Dementia 2012 conference, and the Welsh Government stating that it supports the desire of people to live independent, fulfilled lives within their own communities for as long as possible, we must develop and deliver together a care sector that is fit for purpose, flexible, diverse and responsive to the needs of our changing and ageing population.

Mae'r adolygiad o gartrefi gofal a gyhoeddwyd gan y comisiynydd pobl hŷn i'w groesawu. Mae'n datgan, yn gywir, bod ansawdd bywyd i rai yn annerbyniol, er ei bod hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau ardderchog o ofal yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu'n bennaf gan y sector preifat yng Nghymru bellach. Fel y dywedodd cadeirydd Fforwm Gofal Cymru y llynedd, mae'n hen bryd diwygio'r dull o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd radical, ac mae angen inni greu diwylliant lle mae'r sector annibynnol yn gweithio mewn gwir bartneriaeth â chyrrff sector cyhoeddus.

Mae Age Cymru, fel yr ydym wedi clywed, hefyd wedi tynnu sylw'n haeddiannol at bwyslais y comisiynydd ar eiriolaeth annibynnol ac ar ddiogelu rhag twyll troseddol. Gyda'r Prif Weinidog yn cyhoeddi her y DU ar ddementia yn y gynhadledd Dementia 2012, a Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn cefnogi dymuniad pobl i fyw bywydau annibynnol, cyflawn yn eu cymunedau eu hunain am gyhyr ag y bo modd, mae'n rhaid inni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu a darparu sector gofal sy'n addas at y diben, yn hyblyg, yn amrywiol ac yn ymateb i anghenion ein poblogaeth sy'n newid a heneiddio.

17:46

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also pleased to contribute to today's debate on the commissioner's annual report, in my capacity as Chair of the Health and Social Care Committee. I, too, welcome the report's title: 'Standing Up Speaking Out'. It is aptly named, because it is what we expect her to do on behalf of older people, but she also encourages older people to do exactly that.

Since the beginning of the fourth Assembly, the committee has taken a keen interest in the important work undertaken by the commissioner and her office. It is notable, however, that the committee has sought to do more than merely take an interest in her work. Members and the commissioner have worked together to seek a prominent place for the older person in policy and service development, and to ensure that the Government and statutory bodies are held to account for their work in the field of health and social care. This has been evidenced by the close working relationship on the committee's major inquiry into residential care and Stage 1 scrutiny of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. I will refer to both of these a little later.

Rwyf innau hefyd yn falch o gyfrannu at y ddadl heddiw ar adroddiad blynyddol y comisiynydd, yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwyf innau, hefyd, yn croesawu teitl yr adroddiad: 'Sefyll Dros Hawliau ac Eirioli'. Mae wedi cael enw addas, gan mai dyma beth yr ydym yn disgwyl iddi wneud ar ran pobl hŷn, ond mae hi hefyd yn annog pobl hŷn i wneud yr union beth hwnnw.

Ers dechrau'r pedwerydd Cynulliad, mae'r pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd yn y gwaith pwysig a wneir gan y comisiynydd a'i swyddfa. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod y pwyllgor wedi ceisio gwneud mwy na dim ond cymryd diddordeb yn ei gwaith. Mae aelodau a'r comisiynydd wedi gweithio gyda'i gilydd i geisio lle amlwg i'r person hŷn wrth ddatblygu polisiau a gwasanaethau, ac i sicrhau bod y Llywodraeth a chyrrff statudol yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd hyn yn y berthynas waith agos ar ymchwiliad pwysig y pwyllgor i ofal preswyl ac yn y craffu Cyfnod 1 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf am gyfeirio at y ddau beth hyn ychydig yn nes ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As a starting point, however, it speaks volumes to me that the commissioner has chosen to refer to this year's annual report as an 'impact and reach' report. As in previous years, the committee held a scrutiny session with the commissioner on the work of her office at the start of this term. The clear theme running through that session was the commissioner's focus on action and delivery. Her determination to ensure that public services impact positively on the lives of older people is clearly illustrated by the recent progress review of her predecessor's work, 'Dignified Care?' The need to treat older people with care, dignity and respect in any setting is paramount. Although her review notes that this agenda is being taken seriously by the health service, she told us that further work is needed before consistent improvement is seen on the ground. The committee noted the commissioner's call to move forward from plans and initiatives towards tangible action, particularly at ward level. In other words: stop the talking and get on with the work. This will be tested next year when the commissioner delivers her final assessment of Welsh health boards' responses to the 'Dignified Care?' recommendations. We welcome the fact that the commissioner is a constructive and committed scrutineer who is constantly pushing our public services not only to talk about improvement but to deliver that improvement on the ground.

I noted a little earlier that the commissioner had worked closely with the committee on two of its most significant pieces of work: the inquiry into residential care for older people and scrutiny of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. With regard to residential care, we welcome the commissioner's intention to undertake a formal review of the quality of life and care of older people in care homes in Wales. I believe that this is a clear illustration of where the work of the committee and that of the commissioner can dovetail. The committee shone a light on an area that required improvement and recommended steps to be taken to achieve progress. The commissioner is now taking the next step in the scrutiny process, seeking evidence of where improvements have been made and of where further work is needed. As has already been mentioned, this will help inform our follow-up work on this inquiry, and we hope that it will lead to tangible and measureable outcomes for older people and their families. In my view, this example provides a blueprint for future joint working: cooperation between Assembly committees and independent scrutineers like our statutory commissioners. It can only strengthen our ability to scrutinise the Government and public bodies in as robust and constructive a fashion as we ought to.

The Social Services and Well-being (Wales) Bill has been described as a Bill for generations. I note that the committee shares concerns similar to those articulated in the commissioner's annual report in relation to that Bill. However, Stage 2 proceedings have now commenced, and we look forward to working with the commissioner as individual Members to ensure that this Bill is the best it can be for the people of Wales, whatever their age.

Fel man cychwyn, fodd bynnag, mae'n dweud cyfrolau wrthyf bod y comisiynydd wedi dewis cyfeirio at adroddiad blynyddol eleni fel adroddiad 'effaith a chyrhaeddiad'. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd y pwyllgor sesiwn graffu gyda'r comisiynydd ynglŷn â gwaith ei swyddfa ar ddechrau'r tymor hwn. Y thema glir trwy'r sesiwn oedd pwyslais y comisiynydd ar weithredu a chyflawni. Mae ei phenderfyniad i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl hŷn i'w weld yn glir yn yr arolwg cynnydd diweddar o waith ei rhagflaenydd, 'Gofal gydag Urddas?'. Mae'r angen i drin pobl hŷn â gofal, urddas a pharch mewn unrhyw leoliad yn hollbwysig. Er i'w hadolygiad nodi bod yr agenda hon yn cael ei chymryd o ddifrif gan y gwasanaeth iechyd, mae hi'n dweud wrthym bod angen rhagor o waith cyn y bydd gwelliant cyson yn cael ei weld ar lawr gwlad. Nododd y pwyllgor alwad y comisiynydd i symud ymlaen oddi wrth gynlluniau a mentrau tuag at weithredu pendant, yn enwedig ar lefel ward. Mewn geiriau eraill: rhoi stop ar y siarad a bwrw ymlaen â'r gwaith. Bydd hyn yn cael ei brofi'r flwyddyn nesaf pan fydd y comisiynydd yn cyflwyno ei hasesiad terfynol o ymatebion byrddau iechyd Cymru i argymhellion 'Gofal gydag Urddas?'. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y comisiynydd yn archwilydd adeiladol ac ymroddedig sy'n gyson yn gwthio ein gwasanaethau cyhoeddus, nid yn unig i siarad am welliant ond i gyflawni'r gwelliant hwnnw ar lawr gwlad.

Dywedais ychydig yn gynharach fod y comisiynydd wedi gweithio'n agos gyda'r pwyllgor ar ddau o'i ddarnau mwyaf sylweddol o waith: yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn a chraffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). O ran gofal preswyl, rydym yn croesawu bwriad y comisiynydd i gynnal adolygiad ffurfiol o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Rwy'n credu bod hon yn enghraifft glir o ble y gall gwaith y pwyllgor a gwaith y comisiynydd gydbledu. Taflodd y pwyllgor oleuni ar faes yr oedd angen ei gan argymhell camau i sicrhau cynnydd. Mae'r comisiynydd yn awr yn cymryd y cam nesaf yn y broses graffu, gan geisio tystiolaeth i ddangos ble mae gwelliannau wedi cael eu gwneud ac ymhle mae angen rhagor o waith. Fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll, bydd hyn yn helpu i lywio ein gwaith dilynol ar yr ymchwiliad hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn arwain at ganlyniadau pendant a mesuradwy ar gyfer pobl hŷn a'u teuluoedd. Yn fy marn i, mae'r enghraifft hon yn darparu glasbrint ar gyfer gweithio ar y cyd yn y dyfodol: cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad ac archwilywyr annibynnol fel ein comisiynwyr statudol. Ni all hyn ond cryfhau ein gallu i graffu ar y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus mewn modd mor gadarn ac adeiladol ag y dylem ei wneud.

Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael ei ddisgrifio fel Bil am genedlaethau. Sylwaf fod y pwyllgor yn rhannu pryderon tebyg i'r hyn a nodir yn adroddiad blynyddol y comisiynydd mewn cysylltiad â'r Bil. Fodd bynnag, mae trafodion Cyfnod 2 bellach wedi cychwyn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r comisiynydd fel Aelodau unigol i sicrhau bod y Bil hwn y gorau y gall fod i bobl Cymru, beth bynnag fo'u hoedran.

I close by referring to the words of one of my predecessors as committee chair. He has noted in previous debates on the commissioner's annual report that the office does best when it provides the grit that allows us to hear from those who know where things are not as they are to be. During our session this year, the commissioner noted for the first time that she had concerns about the capacity of her office to continue to undertake the breadth of work carried out to date. At this stage, a preliminary flag has been waved. We as a committee will continue to keep an eye on this matter to ensure that the office of the commissioner continues to provide the grit that the system needs and that it is resourced adequately to do so.

Hoffwn gloi trwy gyfeirio at eiriau un o'm rhagflaenwyr fel cadeirydd y pwyllgor. Mae wedi nodi mewn dadleuon blaenorol ar adroddiad blynyddol y comisiynydd bod y swyddfa'n gwneud ei gwaith gorau pan fydd yn darparu'r dycnwch sy'n ein galluogi i glywed gan y rhai sy'n gwybod lle nad yw pethau fel ag y dylent fod. Yn ystod ein sesiwn eleni, nododd y comisiynydd am y tro cyntaf fod ganddi bryderon ynghylch gallu ei swyddfa i barhau i gyflawni gwaith mor eang ag a wnaed hyd yma. Ar hyn o bryd, mae baner ragarweiniol wedi cael ei chwifio. Byddwn fel pwyllgor yn parhau i gadw llygad ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod swyddfa'r comisiynydd yn parhau i ddarparu'r dycnwch y mae ei angen ar y system a'i bod yn cael adnoddau digonol i wneud hynny.

17:51

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I am really pleased to endorse this report. It is another report that is very well written, and another report that my father will have on my return. I hope that he will tell his friends about the excellent work that is going on here in Wales.

With a Royal Voluntary Service 'Shaping Our Age' report asserting that a deeply worrying 75% of older people in Wales feel that they are not consulted on services and issues that matter to them, the Commissioner for Older People in Wales could not be more important to us and to the people out there in protecting and promoting our older population. Her report outlines a year of work in which she has successfully managed to instil the importance of dignity and safety in NHS care for older people in Wales. We learn that, for too long, this has been seen as a secondary consideration in patient experience. Thanks to the work of Sarah Rochira and her team, however, and her report, 'Dignified Care', it has now become a cornerstone in the delivery of care in Wales. Sarah Rochira has firmly focused attention on the person within the patient, and the patient within the person.

In the progress report, 'Dignified Care: Two Years On', the commissioner shows that she has found much improvement. The report, however, outlines several ongoing concerns. More action is needed to empower ward managers—those working on the front line of delivery—to ensure that they are equipped to deliver safe and compassionate care. The RCN survey of 2,086 nurses found that 46% of sisters were unable to authorise additional staffing levels. The Welsh Government really does need to hand power back to those who are best placed to read the situation on their own wards. This marries neatly with concerns raised over staffing levels. The Royal College of Nursing's Wales survey found that only 26% of those surveyed felt that staffing levels were sufficient to allow them to undertake their duties effectively, and 55% in all disagreed with the statement.

Unwaith eto, rwy'n wirioneddol falch o gymeradwyo'r adroddiad hwn. Mae'n adroddiad arall sydd wedi'i ysgrifennu'n dda iawn, ac adroddiad arall y bydd fy nhad yn ei gael pan fyddaf yn dychwelyd. Rwy'n gobeithio y bydd yn dweud wrth ei ffrindiau am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yma yng Nghymru.

Gydag adroddiad y Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol, 'Shaping Our Age', yn honni bod 75% o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo nad ymgynghorir a nhw ar wasanaethau a materion sydd o bwys iddynt—ffigur sy'n achosi pryder mawr—ni allai'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru fod yn fwy pwysig i ni ac i'r bobl allan yna o ran diogelwch a hyrwyddo ein poblogaeth hŷn. Mae ei hadroddiad yn amlinellu blwyddyn o waith lle mae hi wedi llwyddo i feithrin pwysigrwydd urddas a diogelwch yng ngofal y GIG ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn dysgu bod hyn, yn rhy hir, wedi cael ei weld fel ystyriaeth eilaidd ym mhrofiad y claf. Diolch i waith Sarah Rochira a'i thîm, fodd bynnag, a'i hadroddiad, 'Gofal Gydag Urddas', mae bellach wedi dod yn gonglfaen o ran darparu gofal yng Nghymru. Mae Sarah Rochira wedi canolbwyntio sylw yn gadarn ar y person o fewn y claf, a'r claf o fewn y person.

Yn yr adroddiad cynnydd, 'Gofal gydag Urddas: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach', mae'r comisiynydd yn dangos ei bod hi wedi gweld llawer o welliant. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn amlinellu nifer o bryderon parhaus. Mae angen gwneud mwy i rymuso rheolwyr wardiau—y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen o ran darparu—i sicrhau eu bod yn cael eu paratoi i ddarparu gofal diogel a thosturiol. Canfu arolwg gan Goleg Brenhinol y Nyrsys o 2,086 o nyrsys nad oedd 46% o brif nyrsys yn gallu awdurdodi lefelau staffio ychwanegol. Mae gwir angen i Lywodraeth Cymru roi pŵer yn ôl i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i ddarllen y sefyllfa ar eu wardiau eu hunain. Mae hyn yn cyd-fynd yn daclus â phryderon a godwyd ynghylch lefelau staffio. Canfu arolwg gan Goleg Brenhinol y Nyrsys Cymru mai dim ond 26% o'r rhai a holwyd a oedd yn teimlo bod lefelau staffio yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, a 55% yn anghytuno â'r datganiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In the 'Dignified Care: Two Years On' report, the commissioner raises concerns that there is insufficient evidence of palpable improvements. These need to be forthcoming, with regular, public engagement, as has taken place, with regard to the adequacy of staffing levels. A concern raised with me only last week, when Kirsty Williams and I took part in the Policy Forum for Wales seminar on the next steps for end-of-life and palliative care, was that many care and support workers are now going into the homes of elderly people who are suffering with cancer, dementia or both, and many other complex conditions, and they often feel that they do not have the necessary training and skill levels to be able to offer the comprehensive support required on a one-to-one basis for that individual person. That leaves support workers feeling sad, demoralised and isolated. I would ask the Deputy Minister what plans are in place to ensure that each and every support worker is given this training, so that they are able to deal with focusing on the person within the patient.

One of the key areas of work that the commissioner plans to take forward in 2013-14 is to increase awareness of the abuse of older people. Lindsay Whittle, you really spoke well and passionately about the evidence that we have already had. It is fair to mention the travesty that David Cornock saw with regard to his own family. It has happened in my family, where people have been taken at face value and trusted and then they have been left in a terrible situation. We have to stamp out these rogue traders; we have to stamp out cold calling. I have already submitted written Assembly questions regarding how we can look at increasing the number of no-cold-calling areas. Too often, older people are the victims of these cruel swindles. I understand that there are 14 to 15 people on bail across Wales, as we speak, who are guilty of the most heinous crimes. I do not want to see them on bail; I want to see them behind bars.

I, like everyone else in the Chamber, am regularly struck by the breadth and depth of the work undertaken by Sarah and her team at the older people commissioner's office. I feel that I must put on record—I think I already have—my appreciation and admiration, and that of people out there, of the strategic and personable way in which she consults with, consoles and champions older people in Wales. I would like to thank also the people whom she has engaged with across the whole of Wales, because they have not been frightened to come forward and give evidence. Her report really does tell you of first-hand evidence of a lack of communication and of the issues facing older people that make their lives difficult. It is about cutting through all that nonsense. From reading this report, it is fair to say that the Commissioner for Older People in Wales has had a very busy year and I look forward to seeing the outcomes that she continues to achieve, and good luck to her.

Yn yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach', mae'r comisiynydd yn codi pryderon nad oes digon o dystiolaeth o welliannau amlwg. Mae angen cyflwyno'r rhain, gan ymgysylltu â'r cyhoedd yn rheolaidd, fel sydd wedi digwydd, o ran digonolrwydd y lefelau staffio. Cymerodd Kirsty Williams a minnau ran yn y seminar Fforwm Polisi ar gyfer Cymru yr wythnos diwethaf ar y camau nesaf ar gyfer gofal diwedd oes a gofal lliniarol, a phryder a godwyd gyda mi yno oedd bod llawer o weithwyr gofal a chymorth yn awr yn mynd i mewn i gartrefi pobl oeddrannus sy'n dioddef o ganser, dementia neu'r ddau, a llawer o gyflyrau cymhleth eraill, ac maent yn aml yn teimlo nad oes ganddynt yr hyfforddiant angenrheidiol a'r lefelau sgiliau i allu cynnig y cymorth cynhwysfawr sydd ei angen ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Mae hynny'n gadael gweithwyr cymorth yn teimlo'n drist, yn ddigalon ac ar eu pen eu hunain. Hoffwn ofyn i'r Dirprwy Weinidog pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod pob gweithiwr cymorth yn derbyn yr hyfforddiant hwn, fel eu bod yn gallu canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn y claf.

Un o'r meysydd gwaith allweddol y mae'r comisiynydd yn bwriadu ei ddatblygu yn 2013-14 yw cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn. Lindsay Whittle, fe wnaethoch siarad yn dda ac yn angerddol am y dystiolaeth yr ydym eisoes wedi ei chlywed. Mae'n deg sôn am y gwarth a welodd David Cornock o ran ei deulu ei hun. Mae wedi digwydd yn fy ngheulu i, lle mae pobl wedi derbyn rhywun ac ymddiried ynddynt ac yna maent wedi cael eu gadael mewn sefyllfa ofnadwy. Mae'n rhaid i ni gael gwared ar y masnachwyr twyllodrus hyn; mae'n rhaid i ni roi terfyn ar alwadau diwahoddiad. Rwyf eisoes wedi cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Cynulliad ynglŷn â sut y gallwn ystyried cynyddu nifer yr ardaloedd lle y gwaherddir galwadau diwahoddiad. Yn rhy aml, mae pobl hŷn yn dioddef o'r twyll creulon hwn. Deallaf fod 14 i 15 o bobl ar fechniaeth ledled Cymru, yr eiliad hon, sy'n euog o'r troseddau mwyaf erchyll. Dydw i ddim eisiau eu gweld nhw ar fechniaeth, yr wyf am eu gweld yn y carchar.

Rwyf i, fel pawb arall yn y Siambr, yn cael fy synnu'n rheolaidd gan ehangder a dyfnder y gwaith a wnaed gan Sarah a'i thîm yn swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn. Rwy'n teimlo bod rhaid imi roi fy ngwerthfawrogiad ac edmygedd ar gofnod—rwy'n credu fy mod eisoes wedi gwneud—a gwerthfawrogiad ac edmygedd pobl eraill, o'r ffordd strategol a dymunol y mae'n ymgynghori â phobl hŷn yng Nghymru, yn eu cysuro ac yn hyrwyddo'u hachos. Hoffwn ddiolch hefyd i'r bobl y mae wedi ymgysylltu â nhw ar draws Cymru gyfan, am nad ydynt wedi bod yn rhy ofnus i ddod ymlaen a rhoi dystiolaeth. Mae ei hadroddiad wir yn dweud wrthyf am dystiolaeth uniongyrchol o ddiffyg cyfathrebu a'r materion sy'n wynebu pobl hŷn sy'n gwneud eu bywyd yn anodd. Mae'n ymwneud â thorri trwy'r holl nonsens hwnnw. O ddarllen yr adroddiad hwn, mae'n deg dweud bod y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru wedi cael blwyddyn brysur iawn ac rwy'n edrych ymlaen at weld y canlyniadau y mae hi'n parhau i'w cyflawni, a phob lwc iddi.

Like many before me, I also pay tribute to the work of Sarah Rochira and her team. I welcome her initiatives, such as the engagement roadshow, through which she has reached out to some 4,000 older people. I am sure that the community work that she has done has informed her work and allowed her to present this report to us recently. Engaging with the people of Wales in their communities is, of course, the No. 1 priority—not only for her, but for all of us. Those who take the time to open up and talk to the older people's commissioner need to have some feedback. I think that the annual report and the reports that Sarah is doing are an ideal vehicle to see that happening.

Fel lawer o'm blaen, rwyf hefyd yn talu teyrnged i waith Sarah Rochira a'i thîm. Rwy'n croesawu ei mentrau, megis y sioe deithiol ymgysylltu, lle mae hi wedi estyn allan at ryw 4,000 o bobl hŷn. Rwy'n siŵr bod y gwaith y mae wedi'i wneud yn y gymuned wedi bod yn sail i'w gwaith ac wedi ei galluogi i gyflwyno'r adroddiad hwn inni yn ddiweddar. Ymgysylltu â phobl Cymru yn eu cymunedau, wrth gwrs, yw'r flaenoriaeth gyntaf—nid yn unig iddi hi, ond i bob un ohonom. Mae'r rhai sy'n cymryd yr amser i ddweud eu meddwl ac i siarad â'r comisiynydd pobl hŷn angen cael rhywfaint o adborth. Credaf fod yr adroddiad blynyddol a'r adroddiadau y mae Sarah yn eu cyflwyno yn gyfrwng delfrydol i weld hynny'n digwydd.

I want to talk briefly about an issue that I have come across recently—well, I have known about it, but the issue is how we are dealing with it in constituencies—and that is loneliness and isolation. It is perhaps the single biggest danger to the general health, wellbeing and happiness of older people within our society. Research by the Royal Voluntary Service found that loneliness, particularly among men, is very problematic. It estimates that some 8,600 older people will spend Christmas day alone this year. How many of us will think about that when we have our families around us? Loneliness also leads to increased mental health issues, frailty, and often, for many of them, suicide. Over the summer recess, I spent an afternoon at the Royal Voluntary Service's cosy club in my constituency in my home town. In between games of bingo, which I had not done for some time—that was perhaps a misspent youth on the promenade in Rhyl—and very many cups of tea, which is always a pleasurable thing, the older people using the club told me with absolute passion what a lifeline the club was, as were the outings they were able to go on from the club. They told me about the challenges that they face and what they can do as a club and a group of people to help each other. High on their list was just feeling that somebody cared about them. They felt physically a lot better walking out of the club than they perhaps did walking into the club. That was probably only because somebody had spent time with them, just to sit and talk or maybe somebody had spoken to them about what was happening in day-to-day events and asked whether they had read the news or read what was happening in the local papers. That is something that we have to realise: we all have people around us, but, if you have nobody around you, whom do you share that little titbit of information with? To whom do you say, 'In my opinion, I think this.'? Who responds to you? This is what the cosy club—I cannot think of a better name for it, as I think that it was really nice and cosy—was doing. It is not a difficult service to run, but the potential benefits are unlimited for those people. I am sure that there are hundreds of projects like that across Wales that are all trying to do the same sort of thing. Therefore, I urge the Deputy Minister and the Welsh Government to work with the older persons' commissioner to see what can be done to improve services aimed at reducing loneliness in older people. To develop those first-class services, in conjunction with the third sector, does not take a lot of money, it just takes somebody's time and somebody's ability to sit and put a programme together that older people might want to do. You might be surprised at what they will do once they get involved in that club. However, in doing that, the benefits could also be a contribution to the invest-to-save agenda and it could ease some of the all-too-burdensome increasing pressure on our NHS. That is just one very brief area of work of the older persons' commissioner. However, I feel that those are areas that she will address and in which she will provide a good service for our older people across Wales.

Rwyf am siarad yn fyr am fater yr wyf wedi dod ar ei draws yn ddiweddar—wel, roeddwn yn gwybod am y peth, ond y cwestiwn yw sut yr ydym yn delio ag ef mewn etholaethau—sef unigrwydd. Efallai mai dyma'r perygl mwyaf i iechyd, lles a hapusrwydd cyffredinol pobl hŷn yn ein cymdeithas. Canfu ymchwil gan y Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol fod unigrwydd, yn enwedig ymhlith dynion, yn broblem fawr. Mae'n amcangyfrif y bydd rhyw 8,600 o bobl hŷn yn treulio diwrnod y Nadolig ar eu pen eu hunain eleni. Faint ohonom fydd yn meddwl am hynny pan fydd ein teuluoedd o'n cwmpas? Mae unigrwydd hefyd yn arwain at fwy o broblemau iechyd meddwl, eiddilwch, ac yn aml, i lawer ohonynt, hunanladdiad. Dros doriad yr haf, treuliais brynhawn yng nghlwb clyd y Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol yn fy etholaeth i yn fy nhref enedigol. Rhwng gemau bingo, nad oeddwn wedi'i chwarae ers peth amser—arwydd o ieuencid ofer ar y promenâd yn y Rhyl o bosibl—a nifer fawr o baneidiau o de, sydd bob amser yn beth pleserus, dywedodd y bobl hŷn a oedd yn defnyddio'r clwb wrthyf ag angerdd llwyr cymaint o achubiaeth oedd y clwb, a'r teithiau yr oeddent yn gallu mynd arnynt gyda'r clwb. Dywedwyd wrthyf am yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r hyn y gallant ei wneud fel clwb a grŵp o bobl i'w helpu ei gilydd. Yn uchel ar eu rhestr oedd teimlo bod rhywun yn malio amdanynt. Roeddent yn teimlo'n gorfforol yn llawer gwell yn cerdded allan o'r clwb nag yr oeddent efallai yn cerdded i mewn i'r clwb. Roedd hynny yn ôl pob tebyg dim ond oherwydd bod rhywun wedi treulio amser gyda nhw, yn eistedd a siarad neu efallai bod rhywun wedi siarad â nhw am ddiwyddiadau'r dydd a gofyn a oeddent wedi darllen y newyddion neu ddarllen beth oedd yn digwydd yn y papurau lleol. Dyna rywbeth y mae'n rhaid inni sylweddoli: mae gan bawb ohonom bobl o'n cwmpas, ond, os nad oes gennych neb o'ch cwmpas, â phwy ydych chi'n rhannu'r pwt o wybodaeth? Wrth bwy ydych chi'n dweud, 'Yn fy marn i, rwy'n credu hyn.'? Pwy sy'n ymateb i chi? Dyma beth y mae'r clwb clyd—ni allaf feddwl am enw gwell ar ei gyfer, gan ei fod yn braf iawn ac yn glyd—yn ei wneud. Nid yw'n wasanaeth anodd ei redeg, ond mae'r manteision posibl yn ddiderfyn ar gyfer y bobl hynny. Rwy'n siŵr bod cannoedd o brosiectau fel hyn ar draws Cymru sydd i gyd yn ceisio gwneud yr un math o beth. Felly, rwy'n annog y Dirprwy Weinidog a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r comisiynydd pobl hŷn i weld beth y gellir ei wneud i wella gwasanaethau sy'n ceisio lleihau unigrwydd ymhlith pobl hŷn. Ni fyddai angen llawer o arian i ddatblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf, ar y cyd â'r trydydd sector. Yr oll sydd ei angen yw amser a gallu rhywun i eistedd a llunio rhaglen o bethau y gallai pobl hŷn fod eisiau eu gwneud. Efallai y byddwch yn synnu ar yr hyn y byddant yn ei wneud ar ôl cymryd rhan yn y clwb hwnnw. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, gallai'r manteision hefyd gyfrannu at yr agenda buddsoddi i arbed a gallai leddfu rhywfaint ar y pwysau cynyddol llawer rhy feichus ar ein GIG. Dyna un maes bach iawn o waith y comisiynydd pobl hŷn. Fodd bynnag, rwy'n teimlo mai dyma'r meysydd y bydd yn mynd i'r afael â nhw a lle y bydd yn darparu gwasanaeth da ar gyfer ein pobl hŷn ledled Cymru.

18:01

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Ddirwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

I thank Members for their contributions this afternoon. Lindsay Whittle started on a good point about the voice of older people being heard. I could not agree more with that. On your points about aids and adaptations, you will know that I am bringing forward an amendment in order to include that. You mentioned the abuse and neglect of older people. In response, I would like to mention the robust legal framework that the Bill will provide, and the setting up of the national independent safeguarding board. At the moment, I am seeking independent advice from the expert advisory group, which I would be more than happy to share with Members.

Darren Millar talked about the positive outcomes achieved by the commissioner herself, and I agree with that. He mentioned 'Dignified Care: Two Years On' and the improvement, which is encouraging. He also mentioned the closure of care homes, and I would like to quickly mention the opportunity presented by the Care Bill that is going through Westminster, and the positive relationship with Norman Lamb that I have been able to have in order to ensure that we get to the best place possible and in order that we can ensure the continuity of care where there is provider failure. When we come to discussing the legislative competence motions, we can go into that in more detail.

On the declaration of rights, I am really excited about this and I believe that Wales can lead the way in driving that agenda.

Lynne Neagle also talked about dignity in care and the fact that there was a need for a cultural change—and there still is. I agree wholeheartedly that that cultural change needs to be complete and needs to touch all sectors.

Lynne Neagle also mentioned care home closures. On the regulation and inspection Bill and the proposals within it—and we will all want to look at that—providers will be required to produce annual reports and it will be a requirement that that report includes a reference to their viability so that we can measure the viability of the market. That information will then be collected and looked at on a Wales-wide basis, so that we can measure the market and ensure that there is adequate provision within Wales.

Aled Roberts talked about advocacy, the 'Dignified Care' report and the RCN report. He also mentioned the ONS health statistics, and I will take that up with the Minister when I get a chance to see him tomorrow. I take his point about the internet and online form filling, as well as the important point that Aled Roberts made about the short notice given of a change in service provision. That will not do.

Sandy Mewies talked about the work with Stonewall, which was very important indeed, and I commend the commissioner for that. She also mentioned the third stage of the strategy for older people. This strategy really is respected not only in Wales, but in the UK and in Europe. We now know that we have reference site status for that strategy, which could, next year, attract European funding.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau brynhawn heddiw. Dechreuodd Lindsay Whittle ar bwynt da ynglŷn â chlywed llais pobl hŷn. Ni allwn gytuno mwy â hynny. O ran eich pwyntiau am gymhorthion ac addasiadau, byddwch yn gwybod fy mod yn cyflwyno gwelliant er mwyn cynnwys hynny. Fe wnaethoch sôn am gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn. Mewn ymateb, hoffwn sôn am y fframwaith cyfreithiol cadarn y bydd y Bil yn ei ddarparu, ac am sefydlu'r bwrdd diogelu cenedlaethol annibynnol. Ar hyn o bryd, rwy'n ceisio cyngor annibynnol gan y grŵp cyngori arbenigol, a byddwn yn fwy na pharod i'w rannu gyda'r Aelodau.

Soniodd Darren Millar am y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan y comisiynydd ei hun, ac rwy'n cytuno â hynny. Soniodd am 'Gofal gydag Urddas: Dwy Flynedd yn Ddiweddarach' ac am y gwelliant, sy'n galonogol. Soniodd hefyd am gau cartrefi gofal, a hoffwn sôn am y cyfle a gyflwynir gan y Bil Gofal sy'n mynd drwy San Steffan, a'r berthynas gadarnhaol yr wyf wedi gallu ei chael gyda Norman Lamb er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau posibl i sicrhau parhad yn y gofal lle mae darparwr yn methu. Gallwn drafod hynny mewn mwy o fanylder pan ddaw'n bryd i drafod y cynigion cymhwysedd deddfwriaethol.

O ran y datganiad o hawliau, rwy'n gynhyrfus iawn am hyn ac rwy'n credu y gall Cymru arwain y ffordd wrth fwrw ymlaen â'r agenda honno.

Siaradodd Lynne Neagle hefyd am urddas mewn gofal a'r ffaith bod angen newid diwylliannol—ac mae angen hynny o hyd. Cytunaf yn llwyr fod angen i'r newid diwylliannol fod yn gyflawn a bod angen iddo gyffwrdd pob sector.

Soniodd Lynne Neagle hefyd am gau cartrefi gofal. O ran y Bil rheoleiddio ac arolygu a'r cynigion sydd ynddo—a byddwn i gyd yn awyddus i edrych ar hynny—bydd yn ofynnol i ddarparwyr baratoi adroddiadau blynyddol a bydd yn ofynnol i'r adroddiad gynnwys cyfeiriad at eu hyfywedd fel y gallwn fesur hyfywedd y farchnad. Bydd y wybodaeth wedyn yn cael ei chasglu ac edrychir arni ar sail Cymru gyfan, fel y gallwn fesur y farchnad a sicrhau bod darpariaeth ddigonol yng Nghymru.

Soniodd Aled Roberts am eiriolaeth, yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas' ac adroddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys. Soniodd hefyd am yr ystadegau iechyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a byddaf yn codi hynny gyda'r Gweinidog pan gaf gyfle i'w weld yfory. Rwy'n derbyn ei bwynt am y rhyngwyd a llenwi ffurflenni ar-lein, yn ogystal â'r pwynt pwysig a wnaeth Aled Roberts am y rhybudd byr a roddir ynglŷn â newid darpariaeth. Ni fydd hynny'n gwneud y tro.

Soniodd Sandy Mewies am y gwaith gyda Stonewall, a oedd yn bwysig iawn yn wir, ac rwy'n canmol y comisiynydd am hynny. Soniodd hefyd am drydydd cam y strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae'r strategaeth hon wir yn cael ei pharchu, nid yn unig yng Nghymru, ond yn y DU ac yn Ewrop. Rydym bellach yn gwybod fod gennym statws safle cyfeirio ar gyfer y strategaeth honno, ac y gallai, y flwyddyn nesaf, ddenu arian Ewropeaidd.

Mark Isherwood talked about voice and control and independence. Interestingly, he mentioned co-production and social enterprise. I am sure that there is the opportunity there to look into that and the Bill provides it.

Ann talked about dementia-supportive communities and there are good examples of that. I do not have time now to share some of those. Again, Mark Isherwood welcomed the care home review.

The Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees, talked about the impact and reach report, and how the commission has used this report. You also welcomed the formal review of care homes, as I do.

Janet Finch-Saunders, I really take the very serious point that you made about readable reports. I would defend your father's right and everybody's right to accessible information. It is an important point to make. We have been investing heavily in training and workforce development. That investment, I think, has paid off with regard to the development and training, not only of social workers, but social care workers as well. Ann Jones talked about engaging with people; that is what it is all about, is it not? The commissioner does engage with people and she is accessible.

We are all familiar with the reference to loneliness, of course, and we know what the consequences of loneliness can be and how important it is to be able to chat sometimes over a cup of tea. Therefore, in conclusion, I would like to thank the Commissioner for Older People in Wales for her tireless enthusiasm in championing the interests of older people in Wales and raising awareness of issues that older people have told her are important to them.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r comisiynydd a'i thîm dros y flwyddyn nesaf. Rwy'n hyderus ei bod yn ein helpu i wneud Cymru'n wlad wych i fynd yn hen ynddi.

Soniodd Mark Isherwood am lais a rheolaeth ac annibyniaeth. Yn ddi-ddorol, soniodd am gyd-gynhyrchu a mentrau cymdeithasol. Rwy'n siŵr bod cyfle i edrych ar hynny ac mae'r Bil yn darparu hynny.

Soniodd Ann am gymunedau cefnogol i ddementia a cheir enghreifftiau da o hynny. Nid oes gennyf amser yn awr i rannu rhai o'r rheini. Unwaith eto, croesawodd Mark Isherwood yr adolygiad o gartrefi gofal.

Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees, am yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad, a sut mae'r comisiwn wedi defnyddio'r adroddiad hwn. Roeddech chithau hefyd yn croesawu'r adolygiad ffurfiol o gartrefi gofal, fel yr wyf innau.

Janet Finch-Saunders, rwyf wir yn cymryd y pwynt difrifol iawn a wnaethoch am adroddiadau darllenadwy. Byddwn yn amddiffyn hawl eich tad a hawl pawb i gael gwybodaeth hygyrch. Mae hwnnw'n bwynt pwysig i'w wneud. Rydym wedi bod yn buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu. Mae'r buddsoddiad hwnnw, rwy'n meddwl, wedi talu ar ei ganfed o ran datblygu a hyfforddiant, nid yn unig i weithwyr cymdeithasol, ond gweithwyr gofal cymdeithasol yn ogystal. Soniodd Ann Jones am ymgysylltu â phobl; dyna'r pwynt canolog, onid e? Mae'r comisiynydd yn ymgysylltu â phobl ac mae'n hawdd siarad â hi.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r cyfeiriad at unigrwydd, wrth gwrs, ac rydym yn gyfarwydd â chanlyniadau posibl unigrwydd a pha mor bwysig yw gallu sgwrsio weithiau dros banded o de. Felly, i gloi, hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru am ei brwdfrydedd diflino wrth hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o faterion y mae pobl hŷn wedi dwed sy'n bwysig iddynt.

I look forward to collaborating with the commissioner and her team over the next year. I am confident that she is assisting us in making Wales an excellent nation to grow old in.

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynnig NDM5326 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Motion NDM5326 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the annual report of the Commissioner for Older People for 2012/13, a copy of which was laid in Table Office on 4 September 2013.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn a mynd i'r afael â hyn, boed hwnnw'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

Calls on the Welsh Government to prevent and deal with the abuse of older people, whether physical, emotional, psychological or financial.

18:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion as amended is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. Y cynnig yw derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd cynnig NDM5326 fel y'i diwygiwyd.

Motion NDM5326 as amended agreed.

18:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
That concludes today's business. Thank you. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw. Diolch yn fawr.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:07.

The meeting ended at 18:07.

This page is intentionally left blank